

B B C



Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Grŵp y BBC 2024/25

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Grŵp y BBC **2024/25**

(h) Hawlfraint y BBC 2025

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) y BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb Pact, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o bbc.co.uk/annualreport

Dyluniwyd gan Emperor emperor.works

Cyfieithwyd gan Prysg prysg.cymru

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erth.37)

ISBN 978-1-5286-5658-0

E03343971 07/25

YN YR ADRODDIAD

ADRODDIAD STRATEGOL

- 2 Uchafbwyntiau 2024/25
- 4 Datganiad gan y Cadeirydd
- 6 Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 10 Ein strategaeth i gyflawni dibenion cyhoeddus
- 14 Canfod gwirionedd heb unrhyw agenda
- 24 Cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau
- 34 Dod â phobl ynghyd
- 44 Cyflawni ar draws y DU
- 52 Ein cynulleidfaoedd
- 56 Ymgynghoriadau

Adroddiad gweithredol

- 58 Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu
- 61 Ein sefyllfa ariannol
- 64 Gwariant Darlledu Cyhoeddus
- 65 Ein pobl: gweithio yn y BBC
- 70 Cynaliadwyedd amgylcheddol
- 75 Gwaith elusennol

Gweithrediadau masnachol

- 77 Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredol
- 78 Adolygiad ariannol
- 81 Rhagolygon

2

Adroddiad Strategol



David Mitchell yn y ddrama gomedi a dorrodd record, *Ludwig*

82

Llywodraethu



Yn *Wallace & Gromit: Vengeance Most Fowl*, dychwelodd y cymeriadau eiconig i sgriniau teledu am y tro cyntaf ers 2008

128

Datganiadau Ariannol



Andi Osho yn chwarae rhan Sandra yn nrama BBC One *Blue Lights*

LLYWODRAETHU

- 83 Bwrdd y BBC
- 85 Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol
- 86 Pwyllgor Gweithredol
- 86 Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf
- 87 Adroddiad cydnabyddiaeth
- 95 Datgeliadau cyflogau
- 103 Barn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol am ddatgeliadau cyflogau
- 104 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau
- 105 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 108 Ein prif risgiau
- 120 Datganiad ynghylch hyfywedd
- 121 Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
- 123 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
- 125 Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg
- 126 Adroddiad y Bwrdd Masnachol
- 127 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd

DATGANIADAU ARIANNOL

- 129 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar Ddatganiadau Ariannol Grŵp y BBC
- 140 Datganiad incwm cyfunol
- 140 Datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol
- 141 Mantolen gyfunol
- 142 Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti
- 143 Datganiad llif arian parod cyfunol
- 144 Nodiadau i'r cyfrifon

PECYNNAU DATA A GWYBODAETH YCHWANEGOL

- 214 Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus
- 223 Targedau cynulleidfaoedd
- 224 Perfformiad fesul diben cyhoeddus
- 231 BBC Ar-lein
- 234 Y Gwledydd
- 248 Perfformiad fesul gwasanaeth
- 250 Pobl (gan gynnwys adroddiad ar y Bwlch rhwng y Rhywiau yn y BBC)
- 255 Cynaliadwyedd
- 257 Mynegai
- 258 Credydau delweddau
- 259 Gwybodaeth gyswllt ac adborth

BBC AR GYFER Y DYFODOL



Aduniad teulu Brockman ar gyfer Pennod
Arbennig o *Outnumbered* ar gyfer Nadolig 2024

**4.5bn o
oriau**

wedi'u treulio yn gwyllo BBC
iPlayer yn 2024/25, i fyny
883 miliwn o un flwyddyn i'r
llall – y gwasanaeth ar alw
fideo ffurf hir a dyfodd
gyflymaf yn ystod y flwyddyn

94%

% yr oedolion yn y
DU sy'n defnyddio
ein gwasanaethau ar
gyfartaledd bob mis
(84% yr wythnos)

99%

% ein cynnwys
gwreiddiol a gaiff
ei wneud yn y DU –
ni yw'r buddsoddwr
unigol mwyaf
mewn rhaglennu
gwreiddiol o'r DU

Rhif 1

o ran newyddion –
ni yw'r cyfrwng
newyddion a
ddefnyddir fwyaf ac
yr ymddiriedir ynddo
fwyaf yn y DU

RYDYM YN CANFOD GWIRIONEDD HEB UNRHYW AGENDA



Tu ôl i'r llenni yn stiwdio BBC Radio 4 a BBC Radio 5 live yn ystod y darllediadau o Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024

i I ddysgu mwy am sut mae'r BBC yn canfod gwirionedd ewch i dudalen 14

453m

Mae'r BBC yn cyflwyno llais, gwerthoedd a dylanwad y DU i gynulleidfa wythnosol o 453 miliwn o bobl ledled y byd

220

Mae'r Bartneriaeth Newyddion Lleol yn cefnogi newyddiaduraeth mwy na 200 o sefydliadau'r cyfryngau ar draws y DU

74%

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio BBC News bob wythnos ar gyfartaledd – mae hynny ymhell ar y blaen o gymharu â'r darparwr agosaf nesaf

Rhif 1

Ap BBC News yw'r prif ap newyddion yn y DU ar gyfer cyrhaeddiad misol bellach

RYDYM YN CEFNOGI'R PROSESAU ADRODD STRAEON CARTREF GORAU



Ashley Jensen ac Alison O'Donnell yn ffilmio ar gyfer nawfed gyfres Shetland

i I ddysgu mwy am sut mae'r BBC yn cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau ewch i dudalen 24

£1=£2.63

Am bob £1 o weithgarwch economaidd uniongyrchol y BBC, caiff £2.63 ei greu yn economi'r DU

50%

Mae hanner ein heffaith economaidd y tu allan i Lundain – o gymharu ag 20% ar gyfer y diwydiant ehangach

18

Nifer y gwobrau BAFTA teledu a enillwyd yn 2025 – mwy nag unrhyw ddarlledwr neu ffrydiwr arall

£4.9bn

Cyfraniad o bron £5 biliwn i economi'r DU y flwyddyn diwethaf

RYDYM YN DOD Â PHOBL YNGHYD



Dychwelodd y rhaglen chwaraeon ac adloniant Gladiators i'r BBC yn 2024

i I ddysgu mwy am sut mae'r BBC yn dod â phobl ynghyd ewch i dudalen 34

6awr 34m

Amser yn gwyllo Teledu'r BBC/iPlayer ar gyfartaledd fesul oedolyn (16+), bob wythnos – mwy na'r holl brif ffrydwyr SVOD gyda'i gilydd

10/10

Cyfran y rhaglenni a wylwyd fwyaf ar deledu'r DU ar Ddydd Nadolig 2024 a oedd ar y BBC

Rhif 1

Prif frand y DU ar gyfer y cyfryngau

8/10

Trodd mwy nag 8/10 o oedolion y DU at y BBC am ddarllediadau o ganlyniadau Etholiad Cyffredinol y DU

STORI LWYDDDIANT AR GYFER Y DYFODOL

Fis Tachwedd y llynedd, cefais y fraint o gyflwyno araith yn Leeds lle nodais fy mlaenoriaethau fel Cadeirydd y BBC.

Fe'i gelwais yn "A Very British Success Story", ond roeddwn yn cyfeirio at lawer mwy na dim ond y BBC. Roeddwn yn siarad am holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, a'u rôl hanfodol yn sicrhau cryfder creadigol a diwylliannol y DU.

Yn rhy aml, ystyrir bod y drafodaeth ynghylch y BBC ar wahân i sgysiau am sector cyfryngau ehangach y DU. Mewn gwirionedd, mae gan ddyfodol y BBC gysylltiad agos â dyfodol yr holl ddiwydiannau creadigol.



Treuliodd y gweithredwr camera Alex Vail fisoedd yn gwylio llewpardïaid yr eira wrth ffilmio ar gyfer Asia

Rwy'n credu bod hon yn adeg lle mae llawer yn y fantol i'r sector. Mae brwydr o'n blaenau, ac mae'n hanfodol ein bod yn ystyried yn ofalus y math o amgylchedd cyfryngau rydym am ei gael i'r DU.

Felly, roedd rhan helaeth o'm haraith yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i'r Llywodraeth, y rheoleiddiwr a'r diwydiant cyfan ei wneud i sicrhau llwyddiant creadigol y DU yn y dyfodol.

Galwais am gamau gweithredu penodol fel sicrhau amlygrwydd sylweddol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar bob llwyfan yn yr oes ffrydio, ac am amgylchedd rheoleiddio mwy blaengar a fydd yn galluogi ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i symud yn fwy hyblyg a chyflym.

Cyflwynais achos dros ddiogelu ein diwydiant ar lawr gwlad hefyd drwy sicrhau bod y ffrydwyr a'r llwyfannau technegol yn cefnogi'r sector cyfan, ac yn buddsoddi yn y llif o dalent yn y DU fel y mae ein ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'i wneud ers degawdau.

Dyma'r cyd-destun y dylid ystyried y drafodaeth ehangach am y BBC ynddo, a byddaf yn parhau i weithio ar draws y diwydiant i gyflawni'r gofynion hyn.

O ran fy mlaenoriaethau ar gyfer y BBC ei hun, rwyf wedi nodi tri phrif nod ar gyfer fy amser fel Cadeirydd.

Y cyntaf yw cyflymu'r broses o symud y sefydliad allan o Lundain.

Fel y dangosir yn yr adroddiad hwn, rydym wedi cymryd camau breision gyda'n rhaglen Across the UK. Ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod cynulleidfaoedd wir yn teimlo bod y BBC yn gysylltiedig â'u cymuned. Mae gennyf ymrwymiad personol cryf i gyflawni hyn.

Yr ail yw sicrhau Siarter Frenhinol newydd y tu hwnt i 2027 sy'n diogelu'r BBC fel gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol yn yr hirdymor. Mae hwn yn gyfnod hanfodol i ddyfodol y BBC, ac mae'r broses o adnewyddu ein Siarter wedi'i hen sefydlu. Rydym yn parhau i gynnal

trafodaethau cynhyrchol â'r Llywodraeth ynghyd â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid.

Ond un o brif gyfrifoldebau'r Bwrdd yw gwella atebolrwydd y BBC i'n cynulleidfaoedd, felly mae angen i ni sicrhau bod dealltwriaeth ddofn o'u hanghenion a'u safbwyntiau yn rhan sylfaenol o'r drafodaeth am y Siarter.

Dyna pam yr oedd y Bwrdd yn falch o weld y BBC yn lansio ei ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd mwyaf erioed ym mis Mawrth, gan ofyn i ddeiliaid cyfrifon y BBC ledled y DU beth maent am ei gael gan y BBC nawr ac yn y dyfodol.

Mae'n rhan o raglen ehangach o lawer o ymchwil i'r gynulleidfadau ac arolygon a gynhelir gan y BBC dros y flwyddyn i ddod, ac mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am ei ganfyddiadau.

Un o gyfrifoldebau craidd eraill y Bwrdd yw cynnal annibyniaeth y BBC. Mae gallu'r BBC i wasanaethu pob cynulleidfada yn hollbwysig yn fy marn i. Felly, mae angen i ni sicrhau ei fod yn gryfach, nid yn wannach, wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol a chyllid y BBC.

Ac yna daw fy nhrydydd nod, sef sicrhau'r model cyllid gorau i'r BBC ar gyfer y dyfodol.

Rwyf eisoes wedi cyflwyno rhai safbwyntiau ar hyn a bydd y Bwrdd yn dweud mwy dros y misoedd nesaf. Ond mae pob un ohonom yn glir ein bod am sicrhau ein bod yn diogelu'r BBC fel gwasanaeth cyffredinol a'i helpu i ffynnu, nid dim ond goroesi, am genhedlaeth a mwy.

Wrth gwrs, y tu hwnt i'r blaenoriaethau strategol hirdymor oedd gan y Bwrdd y flwyddyn hon, rydym hefyd wedi gorfod delio â heriau sylweddol iawn.

Ym mis Hydref, cyhoeddais fod y Bwrdd wedi comisiynu adolygiad annibynnol i ddiwylliant gweithle'r BBC. Roedd hyn yn dilyn y datgeliadau dychrynlyd am Huw Edwards ynghyd ag achosion pellach o ymddygiadau amhriodol a chamddefnyddio pŵer.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill. Y peth cyntaf i'w ddweud yw bod y BBC yn lle gwyh i weithio ynddo. Mae ein staff yn ymrwymedig, yn gweithio'n galed ac yn trin ei gilydd â pharch. Fodd bynnag, mae pocedi yn y sefydliad lle nad yw hyn yn wir. Mae sefyllfaoedd o hyd lle gall unigolion pwerus – ar y sgrin ac oddi arni – gamddefnyddio'r pŵer hwnnw a gwneud bywydau eu cydweithwyr yn annioddefol.

Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd gweithredu'n gyflym, bod yn fwy hyf a dewr yn ein gweithredoedd a chynnyddu ein hawydd i gymryd risgiau wrth gymryd camau gweladwy i gael gwared ar ymddygiadau annerbyniol ac amhriodol. Rwy'n falch o ddweud bod y BBC wedi derbyn canfyddiadau'r adroddiad yn llawn a'i fod wedi ymateb â chyfres gynhwysfawr o weithredoedd i wynebu'r her hon.

Ynghyd â heriau diwylliannol, mae'r BBC wedi parhau i wynebu prosesau craffu dwys ynghylch ein ddarllediadau o'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Yn benodol, bu'n rhaid i'r Bwrdd ymateb i'r gwallau difrifol a ddaeth i'r amlwg yn y broses o wneud rhaglen ddogfen am fywydau plant yn Gaza.

”
**Mae cysylltiad pendant
 rhwng dyfodol y BBC
 a dyfodol yr holl
 ddiwydiannau creadigol
 a'r math o amgylchedd
 cyfryngau rydym am ei
 gael ar gyfer y DU.**



Denodd Gavin & Stacey: The Finale ffigwr enfawr o 21.0 miliwn o gynulleidfa gyfartalog ar ôl 28 o ddiwrnodau

Roedd yr awydd newyddiadurol i adrodd stori o'r fath yn un da, ond mae sicrhau ymddiriedaeth ein cynulleidfaoedd yn hanfodol i'r BBC. A thanseiliwyd yr ymddiriedaeth honno yn y ffilm am Gaza. Dyna pam y gwnaethom ni fel Bwrdd weithredu'n gyflym i fynnu atebion gan y Bwrdd Gweithredol. Disgwylir i adolygiad llawn gael ei gyhoeddi yn haf 2025 a byddaf yn sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei frifio'n llawn ar y canfyddiadau a'r camau i'w gymryd o ganlyniad i hynny.

Y tu hwnt i'r materion hyn, rwy'n falch iawn o'r modd y mae'r BBC a'i dimau wedi gwasanaethu'r cyhoedd dros y flwyddyn hon.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at record o ddarparu cynnwys a gwasanaethau eithriadol y mae cynulleidfaoedd y DU yn eu caru a'u gwerthfawrogi – o'r darllediadau ar ganlyniadau'r Etholiad Cyffredinol lle gwelwyd mwy nag wyth o bob deg oedolyn yn troi at y BBC, i haf o ddarllediadau chwaraeon a ddenodd 74% o'r boblogaeth at deledu'r BBC, i bennod olaf Gavin & Stacey a ddaeth â mwy nag 20 miliwn o wylwyr ynghyd.

Hoffwn dalu teyrnged i waith Syr Nicholas Serota a adawodd y bwrdd yn ddiweddar ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth eithriadol. Bydd ei ddealltwriaeth, ei ymrwymiad a'i gyngor doeth yn gyfraniad parhaus i'r BBC.

Yn fwy cyffredinol, hoffwn ddiolch i holl dimau'r BBC sydd wedi gweithio'n ddiflino ar ran ein cynulleidfaoedd y flwyddyn hon. Ers dod yn Gadeirydd, mae wedi bod yn bleser cwrdd â chynifer o bobl ddawnus sy'n gwbl ymroddedig i'r BBC.

Ar ôl blwyddyn yn y swydd, rwyf mor argyhoeddedig ag erioed ynghylch pwysigrwydd cenhadaeth y BBC yn y byd heddiw, ac yn fwy hyderus nag erioed ynghylch y rôl y gallwn barhau i'w chwarae fel rhan ganolog o fywyd cenedlaethol y DU.

Samir Shah

Dr Samir Shah CBE
 Cadeirydd
 27 Mehefin 2025

GWERTH EITHRIADOL I GYNULLEIDFAOEDD



Mae'r adroddiad hwn yn adrodd stori BBC sydd wedi sicrhau gwerth eithriadol i gynulleidfaeodd dros y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf yr heriau sylweddol.

Mae'n tynnu sylw at y rôl hanfodol y gall y BBC ei chwarae yn helpu i atgyfnerthu democratiaeth, economi a chymdeithas y DU ar adeg dyngedfennol wrth i ni weithio tuag at adnewyddu ein Siarter Frenhinol.

Yn ystod y flwyddyn hon, cynhaliodd y BBC ei gyrhaeddiad cyffredinol, fwy neu lai, yn wyneb ymddygiadau cynulleidfaeodd sy'n newid yn gyflym a phwysau marchnad cyfryngau fyd-eang gystadleuol iawn. Ni yw prif frand cyfryngau'r DU o hyd, ac mae 84% o oedolion yn y DU yn defnyddio ein gwasanaethau ar gyfartaledd bob wythnos a 94% bob mis. Ni yw'r unig frand yn y DU ar gyfer cyfryngau sydd yn y pump uchaf ar gyfer cyfryngau a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc.

Gwnaethom barhau â'n trawsnewidiad digidol er mwyn tyfu ein gwerth, cyfoethogi ein harlwy a chroesawu posibiliadau byd ôl-ddarlledu. BBC iPlayer oedd y llwyfan fideo ar alw ffurf hir a dyfodd gyflymaf yn y DU yn 2024/25. Rydym yn benderfynol o adeiladu sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus byd-eang sy'n addas ar gyfer oes ddigidol a arweinir gan ddeallusrwydd artifisial.

Gwnaethom gyflymu ein prif raglen o ddiwygio sefydliadol er mwyn creu BBC mwy syml a mwy hyblyg. Gwnaethom sicrhau rhagor o arbedion drwy wella effeithlonrwydd ac ail-flaenoriaethu gwariant wrth barhau i roi hwb i'n hincwm masnachol mewn marchnad anodd.

A gwnaethom gyflawni hyn oll yn erbyn cefndir lle mae llawer yn y fantol. Mae cyllid tynn a chystadleuwyr â digonedd o gyllid yn cyflwyno risgiau sylweddol i gryfder a chynaliadwyedd economi greadigol y DU. Yn fwy cyffredinol, mae grymoedd twyllwbyodaeth a rhaniadau yn bwydo argyfwng ymddiriedaeth sy'n gwaethygu ac sy'n arwain at ganlyniadau difrifol i gydlyniant cymdeithasol, sefydlogrwydd democrataidd a thwf economaidd y DU.

”

Gwnaethom gyflawni hyn oll yn erbyn cefndir lle mae llawer yn y fantol. Mae cyllid tynn, costau cynyddol a chystadleuwyr â digonedd o gyllid yn cyflwyno risgiau sylweddol i gryfder a chynaliadwyedd economi greadigol y DU.



Y beiciwr Emma Finucane yn siarad â'r BBC ar ôl medal aur Tim Prydain Fawr yn Ras Wib y Menywod ym Mharis 2024



Jack O'Connell yn SAS Rogue Heroes

”

BBC iPlayer oedd y llwyfan fideo ar alw ffurf hir a dyfodd fwyaf yn y DU yn 2024/25. Rydym yn benderfynol o adeiladu sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus byd-eang sy'n addas ar gyfer oes ddigidol a arweinir gan ddeallusrwydd artiffisial.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y BBC wedi parhau i bennu'r safon greadigol fel y buddsoddwr mwyaf mewn rhaglenni a wneir yn y DU, gan gynnig cynnwys o'r radd flaenaf y mae'r cyhoedd yn ei garu a'i werthfawrogi.

Gwelsom gynulleidfaoedd mawr ar gyfer adrodd straeon cartref ym mhob genre, o *This City is Ours* i *Solar System*, *Amandaland* i *The Traitors*, *Call the Midwife* i *Ludwig*. Gwelsom hefyd lwyddiannau o bob cwr o'r DU, o *Blue Lights* i *Beyond Paradise*, *The One That Got Away* i *An t-Eilean (The Island)* – drama Aeleg o'r radd flaenaf gyntaf y DU. A gwelsom fwy o enghreifftiau o'r hyn a wna'r BBC orau, o *Asia* i *Mr Loverman* i *Wolf Hall*.

Nid dim ond cynulleidfaoedd a wnaeth gydnabod ein hansawdd creadigol. Y flwyddyn hon, cafodd y BBC 18 o Wobrau teledu BAFTA – mwy nag unrhyw ddarlledwr neu ffrydiwr arall – ar draws ystod eang o genres o Blant i Adloniant i Ffeithiol, Comedi, Drama, Chwaraeon a Newyddion. Ac mae'r ffaith bod y BBC wedi ennill y wobwr 'Moment Gofiadwy' a bleidleisir gan y cyhoedd bob blwyddyn ers iddi ddechrau – y tro hwn am waltz Chris McCausland a Dianne Buswell i *You'll Never Walk Alone* ar *Strictly* – yn dyst i allu unigryw y BBC i greu teledu sy'n emosiynol ac yn ysbrydoli.

Cafodd ein perfformiad y flwyddyn hon mewn sain a radio ei gydnabod mewn 30 o lwyddiannau yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio (ARIAS) – gan gynnwys teitl 'Gorsaf y Flwyddyn' i BBC Radio 3 wrth iddi ddathlu ffigurau cynulleidfaoedd cryf. A bu'n flwyddyn dda arall i bodlediadau'r BBC gyda ffefrynnau cynulleidfaoedd o *Newscast* i *Americast*, *Limelight* i *Intrigue*, *You're Dead to Me* i *Sliced Bread* i gyd yn eithriadol o boblogaidd unwaith eto – ynghyd â phodlediadau a enillodd wobrau fel *Miss Me?* a *Brown Girls Do It Too*.

Y flwyddyn hon, mae'r BBC wedi dwyn pobl ynghyd fwy na neb arall. Gwnaethom ddathlu digwyddiadau pwysig ar draws y BBC o Ddiwrnod VE i Ddiwrnod Cofio'r Holocaust i Eid Live o

Bradford. Gwnaethom gyflwyno haf llawn chwaraeon, lle gwnaeth bron tri chwarter y boblogaeth droi at ein darllediadau o'r Gemau Olympaidd ym Mharis, Ewros y Dynion yn yr Almaen, a Wimbledon yn SW19.

A gwnaethom gyflwyno darllediadau o Eurovision, Glastonbury a'r Proms i sawl miliwn – heb sôn am fynd â digwyddiadau mawr i gynulleidfaoedd ar draws y DU gyda Radio 1's Big Weekend yn Luton, Radio 2 in the Park yn Preston a'r 6 Music Festival ym Manceinion.

Am y tro cyntaf erioed, roedd y deg uchaf o raglenni teledu a wylwyd fwyaf yn y DU ar Ddydd Nadolig gan y BBC, gyda mwy nag 20 miliwn yn gwyllo *Wallace & Gromit: Vengeance Most Fowl* a *Gavin & Stacey: The Finale*.

Roedd yn flwyddyn fawr hefyd i BBC News a'n hymrwymiad i ganfod gwirionedd heb unrhyw agenda. Trodd wyth o bob deg oedolyn at ddarllediadau'r BBC o ganlyniadau etholiad cyffredinol brys y flwyddyn diwethaf ar draws bob llwyfan. Mae tri chwarter yr oedolion yn y DU yn defnyddio BBC News bob wythnos ar gyfartaledd.

Yn y cyfamser, BBC Verify yw'r adnodd gwirio ffeithiau sydd fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio gan oedolion ym Mhrydain, ac mae ein buddsoddiad yng ngwasanaethau newyddion ar-lein BBC Local dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi arwain at gynydd o 33% yn y traffig wythnosol ar gyfartaledd. Bellach, mae straeon newyddion ar-lein BBC Local yn cynrychioli bron 30% o'r holl straeon newyddion a ddarllenir ar wefan ac ap BBC News.

Mae'r ffaith bod ymddiriedaeth yn y BBC wedi cynyddu yn 2024/25 yn gyflawniad sylweddol mewn blwyddyn etholiadol llawn tensiwn, ac rwy'n falch iawn o hyn.

Rwyf hefyd yn falch iawn o waith ein holl dimau newyddion yn darparu darllediadau o'r radd flaenaf o ddigwyddiadau a gwrthdaro hynod o arwyddocaol ledled y byd, yn aml mewn amgylchiadau anodd iawn.

Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol – parhad

Yn fyd-eang, y BBC yw'r darparwr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf o hyd, gan gyflwyno llais, gwerthoedd a dylanwad y DU i gynulleidfa wythnosol o 453 miliwn o bobl. Mae ymchwil ddiweddar yn tynnu sylw at effaith unigryw BBC World Service fel hyrwyddwr i'r DU: mae defnyddwyr y BBC ledled y byd yn fwy ffafriol tuag at y DU a'n gwerthoedd, ac maent yn fwy tebygol o fuddsoddi yn y DU.

Ond mae angen diwydrwydd a gofal parhaus wrth gynnal ymddiriedaeth ein cynulleidfaoedd. Ac roedd hon yn flwyddyn pan welwyd enw da y BBC yn cael ei niweidio gan fethiannau difrifol wrth wneud y rhaglen: *Gaza: How to Survive a Warzone*.

Roedd yn bwysig i'r BBC gymryd cyfrifoldeb llawn am y methiannau hynny ac ymddiheuro amdanynt. Roedd hefyd yn bwysig i mi gomisiynu adolygiad canfod ffeithiau er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y methiannau a welwyd, ac fel y gellir dysgu gwersi er mwyn atal problemau o'r fath rhag codi fel hyn yn y dyfodol.

Y cyd-destun ehangach i'r BBC yw'r argyfwng ymddiriedaeth sy'n gwaethygu yma yn y DU a ledled y byd. Mae'n argyfwng a all arwain at ganlyniadau difrifol i'n cymdeithas, ein heconomi a'n sefydlogrwydd a'n diogelwch democrataidd, yn fy marn i.

Heddiw, yn ôl Mynegai Rhyddid Gwasg y Byd, mae rhyddid y wasg ar ei bwynt isaf a gofnodwyd erioed. Mae newyddiaduraeth naill ai'n cael ei rwystro'n llwyr neu yn rhannol ym mwy na 75% o'r byd – ac mae'r ffigwr hwn yn tyfu. Ar gyfer mwy na hanner poblogaeth y byd, mae rhyddid y wasg yn gwbl absennol.

Mae gohebwyd ledled y byd yn wynebu peryglon cynyddol a lefelau cynyddol o aflonyddwch a bygythiad. Yn ddiweddar, cafodd un o'n newyddiadurwyr ei wahardd o Dwrci, ac rydym wedi gweld cynnydd sydyn ac eithriadol o bryderus yn nifer newyddiadurwyr BBC News Persian yn y DU a'u teuluoedd yn Iran sy'n cael eu herlyn.

Yn y cyfamser, mae twyllwbyodaeth yn ffynnu. Mae Fforwm Economaidd y Byd wedi'i nodi fel y risg fyrdymor fwyaf rydym yn ei hwynebu'n fyd-eang. Mae RUSI, y felin drafod diogelwch, yn nodi bod gwybodaeth falseisus, yn aml wedi'i chefnogi gan gyfranogwyr gwladwriaethol, yn fygythiad uniongyrchol i'n diogelwch a'n cydlyniant.

Mae'r argyfwng epistemig hwn, fel y'i gelwir, lle mae cynifer ohonom yn colli ffydd yn uniondeb ein hamgylchedd gwybodaeth ac yn teimlo nad oes sylfaen cytûn o ffeithiau y gellir seilio trafodaeth adeiladol arnynt, yn effeithio ar bob un ohonom bob diwrnod.



Er mwyn i ni chwarae rhan lawn yn helpu'r DU i ymateb i'r heriau a wynebwr gennym yn y blynyddoedd i ddod, mae angen i ni gael Siarter gref sy'n sicrhau BBC sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol am genhedlaeth i ddod.

Datgelodd Arolwg Gwerthoedd y Byd fod llai na hanner yr holl ymatebwyr yn y DU bellach yn dweud y gellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl. Mae ein hymchwyl ein hunain yn y BBC yn dangos bod tri chwarter yr oedolion yn y DU yn dweud bod cymdeithas y DU yn teimlo'n rhanedig, ac mae chwech o bob 10 yn dweud bod y rhaniadau hyn yn eu llethu.

Mae'r erydiad hwn o gysylltiadau dyfnach, y dirywiad mewn ymdeimlad o "ni" yn hytrach na "fi", o ganlyniad i fyd ar-lein lle mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol mor gyffredin.

Ac yn bwysig, mae ymchwylwyr wedi canfod cysylltiad achosol uniongyrchol rhwng lefelau uchel o ymddiriedaeth a chynnydd mewn twf economaidd. Mae'n hanfodol ein bod yn buddsoddi mewn adeiladu cyfalaf cymdeithasol, y mae ei ddisbyddiad wedi dylanwadu ar bopeth. O lefelau twf isel a symudedd cymdeithasol segur i unigrwydd ac aflonyddwch yn ein cymunedau.

Felly sut rydym yn gweithredu wrth wynebu'r heriau hyn?

Er gwaethaf y bygythiadau, rwy'n credu bod y cyfle i'r DU yn enfawr, yn seiliedig ar ein cryfderau. Cymdeithas sy'n seiliedig ar sefydliadau cryf a gwerthoedd democrataidd. Yr ail allforiwr mwyaf o wasanaethau yn y byd, a'r trydydd allforiwr mwyaf o wasanaethau creadigol, ac arweinydd mewn technoleg sylfaenol a datblygiad gwyddonol i fyny'r gadwyn. Lle dibynadwy i gynnal busnes. Uwch-bŵer cymell tawel sy'n arwain y byd mewn cyfryngau o ansawdd uchel, prifysgolion rhagorol a'r gynghrair pêl-droed orau yn y byd: i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth.

Ym mis Mai, cyflwynais araith yn Salford lle dadleuais fod gan y DU ddewis i'w wneud nawr. Dewis i adeiladu cymdeithas gryfach, atgyfnerthu democratiaeth, gwella diogelwch ac annog twf economaidd. Dewis i ddefnyddio technoleg er budd i ni wrth feithrin creadigrwydd gorfoleddus. Dewis sy'n galw am ymyriad, arloesedd a buddsoddiad.

Mae'r BBC yn benderfynol o chwarae ei ran. Rydym wedi siarad llawer dros y flwyddyn ddiweddaraf am y tair rôl unigryw sydd gennym yn y byd heddiw: canfod gwirionedd heb unrhyw agenda; cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau; a dod â phobl ynghyd. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at faint rydym wedi'i gyflawni eisoes yn helpu i atgyfnerthu democratiaeth, economi greadigol a chymdeithas y DU.

Ond nawr rydym am fynd ymhellach. Credaf y gall y BBC chwarae rôl hanfodol yn helpu'r DU i wneud y dewisiadau dewr a dybryd sydd eu hangen er mwyn ymateb i'r argyfwng hwn mewn ymddiriedaeth. I wneud y DU yn arweinydd byd-eang mewn gwybodaeth ddibynadwy. I gefnogi ein democratiaeth o'r gwreiddiau i fyny. I ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a deallusrwydd artiffisial i helpu, nid i niweidio, ein plant a'u dyfodol.



Ymunodd Florence Welch â Jules Buckley a'i gerddorfa ym Mhroms y BBC yn 2024



Cafodd Wolf Hall: The Mirror and The Light gyda Mark Rylance ei gyfarwyddo gan Peter Kosminsky

I sicrhau'r twf mwyaf yn ein heconomi drwy fuddsoddi ym mhob rhan o'r DU. Ac i sicrhau bod pawb yn cael budd o'r trawsnewidiad digidol, heb adael neb ar ôl.

Yn Salford, cyflwynais rai o'r syniadau rydym wrthi'n eu harchwilio i gefnogi'r nodau hyn ac i gynyddu gwerth y BBC i'r cyhoedd ac i'r DU gyfan. Ond pwysleisiais eu bod yn dibynnu ar sicrhau bod y BBC yn cael ei ariannu a'i gefnogi'n briodol – gyda chefnogaeth gref gan y llywodraeth, rheoleiddwyr a phartneriaid.

Mae ein cynlluniau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC barhau i ddiwygio, ac i gyflymu'r trawsnewidiad sefydliadol cyflym sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn y blynyddoedd diwethaf.

Rwy'n falch o'r cofnod a nodir yn yr adroddiad hwn o ran y modd y mae'r BBC yn trawsnewid i gyflawni heriau tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym.

Rydym yn creu sefydliad mwy darbodus a hyblyg. Rydym wedi cymryd rhagor o gamau tuag at ein targed arbedion cylchol blynyddol o £700 miliwn erbyn mis Mawrth 2028, gan gyflawni cyfanswm arbedion o £564 miliwn ers 2022/23. Rydym wedi symleiddio fel sefydliad, ac unwaith eto rydym wedi lleihau nifer ein staff gwasanaethau cyhoeddus y flwyddyn hon.

Mae ein trawsnewidiad digidol yn parhau ar gyflymder. Y flwyddyn hon, gwelwyd y twf uchaf erioed ar gyfer iPlayer gyda chyfanswm o 8.9 biliwn o geisiadau – i fyny bron 10% o un flwyddyn i'r llall. Tyfodd BBC Sounds i 2.6 biliwn o achosion o chwarae a chafodd y cychwyn gorau erioed i 2025. Mae mwy na thraean o'r oedolion yn y DU yn defnyddio BBC News ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd, ac ap BBC News yw'r ap â'r cyrhaeddiad misol mwyaf yn y DU.

Rydym yn gweithio'n galed i drawsnewid y BBC drwy dechnoleg arloesol ac arloesedd a arweinir gan ddeallusrwydd artifffisial.

Rydym eisoes wedi defnyddio deallusrwydd artifffisial cynhyrchol i gynnig mwy o werth i gynulleidfaoedd â mentrau fel ychwanegu isdeitlau i raglenni ar BBC Sounds, cyfieithu

cynnwys i ieithoedd gwahanol ar BBC News a chreu tudalennau testun byw ar gyfer gemau pêl-droed. Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd y gellir defnyddio deallusrwydd artifffisial cynhyrchol i sicrhau gwerth ac rydym yn edrych ar bartneriaethau mawr newydd â chwmnïau technoleg gorau'r byd.

Gwneir hyn oll i gefnogi ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus ac yn unol â'n hegwyddorion a gyhoeddwyd mewn perthynas â deallusrwydd artifffisial – heb gyfaddawdu goruchwyliaeth olygyddol a gan gefnogi deallusrwydd, doniau a chreadigrwydd dynol.

Ac rydym yn parhau i roi hwb i'n hincwm masnachol er mwyn creu'r gwerth gorau posibl ar gyfer ffrîr drwydded. Cyflawnodd BBC Commercial y gwerthiannau uchaf erioed o £2.2 biliwn y flwyddyn hon er gwaethaf amodau masnachu anodd. Mae BBC Studios wedi dyblu ei refereniw a'i elw unwaith ac rydym am sicrhau bod ganddo'r cyfalaf a'r cynlluniau ar waith i ddyblu eto.

Ynghyd â thrawsnewid ein sefydliad, rydym yn parhau i weithio'n galed i drawsnewid ein diwylliant.

Y flwyddyn hon, gwelwyd heriau mawr ar ffurf y datgeliadau gwarthus am Huw Edwards ynghyd ag enghreifftiau eraill o ymddygiadau cwbl annerbyniol a ddaeth i'r wyneb. Lluniodd adolygiad annibynnol i ddiwylliant gweithle'r BBC gyfres o argymhellion a dderbyniwyd gennym yn llawn. Ers hynny, rydym wedi cyflwyno cyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu, sy'n ymateb yn uniongyrchol i her y canfyddiadau hyn gan sefydlu rhaglen dwy flynedd o hyd i sicrhau newid gwirioneddol yn niwylliant ein gweithle.

Fel y dangoswyd yn yr adroddiad, mae'r BBC heddiw yn teimlo fel lle gwahanol iawn i ddegawd yn ôl. Ond fy ngweledigaeth yw gweld diwylliant yn y BBC sy'n garedig, yn gynhwysol, yn ddiogel ac yn gefnogol – heb eithriad. Lle nad oes lle i unrhyw un nad yw'n barod i gyflawni ein safonau a'n gwerthoedd, beth bynnaf fo'i rôl. A lle sy'n ysbrydoli pawb ac yn eu galluogi i wneud eu gwaith gorau. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod gweledigaeth yn troi'n realiti.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y broses o adnewyddu Siarter Frenhinol y BBC yn dechrau o ddirif cyn hir. Bydd hyn yn pennu maint a chwmpas y BBC y tu hwnt i 2027, ac felly ei rôl a'i effaith hirdymor ar gyfer y DU.

Er mwyn i ni chware ein rhan i'r eithaf yn helpu'r DU i ymateb i'r heriau a wynebier gennym yn y blynyddoedd i ddod – yn y DU ac yn fydd-eang – mae angen i ni gael Siarter gref sy'n sicrhau BBC sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol am genhedlaeth i ddod.

Mae hynny'n golygu Siarter sy'n diogelu annibyniaeth y BBC ym muddiannau'r cyhoedd. Siarter sy'n sicrhau ein bod yn gynaliadwy ar gyfer yr hirdymor ac sy'n gallu cefnogi ecosystem cyfryngau sy'n ffynnu yn y DU, gan gynnwys drwy gyllid digonol a dibynadwy. A Siarter sy'n galluogi'r BBC i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd yn gyflym ac yn hyblyg, ac i fod yn fwy uniongyrchol ymatebol ac atebol i'r cyhoedd.

Mae meysydd critigol eraill lle rydym yn galw am ymyriadau polisi goleuedig i gefnogi diwydiannau creadigol y DU sydd o'r radd flaenaf a helpu'r DU i ymateb i'r argyfwng ymddiriedaeth sy'n gwaethygu.

Rydym am weld mwy o gymhellion ar gyfer cynhyrchu yn y DU, gan gynnwys credydau treth. Mae'n system y profwyd ei bod yn gweithio ond y dylid ei diwygio a'i hehangu i gefnogi genres allweddol sy'n wynebu risg, ynghyd ag annog amcanion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fel annog prosesau cynhyrchu y tu allan i Lundain, prosesau adrodd straeon lleol neu gadw eiddo deallusol o fewn y DU.

Mae hefyd angen i Ddeddf y Cyfryngau gael ei rhoi ar waith yn gyflym – er mwyn sicrhau amlygrwydd da i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar bob llwyfan ar adeg sy'n dyngedfennol i ddyfodol ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u rôl ym mywyd y genedl. Os na all pobl ddod o hyd i'n gwasanaethau, ac, yn syml, y gwasanaeth sydd â'r cynnig uchaf sy'n sicrhau amlygrwydd, yna ni allwn chwarae ein rhan yn meithrin cysylltiadau ac ymddiriedaeth.

Mae angen i ni gael ymrwymiad clir gan y Llywodraeth i sicrhau proses drosgrlwyddo i ddigidol cwbl gynhwysol. Ac mae angen i ni sicrhau bod cyfundrefn synhwyrol ar waith sy'n sicrhau bod cynhyrchwyr eiddo deallusol y DU yn cael eu gwobrwyo'n deg am eu gwaith yn y byd deallusrwydd artifffisial.

Nid yw hon yn adeg i oedi. Mae'n adeg i weithredu ac am ymyriad pendant. Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa mor benderfynol yw'r BBC i feithrin ymddiriedaeth yn ein cymdeithas a helpu i lywio'r dyfodol y mae pob un ohonom am ei gael i'r cyhoedd, i'n diwydiannau creadigol ac i'r DU gyfan.

Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
27 Mehefin 2025

RÔL Y BBC YN Y BYD HEDDIW

Cenhadaeth y BBC, a nodir yn ein Siarter Frenhinol, yw “gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn diduedd, nodedig o ansawdd uchel sy’n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu”.

Mae pum diben cyhoeddus y BBC hefyd wedi’u cynnwys yn ein Siarter Frenhinol. Mae’r rhain yn amlinellu’r egwyddorion arweiniol sydd gennym wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth. Maent yn rhoi fframwaith clir ar waith i’n dwyn i gyfrif ac, fel y cyfryw, cyfeirir atynt drwy’r adroddiad hwn.

Ein nod yw sicrhau gwerth eithriadol i’n holl gynulleidfaoedd fel gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol. A, thrwy hynny, gwneud cyfraniad unigryw a gwerthfawr i fywyd cenedlaethol y DU.

PUM DIBEN CYHOEDDUS Y BBC

Edrychwch am y symbolau hyn drwy’r Adroddiad Strategol er mwyn gweld sut mae’r pum diben cyhoeddus hyn yn sail i bopeth a wnawn.

- 1

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â’r byd o’u hamgylch
- 2

Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu
- 3

Dangos yr allbwn a’r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o’r ansawdd gorau
- 4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi’r economi creadigol ledled y Deyrnas Unedig
- 5

Adlewyrchu’r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a’i gwerthoedd i’r byd

Wrth i'r byd newid, mae'r rôl y mae'r BBC yn ei chwarae i'r DU yn newid hefyd.

Roedd y flwyddyn ddiweddaraf yn un llawn newid a gwrthdaro cythryblus ledled y byd. Mewn cyfnodau fel hyn, lle mae ymddiriedaeth a chydberthnasau dan fygythiad, mae gwerth unigryw y BBC i'w gynulleidfaoedd yn disgleirio – o newyddiaduraeth annibynnol, ddiuedd a chynnwys bachog o'r DU i fomentau a rennir sy'n orfoleddus a chofiadwy.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r BBC wedi bod yn trawsnewid er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn rhan ganolog o fywydau pob dydd cynulleidfaoedd drwy gynnig gwerth eithriadol i bawb. Ond nawr mae ton newydd o newid technolegol yn ail-lunio ein tirwedd cyfryngau. Mae'n cynnig buddiannau a chyfleoedd enfawr, ynghyd â heriau newydd i bob un ohonom – heriau i'n democratiaeth, i'n heconomi greadigol ac i'n cymdeithas.

Ein cenhadaeth o hyd yw hysbysu, addysgu a diddanu pawb. Ond credwn fod hon yn foment gritigol o ddewis i'r DU o ran yr argyfwng ymddiriedaeth a wynebier gennym nawr, a goblygiadau hyn i'n cydlyniant cymdeithasol, ein sefydlogrwydd democrataidd a'n twf economaidd. Rydym am wneud mwy er mwyn gwneud cyfraniad hanfodol i'r DU gyfan, i helpu i lywio'r oes newydd o newid technolegol cyflym er budd pawb, i hyrwyddo doniau creadigol Prydeinig a sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl.

Er mwyn cyflawni'r heriau sy'n ein hwynebu a chyflawni'r buddiannau hanfodol hyn i'r cyhoedd a'r DU gyfan, ym mis Mawrth 2024 gwnaethom gyhoeddi 'A BBC for the Future'. Mae'n gynllun uchelgeisiol, sy'n cyd-fynd â'n pum diben cyhoeddus, i helpu i atgyfnerthu ein democratiaeth, economi greadigol a chymdeithas drwy flaenoriaethu tair rôl hanfodol.

Rydym yn blaenoriaethu tair rôl hanfodol:

CANFOD GWIRIONEDD HEB UNRHYW AGENDA

...drwy adrodd yn ddi-ofn ac yn deg

i Rhagor o wybodaeth
14 – 23

CEFNOGI'R PROSES AU ADRODD STRAEON CARTREF GORAU

...drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig

i Rhagor o wybodaeth
24 – 33

DOD Â PHOBL YNGHYD

...drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei golli

i Rhagor o wybodaeth
34 – 43

CYFLYMU TRAWSNEWIDIAD Y BBC

‘Strategaeth yw ‘A BBC for the Future’ i gyflwyno BBC sy’n fwy perthnasol, a ddefnyddir yn gyffredinol ac sy’n cynnig gwerth eithriadol i bawb. Er mwyn gwneud i hyn oll ddigwydd, rydym yn gweithio’n galed i gyflymu trawsnewidiad y BBC sydd wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae’r adroddiad hwn yn dangos bod y BBC yn trawsnewid yn gyflym er mwyn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i wynebu heriau tirwedd ddigidol yn gyntaf sy’n newid yn gyflym.

Rydym yn creu sefydliad sydd hyd yn oed yn symlach ac yn fwy hyblyg, ac sydd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Ers 2022/23 rydym wedi cyflawni cyfanswm arbedion o £564 miliwn yn erbyn ein targed o £700 miliwn – wedi’i ysgogi gan arbedion effeithlonrwydd sefydliadol ac ail-flaenoriaethu gwariant er mwyn sicrhau gwerth mwyaf ffi’r drwydded i’n cynulleidfaoedd.

Unwaith eto, rydym wedi lleihau maint ein gweithlu gwasanaeth cyhoeddus, wedi’i gefnogi gan gynllun dileu swyddi cyflymach sydd wedi ein galluogi i gau a thrawsnewid rolau wrth greu rolau newydd mewn meysydd twf fel cynnwys digidol.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau a thyfu ein cynhyrchion digidol. Roedd hynny’n golygu mai BBC iPlayer oedd y llwyfan ar alw ffurf hir a dyfodd gyflymaf yn y DU yn 2024/25. Tyfodd BBC Sounds hefyd i 2.6 biliwn o achosion o chwarae y flwyddyn hon ac ap BBC News oedd y prif ap newyddion yn y DU o ran cyrhaeddiad misol.

Rydym yn cyflymu trawsnewidiad y BBC drwy dechnolegau o’r radd flaenaf ac arloesedd a arweinir gan ddeallusrwydd artiffisial. Y flwyddyn hon gwnaethom ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchol i gynyddu’r gwerth rydym yn ei gynnig i gynulleidfaoedd ym mhob maes fel cyfieithu cynnwys newyddion ac isdeitlau ar gyfer rhaglenni ar BBC Sounds – i gyd yn unol â’n hegwyddorion a gyhoeddwyd o ran deallusrwydd artiffisial. Rydym am helpu i arwain y drafodaeth ar sut y gall defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial gefnogi creadigrwydd dynol a thwff yn y diwydiannau creadigol, wrth ddiogelu eiddo deallusol y rhai sy’n creu.

Rydym yn gweithio’n galed i roi hwb i’n hincwm masnachol er mwyn creu’r gwerth gorau posibl ar gyfer ffi’r drwydded. Cyflawnodd BBC Commercial y gwerthiannau uchaf erioed y flwyddyn hon, sef £2.2 biliwn, hyd yn oed mewn tirwedd heriol. Ym mis Tachwedd, daeth adolygiad y SAG o BBC Studios i’r casgliad ei fod wedi llwyddo i gyflawni cynnydd mewn adenillion i’r BBC, gan gyflawni twf drwy addasu i farchnad newidiol.

Rydym yn cydweithio’n agosach nag erioed â’n partneriaid er mwyn gwella effaith ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus. Rydym hefyd yn sefydlu partneriaethau newydd mawr a all ein galluogi i gyrraedd talent newydd, i gael gafael ar gyfalaf ac i sicrhau maint.

Mae’r cofnod o’n trawsnewidiad y flwyddyn hon yn dangos pa mor benderfynol yr ydym i adeiladu sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus byd-eang sy’n addas ar gyfer oes ddigidol a arweinir gan ddeallusrwydd artiffisial.

i I ddysgu mwy am drawsnewidiad y BBC ewch i dudalen 57

Y cyn Brif Weinidog Rishi Sunak yn ymddangos mewn cyfweliad arbennig â Nick Robinson, gan fyfyrto ar bedair blynedd yn Downing Street





Dychwelodd *The Traitors*, y gêm o ddarganfod, twyll ac ymddiriedaeth, am drydedd gyfres yn 2025

Wrth i ni drawsnewid y BBC ar gyfer y dyfodol, rydym hefyd yn ymwybodol y bydd y broses o adnewyddu ein Siarter Frenhinol yn dechrau go iawn y flwyddyn hon. Mae'n broses a fydd yn pennu maint a chwmpas y BBC y tu hwnt i 2027, ac felly ei rôl a'i effaith hirdymor ar gyfer y DU.

Credwn ei bod yn hanfodol sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn rhan ganolog o'r drafodaeth honno. Y cyhoedd sy'n berchen ar y BBC, ac rydym am sicrhau y gall pawb leisio barn ar ei ddwyfodol.

Dyna pam, ym mis Mawrth, gwnaethom lansio ein hymarfer ymgysylltu cyhoeddus mwyaf erioed, 'Ein BBC, Ein Dyfodol', yn gofyn i ddeiliaid cyfrifon y BBC ar draws y DU helpu i nodi beth maent am ei gael gan y BBC nawr a beth maent am ei gael ganddo mewn blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal â gwrando'n astud ar ein cynulleidfaoedd, rydym hefyd yn cael sgysiau gyda phawb sydd â chyfran yn nyfodol y BBC. Mae hynny'n cynnwys ein staff, ynghyd â mwy na 360 o bartneriaid yr ydym yn cydweithio â nhw bob blwyddyn i'n helpu i gyflwyno ein cynnwys a'n gwasanaethau.

Mae partneriaid y BBC bob amser wedi chwarae rôl hanfodol yn galluogi'r BBC i gyflawni ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus, ond fel rhan o 'A BBC for the Future' rydym yn ymrwymedig i gydweithio hyd yn oed yn agosach â'n partneriaid.

Ar drothwy oes dechnoleg newydd, rydym am wneud mwy nag erioed o'r blaen i ehangu cyrhaeddiad ac effaith ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Mae trawsnewid y BBC hefyd yn golygu creu sefydliad modern y gall ein holl staff fod yn falch ohono, ac sy'n eu galluogi i wneud eu gwaith gorau. Y flwyddyn hon, roedd hynny hefyd yn golygu cyhoeddi ein Strategaeth Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn, sy'n dwyn ynghyd ein huchelgeisiau amrywiaeth yn y gweithlu a'n cynlluniau ar gyfer amrywiaeth greadigol am y tro cyntaf. Roedd yn cynnwys cyhoeddi ein Cynllun Trawsnewid yr Hinsawdd cyntaf, sy'n nodi sut rydym yn bwriadu lleihau ein heffaith amgylcheddol a bod yn Sero Net erbyn 2050.

Ac, yn fwy diweddar, rydym wedi cyhoeddi adolygiad annibynnol i ddiwylliant gweithlu'r BBC, ynghyd â chyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu yr ydym yn ymrwymedig i'w cymryd mewn ymateb i hynny.

Mae hyn oll yn tanlinellu pa mor benderfynol yr ydym i fynd ymhellach ac yn gyflymach, nid yn unig i adeiladu BBC modern sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ond hefyd i greu sefydliad sydd wir yn cynrychioli'r holl gynulleidfaoedd a wasanaethir gennym, a lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.

Partneriaethau a mentrau cydweithredol ar draws y BBC yn 2024/25

Maes y BBC	Nifer y Partneriaid
Cynnwys	219
Grŵp y Prif Swyddog	
Gweithredu	54
Materion Corfforaethol	9
Technoleg	42
Newyddion a Materion Cyfoes	9
Grŵp y Prif Swyddog	
Cwsmeriaid	2
Y Gwledydd	76
Strategaeth	1
Cyfanswm	370

Mae nifer o sefydliadau partner yn ymddangos yn y ffigurau hyn sawl gwaith am eu bod yn ymwneud â gwaith partneriaeth â mwy nag un o is-adranau'r BBC. Lle mai dyna yw'r achos, caiff y partner ei gyfrif ym mhob is-adran y mae'n gweithio â hi, er enghraifft, mae Coleg Prifysgol Llundain yn cyfrif yn y cyfansymiau ar gyfer Cynnwys a Thechnoleg, ond dim ond unwaith yn ein cyfanswm cyffredinol.

i I ddysgu mwy am ein pobl ewch i dudalen 65

I ddysgu mwy am gynaliadwyedd ewch i dudalen 70

Mae'r BBC yn trawsnewid yn gyflym i fod yn sefydliad hyblyg sy'n addas ar gyfer y dyfodol.



Shantol Jackson a Don Gilet yng Nghyfres 14 o'r gyfres ddrama gomedi *Death in Paradise*

CANFOD GWIRIONEDD

BBC
ELECTION



HEB UNRHYW AGENDA*



...drwy adrodd yn ddi-ofn ac yn deg

Rydym yn byw mewn byd lle mae twyllwbyodaeth yn llifo'n fwy rhydd nag erioed ar draws llwyfannau cymdeithasol. Mae cyfranogwyr gwladwriaethol, nad ydynt bob amser yn rhannu ein gwerthoedd newyddion, yn buddsoddi'n drwm mewn cyfryngau a sianelau digidol, gan wario biliynau o bunnoedd. Ychwanegwch at hyn fygythiad newydd – newyddion sy'n cael eu hystumio gan gynorthwywyr peiriannau chwilio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Canfu ymchwil arloesol gan y BBC yr ystyriwyd bod gan 51% o'r holl atebion deallusrwydd artiffisial i gwestiynau am y newyddion broblemau sylweddol o ryw fath. Yn erbyn y cefndir hwn, mae BBC News yn rym pwerus sy'n brwydro dros wirionedd. Ac mewn byd cynyddol awdurdodaidd, lle mae rhyddid y cyfryngau dan fygythiad cynyddol, mae gan newyddiadurwyr dewr y BBC ledled y byd, sy'n adrodd yn ddi-ofn ac yn deg, rôl bwysicach nag erioed.

Mae newyddion diduedd sy'n deg ac y gellir dibynnu arno i beidio â chymryd ochrau yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth sy'n ffynnu – ac, i fynd ymhellach, credwn ei fod yn hawl ddynol sylfaenol.

Dyna pam mai canfod gwirionedd, heb unrhyw agenda, yw un o'r blaenoriaethau a nodir gyntaf gan y BBC. Dyma yw ein Seren y Gogledd.

Mae sawl ffurf i'r broses hon – yn ddigidol, ar sain ac ar fideo, ac mewn 42 o ieithoedd ledled y byd. O adroddiadau yn y fan a'r lle ar newyddion sy'n digwydd ar y pryd i raglenni dogfen treiddiol y mae'n cymryd misoedd i'w creu. O'n pencadlys yn Llundain i'n 70 o ganolfannau newyddion ledled y byd. O TikTok i *BBC News at Ten*.

Yn ddi-os, mae ein newyddiadurwyr yn ddi-ofn – o Steve Rosenberg yng nghynhadledd y wasg y Kremlin i Barbara Plett Usher yn Khartoum i'n newyddiadurwyr gwasanaeth Byrmanaid yn ystod y daeargryn angheuol diweddar.

Ac maent hefyd yn deg. Newyddion diduedd yw ein haddewid i'r DU ac i gynulleidfaoedd ehangach ledled y byd – ac mae cynulleidfaoedd yn ymateb i'r addewid hwnnw. Yn ystod blwyddyn o straeon newyddion a oedd yn aml yn heriol, cynyddodd ein sgoriau didueddrwydd yn y DU bum pwynt canran.



Canfod gwirionedd heb unrhyw agenda drwy adrodd yn ddi-ofn ac yn deg.

Mewn blwyddyn lle gwelwyd etholiadau democrataidd ledled y byd, sicrhodd BBC News fod ei gynulleidfa – a phleidleiswyr – yn rhan ganolog o'i darllediadau. Roedd y fenter *Your Voice, Your Vote* – gwahoddiad i'r gynulleidfa gymryd rhan yn narllediadau'r BBC – ar gyfer etholiad y DU mor llwyddiannus yn ei phartneriaeth â'n cynulleidfaoedd fel ei bod wedi goroesi fel *Your Voice*. Drwy gydol ein darllediadau o Etholiad Cyffredinol y DU, cyflawnodd BBC News ei addewid i weithredu fel 'sgwâr y dref' i'r genedl, gan drin safbwyntiau gwahanol â pharch a thegwch.

Cafodd pleidleiswyr a gwleidyddion o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol eu cynnwys yn ein darllediadau, rhoddwyd llais i bleidleiswyr a chafodd gwleidyddion eu dwyn i gyfrif mewn cyfweiliadau a thrafodaethau manwl. Rhoddwyd sylw i'r pynciau mawr ar draws y BBC, o newyddion lleol i BBC Radio 5 live. Nododd yr orsaf 30 mlynedd ers ei sefydlu y flwyddyn hon, a lansiodd raglen gwleidyddiaeth newydd gyda Matt Chorley.

Roedd gan BBC News ran bwysig i'w chwarae hefyd yn ystod etholiad a holltodd farn yn yr UD, yn enwedig pan oedd y gohebydd Gary O'Donoghue ar lawr gwlad i adrodd ar foment ddiffiniol yn yr ymgyrch etholiadol: yr ymgais i ladd Donald Trump, gyda thystiolaeth gan lygad-dyst hanfodol – yn yr hyn a ddisgrifiwyd gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol (RTS) fel 'dosbarth meist'r mewn newyddiaduraeth'.

Mae'r dull hwn o barch a didueddrwydd yn golygu mai'r BBC yw'r brand newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr UD.

Mae BBC News yn parhau i sicrhau bod didueddrwydd yn rhan hanfodol o'i arlwy i gynulleidfaoedd – yng ngeiriau'r ymgyrch 'Trust is Earned'; 'if you know how it's made, you can trust what it says'.

Gwneir hyn yn fwyaf arwyddocaol drwy BBC Verify, a ehangodd ei weithrediadau y flwyddyn hon, gan gynnwys US Verify ar gyfer yr etholiad arlywyddol.

Gwnaethom hefyd gyflwyno nodwedd 'rhinweddau cynnwys' – dyfais newydd sbon sy'n galluogi defnyddwyr i weld sut mae'r BBC wedi gwirio a dilysu bod y delweddau a ddefnyddir ganddo yn ddilys.

Mae BBC Verify wedi cael effaith ar gynulleidfaoedd: canfu ymchwil Ofcom mai BBC Verify yw'r wefan gwirio ffeithiau sydd fwyaf tebygol o gael ei defnyddio gan oedolion yn y DU.

Roedd arbenigedd rhyngwladol y BBC, yn enwedig drwy ei wasanaethau iaith, yn golygu y gellid cael darllediadau cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa o etholiadau mewn rhannau eraill o'r byd, gan gynnwys India, democratiaeth fwyaf y byd; Mecsico; Pacistan a De Affrica.

Parhaodd newyddiadurwyr BBC World Service i ganfod gwirionedd, yn aml gan ohebu o wledydd lle mae rhyddid y cyfryngau dan fygythiad cynyddol.

Datgelodd newyddiaduraeth data drylwyr gan newyddiadurwyr BBC News Russian wirioneddau am y gost ddynol i Rwsia yn sgil ei ymosodiadau ar raddfa fawr ar Wcráin, a'r ffordd y mae'r rhai sydd wedi'u cyhuddo o droseddau yn cael eu hanfon i ryfel, yn lle i garchardai.

Yn aml, mae ein gohebwy'r ar lawr gwlad lle nad oes rhai eraill. Rhoddodd newyddiadurwyr BBC News Arabic sylw i gwmp Arlywydd Assad, i gynulleidfaoedd ledled y byd ac yn y DU. Yn sgil y digwyddiadau dramatig hynny, rydym yn cynnig wasanaethau radio Arabaidd gwell i Syria, gan roi gwybodaeth hanfodol pan fydd ei hangen fwyaf.

A dangoswyd gwerth newyddiaduraeth BBC World Service i dalwyr ffi'r drwydded yn y DU pan gyrhaeddodd tîm bach o newyddiadurwyr BBC News Burmese Mandalay i roi sylw i ganlyniadau'r daeargryn trychinebus i'r byd cyfan.

Flwyddyn i mewn, parhaodd y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol i fod yn bwnc sy'n polareiddio ac yn rhannu, ac mae'r BBC yn parhau â'i ymdrechion i adrodd yn ddiduedd ac yn deg, er gwaethaf y ffaith nad yw newyddiadurwyr rhyngwladol yn cael eu gadael i mewn i Gaza.



DOD Â FFACTORAU AMGYLCHEDDOL YN FYW

Ni yw'r dewis cyntaf, ar unrhyw lwyfan, i gyfryngau sy'n darparu cynnwys dibynadwy y gellir uniaethu ag ef ar bynciau amgylcheddol yn y DU, 33% pwynt o flaen ffynonellau amgen. Mae ein darllediadau Newyddion a Materion Cyfoes yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth ddiduedd yn fyd-eang – o adroddiadau ar y llinell flaen ar y tanau gwyllt yn LA i ddatgelu cytundebau tanwydd ffosil yn COP29 a llinyn rhaglen ddogfen defnyddwyr *What They Really Mean for You*. Mae ein cynnwys sain, gan gynnwys *Rare Earth* a *The Climate Question*, wedi rhoi archwiliadau manwl ar y materion sy'n cyfrif; mae ein cynnwys Addysg yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr sy'n casglu data, gyda phrosiectau micro:bit ar fioamrywiaeth a mapio tymheredd arwyneb; ac mae ein cynnwys Hanes Naturiol byd-enwog yn parhau i ddifyrru miliynau – gyda'r bennod gyntaf o *Asia* yn cael ei gwyllo gan gyfartaledd o wyth miliwn.

① ②



Darlledwyd rhaglen deledu'r BBC ar ganlyniadau etholiad yr UD dros nos o Washington DC dan arweiniad Caitriona Perry a Sumi Somaskanda



ASTUDIAETH ACHOS: ETHOLIAD CYFFREDINOL 2024

Sicrhodd BBC News fod pleidleiswyr y DU yn rhan ganolog o'i ddarllediadau o Etholiad Cyffredinol y DU, gyda menter *Your Voice, Your Vote* yn gwahodd cynulleidfaoedd i gymryd mwy o ran yn y pynciau a gwmpaswyd. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, cwmpasodd y BBC bynciau a fyddai wedi cael eu colli fel arall, o beilonau trydan i wasanaethau bws gwledig.

Helpodd adborth *Your Voice, Your Vote* hefyd i lywio cyfweiliadau â gwleidyddion, wrth i Nick Robinson holi pob un o arweinwyr y pleidiau mewn rhaglenni arbennig o *Panorama*.

Mewn tair dadl rhwydwaith a rhaglen arbennig o *Question Time*, gwelwyd cynulleidfaoedd yn gofyn cwestiynau yn uniongyrchol i arweinwyr gwleidyddol o leoliadau ledled y DU, gyda dadleuon penodol ychwanegol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Trodd mwy nag wyth o bob deg oedolyn yn y DU at y BBC i gael canlyniadau'r etholiad ar draws pob llwyfan, gan roi'r BBC ymhell ar y blaen i'r gystadleuaeth, a dywedodd mwy na phedwar o bob deg mai'r BBC oedd yr unig le y byddent yn troi ato i gael darllediadau canlyniadau diduedd, mwy na phum gwaith yn fwy na'r darparwr agosaf nesaf.

1 4

Y Prif Weinidog Syr Keir Starmer yn cael ei gyfweld yn Ystafell Cabinet Downing Street ar gyfer *Sunday with Laura Kuenssberg*

Yn erbyn cefndir o newyddion ffug a chynllwynion, y flwyddyn hon darlledwyd *Whose Truth?*, cyfres amlieithog ac aml-lwyfan gan BBC World Service yn archwilio camwybodaeth ar draws faterion gan gynnwys brechiadau a newid hinsawdd. Mae'r gyfres yn rhan o bartneriaeth BBC World Service â Gwobr Nobel, a gynlluniwyd i sicrhau bod ymchwil a gwaith enillwyr Nobel yn hygyrch ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd byd-eang, gan ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol drwy adrodd straeon.

Yn fwy eang, mae ein ffocws ar roi cynulleidfaoedd yn gyntaf hefyd yn golygu ymateb i arferion newidiol mewn defnydd o newyddion. Rydym wedi cyhoeddi ein bod yn ail-lunio ystafell newyddion y BBC i symud y tu hwnt i'r rhaniad digidol/darlledu er mwyn dod wir yn un sefydliad golygyddol.

Mae hyn hefyd yn golygu sicrhau bod y gorau o newyddiadau'r BBC ar gael yn rhwydd a bod cynulleidfaoedd ar-lein yn cael eu cyfeirio ato. Cafodd dadansoddiadau a sylwebaeth gartref digidol newydd pan lansiwyd BBC InDepth, llinyn sy'n cynnal y gorau o'n hysgrifennu o ansawdd.

Mae ffigurau cynulleidfaoedd yn dangos twf ein gwasanaethau digidol. Ap newyddion y BBC yw'r prif ap newyddion yn y DU bellach ar gyfer cyrhaeddiad misol; gwnaeth nifer y cynulleidfaoedd wythnosol i ffrydiau newyddion byw ar iPlayer ddyblu bron y flwyddyn diwethaf, ac mae mwy na thraean o oedolion yn y DU yn defnyddio BBC News online bob wythnos ar gyfartaledd.

Gohebydd Gwleidyddol BBC News, Leila Nathoo, yn aros i Syr Keir Starmer gyrraedd Rhif 10 Downing Street ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU

Rhif 1

Y BBC yw'r gorau am Ymddiriedaeth, Dibynadwyedd ac Annibyniaeth ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol. Ffynhonnell BBC Brand Tracker (ac eithrio'r DU)

8/10

Trodd mwy nag wyth o bob deg oedolyn yn y DU at y BBC ar draws pob llwyfan i gael canlyniadau Etholiad Cyffredinol y DU





Canfod gwirionedd heb unrhyw agenda
drwy adrodd yn ddi-ofn ac yn deg.

Archwiliodd Idris Elba: *Our Knife Crime*
Crisis realiti troseddau cyllyll yn y DU



Ar draws y DU, parhaodd timau newyddion lleol i gysylltu â chymunedau â'r materion oedd o bwys iddynt. Cafwyd 6.4 biliwn o ymweliadau â thudalennau ar gyfer cynnwys cenedlaethol a rhanbarthol ar BBC News online, gyda straeon mawr fel y lladdiadau â bwa croes yn Bushey a'r ddamwain llong cargo ym Môr y Gogledd. Cynyddodd y traffig wythnosol cyfartalog i England Local News Online i 16.9 miliwn o ymweliadau unigryw yn 2024/25, i fyny o 14.8 miliwn yn 2023/24.

Mewn mannau eraill, mae'r Partneriaethau Newyddion Lleol – cydweithrediad rhwng y BBC a'r diwydiant newyddion rhanbarthol yn y DU i gefnogi gohebu gwasanaeth cyhoeddus, cynnal democratiaeth leol a gwella sgiliau mewn newyddiaduraeth – wedi cyrraedd ei wythfed flwyddyn, gan gefnogi newyddiaduraeth mwy na 220 o bartneriaid cyfryngau rhanbarthol ar draws pedair gwlad y DU. Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 cyflawnodd fwy na 74,000 o straeon sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd drwy'r Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Leol.

Mae newyddiaduraeth ymchwiliol y BBC wedi ffynnu y flwyddyn hon, gyda datgeliadau treiddiol fel yr ymchwiliad i Mohammed al-Fayed a enillodd wobrau, a roddodd lais i'w

ddioddefwyr honedig ac a gafodd effaith ledled y byd. Mae Harrods bellach wedi lansio cynllun iawndal.

Cafwyd dilyniannau eraill i straeon arwyddocaol, gan ddangos bod newyddiaduraeth y BBC yn cael effaith hirdymor. Cafodd cyn-fôs Abercrombie and Fitch, Mike Jefferies, y cafodd ei droseddau honedig eu datgelu gan y gohebydd ymchwiliol Rianna Croxford, ei arestio a'i gyhuddo o ganlyniad i'w hadroddiadau, ac arweiniodd *India's Opioid Kings* gan BBC Eye, a ddatgelodd y broses anghyfreithlon o allforio opioidau didrwydded, bron yn syth at wahardd y ddau gyffur gan awdurdodau yn India.

74%

yr oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos ar gyfartaledd



ASTUDIAETH ACHOS:
NEWSNIGHT

Bron blwyddyn ers y broses o ailffurfio *Newsnight* fel rhaglen ddadlau, trafod a chyfweld yn hwyr yn y nos, mae'r teitl wedi cael bywyd newydd, ac mae'n boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd.

Mae'r tîm cyflwyno, dan arweiniad Victoria Derbyshire, wedi bod yn cynnal cyfweiliadau sy'n gosod yr agenda ac yn cadeirio paneli bywiog yn dadansoddi materion y dydd.

Mae'r gynulleidfa gyfartalog dros saith diwrnod wedi cynyddu ychydig dros draean ar draws pob sianel, a bron 70% ar iPlayer yn unig.

Ymatebodd y fformat diwygiedig i ymddygiad newidiol cynulleidfaoedd ynghyd â sefyllfa ariannol y BBC ac, yn hanfodol, gwrandawdd ar adborth gan gynulleidfaoedd ynghylch yr hyn y maent yn ei werthfawrogi gan *Newsnight*.

Yn y cyfamser, mae newyddiadurwyr a weithiodd ar y fersiwn flaenorol o'r rhaglen wedi bod yn cael effaith ar draws BBC News yn fwy eang, o Ben Chu yn BBC Verify i uwch-ohebydd y DU Sima Kotecha a Joe Pike, gohebydd gwleidyddol ac ymchwiliadau.

1 4

Chwaraeodd rhaglenni dogfen y BBC ran bwysig yn archwilio materion amserol sy'n llywio ein byd. Rhoddodd *Hell Jumper*, y ffilm a enwebwyd am wobr RTS olwg newydd ar stori'r rhyfel yn Wcráin drwy lygaid grŵp o wirfoddolwyr ifanc, ac yn *Idris Elba: Our Knife Crime Crisis*, gwelwyd yr actor a'r ymgyrchydd yn wynebu realiti troseddau cyllyll yn y DU, gan siarad â'r rheini yr effeithir arnynt fwyaf o'r strydoedd i'r system. Ar BBC Radio 4, wrth i'r genedl drafod gwrywdod, cynhaliodd y rhwydwaith wythnos arbennig o raglennu ar *Boys*, gan archwilio'r heriau sy'n wynebu dynion ifanc, thema y tynnwyd sylw ati hefyd gan Gareth Southgate, a gyflwynodd y *Richard Dimbleby Lecture* ar gyfer 2025.

Bu rhaglenni dogfen hefyd yn edrych yn ôl i'n gorffennol diweddar. Ugain mlynedd ers y digwyddiad, roedd 7/7: *The London Bombings* yn adrodd hanes diffiniol y bomio hunanladdol cyntaf yn Lloegr a chafwyd tystiolaeth gan fwy na 50 o bobl yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol. Datgelwyd canlyniadau trychinebus ras Prydain i fod yn bŵer niwclear byd-eang hefyd drwy dystiolaeth bersonol yn *Britain's Nuclear Bomb Scandal: Our Story*.

Tim cyflwyno *Dars Afghan*

220

Mae'r Bartneriaeth Newyddion Lleol, sydd bellach yn ei wythfed flwyddyn, yn cefnogi newyddiaduraeth mwy na 200 o sefydliadau'r cyfryngau ym mhedair gwlad y DU.

Cyflwynodd dwy raglen ddogfen wych a dirdynnol Storyville adroddiadau ar agweddau gwahanol iawn ar y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol. Defnyddiodd *Surviving October 7th: We Will Dance Again* dystiolaeth goroeswyr, CCTV a fideos ar ffônau symudol i roi cyfrif munud wrth funud o'r adeg y trodd Gŵyl Gerddoriaeth Nova yn gyflafan. Archwiliodd *Life and Death in Gaza*, a enwebwyd am bedair gwobr BAFTA, effaith y rhyfel ar bedwar unigolyn cyffredin o Gaza, gan ddogfennu blwyddyn yn eu bywydau yng nghanol argyfwng dyngarol enbyd.

Yn olaf, mae'r 'pwerdy rhaglenni yn ystod y dydd' yn Salford wedi mynd o nerth i nerth, gyda *News at One* sydd wedi'i lleoli yn Salford bellach yn tyfu mwy na hanner miliwn ers ei ail-lansio.

Ehangodd cymydog *News at One* yn Salford, sef *BBC Breakfast* ei gynulleidfa, gydag uchafbwyntiau yn cynnwys rhaglen arbennig ar Swyddfa'r Post a enillodd wobwr BAFTA, gan ddwyn ynghyd ddwsinau o bostfeistri yr effeithiwyd arnynt gan sgandal Horizon.

Datblygodd y rhaglen i gynnwys rhaglenni dogfen hefyd, gan ganolbwyntio ar ymdrechion elusennol anhygoel teulu Rob Burrows y chwaraewr rygbi'r gynghrair a'i ffrind Kevin Sinfield; a dewrder Chris Hoy a'i deulu.

Ar draws y DU a ledled y byd, mae newyddiaduraeth y BBC yn ceisio canfod gwirionedd.



ASTUDIAETH ACHOS: INTRIGUE: TO CATCH A SCORPION

Yn y podllediad a enillodd wobrau (Prix Europa, Prix Italia) *Intrigue: To Catch a Scorpion* ar BBC Radio 4 clywyd am ymchwiliad y gohebydd ymchwiliol Sue Mitchell a'r cyn-filwr Rob Lawrie i fynd at wraidd gang troseddau cyfundrefnol a oedd yn gwneud miliynau drwy gludo miloedd o fudwyr i'r DU. Gwelsant y gweithrediad ar waith a buont yn recordio wrth i sefyllfaoedd dwys ddatblygu, lle'r oedd pobl agored i niwed a oedd yn dyheu am ddyfodol gwell yn rhoi eu bywydau yn nwylo troseddwyrr peryglus.

Cyfaddefodd Barzan Majeed, a elwir yn 'Scorpion', i smyglo miloedd o fudwyr ar draws Sianel Lloegr mewn cychod bach a lorïau. Cafodd ei euogfarnu yn ei absenoldeb gan lys Belgaid ond roedd yn rhydd o hyd. Yn y gyfres a gafodd gryn ganmoliaeth, gwelwyd y pâr yn wynebu 'Scorpion' ar ôl ei olrhain i Irac yn dilyn ymchwiliad eang i ddatgelu ei leoliad.

Mae wedi cael ei arestio ers hynny, ac mae'r gyfres yn parhau er mwyn helpu i lywio ffordd o feddwl y llywodraeth ar fynd i'r afael â gangiau sy'n smyglo.

1 3



ASTUDIAETH ACHOS: DARS

Ehangodd BBC World Service ei rôl addysgol, a pharhaodd â'i ymrwymiad i ddod â gwasanaethau hanfodol i gynulleidfaoedd mewn sefyllfaoedd o argyfwng, drwy lansio *Dars Arabic*.

Mae o leiaf 30 miliwn o blant allan o'r ysgol yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica, ac mae gwrthdaro ac argyfyngau yn y rhanbarth wedi effeithio'n andwyol ar fynediad i addysg.

Mae *Dars*, sy'n golygu 'gwrs' yn Arabeg, yn defnyddio cynnwys ac arbenigedd BBC Education a BBC Learning English i gynnig gwrs i blant 11-16 oed mewn pynciau ysgol, ynghyd â gwrs iechyd meddwl a ddatblygwyd â seicolegwyr gwrthdaro arbenigol.

Caiff *Dars Arabic* ei ddarlledu o ganolfan y BBC yng Nghairo gan dîm o gyflwynwyr ifanc o bob cwr o'r rhanbarth. Mae'n adeiladu ar lwyddiant ei chwaer raglen o'r un enw yn Affganistan, sydd wedi'i anelu at blant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol.

Dywedodd un gwyliwr Affganaid, 'Amena' (nid ei gwir enw) hyn wrth y cynhyrchwyr: "Drwy wyllo *Dars*, llwyddais i beidio bod ar ei hôl hi gyda'm hastudiaethau, ond hefyd, dysgais fwy a dod yn gryfach mewn rhai pynciau fel mathemateg, y cefais fwy o ddiddordeb ynddo.

"Mae straeon ysbrydoledig menywod ledled y byd hefyd wedi gwneud i mi sylweddoli beth sy'n bosibl, ac y dylwn ddal ati."

1 5



Newyddiadurwyr y BBC, Sue Mitchell a chyn-filwr a gweithiwr cymorth Rob Lawrie yn cyflwyno *Intrigue: To Catch a Scorpion*



Canfod gwirionedd heb unrhyw agenda drwy adrodd yn ddi-ofn ac yn deg.

YN EU GEIRIAU



Gary O'Donoghue

Prif Ohebydd Gogledd America, BBC News

Roedd Gary yn darlledu'n fyw o rali Trump yn Pennsylvania pan gafodd yr ymgeisydd arlywyddol ei saethu.

Pan oeddem yn gwrandao ar Donald Trump yn siarad o'n safle byw ychydig y tu allan i'w rali, gellid clywed sŵn y dryll yn glir. Gwnaethom syrthio i'r llawr ar unwaith. Ac yna sylweddolais na allem glywed Trump yn siarad mwyach.

Wrth i'w gefnogwyr lifo allan, gwnaethom eu stopio a'u cyfweld, gan gydbblethu'r stori yn fyw ar yr awyr am y pum awr nesaf. Roedd y rhan fwyaf yn gwybod am y BBC ac yn ymddiried ynom ddigon i rannu'r hyn a welsant. Nid oedd rhai yn gwerthfawrogi ein presenoldeb, fel y dyn a geisiodd ein tynnu oddi ar yr awyr drwy sefyll rhyngof fi a'm dyn camera.

Un dyn a siaradodd oedd Greg Smith, a gyflwynwyd i mi gan fy nghynhyrhydd Iona Hampson, ac roedd ganddo stori ryfeddol i'w hadrodd am y ffaith ei fod wedi gweld y saethwr yn cropian ar draws to, a'i fod wedi ceisio'n ofer i rybuddio'r gwasanaethau diogelwch. Aeth yn feiral, a chafodd ei wyllo filiynau o weithiau ar X yn unig, a'i ddefnyddio gan bob rhwydwaith yn America.

Mae'r BBC yn ymdrechu'n galed i adeiladu ei gynulleidfaoedd yn yr UD, ac mae'r math hwn o newyddiaduraeth yn ein helpu i wneud hynny.

BBC World Service yw fy ngorsaf ddewisol o hyd. Mae'n adrodd i'r byd, ond hefyd am y byd, yn glir ac yn bwrpasol.

Dyma ble mae newyddiaduraeth gwasanaeth cyhoeddus ar ei orau: yn egwyddorol, yn ddibynadwy ac yn angenrheidiol.

Y Farwnes Helic

Chris Cook

*Cyfarwyddwr Dylunio – BBC
Media Operations (Llundain)*

Cyfarwyddodd Chris ddarllediadau'r BBC ar noson etholiad 2024, a wylwyd gan fwy na 19 miliwn.

Pan safodd Rishi Sunak yn Downing Street yn y glaw a galw'r etholiad, roeddem yn gwybod mai chwe wythnos oedd gennym ni! Buom yn gweithio ddydd a nos gyda'r holl dimau o ganlyniadau, peirianeg a dylunio i greu rhaglen etholiad fodern. Rwyf wedi cyfarwyddo dwy raglen Etholiad Cenedlaethol bellach ac, fel y cyfarwyddwr, rydych yng nghanol y storm – yn ceisio peidio cynhyrfu ac aros yn bwylllog ac ymddiried ym mhob aelod o'r tîm i wneud ei waith. Wrth gwrs, roeddem yn ymarfer, ond nid oes dim yn cael y galon i guro fel y foment honno pan mae Big Ben yn taro deg!

Mae'r teimlad o falchder yn anhygoel wrth wyllo'r torfeydd yn ymgasglu y tu allan i'r Ganolfan Ddarlledu i weld y polau ymadael yn cael eu taflunio ar y blaen a gwyllo grwpiau enfawr yn ymgasglu mewn partïon etholiadol yn yr oriau wedi hynny.

Mae gwybod bod yr hyn rydych yn ei wneud ar yr union foment honno yn cael ei ddefnyddio gan filiynau ledled y DU yn rhywbeth sy'n unigryw i'r BBC.



EU HUNAIN

Y Farwnes Helic

Tŷ'r Arglwyddi

Mae'r Farwnes Helic yn gyn-gynghorydd arbenigol i'r Ysgrifennydd Tramor.

Mewn byd sydd wedi'i lywio gan dwyllwbyodaeth, rhaniadau a gwrthdaro, o'r rhyfeloedd yn Wcráin a Gaza i'r dadleoli yn Sudan, yr heriau yn y Balcanau a'r trais yn nwyrain Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, mae'r BBC yn llais prin a dibynadwy o hyd. Mae ei ymrwymiad i ffeithiau a didueddrwydd yn bwysig o hyd.

Bob wythnos, mae 453 miliwn o bobl, 1 o bob 18 o bobl yn fyd-eang, yn troi at y BBC. Mewn llefydd lle mae rhyddid y wasg dan fygythiad ac mae propaganda yn dominyddu, mae'r math hwnnw o ohebu annibynnol yn fwy na newyddion. Mae'n gysylltiad â'r byd ehangach.

Fel rhywun sydd wedi treulio llawer o'm bywyd yn gweithio ar bolisiau tramor a materion rhyngwladol, ac sy'n galw Llundain yn gartref, BBC World Service yw fy ngorsaf ddewisol o hyd. Mae'n adrodd i'r byd, ond hefyd am y byd, yn glir ac yn bwrpasol.

Dyma ble mae newyddiaduraeth gwasanaeth cyhoeddus ar ei orau: yn egwyddorol, yn ddibynadwy ac yn angenrheidiol.





Canfod gwirionedd heb unrhyw agenda
drwy adrodd yn ddi-ofn ac yn deg.


YSTADEGAU ALLWEDDOL



Ar y tudalennau hyn, rydym yn darparu
data i ddangos effeithlonrwydd y gwaith
a wnawn i ganfod gwirionedd heb
unrhyw agenda.

Y DARPARWR CYFRYNGAU YR YMDDIRIEDIR YNDDO FWYAF

O holl ddarparwyr y cyfryngau yn y DU, pa UN darparwr sy'n
gwneud y mwyaf i gynnig adroddiadau a chynnwys cywir lle
mae'r ffeithiau wedi'u gwirio y gall pobl ymddiried ynddynt?



Ffynhonnell: Yonder, 1,047 UK adults 18+

63%

23/24 59%

% YR OEDOLION YN Y DU SYDD O'R FARN
BOD Y BBC YN EFFEITHIOL O RAN DARPARU
NEWYDDION A MATERION CYFOES SY'N GWIR

(Aneffeithiol: 17%. 23/24 19%)

Ffynhonnell: Ipsos UK 16+

62%

23/24 57%

% YR OEDOLION YN Y DU SYDD O'R FARN BOD Y
BBC YN EFFEITHIOL O RAN DARPARU NEWYDDION
A MATERION CYFOES SY'N DDIBYNADWY

(Aneffeithiol: 20%. 23/24 21%)

Ffynhonnell: Ipsos UK 16+

50%

23/24 45%

% YR OEDOLION YN Y DU SYDD O'R FARN BOD Y
BBC YN EFFEITHIOL O RAN DARPARU NEWYDDION
A MATERION CYFOES SY'N DDIDUEDD

(Aneffeithiol: 25%. 23/24 28%)

Ffynhonnell: Ipsos UK 16+

74%

23/24 75%

CYRHAEDDIAD WYTHNOSOL BBC NEWS YN Y DU

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK 16+

453m

23/24 450m

CYRHAEDDIAD WYTHNOSOL BYD-EANG

Yn cynnwys BBC News a BBC Studios

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

Rhif 1

Y GORAU AM YMDDIRIEDAETH, DIBYNADWYEDD AC ANNIBYNIETH

Ymysg darparwyr newyddion rhyngwladol

Ffynhonnell: BBC Brand Tracker (ac eithrio'r DU)

418m

23/24 414m

CYRHAEDDIAD WYTHNOSOL BBC NEWS INTERNATIONAL

Ffynhonnell: Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

43%

MAE GWNEUTHURWYR PENDERFYNIADAU BUSNES BYD-EANG SY'N DEFNYDDIO'R BBC 43% YN FWY TEBYGOL O FUDDSODDI YN Y DU O GYM HARU Â RHAI NAD YDYNT YN EI DDEFNYDDIO

Ffynhonnell: Tapestry

CYRHAEDDIAD WYTHNOSOL BBC WORLD SERVICE AR BOB LLWYFAN, FESUL GWASANAETH

	2024/25 miliynau	Newid o un flwyddyn i'r llall %
World Service	312.8	-2.3
World Service Saesneg	80.7	-4.1
Afaan Oromoo	1.7	8.2
Afrique	15.5	-3.3
Amhareg	1.9	1.9
Arabeg	39.5	12.8
Azeri	1.2	75.8
Bengaleg	10.2	18.1
Brasil	7.4	28.3
Byrmaneg	3.1	-1.9
Coreaidd	1.1	51.5
Dari	1.5	-8.7
Dysgu Saesneg	2.5	5.1
Fietnameg	2.7	203.6
Gujarati	3.3	1.0
Hawsa	19.9	-0.5
Hindi	25.1	-36.2
Igbo	0.1	-42
Indoneseg	2.3	23.4
Kyrgyz	3.1	-0.3
Marathi	5.2	-11.6
Mundo	8.8	1.3
Nepali	4.9	0.9
Pashto	4.0	-5.7
Perseg	23.6	37.7
Pidgin	0.8	-2.3
Punjabi	1.3	-24.5
Rwsieg	4.4	17.4
Saesneg Affricanaidd	18.6	-0.5
Serbaid	0.6	-12.6
Sinhala	0.3	-10.5
Somali	3.5	-28.5
Swahili	27.9	-5.9
Tamil	12.1	1.0
Telugu	6.5	-9.8
Thai	1.3	40.6
Tigrinya	0.3	-1.3
Tsieinëeg	2.0	-8.1
Twrc	2.5	19.2
Wcreineg	3.0	-26.1
Wrdw	3.0	7.7
Wsbeg	1.2	-27.9
Y Llynnoedd Mawr	0.7	-60.7
Yoruba	0.5	-58.7

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn mesur faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (teledu, radio, gwefan a chyfryngau cymdeithasol). Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h.y. sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfansymiau lefel uchaf. Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service.



CEFNOGI'R PROSES AU ADRODD



STRAEON
CARTREF
GORAU*



...drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig

Er mwyn cynnig gwerth i bob talwr ffi'r drwydded, rhaid i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a rhannu straeon o bob rhan o'r DU a sicrhau bod ein heffaith economaidd yn cael ei themlo ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

Heddiw, mae'r BBC yn buddsoddi mwy mewn creadigrwydd Prydeinig gwreiddiol nag unrhyw un arall, gan gadw economi greadigol y DU yn gryf a chefnogi talent newydd ar draws y sector. Y straeon sy'n dathlu ein diwylliant a'n cymunedau yw'r straeon y mae ein cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi fwyaf, eto maent hefyd mewn perygl o gael eu gwasgu allan o dirwedd fyd-eang heddiw sy'n eithriadol o gystadleuol.

Mae'r dewis hwn sy'n ymddangos yn ddiddiwedd yn golygu bod gennym fynediad i amrywiaeth anhygoel o gyfryngau o bob cwr o'r byd, gan gynnwys rhaglenni sy'n cynrychioli'r prosesau adrodd straeon byd-eang gorau. Wrth sicrhau manteision i ddefnyddwyr, mae'r newid hwn hefyd yn golygu ein bod mewn perygl o alluogi diwydiannau creadigol y DU sydd o'r radd flaenaf i gael eu tanseilio, gan leihau ein hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a'i dylanwad a'i gwerth allforio hynod ledled y byd.

Dyna pam y mae'n bwysicach nag erioed bod y BBC yn adrodd straeon Prydeinig dilys sy'n portreadu profiadau a bywydau pobl ar draws y DU; straeon sy'n atgyfnerthu ein seiliau diwylliannol gartref ac yn taro deuddeg gyda chynulleidfaoedd dramor. Dyna pam rydym wedi parhau i arwain y ffordd y flwyddyn hon drwy fuddsoddi mewn cynnwys Prydeinig gwreiddiol a manteisio ar y dalent greadigol orau o bob cwr o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae nod y BBC o ddarparu cynnwys Prydeinig o ansawdd uchel i bob cynulleidfaoedd hefyd yn cynnwys ein harlwy dysgu ffurfiol a chynnwys i blant, sy'n ffurfio conglfaen y cyfryngau i blant yn y DU ac sy'n rhoi dealltwriaeth i bobl ifanc o'u gwlad a thu hwnt.

Yn y byd sydd ohoni sy'n newid yn gyflym, mae llawer yn y fantol o ran cynnwys cartref sy'n adrodd straeon unigryw gwledydd a rhanbarthau'r DU, sy'n gwasanaethu anghenion y cyhoedd ym Mhrydain o bob cefndir ac oedran, ac sy'n ategu cryfder ein heconomi greadigol.

Fel y dangosir yn y tudalennau hyn, mae ymrwymiad y BBC i gefnogi prosesau adrodd straeon cartref yn unigryw o ran ei uchelgais, ei faint a'i effaith.

Sophie Wilian yw awdur a seren *Alma's Not Normal*, sydd wedi ennill BAFTA



Cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig.



ASTUDIAETH ACHOS:
BLUE LIGHTS YN RHOI HWB
I ECONOMI CREADIGOL
GOGLEDD IWERDDON

Tynnodd adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd sylw at gyfraniad economaidd y BBC i Ogledd Iwerddon, gyda chanfyddiadau'n dangos bod *Blue Lights*, y ddrama boblogaidd, wedi rhoi hwb o £20 miliwn i'r economi dros y ddwy gyfres gyntaf. Dychwelodd y ddrama heddlu sydd wedi'i lleoli yn Belfast i'r sgrin yn 2024 gan gyflwyno stori ddilys, gyffrous sy'n cynnwys hiwmor tywyll am bobl gyffredin sy'n gwneud gwaith eithriadol. Cyhoeddwyd yr adroddiad i gyd-fynd â dathliadau canmlwyddiant y BBC yng Ngogledd Iwerddon, ac mae'n dangos effaith gadarnhaol y BBC ar y broses o ddatblygu'r diwydiannau creadigol a'r sector cynhyrchu annibynnol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Yn y broses o gynhyrchu *Blue Lights*, gwariwyd mwy nag 80% o'r gyllideb cynhyrchu ar gyfer y ddwy gyfres gyntaf o fewn Gogledd Iwerddon, roedd 83% o'r cast naill ai wedi'u geni yng Ngogledd Iwerddon neu'n byw yno, ac roedd mwy nag 87% o'r criw yn lleol.

3 4



Jenna Coleman yn y ddrama drosedd *The Jetty*

Roedd ein ffocws ar adrodd straeon cartref yn bwynt gwahaniaeth hanfodol rhwng y BBC a darparwyr cyfryngau byd-eang yn 2024/25, gan arwain at gynulleidfaoedd enfawr ar gyfer rhaglenni fel *Wolf Hall: The Mirror and the Light*, *Mr Loverman*, *Industry*, *The Jetty*, *Ludwig*, ac *Inside No. 9*, yn ogystal â phrif wobrau ar gyfer *Horrible Histories*, *Wallace & Gromit* ac *EastEnders*. Roeddem yn gartref i gomedï Prydeinig gyda llwyddiannau fel *Alma's Not Normal*, *Mammoth*, *Amandaland* ac *Am I Being Unreasonable?* Ac wrth wraidd ein harlwy mae'r rhaglenni sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yng ngwledydd a rhanbarthau nodedig y DU, fel *Lost Boys and Fairies*, *Shetland*, *Sherwood* a *Blue Lights*. Gyda'i gilydd, cafodd blwyddyn o greadigrwydd eithriadol ei chydhabod yng Ngwobrau Teledu BAFTA gan ennill 18 o wobrau allan o gyfanswm o 27 o gategorïau cystadleuol ar gyfer y BBC, mwy nag unrhyw ddarlledwr neu ffrydiwr arall.

Drwy ymroi ein hunain i'r straeon sy'n arddel ein hunaniaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol, cadwodd y BBC ei safle fel y buddsoddwr unigol mwyaf o ran rhaglenni a wnaed yn y DU. Dyma'r grym sy'n ysgogi newid parhaus mewn prosesau cynhyrchu cynnwys, arweinyddiaeth olygyddol a gwneud penderfyniadau oddi wrth Lundain i'n canolfannau rhanbarthol, gan greu gweithgarwch economaidd a sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd ledled y DU. Er enghraifft, dechreuodd y broses o gynhyrchu ffefrynnau'r gynulleidfa *Silent Witness* a *MasterChef* o safleoedd newydd yn Birmingham, ac mae BBC Radio 1Xtra a BBC Asian Network wedi cynyddu eu presenoldeb yn y ddinas, gan helpu i drawsnewid effaith y BBC yng Nghanolbarth Lloegr.

Gwnaethom hefyd ailymrwmo ein hunain i sicrhau cynrychiolaeth a dilysrwydd gwell ar yr awyr ac oddi ar yr awyr yn ein cynnwys fel rhan o'r strategaeth Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn a bennwyd gennym y flwyddyn hon. Mae'r cynllun yn adeiladu ar ein buddsoddiad amrywiaeth creadigol blaenorol a arweiniodd y diwydiant a alluogodd y BBC i gyflwyno rhaglenni gyda chynhwysiant a phortreadau dilys wrth eu craidd, fel *Boarders*, *We Might Regret This*, *Waterloo Road*, *Nikhil & Jay* ar CBeebies a *Brown Girls Do It Too* ar BBC Sounds.

Mae'r BBC hefyd yn bartner balch wrth gefnogi statws Bradford fel Dinas Diwylliant y DU yn 2025, gan gynhyrchu cynnwys a darllediadau nodedig ar y teledu, ar y radio ac ar-lein. Dechreuodd y dathliadau ar ddechrau mis Ionawr gyda darllediadau o *RISE*, sef seremoni agoriadol arbennig a gynhaliwyd yng nghanol y ddinas a ddechreuodd 12 mis trydanol o greadigrwydd, diwylliant a'r celfyddydau.



CYNALIADWYEDD
WRTH ADRODD
STRAEON

O integreiddio'r trawsnewidiad egni yn ail gyfres *Sherwood* i straeon am droseddau bywyd gwyllt yn *Highland Cops*, rydym wedi darparu prosesau adrodd straeon cymhellol a dilys sy'n dod â phynciau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a natur yn fyw mewn cyd-destun Prydeinig, i bob cynulleidfa. Rhoddodd y podlediadau *Buried* a *The Toxic Waste Scandal* lens troseddau gwirioneddol i straeon llygredd yn y DU; archwiliodd y gyfres ddogfen *On Thin Ice: Putin v Greenpeace* a'r ddrama *Showtrial* weithrediaeth drwy'r genre cyffro; a defnyddiodd *Randy Feltface's Destruction Manual* a *The Mosquito* gomedï a dychan i roi agwedd newydd ar themâu yr hinsawdd. Yn y cyfamser, archwiliwyd pŵer cerddoriaeth yng nghydweithrediad y BBC gyda Tune into Nature Music Prize yn y DU.

2 3



Dathlwyd 40 mlynedd o *EastEnders* ym mis Chwefror 2025

Drosodd yn Walford, dathlwyd 40 mlynedd o *EastEnders* ym mis Chwefror, rhaglen sydd wedi cael effaith enfawr ar fywyd diwylliannol y DU dros bedwar degawd. Nodwyd y pen-blwydd mawr gydag wythnos o benodau arbennig gan gynnwys darllediad cwbl fyw o Ganolfan y BBC yn Elstree. Talodd BAFTA deyrnged i'r rhaglen hefyd gyda'i Wobr Crefft Teledu Arbennig glodwiw, gan nodi ymrwymiad y rhaglen i feithrin talent newydd.

Ar draws y BBC, bydd datgelu a datblygu talent o bob cwr o'r DU bob amser yn sail i'n hymrwymiad i'r broses o adrodd straeon cartref, gyda mentrau fel BBC Creator Lab, BBC Writers a BBC New Comedy Awards, i gyd yn cefnogi'r genhedlaeth greadigol nesaf. Agorodd ein rhaglen canfod talent a chyflymu ar gyfer y don nesaf o bodledwyr a gweithwyr sain creadigol, BBC Audio Lab, unwaith eto i dderbyn ceisiadau ym mis Ionawr, gan ddychwelyd am ei bedwaredd flwyddyn. Mae gweithwyr creadigol Audio Lab blaenorol wedi mynd ymlaen i ennill gwobrau a chael rolau clodwiw ym mhob rhan o'r diwydiant, gan gynnwys datblygu eu gyrfaedd yn y BBC.

Yn y cyfamser, cynhaliwyd rownd derfynol cystadleuaeth ysgrifennu fwyaf llwyddiannus y BBC i blant, 500 Words, ym Mhalas Buckingham ym mhresenoldeb Ei Mawrhydi Y Frenhines. Cymerodd 44,000 o blant i gyd ran yn y gystadleuaeth, a chyrrhaeddodd 50 y rownd derfynol.

Dangosir ein hangerdd dros ganfod talent newydd yn rhwydwaith BBC Introducing, a ddathlodd bartneriaeth nodedig â lleoliadau diwylliannol ledled Gogledd-ddwyrain Lloegr y flwyddyn hon (fel y nodir yn yr astudiaeth achos).

44,000

Nifer y plant a gymerodd ran yn 500 Words, cystadleuaeth ysgrifennu fwyaf llwyddiannus y BBC i blant

£20m

Rhoddodd y ddrama boblogaidd *Blue Lights* hwb o £20 miliwn i economi Gogledd Iwerddon dros y ddwy gyfres gyntaf



ASTUDIAETH ACHOS: BBC INTRODUCING YN SICRHAU PARTNERIAETH NODEDIG YNG NGOGLEDD- DDWYRAIN LLOEGR

Dathlodd BBC Introducing bartneriaeth nodedig newydd gyda lleoliadau a sefydliadau diwylliannol ledled Gogledd-ddwyrain Lloegr y flwyddyn hon gyda'r nod o ganfod a dangos talent cerddoriaeth newydd o'r rhanbarth. Mae'r fenter yn cydweithio â Chanolfan Cerddoriaeth Ryngwladol Glasshouse, The Fire Station, Cynghrair Cerddoriaeth Tees, Neuadd Tref Middlesbrough a Generator, ac mae'n creu cyfleoedd newydd i artistiaid berfformio mewn gigiau byw, cael cymorth datblygu i artistiaid a chanfod cynulleidfaoedd newydd ar gyfer eu cerddoriaeth drwy rwydwaith BBC Introducing. Mae cyfle hefyd i berfformio yng ngŵyl Stockton Calling ar lwyfan BBC Introducing. Mae'r bartneriaeth yn adeiladu ar ymrwymiad parhaus y BBC i Ogledd-ddwyrain Lloegr, gan gynnwys addewid i fuddsoddi o leiaf £25m mewn datblygu talent a chymorth i'r sector creadigol. Erbyn 2026, rhagwelir y bydd y BBC wedi rhagori ar y targed hwnnw, ar ôl cyfrannu £18.6m mewn gwerth i'r rhanbarth a chreu 293 o swyddi lleol erbyn mis Awst 2024.

3 4



Mae Mr Loverman gyda Lennie James yn ddrama gadarnhaol am fod yn driw i'ch hun



Cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig.



ASTUDIAETH ACHOS: AN T-EILEAN – DRAMA AELEG O'R RADD FLAENAF GYNTAF Y DU

Cynhyrchwyd *An-t-Eilean* (*The Island*) ar gyfer BBC ALBA gan Black Camel Pictures sydd wedi ennill BAFTA a dyma ddrama Aeleg o'r radd flaenaf gyntaf y DU – cyfres lle caiff deialog Aeleg ei chyfuno â'r Saesneg. Mae'r stori llawn troeon sy'n llawn tensiwn am gelwyddau, colled a hen gyfrinachau wedi'i lleoli yn erbyn cefndir godidog Ynysoedd Gorllewinol yr Alban ac mae'n dilyn Swyddog Cyswllt Teuluol ifanc wrth iddi gael ei phenodi i ymchwiliad llofruddiaeth ar ynys Lewis a Harris, a adawodd ddeg mlynedd yn flaenorol. Datblygwyd y gyfres, sy'n rhan o gefnogaeth y BBC ar gyfer ieithoedd lleiafrifol, gyda Screen Scotland ac MG ALBA, gan weithio mewn partneriaeth â'r BBC i ddarparu gwasanaethau Gaeleg yn yr Alban. Mae'r bartneriaeth a adnewyddwyd yn ddiweddar ag MG ALBA yn cefnogi'r iaith, addysg, diwylliant a chymunedau Gaeleg drwy ddarparu cynnwys sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd o bob oedran a cham o ruglder, drwy feithrin sgiliau, cyflogaeth, cyfleoedd gyrfa a thrwy gomisiynu ar draws y sector creadigol.

2 3 4



Cast a chriw *An t-Eilean* yn ffilmio ar Draeth Huisinis ar Ynys Harris

83%

% y bobl ifanc dan 16 oed sy'n defnyddio BBC Bitesize sy'n dweud ei fod yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau'n well

86%

% y defnyddwyr wythnosol (16+) yn y DU sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni creadigrwydd

Mae 'addysgu' wedi bod wrth wraidd diben y BBC ers 100 mlynedd. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom ddathlu canmlwyddiant ers ein darllediad addysg cyntaf erioed. Nodwyd y garreg filltir drwy gyhoeddi buddsoddiad o £6 miliwn yn BBC Bitesize, gyda'r nod o wella'r broses o ganfod cynnwys, gwella ein systemau argymhellion a nodweddion hunan-guradu, a chyd-fynd â strategaeth y BBC o ddefnyddio technoleg addysgol er y gorau gan sicrhau profiad haws ei ddefnyddio i gynulleidfaoedd ar draws ein gwasanaethau. BBC Bitesize yw'r wefan addysgol ar-lein fwyaf poblogaidd o hyd i blant ysgol yn y DU, gydag 83% o blant o dan 16 oed sy'n defnyddio Bitesize yn dweud ei fod yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau'n well.

Mae arlwy addysg a dysgu y BBC yn parhau i gyrraedd y tu hwnt i'n ffocws ar y rhai sydd yn yr ysgol, gyda'n cynnwys sain o ansawdd uchel yn gwasanaethu fel ffenestr i ganfod drwy gyfresi poblogaidd fel *Sliced Bread*, *The Infinite Monkey Cage*, *In Our Time* ac *You're Dead to Me*. Rydym wedi cynnig rhaglenni ffeithiol nodedig fel *Atomic*

People a enillodd wobr BAFTA, ynghyd â rhaglenni fel *Solar System* gyda Brian Cox ac *Asia* gyda David Attenborough, dwy gyfres a brofodd unwaith eto eu bod yn unigryw yn eu gallu i ddenu cynulleidfaoedd o bob grŵp oedran ac i hysbysu, addysgu a diddanu ar yr un pryd.

Ein nod yw helpu pobl, ni waeth eu hoedran, i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys a gwasanaethau addysgol, a chyfleoedd i gymryd rhan, a roddir iddynt gan y BBC, partneriaid a'i gilydd.

Ac yn dilyn marwolaeth drasig Dr Michael Mosley ym mis Mehefin, gwnaethom dalu teyrnged gyda Just One Thing Day, diwrnod arbennig i ddathlu gwaddol ac effaith Dr Mosley ar iechyd a llesiant y cyhoedd, a enwyd ar ôl ei bodllediad hynod lwyddiannus ar BBC Radio 4, *Just One Thing*.

Mae cymaint o'r gwerth a gaiff cynulleidfaoedd gan y BBC i'w briodoli i arbenigedd a chreadigrwydd ein sefydliadau partner – yn bennaf o ran adrodd straeon unigryw y DU.



Podlediad Michael Mosley ar BBC Radio 4 oedd yr ysbrydoliaeth i Just One Thing Day, a oedd yn dathlu ei waddol

Er enghraifft, yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, gwnaethom ddathlu'r garreg filltir o dair blynedd i mewn i'n hymrwymiad pum mlynedd hanesyddol i'r rhanbarth drwy Bartneriaeth Sgrin Gogledd-ddwyrain Lloegr (NESIP), gan gyhoeddi ym mis Awst ein bod ar y trywydd cywir i ragori ar ein buddsoddiad targed. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi comisiynu rhaglenni poblogaidd o'r rhanbarth gan gynnwys *Smoggie Queens* a leolir yn Middlesbrough, *The Big Idea Works* gyda Sara Davies a dychweliad y gyfres boblogaidd *Robson Green's Weekend Escapes*.

Gwelwyd ymrwymiad craidd y BBC i adrodd straeon cartref drwy gydol 2024/25, gan bwysleisio'r rôl werthfawr a hanfodol y mae'r BBC yn ei chwarae ar gyfer y DU. Nid oes neb arall yn dod yn agos at yr hyn a wnawn yn hyrwyddo syniadau newydd dewr, yn cymryd risgiau creadigol, yn meithrin talent newydd ac yn buddsoddi yn ein diwydiannau creadigol. Drwy wneud hynny, rydym yn adlewyrchu'r gorau o'r DU yn ôl i'n hunain wrth ddangos ein diwylliant unigryw a gwych i'r byd.



Olivia Colman yn adrodd hanes Gruffalo's Child, a ysgrifennwyd gan Julia Donaldson, ar gyfer *CBeebies Bedtime Stories*

70%

% y rhai dan 16 oed sy'n defnyddio Teledu/ iPlayer, Radio neu Wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

4awr

Y cyfnod o amser y mae'r rhai dan 16 oed yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd



ASTUDIAETH ACHOS: Y PRIF GOMISIYNYDD CYNNWYS PLANT YN FYD-EANG

Mae cynnwys y BBC i bobl ifanc yn sail i'r cyfryngau i blant yn y DU, gan gyflwyno rhaglenni o ansawdd uchel sy'n sicrhau bod plant ym Mhrydain yn ymgysylltu â'n diwylliant a'r byd o'u cwmmpas. Wrth i ddarparwyr eraill gilio, mae ein buddsoddiad blynyddol sylweddol yn cynnal y sector â gwaith dadansoddi diweddar sy'n awgrymu mai'r BBC yw'r prif gomisiynydd rhaglenni plant yn fyd-eang. Ar draws 2024/25, defnyddiodd 70% o'r rhai dan 16 oed wasanaethau'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd, gan ddewis rhaglenni fel *Wonderblocks*, *Crongton*, *Super Happy Magic Forest*, *Phoenix Rise*, *Deadly 60*, *Hey Duggee* a *CBeebies Prom* – arlwy o raglenni addysgol o'r radd flaenaf ac adrodd straeon cartref, rhinweddau y mae'n fwyfwy anodd eu canfod rywle eraill. Cyflwynodd y BBC 340 awr o raglenni plant gwreiddiol yn 2024/25 ac ef yw'r unig ddarlledwr Prydeinig yn y 10 uchaf o gomisiynwyr plant yn fyd-eang. Ac wrth i iPlayer weithredu fel prif gyrchfan ar gyfer cynnwys plant nodedig Brydeinig o bwys – cynyddodd oriau ffrydio fwy na 30% yn y ddwy flynedd ddiwethaf – rydym hefyd yn cynnig ein cynnwys ar lwyfannau eraill, gan fynd i ble mae'r gynulleidfa, er enghraifft, gyda bwletinâu *Newsnight* ar YouTube a phartneriaeth addysgol gyda Roblox.

2 3

**Ein gwerthoedd Reith
i 'hysbysu, addysgu
a diddanu' yw'r
cymhelliant y tu ôl i'r
cynnwys a ddarparwn i
bobl ifanc a'u teuluoedd.**

Patricia Hidalgo
Cyfarwyddwr Plant ac
Addysg y BBC



Cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig.



YN EU GEIRIAU

Gwenllian Hughes

*Cyfarwyddwr Creadigol,
Kailash Films*

Mae Cronfa'r BBC i Gwmnïau Cynhyrchu Bach Annibynnol yn cefnogi twf cwmnïau cynhyrchu annibynnol bach ledled y DU sydd â throsiant islaw £10 miliwn ar draws sawl genre. Kailash Films a leolir yng Nghaerdydd oedd un o 57 o gwmnïau a gafodd gyllid a chymorth mentora yn 2024.

Fel cwmni cynhyrchu annibynnol uchelgeisiol sydd wedi'i leoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau, roedd sicrhau cyllid gan Gronfa'r BBC i Gwmnïau Cynhyrchu Bach Annibynnol yn eithriadol o bwysig i Kailash Films. Mae'r gronfa wedi rhoi adnoddau a mentoriaeth hanfodol i ni, gan ein helpu i dyfu ein busnes a datblygu prosiectau premiwm uchelgeisiol. Un o'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol oedd proses gan BBC Cymru a BBC Documentaries o gyd-gomisiynu *Helmand: Tour of Duty*, rhaglen ddogfen ffurf hir bersonol a phwerus a ddarlledwyd y flwyddyn diwethaf. Ni fyddai'r ffilm a gyd-gynhyrchwyd, sy'n adrodd hanes straeon nas adroddwyd y Gwarchodlu Cymreig yn Affganistan, wedi bod yn bosibl heb y gefnogaeth a gawsom. Mae ei gweld yn cael ei gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd ac yn cael ei henwebu am Wobr RTS glodwiw yn ddilysiad gwych o lwyddiant y cyllid a'r gwaith a wnawn. Helpodd y gronfa ni i sicrhau comisiwn, a rhoddodd y llwyfan a'r sefydlogrwydd i ni dyfu ein llechen rhaglenni dogfen premiwm.



Helpodd y gronfa ni i sicrhau comisiwn, a rhoddodd y llwyfan a'r sefydlogrwydd i ni dyfu ein llechen rhaglenni dogfen premiwm.

Gwenllian Hughes

Nathan Sandhu

Arbenigwr Cysylltiadau, Materion Corfforaethol y BBC

Y BBC yw un o bartneriaid darlledu swyddogol Bradford Dinas Diwylliant y DU yn 2025.

Mae'r flwyddyn hon wedi teimlo fel moment ddiffiniol i'm tref enedigol. Mae'n gyfle i ni ymfalchïo'n llwyr yn y doniau creadigol ac adrodd straeon yn y ddinas a'r rhanbarth, ac rydym wedi cyflawni hynny.

Mae'r BBC wedi comisiynu llu o gynnwys newydd – i arddangos cyfraniad creadigol eithriadol Bradford i'r DU.

Digwyddiad lansio *Virdee*, y ddrama drosedd gyffrous a wnaed yn Bradford oedd un o'm huchafbwyntiau i. Roedd yn bleser cael arwain ymgyrch y cyfryngau ar gyfer y sgrinio yn Neuadd St George. Rhoddodd ymateb y gynulleidfa groen gŵydd i mi ac atgyfnerthu unwaith eto pam fy mod mor falch o alw'r ddinas hon yn gartref.

Os gallwn fanteisio ar y positifrwydd a'r egni a welwyd eisoes y flwyddyn hon, gall Bradford ddechrau 2026 yn llawn hyder a dyna fydd y gwaddol gorau oll.

Mae Bradford wedi bod yn ddinas diwylliant erioed yn fy marn i, ac mae'n haeddu cael ei moment ar y llwyfan. Nawr yw amser Bradford.



EU HUNAIN



Sharon D Clarke

Actor – Mr Loverman

Enwebwyd Sharon am Wobr Teledu BAFTA am y Brif Actores am ei rôl yn chwarae Carmel Walker yn nrama'r BBC *Mr Loverman*.

Nid wyf erioed wedi bod ar set deledu mor amrywiol, yn fy holl yrfa. Rwyf wedi arfer bod yn un o un neu ddau o bobl Ddu o flaen y sgrin, gydag ambell unigolyn o liw oddi ar y sgrin, os o gwbl. Drwy gydol yr holl broses, roedd gennym amrywiaeth eang o bobl o bob math o ddiwylliannau, cefndiroedd, LHDTCRha+ a chrefyddau gwahanol. Mae'n hen bryd ac mae'n llonni fy nghalon am mai dyna beth rydym wedi bod yn brwydro drosto – cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth ar bob lefel, ym mhob adran. Felly, mae wedi bod yn wych cael profi hyn. Mae wedi'i gyflawni ar y lefelau uchaf, gan gynhyrchu gwaith yr wy'n falch ohono, gyda thîm y mae'n bleser bod yn rhan ohono, ac rwy'n llawn canmoliaeth i'r cynhyrchwyr yn Fable Pictures a'r BBC am gyflawni hyn ag arddeliad arbennig!




Cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau
drwy fuddsoddi mewn talent a chreadigrwydd Prydeinig.

YSTADEGAU ALLWEDDOL

Ar y tudalennau hyn, rydym yn darparu
data i ddangos effeithlonrwydd y gwaith
a wnawn i gefnogi'r prosesau adrodd
straeon cartref gorau.

CEFNOGI CYNNWYS CARTREF

O holl ddarparwyr y cyfryngau yn y DU, pa UN darparwr sy'n
gwneud y mwyaf i gynnig **cynnwys cartref o ansawdd uchel gan
gyflwynwyr, awduron, actorion a cherddorion o bob cwr o'r DU?**



Ffynhonnell: Yonder, 1,047 UK adults 18+

66%

23/24 62%

**% YR OEDOLION YN Y DU SYDD O'R FARN BOD Y BBC YN
EFFEITHIOL O RAN DARPARU CYNNWYS/GWASANAETHAU
SY'N GOSOD SAFON UCHEL AR GYFER ANSAWDD**

(Aneffeithiol: 13%. 23/24 14%)

Ffynhonnell: Ipsos UK 16+

63%

23/24 57%

**% YR OEDOLION YN Y DU SYDD O'R FARN BOD Y BBC YN
EFFEITHIOL O RAN DARPARU CYNNWYS/GWASANAETHAU
SY'N GOSOD SAFON UCHEL AR GYFER CREADIGRWYDD**

(Aneffeithiol: 14%. 23/24 15%)

Ffynhonnell: Ipsos UK 16+

62%







23/24 56%

**% YR OEDOLION YN Y DU SYDD O'R FARN BOD Y BBC YN
EFFEITHIOL O RAN DARPARU CYNNWYS/GWASANAETHAU
SY'N Nodedig**

(Aneffeithiol: 14%. 23/24 15%)

Ffynhonnell: Ipsos UK 16+

Dathlu 100 mlynedd o BBC Education





DOD Â PHOBL



YNGHYD*



Gwnaeth Ruth Jones gyd-ysgrifennu ac actio yn y gyfres gomedi sefyllfa boblogaidd *Gavin & Stacey*



...drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei golli

Ers mwy na 100 mlynedd, gall pawb yn y DU droi at y BBC i gael y momentau pwysicaf – o etholiadau cyffredinol, achlysuron brenhinol i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon o bwys.

Yn y byd sydd ohoni, rydym yn parhau i ddarparu gofod unigryw ar gyfer momentau cymunedol, straeon a rennir a llwyfan ar gyfer trafodaeth sifil. Mewn gwirionedd, mae rôl y BBC fel cyfrwng sy'n uno yn fwy amlwg a phwysig nag erioed, wrth i arferion o ran y cyfryngau barhau i newid yn gyflym ac wrth i bwysau cymdeithasol arwain at bolareiddio a pheryglu ymddiriedaeth gymunedol.

Mae mwy a mwy ohonom bellach yn defnyddio cynnwys byd-eang ar lwyfannau sydd wedi'u llywio gan algorithmau nad ydynt o bosibl er budd gorau ein democratiaeth a diwylliant Prydeinig a rennir. Yn lle hynny, mae'r ffocws ar feithrin y gydberthynas fasnachol gryfaf â chwsmer, gan gynnig fersiwn gul iawn o bersonoli sy'n ein symud i ffwrdd oddi wrth brofiadau a rennir a dealltwriaeth gyffredin o'r byd.

Wrth i brofiadau diwylliannol sy'n uno ddod yn fwyfwy prin, daw rôl y BBC wrth ddod â phobl ynghyd yn fwy hanfodol byth i ymdeimlad y DU o hunaniaeth a chydlyniant cymdeithasol.

I gynulleidfaoedd, mae dod â phobl ynghyd yn ymwneud â'r momentau cenedlaethol mawr a ddarlledwyd gan y BBC y flwyddyn hon, fel yr Etholiad Cyffredinol, y Gemau Olympaidd, Gemau Ewros y Dynion, a Glastonbury. Ond mae hefyd yn ymwneud â rhaglenni sy'n destun siarad i'r wlad gyfan, fel *Wallace & Gromit*, *Gavin & Stacey* a *The Traitors*.

At hynny, mae dod â phobl ynghyd yn ymwneud â gwasanaethau rhanbarthol a lleol sy'n atgyfnerthu ein hymdeimlad o gymuned ac yn helpu i'n huno. Mae'n ymwneud â chefnogi ein democratiaeth o'r gwreiddiau i fyny drwy gynnig llwyfannau a rennir ar gyfer trafodaeth sifil. Yn olaf, mae'n ymwneud â sicrhau nad yw newidiadau technolegol yn rhannu ein cymdeithas ac yn gadael pobl ar ôl. Yn y BBC, rydym am ddefnyddio algorithmau a deallusrwydd artiffisial mewn ffordd gyfrifol i adlewyrchu ein gwerthoedd a dod â ni'n agosach at ein gilydd, yn hytrach na'n gwahanu.

Ein nod yw sicrhau bod pawb yn dal i droi at y BBC i ganfod gwerth mewn momentau cymunedol a straeon a rennir, hyd yn oed wrth i ni symud i fyd ar-lein.



Dod â phobl ynghyd
drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei golli.



ASTUDIAETH ACHOS:

**GAVIN & STACEY A WALLACE
& GROMIT YN DENU'R NIFER
MWYAF ERIOD O WYLLWYR
YN Y DU**

Does neb yn dathlu'r Nadolig fel y BBC, a'r flwyddyn hon, gwnaethom ddod â phobl ynghyd dros gyfnod yr ŵyl drwy gyflwyno cyfres o raglenni poblogaidd a oedd yn arddangos y gorau o greadigrwydd ym Mhrydain, gan gynnwys croesawu cymeriadau mwyaf poblogaidd ac eiconig y genedl yn ôl i'r sgrin yn *Gavin & Stacey: The Finale* a rhaglen antur ffurf hir *Wallace & Gromit: Vengeance Most Fowl*. Denodd y ddwy raglen gynulleidfaoedd enfawr o fwy nag 20 miliwn ers y darllediad cyntaf, gan olygu eu bod ymysg y rhaglenni wedi'u sgriptio a'r animeiddiadau mwyaf poblogaidd y DU ers i gofnodion modern ddechrau yn 2002, yn ogystal â chyfrannu at dwf iPlayer y flwyddyn hon. Gyda'i gilydd, sicrhodd y ddwy raglen y lefelau gwylio mwyaf a welwyd ar Ddydd Nadolig mewn 20 mlynedd, a chafodd pob un o'r deg o raglenni a wiliwyd fwyaf ar y teledu yn y DU yn ystod y dydd eu darlledu ar y BBC, gan gysylltu pobl ar adeg arbennig iawn o'r flwyddyn.

3

Drwy gydol 2024/25, cysylltodd y BBC y genedl â'r prif ddigwyddiadau a momentau na ellid eu colli mewn ffordd heb ei thebyg. Trodd mwy nag wyth o bob deg o oedolion yn y DU at y BBC i gael darllediadau o ganlyniadu Etholiad Cyffredinol y DU a gwnaeth bron tri chwarter y boblogaeth wyllo, darllen a gwranddo ar ein darllediadau o'r Gemau Olympaidd, Gemau Ewros y Dynion a Wimbledon mewn haf bythgofiadwy o chwaraeon. Gwnaeth miliynau yn fwy o bobl fwynhau Glastonbury a'r Eurovision gyda ni, a thros gyfnod y Nadolig, am y tro cyntaf erioed, cafodd pob un o'r 10 o raglenni teledu a wiliwyd fwyaf ar Ddydd Nadolig eu darlledu ar y BBC.

Gwnaethom gyflwyno rhaglenni sy'n boblogaidd ymhlith pobl o bob oedran, gan gynnwys ffefrynnau teuluol fel *Michael McIntyre's Big Show*, *Would I Lie to You?*, *Gladiators*, *Strictly Come Dancing* a *Race Across the World*, yn ogystal â rhaglenni a gaiff eu gwyllo ar adeg benodol fel *The Apprentice*, *RuPaul's Drag Race* a chyfres hynod boblogaidd *The Traitors*, y gwnaeth pennod gyntaf y drydedd gyfres ddenu cynulleidfau anferth o bron 11 miliwn.

Gwnaethom hefyd gyflwyno amrywiaeth o gynnwys sain llwyddiannus, fel *Central Intelligence* o linyn Limelight poblogaidd Radio 4, a *Miss Me?*, y podlediad drawsatlantig gan Miquita Oliver a Lily Allen. Dyfarnwyd cyfanswm o 29 o wobrau, gan gynnwys 11 gwobr aur, i'r BBC yng Ngwobrau Podlediadau Prydain, gan ddangos ansawdd a chyfoeth ein harlwy sain.

Cafodd Proms y BBC dymor hudolus arall, gan ddenu'r cynulleidfaoedd digidol mwyaf erioed a llenwi 96% o gapasiti'r Royal Albert Hall yn ystod y prif gyngerdd gyda'r nos. Roedd lle unigryw y BBC wrth galon hanes a diwylliant Prydain i'w weld yn glir ar Ddiwrnod Rhagolygon i Forwyr, diwrnod arbennig o ddarlledu i ddathlu 100 mlynedd o'r *Shipping Forecast* ar y BBC.

3'0"

2'6"

2'0"

1'6"

1'0"

0'6"

DATHLU EIN PLANED GYDA'N GILYDD

Yn 2024/25, cyrhaeddodd ein cynnwys Teledu a Radio, a oedd yn cynnwys themâu amgylcheddol penodol – y tu hwnt i fwletinau Newyddion a rhaglenni dilyniannol – tua 59% o'r boblogaeth 16+ oed yn y DU. Rydym yn parhau i ddod â phobl ynghyd i ddathlu ein planed a'r rhai sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol ato, gyda *Planet Earth III* a Plant mewn Angen yn cydweithio i gyflwyno gwasanaeth rhithwir byw i blant ysgol, a CBeebies yn cynnal Prom Jamborî Bywyd Gwylt. Mewn mannau eraill, tynnodd *100 Women* World Service sylw at arloeswyr ym maes yr hinsawdd, a rhoddodd *The One Show* sylw i gymunedau lleol drwy ei wobwr Growing Together mewn partneriaeth â'r RHS. Ar draws ein hallbwn, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i'n Haddewid Cynnwys Hinsawdd ac i archwilio atebion i'r newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â'i achosion a'i effeithiau.

1 2 4





Yn *Wallace & Gromit: Vengeance Most Fowl*, gwelwyd Feathers McGraw yn dychwelyd gyda chynllun cyfrwys arall

Gwnaethom hefyd arddangos amrywiaeth eang a hyfryd o gerddoriaeth ar draws *Radio 1's Live Lounge Month*, *Radio 2's Piano Room* mewn cydweithrediad â Cherddorfa Gyngerdd y BBC, a *Radio 3 in Concert*, sy'n parhau i ddarlledu'r cyngherddau clasurol gorau o bob cwr o'r DU ac Ewrop.

Gorsafoedd radio y BBC oedd y rhai mwyaf poblogaidd yn y DU unwaith eto, gan barhau i fod wrth galon bywyd cenedlaethol. Denodd BBC Radio 2 fwy o wrandawyr nag unrhyw orsaf arall a dyma'r orsaf fwyaf poblogaidd ymhlith oedolion dros 35 oed. BBC Radio 4 yw'r orsaf lafar fwyaf poblogaidd o hyd, a hynny o bell ffordd, a BBC 6 Music yw'r gwasanaeth digidol yn unig mwyaf. Ar y BBC y caiff dwy raglen brechwast mwyaf poblogaidd y DU eu darlledu hefyd – *The Radio 2 Breakfast Show* a *Today* ar BBC Radio 4 – a rhaglen Vernon Kay ar Radio 2 yw'r rhaglen radio fwyaf poblogaidd yn y DU. Ac ymhlith cynulleidfaoedd ifanc, Greg James yw'r opsiwn mwyaf poblogaidd o hyd dros frechwast.

Yn y cyfamser, yn y flwyddyn a nododd 30 mlynedd ers sefydlu BBC Radio 5 live, denodd yr orsaf ei chynulleidfaoedd fwyaf mewn degawd rhwng mis Mehefin a mis Medi gyda chymysgedd unigryw o'r straeon newyddion a'r digwyddiadau chwaraeon pwysicaf, wedi'u cyflwyno â dadansoddiadau a sylwebaeth arbenigol. Enillodd BBC Radio 3 wobr Gorsaf y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio, lle enillodd y BBC 30 o wobrau ar draws amrywiaeth o genres, gan bwysleisio

ehangder y cynnwys y mae cynulleidfaoedd yn ei fwynhau gan y BBC.

Aethom hefyd ar daith i ddiddanu gwrandawyr a chynulleidfaoedd byw ar draws y DU, gan gynnwys Radio 1's Big Weekend yn Luton, Radio 2 in the Park yn Preston, Asian Network Certified yn Llundain, a 6 Music Festival ym Manceinion. A chynhaliwyd perfformiadau'r Proms yn Gateshead, Nottingham, Aberdeen a Belfast. Digwyddiadau sy'n dod â phobl ynghyd i fwynhau cerddoriaeth, mewn caeau a lleoliadau ledled y DU, gan arddangos talent lleol newydd a pherfformiadau gan sêr rhyngwladol – rhywbeth na allai neb ond y BBC ei wneud.

21.0m

Y nifer a oedd wedi gwyllo *Gavin & Stacey: The Finale* ar ôl 28 diwrnod, gan olygu mai dyma un o'r rhaglenni teledu wedi'i sgrïptio a wylwyd fwyaf yn y DU yn yr 20 mlynedd diwethaf

30

Nifer y gwobrau a enillodd y BBC yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio (ARIAs) ar draws amrywiaeth o genres yn 2024/25, gan gynnwys Gorsaf y Flwyddyn ar gyfer BBC Radio 3



ASTUDIAETH ACHOS: YMGYSYLLTU Â GWYLWYR A'U GRYMUSO – WYTHNOS BBC SCAM SAFE

Gwnaethom gynnal ein hymgyrch i ddefnyddwyr, BBC Scam Safe unwaith eto ym mis Tachwedd, a hynny ar raddfa fwy nag erioed. Gydag achosion o dwyll bellach yn cyfrif am fwy na 40% o'r holl droseddau yn y DU, roedd maint a chyrhaeddiad y BBC yn golygu ein bod mewn sefyllfa i allu cynnal ymyriad cyhoeddus sylweddol, gan ddarparu cymorth a chyngor ar fater sy'n effeithio ar filiynau o fywydau. Dros yr wythnos, cyflwynwyd cynnwys ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, a chafodd yr ymgyrch ei chefnogi a'i hatgyfnerthu gan amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynnwys Stop Scams UK, Age UK ac Age Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA) a'r Brifysgol Agored. Cafodd nodweddion a llinellau stori penodol eu cynnwys mewn rhaglenni yn ystod y dydd, drama a ffeithiol. Dros yr wythnos, cafodd diweddsglo stori twyll pensïynau ar *EastEnders* ei wyllo gan 3.9 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd; cafodd ein heitemau arbennig ar sgamiau ar *Morning Live* eu gwyllo gan 1.2 miliwn o bobl ar gyfartaledd; denodd *Scam Interceptors* 1.4 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd; a gwyliwyd pennod *Countryfile* a oedd yn cynnwys eitem ar sgamiau cyflenwyr ffermydd gan 3.6 miliwn ar gyfartaledd. Yn gyffredinol, nododd chwarter yr oedolion yn y DU eu bod yn ymwybodol o Wythnos BBC Scam Safe, a nododd bron 60% o'r rhai a ddefnyddiodd gynnwys fod eu hyder i adnabod a mynd i'r afael â sgamiau wedi cynyddu o ganlyniad i'n hymgyrch.

1 2 3



Perfformiodd Coldplay ar Radio 2's Piano Room



Dod â phobl ynghyd
drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei golli.



Torodd darllediadau'r BBC o Gemau Olympaidd 2024 ym Mharis record BBC Sport drwy ddenu 218 miliwn o geisiadau ffrydio

30%

Mae straeon newyddion ar-lein BBC Local bellach yn cyfrif am 30% o'r holl straeon newyddion a gaiff eu darllen ar wefan ac ap BBC News

622m

Bu digwyddiadau byw yn gymorth i gynyddu nifer yr eitemau a chwaraewyd ar BBC Sounds rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024 i 622 miliwn

Cynyddodd yr amser a dreulir gyda BBC iPlayer yn gynt nag unrhyw wasanaeth fideo ar alw ffurf hir arall yn y DU y flwyddyn hon. Denodd gyfanswm o 8.9 biliwn o geisiadau, a hynny o ganlyniad i gymysgedd o ddigwyddiadau byw nodedig, rhaglenni dogfen llwyddiannus, a dramaïau ac adloniant hanfodol, gan helpu'r gwasanaeth i sefyll allan fel cyrchfan unigryw ar gyfer cynnwys o ansawdd uchel o Brydain. Wrth i arferion gwyllo symud mwyfwy ar-lein, erys ein cynnydd wrth gysylltu cynulleidfaoedd â chynnwys sy'n uno y BBC drwy ein gwasanaethau digidol wrth wraidd ein strategaeth i ddod â phobl a chymunedau ynghyd.

Mae'r awydd i arloesi a datblygu ein gwasanaethau wedi bod wrth wraidd y BBC erioed, a'r flwyddyn hon, gwnaethom ddechrau treialu adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol newydd, wedi'u llywio gan ein gwerthoedd ac wedi'u dylunio i fod o fudd i bob cynulleidfa. Er enghraifft, gwnaethom ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i lunio trawsgriadau o gannoedd o sylwebaethau ar Gynghrair Pêl-droed Lloegr ar Radio Lleol y BBC, gan nodi'r adegau allweddol mewn gemau yn gyflym a'u cyhoeddi fel sylwebaethau testun byw ar ap BBC Sport ar ôl cael eu gwirio gan ein newyddiadurwyr, gan ychwanegu mwy o werth at ein harlwy ar-lein.



ASTUDIAETH ACHOS:
Y CYNULLEIDFAOEDD AR-LEIN
MWYAF ERIOED AR GYFER HAF
O DDIGWYDDIADAU

Gwelwyd gallu digyffelyb y BBC i gysylltu ac uno cynulleidfaoedd torfol yn glir yr haf diwethaf ar draws calendr o ddigwyddiadau pwysig yn y DU a ledled y byd. Wrth i'r genedl droi at y BBC am ein darllediadau hanfodol ar y teledu a'r radio, cafodd y momentau na ellid eu colli eu dal gan filiynau yn rhagor ar ein gwasanaethau digidol, gan dorri sawl record a helpu i sicrhau twf rhyfeddol ar gyfer BBC iPlayer a BBC Sounds. O'r Gemau Olympaidd ym Mharis, Gemau Ewros y Dynion a'r Etholiad Cyffredinol, i Glastonbury, Radio 2 in the Park a Proms y BBC, bu digwyddiadau byw yn gymorth i gynyddu nifer yr eitemau a chwaraewyd ar BBC Sounds rhwng mis Gorffennaf a mis Medi i 622 miliwn, a chofnododd iPlayer 350 miliwn o geisiadau am ddigwyddiadau byw, gan gyfrannu at y flwyddyn oriau erioed i'r llwyfan.

3 4

Mae ein dull digidol yn gyntaf hefyd yn trawsnewid gwasanaethau newyddion ar-lein BBC Local, lle mae buddsoddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi denu ymateb cadarnhaol iawn gan gynulleidfaoedd – mae'r traffig wythnosol cyfartalog wedi cynyddu 33% dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae bellach oddeutu 17 miliwn. Mae straeon newyddion ar-lein BBC Local bellach yn cyfrif am 30% o'r holl straeon newyddion a gaiff eu darllen ar wefan ac ap BBC News.

Wrth i'r genedl ddod ynghyd y gwanwyn hwn i nodi 80 mlynedd ers Diwrnod VE, trodd llawer hefyd at y BBC y flwyddyn diwethaf i nodi D-Day, Rhyddhau Carcharorion Auschwitz a Diwrnod Cofio'r Holocaust, gan dynnu sylw at ein rôl hanfodol yn ystod digwyddiadau cofio a choffâu cenedlaethol.

Yn y cyfamser, gwnaethom barhau i gefnogi cynulleidfaoedd yn eu bywydau pob dydd drwy raglennu arbenigol fel dychweliad wythnos Scam Safe a'n Tymor Llesiant Meddyliol, gan roi cyngor a gwybodaeth werthfawr ar faterion a wynebir gan nifer.

Mewn mannau eraill, mae'r BBC yn parhau i gynnig gwerth unigryw i'r DU fel partner diwylliannol y genedl, gydag arlwy celfyddydau a diwylliant poblogaidd, amrywiol a nodedig.



Aled Jones gyda'r cyn-filwr Stanley Ford yn ffilmio ar gyfer *Songs of Praise: 80th Anniversary of D-Day* y BBC

Cyrhaeddodd ein cynnwys teledu ar y celfyddydau 29 miliwn o bobl yn ystod y 12 mis hyd at fis Medi 2024, ac mae'r BBC yn darparu 28,000 o oriau o gynnwys ar y celfyddydau, cerddoriaeth glasurol a diwylliant bob blwyddyn – rydym yn gwneud mwy o gynnwys teledu ar y celfyddydau na'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill a'r ffrydwyr gyda'i gilydd.

Yn yr un modd, mae'r BBC yn darparu arlwy gwyddoniaeth heb ei ail a threuliodd gwylwyr 169 miliwn o oriau yn gwyllo cynnwys ar wyddoniaeth ar y BBC yn 2024, o gymharu â dim ond 15 miliwn ar draws y ffrydwyr. Dros yr un cyfnod, cyrhaeddodd ein cynnwys teledu ar wyddoniaeth 35 miliwn o bobl – dros hanner poblogaeth y DU – gyda rhaglenni dogfen fel *Irresistible: Why We Can't Stop Eating*, a chynnwys Plant fel *Operation Ouch!*, rhaglenni ysbrydoledig sy'n galluogi pobl o bob oedran i ddarganfod gyda'i gilydd.

Gyda'i gilydd, dyma sy'n parhau i wneud y BBC yn unigryw yn nhirwedd y cyfryngau heddiw: yn fan lle y gall pobl ddod ynghyd i gael profiadau a momentau a rennir bythgofiadwy, gyda chynnwys nodedig sy'n helpu i gyfrannu at gydlyniant cymdeithasol a llesiant y DU gyfan.



Bu Dermot O'Leary yn diddanu'r dorf yn Preston yn BBC Radio 2 In the Park

28,000

Mae'r BBC yn darparu 28,000 o oriau o gynnwys ar y celfyddydau, cerddoriaeth glasurol a diwylliant bob blwyddyn – mwy na'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ffrydwyr eraill gyda'i gilydd

29m

Cyrhaeddodd cynnwys teledu'r BBC ar y celfyddydau 29 miliwn o bobl yn ystod y flwyddyn hyd at fis Medi 2024



I lawer o gerddorion, ni sy'n cynnig eu profiad cyntaf o stiwdio recordio, gan greu'r amodau delfryddol iddynt roi cynnig ar bethau heb bwysau gwneud CD.

Emma Bloxham, Golygydd Comisiynu Cerddoriaeth Fyw BBC Radio 3



ASTUDIAETH ACHOS: 25 MLYNEDD O GYNLLUN RADIO 3 I ARTISTIAID CENHEDLAETH NEWYDD

Ym mis Mawrth, dathlwyd 25 mlynedd ers sefydlu cynllun Artistiaid Cenhedlaeth Newydd y BBC yn 1999, sy'n meithrin ac yn cefnogi rhai o offerynwyr, cantorion ac ensemblau ifanc gorau'r byd ar ddechrau eu gyrfaedd rhyngwladol. Nododd BBC Radio 3 yr achlysur gyda diwrnod o raglennu, gan gynnwys cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth a recordiwyd yn arbennig i ddathlu artistiaid presennol a blaenorol. Gyda mwy na 150 o gyn-aelodau, gan gynnwys rhai o enwau mwyaf y byd cerddoriaeth glasurol a jazz, mae'r fenter wedi rhoi cyfleoedd i gerddorion ifanc berfformio yn rhai o leoliadau a gwyliau mwyaf mawreddog y DU, ond ers chwarter canrif, rydym hefyd wedi rhoi'r cyfle i'n gwrandawyr fwynhau cerddoriaeth gyfareddol grŵp talentog o sêr newydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

③ ④



Dod â phobl ynghyd
drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei golli.



YN EU GEIRIAU

Aniruddh Dimri

*Pennaeth Cynhyrchion, Grŵp
Cynhyrchion y BBC*

Mae is-deitlau a thrawsgrifiadau wedi'u cynhyrchu gan ddeallusrwydd artifffisial wedi'u hychwanegu at amrywiaeth ddethol o gynnwys sain ar BBC Sounds fel rhan o arbrawf.

Fel Pennaeth Cynhyrchion, mae'n bleser gennyf fyfyrto ar ein menter ddiweddar yn defnyddio deallusrwydd artifffisial cynhyrchio i wella hygyrchedd. Drwy ein harbrawf gyda Whisper AI, gwnaethom ychwanegu is-deitlau a thrawsgrifiadau o ansawdd uchel yn llwyddiannus at raglenni dethol ar BBC Sounds, fel *The Archers* a *The Today Podcast*, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i'r 18 miliwn o bobl yn y DU sy'n fyddar neu'n colli eu clyw. Dangosodd y prosiect hwn ein hymrwymiad i gynhwysiant a dangosodd botensial deallusrwydd artifffisial i drawsnewid y ffordd rydym yn gwasanaethu ein cynulleidfaoedd. Roedd yn gam arwyddocaol tuag at ddod â phobl ynghyd drwy dechnoleg ac mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer defnyddio technoleg i wneud ein holl gynhyrchion yn fwy hygyrch yn y dyfodol.



**Roedd yn bleser bod yn rhan
o'r tîm a helpodd i strwythuro
a llunio rhywbeth a oedd
eisoes mor arbennig o ddigrif
a'i weld yn cyfareddu'r genedl
gyfan ar y BBC.**

Sarah Cox

Rachel Thompson

Nyrs Arbenigol, Dementia UK

Fel rhan o wythnos Atgofion a Dementia y BBC, bu Rachel yn rhan o *Debunking Dementia*, ffilm gan BBC Ideas yn archwilio camsyniadau cyffredin am ddementia. Cafodd ei chynhyrchu ar y cyd â'r Brifysgol Agored a Dementia UK, dau o'r chwe phartner a fu'n rhan o'r prosiect.

Rwy'n Nyrs Arbenigol Ymgynghorol ar gyfer Dementia Cyrff Lewy; rwy'n cael fy nghyllido gan Gymdeithas Dementia Cyrff Lewy a'm cyflogi gan Dementia UK. Rwyf wedi gweithio ym maes gofal dementia ers dros 25 mlynedd ac yn ystod fy ngyrfa, rwyf wedi gweld llawer o gamddealltwriaeth o ddementia, ac mae camsyniadau a symptomau sy'n cael eu hanwybyddu yn aml yn achosi unigrwydd, pryder ac ynysigrwydd i bobl. Mae deall yr arwyddion gwahanol, cael diagnosis cywir, gwybod beth i'w ddisgwyl, a gwybod sut i gael help, yn hanfodol. Dyna pam roeddwn am fod yn rhan o'r ffilm hon i helpu i godi ymwybyddiaeth, oherwydd heb y diagnosis cywir, gellir colli cyfleoedd i gael triniaethau posibl a gall argyfyngau diangen ddigwydd. Fy ngobaith yw y bydd y ffilm hon yn helpu i chwalu rhai o'r mythau a'r ofnau, ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer pethau y gellir eu gwneud. Mae cyfrifoldeb ar bawb i ddeall dementia yn well; mae'n bwysig bod pawb yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth.



EU HUNAIN

Sarah Cox

Prif Gyfarwyddwr Creadigol, Aardman

Gan ddechrau gyda *The Wrong Trousers* yn 1993, mae'r BBC wedi gweithio gyda phwerdy creadigol Aardman ym Mryste ers dros 30 mlynedd. Yn 2024, dychwelodd Wallace & Gromit dros y Nadolig ar gyfer ffilm ffurf hir newydd ar BBC One ac iPlayer.

Gweithiais ar *Wallace & Gromit: Vengeance Most Fowl* fel Swyddog Creadigol a Datblygu Gweithredol, felly roeddwn yn ffodus o glywed y cynnig cyntaf un gan Nick Park. Roedd cymaint o'r ffilm derfynol eisoes yn bodoli yn y sesiwn honno ac roedd yn bleser gennyf weld darlun gwreiddiol Nick o Feathers yn anwesu'r morlo bychan. Roedd yn bleser bod yn rhan o'r tîm a helpodd i strwythuro a llunio rhywbeth a oedd eisoes mor arbennig o ddigrif a'i weld yn cyfareddu'r genedl gyfan ar y BBC.





Dod â phobl ynghyd
drwy gysylltu pawb â chynnwys na ellir ei golli.


YSTADEGAU ALLWEDDOL



Ar y tudalennau hyn, rydym
yn darparu data i ddangos
effeithlonrwydd y gwaith rydym yn
ei wneud i ddod â phobl ynghyd.

DOD Â PHOBL YNGHYD

O blith holl ddarparwyr y cyfryngau yn y DU, pa UN sy'n dod â'r
nifer mwyaf o bobl ynghyd gyda darllediadau o ddigwyddiadau
pwysig, momentau byw a chynnwys sy'n ein cysylltu?



Ffynhonnell: Yonder, 1,047 UK adults 18+

7 o bob 10

NIFER YR OEDOLION YN Y DU SYDD O'R FARN BOD Y BBC YN BWYSIG I'R DU

(Ddim yn bwysig: 15%)

Ffynhonnell: Yonder, 1,069 UK adults

84%

23/24 85%

% YR OEDOLION YN Y DU SY'N DEFNYDDIO TELEDU/ IPLAYER, RADIO NEU WASANAETHAU AR-LEIN Y BBC BOB WYTHNOS AR GYFARTALEDD




Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK 16+

70%





23/24 69%

% Y RHAI DAN 16 OED YN Y DU SY'N DEFNYDDIO TELEDU/IPLAYER, RADIO NEU WASANAETHAU AR- LEIN Y BBC BOB WYTHNOS AR GYFARTALEDD

Ffynhonnell: Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK 0-15




Y PUM BRAND A DDEFNYDDIWYD FWYAF AR GYFER Y CYFRYNGAU YN 2024/25. CYRHAEDDIAD WYTHNOSOL CYFARTALOG.
Y BBC yw’r unig frand yn y DU sydd yn y pump uchaf ar gyfer cyfryngau a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc yn y DU:



Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK yn seiliedig ar gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog cronedig o 15 munud (ar lwyfannau), Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK

CYFLAWNI



AR DRAWS Y DU

t48

Cymru

t49

Yr Alban

t50

Gogledd Iwerddon

t51

Lloegr



Criw nawfed cyfres *Shetland* y tu ôl i'r llenni

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos ymrwymiad y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU.

Er mwyn cynnig gwerth i bob un o dalwyr ffi'r drwydded, mae dyletswydd ar y BBC i sicrhau y caiff safbwyntiau a lleisiau cymunedau amrywiol ledled y DU eu hadlewyrchu a'u cynrychioli ym mhob rhan o'i allbwn. Mae cyfrifoldeb arnom hefyd i sicrhau bod effaith economaidd y BBC yn cael ei rhannu ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, gan gefnogi sector creadigol bywiog mewn sawl lleoliad.

Mae tudalennau canlynol yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos y ffordd rydym yn parhau i gyflawni rhaglen Across the UK, gan symud pobl, rhaglennu a grym gwneud penderfyniadau y BBC ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU er mwyn adlewyrchu a chynrychioli ein cynulleidfaoedd yn well. Mae'r BBC bellach yn gwario 60% o'i gyllideb teledu rhwydwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain o hyd, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ganolfannau lleol eraill, o Lerwick i Truro a Derry/Londonderry i Fangor.

Mae symudiadau rhaglen Across the UK wedi parhau i gefnogi twf newyddiaduraeth newyddion rhwydwaith sy'n cael ei chynhyrchu o amrywiaeth o ganolfannau ledled y DU, ac mae sain rhwydwaith bellach yn cael ei gynhyrchu o ganolfannau yn cynnwys Bryste, Salford, Caeredin a Belfast. Mae rhaglen Across the UK a thimau yn is-adran Gwledydd y BBC wedi cefnogi darllediadau manylach o faterion lleol a darllediadau o ganlyniadau Etholiad Cyffredinol 2024, yn ogystal â dramâu wedi'u cydgomisiynu ar gyfer cynulleidfaoedd lleol a chynulleidfaoedd ledled y DU, gwaith tair o gerddorfeidd y BBC nad ydynt wedi'u lleoli yn Llundain, a phortffolio o wasanaethau radio lleol a chenedlaethol, yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg. Mae gwaith timau'r Gwledydd a rhaglen Across the UK yn dangos amcanion strategol y BBC ar waith, gan barhau i geisio sicrhau gwerth i holl dalwyr ffi'r drwydded.

Coldplay yn perfformio ar Lwyfan y Pyramid yng Ngŵyl Glastonbury yn 2024



Y BBC AR DRAWS Y DU

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adleoli nifer o raglenni, sy'n gwireddu uchelgeisiau rhaglen Across the UK y BBC ac yn dangos bod y BBC wedi'i wreiddio'n ddyfnach ym mhob rhan o'r DU ac yn cael effaith economaidd fesuradwy ar ddiwydiannau creadigol y DU, gan sicrhau mai'r bobl rydym yn clywed eu straeon, a'r bobl y mae'r BBC yn perthyn iddynt mewn gwirionedd, sydd wrth wraidd y newid hwn y tu hwnt i'r M25.

CEFNOGI PROSESAU ADRODD STRAEON O BRYDAIN DRWY EIN BUDDSODDIAD CREADIGOL

Mae cynyddu a chynnal cyfran gwariant cynhyrchu rhwydwaith y BBC ar draws y DU yn hanfodol er mwyn i'r BBC gefnogi economi creadigol y DU, yn ogystal ag adlewyrchu a chynrychioli rhanbarthau ar draws y DU a bywydau ein cynulleidfaoedd yn well. Mae'r BBC wedi cynnal ei wariant cynhyrchu teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain, uwchlaw ei darged o 60%, gan gofnodi gwariant o 61.2% yn 2024/25. Unwaith eto, cynyddodd gwariant Radio Rhwydwaith a Chwerddoriaeth i 46% yn ystod 2024/25, ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed o 50% erbyn diwedd y Siarter bresennol.

Bu'n flwyddyn gref arall o safbwynt creadigol gyda mwy o gomisiynau perfformiad uchel sy'n cynrychioli cynulleidfaoedd ac yn arddangos cymunedau a lleoedd ledled y DU. Mae rhaglennu drama nodedig wedi cynnwys ail

gyfres *The Responder*, a gafodd ei ffilmio yn Lerpwl, a *Sherwood*, a gafodd ei ffilmio yn Nottingham. Ymhlith uchafbwtiau eraill mae ail gyfres *Granite Harbour* o Swydd Aberdeen, *Lost Boys and Fairies* o Gaerdydd, ac ail gyfres *Blue Lights* o Belfast. O ran Comedi, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd *Outlaws* yn dychwelyd ar gyfer trydedd gyfres, a gafodd ei ffilmio ym Mryste, ac *Alma's Not Normal* yn dychwelyd ar gyfer ail gyfres, a gafodd ei ffilmio yn Bolton. Mae'r BBC hefyd wedi cynnwys rhaglennu Dinas Diwylliant Bradford ar draws ei wasanaethau, gan gynnwys y comisiwn nodedig *Virdee*, a gafodd ei leoli a'i ffilmio yn y ddinas.

Mae'r BBC hefyd yn parhau i ehangu ôl-troed ei ddigwyddiadau mawr ar draws y DU, gyda Radio 1's Big Weekend yn Luton yn 2024, Radio 2 in the Park yn Preston, a thymor mwyaf Across the UK ar gyfer Proms y BBC hyd yma, gyda chyngherddau yn Aberdeen, Belfast, Bryste, Casnewydd, Newcastle a Nottingham.

RHAGLEN ACROSS THE UK

Mae rhaglen Across the UK bellach wedi cwblhau ei hail gam, ac mae'n dal i fod ar y trywydd cywir i ragori ar ei tharged gwariant o £700 miliwn y tu allan i Lundain. Hyd yma, mae'r BBC wedi gwneud buddsoddiad cronol o fwy na £350 miliwn ar draws ei raglennu a'i wasanaethau fel rhan o'r rhaglen, gan gynnwys adleoli mwy na 350 o swyddi y tu allan i Lundain.

Y BBC yw'r buddsoddwr unigol mwyaf mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU, gan gyfrannu bron £5 biliwn at yr economi creadigol genedlaethol, ynghyd â 50% o werth ychwanegol gros y tu allan i Lundain. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi parhau i adleoli a chomisiynu rhaglenni mawr o bob un o wledydd a rhanbarthau'r DU, ac mae ei raglenni sy'n perfformio orau ar draws Adloniant, Drama a Chomedi wedi'u gwreiddio'n amlwg mewn lle ac yn cynrychioli cynulleidfaoedd ar draws y DU.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi mesur effaith economaidd ei fuddsoddiad rhanbarthol drwy astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at effaith economaidd ei weithgarwch – gan gynnwys adleoli *Waterloo Road* i Fanceinion Fwyaf. Mae hyn wedi cynhyrchu £6.5 miliwn ar gyfer economi Manceinion Fwyaf ers yr adleoli, gan ddenu a chynrychioli gwylwyr dosbarth gweithiol yn llwyddiannus. Yng Ngogledd Iwerddon, mae *Blue Lights* wedi ychwanegu £20 miliwn o werth ychwanegol gros at economi Gogledd Iwerddon yn ystod y ddwy gyfres gyntaf.

Mewn mannau eraill, yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, disgwylir i fuddsoddiad creadigol y BBC yn Digbeth, gan gynnwys adleoli rhaglenni mawr a'r pencadlys rhanbarthol newydd yn The Tea Factory, ychwanegu mwy na £280 miliwn o werth ychwanegol gros a channoedd o swyddi at economi Gorllewin Canolbarth Lloegr erbyn 2032.

Mae buddsoddiad y BBC yn Digbeth yn arwain adfywio rhanbarthol. Mae Cyngor Dinas Birmingham wedi cyhoeddi ei Brosiectws Digbeth yn ddiweddar, ac mae adfywio Digbeth wedi datgloi mwy na £11 biliwn o werth buddsoddi dros y degawd nesaf.



Dychwelodd y ddrama wedi'i lleoli yn Swydd Nottingham, *Sherwood* ar gyfer ail gyfres

SYMUD TIMAU CYNHYRCHU A GRYM GWNEUD PENDERFYNIADAU

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r mwyafrif o'r cynlluniau presennol i symud rhaglenni a gwaith cynhyrchu wedi'u cyflawni, yn enwedig ar draws Radio'r BBC, lle mae 50% o'r oriau cynhyrchu ar gyfer Radio 3 bellach o Salford, ac adleoliad BBC Asian Network i Birmingham – cwblhawyd y ddau achos o adleoli ym mis Ebrill 2025. Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglennu pellach ar gyfer BBC 6 Music hefyd wedi'i symud i Salford. Yn yr un modd mae BBC Radio 4 wedi ehangu ei amrywiaeth o allbwn ar draws Salford a Glasgow, ac mae'r BBC wedi parhau i dyfu ei Hwb Sain yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae *Take Four Books* bellach yn cael ei gynhyrchu a'i ddarlledu o Glasgow, ochr yn ochr â phenodau rheolaidd o *Book Club*, *Front Row* a *Loose Ends*.

Gan adeiladu ar ei waith i adleoli timau Straeon Newyddion, cyhoeddodd BBC News y bydd yn adleoli *News at One* i Salford. Ers mis Mehefin 2024, mae wedi cael ei darlledu o MediaCity, gan ehangu presenoldeb newyddion rhwydwaith y BBC yn Salford yn sylweddol.

Mae'r BBC wedi buddsoddi mewn galluoedd newydd fel rhan o'i gynlluniau ar gyfer Across the UK. Y flwyddyn hon, gwnaethom agor Hwb Technoleg Gogledd-ddwyrain Lloegr ac erbyn hyn, mae gennym fwy na 80 o swyddi yn BBC Newcastle, gan ddatblygu galluoedd data a dadansoddeg ar draws cynhyrchion digidol y BBC wrth i ni barhau i ddarparu arlwy digidol yn gyntaf i'r gynulleidfa. Mae'r tîm hefyd yn cynnwys aelodau o grŵp arweinyddiaeth ddigidol y BBC a bydd y tîm yn parhau i dyfu dros y flwyddyn nesaf.

DATBLYGU CLYSTYRAU CREADIGOL RHANBARTHOL

Mae ein gwaith yn parhau i helpu i wella sgiliau a chyfleoedd ledled y DU. Fel rhan o'i gynllun prentisiaid, mae'r BBC wedi mwy na dyblu nifer y prentisiaid y mae'n eu cyflogi ers 2020. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25, roedd y BBC yn cyflogi 808 o brentisiaid. O blith y rhain, mae 63% o brentisiaid Gyrfaedd Cynnar (talent newydd) a 56% o Brentisiaid Staff (staff presennol) wedi'u lleoli ledled y DU (y tu allan i Lundain).

Cefnogodd y BBC 61 o brentisiaethau pellach ledled y DU hefyd drwy drosglwyddo ei lefi prentisiaeth.

Mae'r BBC wedi cydnabod ers tro fanteision creadigol meithrin arbenigedd mewn safleoedd y tu hwnt i Lundain, fel yr Uned Hanes Naturiol ym Mryste, neu'r glymblaid o arbenigedd ym maes gwneud cynnwys a chynhyrchu newyddion gwledig ac amgylcheddol yn Aberdeen.

Mae rhaglen Across the UK wedi parhau â'i gwaith i fuddsoddi yng nghlystyrau creadigol y DU a chefnogi eu twf, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein partneriaethau y cytunwyd arnynt â Gorllewin Canolbarth Lloegr a

Gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae'r BBC bellach wedi cyflawni pob un o'i ymrwymadau fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Gorllewin Canolbarth Lloegr ac mae'n dal i fod ar y trywydd cywir i ragori ar ei ymrwymadau yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd datblygiadau sylweddol yn y ddau ranbarth. Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, mae Banijay Group wedi adleoli *MasterChef*, a dechreuodd y gwaith o gynhyrchu'r gyfres yn Digbeth Loc Studios ym mis Ionawr 2025. Mae BBC Studios hefyd wedi adleoli *Silent Witness* i stiwdios newydd yn The Bond yn Digbeth, a dechreuodd y gwaith o gynhyrchu'r gyfres yno ym mis Ionawr 2025 hefyd. Mae'r ddau gomisiwn gan y BBC wedi sicrhau 190 o swyddi cynhyrchu ychwanegol yn Digbeth, a hynny ar gynrychiadau sy'n ffilmio am y mwyafrif o'r flwyddyn. Bydd y nifer hwn yn cynyddu ymhellach a bydd yn sylfaen allweddol i dwf parhaus Digbeth.

Yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, comisiynodd y BBC y gyfres nodedig *Smoggie Queens*, a gafodd ei ffilmio yn Middlesbrough, a dyma'r comisiwn wedi'i sgriptio mawr cyntaf o'r ranbarth ers dechrau rhaglen Across the UK. Mae bellach wedi cael ei hailgomisiynu gan y BBC.

Diolch i'r bartneriaeth rhwng y BBC a NESIP, Gogledd-ddwyrain Lloegr yw'r ranbarth cynhyrchu sy'n tyfu gyflymaf yn y DU erbyn hyn, ac mae busnes cynhyrchu wedi cynyddu mwy na 100% ers cytuno ar y bartneriaeth ym mis Medi 2021. Yn ôl dadansoddiad economaidd a gomisiynwyd gan North East Screen, mae'r ranbarth ar y trywydd cywir i ddod yn sector cynhyrchu sy'n werth £50 miliwn y flwyddyn erbyn diwedd y degawd. Ochr yn ochr â'i waith gyda NESIP, mae'r BBC wedi ehangu ei weithgarwch creadigol yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr gyda phartneriaeth cerddoriaeth y BBC sylweddol ledled y ranbarth, gan gynnwys Proms y BBC yn The Glasshouse, Gateshead, a phartneriaethau a digwyddiadau BBC Introducing ehangach ledled y ranbarth.

Effeithiau eraill Gweithrediadau'r BBC yn y DU

Staff darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn)

% (ac eithrio BBC Commercial)

Gwlad	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2024
Lloegr (ac eithrio Llundain)	35%	34%
Llundain	45%	47%
Yr Alban	8%	8%
Cymru	7%	7%
Gogledd Iwerddon	4%	4%

* Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb i swm y ffigurau ar wahân

Gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith yn ôl ranbarth fel canran o'r gwariant cymwys

	2024	2023
Heb fod yn rhanbarthol	38.8%	39.8 %
Yr Alban	9.7%	9.0 %
Cymru	8.8%	7.9 %
Gogledd Iwerddon	4.0%	4.2 %
Cyfanswm y gwledydd	22.6%	21.1 %
Canolbarth Lloegr	3.4%	2.7 %
Gogledd Lloegr	21.6%	20.6 %
De Lloegr	10.2%	11.9 %
Aml-ranbarth yn Lloegr*	0.9%	3.0 %
Cyfanswm rhanbarthau Lloegr	36.0%	38.2 %
Aml-ranbarth arall*	2.5%	0.9 %
Cyfanswm y rhanbarthau ac eithrio Llundain	38.6%	39.1 %
Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau	61.2%	60.2 %
Cyfanswm cyfan	100.0%	100.0 %

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr.

* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Lundain na ellir eu priodoli i unrhyw un ranbarth na gwlad

Oriau o allbwn Radio Lleol* a radio'r gwledydd y BBC

	2025	2024
Lloegr (ac eithrio Llundain)	172,169	212,000
Llundain	5,932	6,848
Yr Alban	11,444	11,450
Cymru	18,280	16,647
Gogledd Iwerddon	7,662	7,527

* Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys unrhyw raglenni a gaiff eu hailddarlledu

CYMRU

Y BBC YNG NGHYMRU

Os mai 2023/24 oedd blwyddyn y dramâu a wnaed yng Nghymru, roedd 2024/25 yn sicr yn gyfle i arddangos comedi a wnaed yng Nghymru, gyda momentau eithriadol a'r ffigurau cynulleidfaoedd uchaf erioed.

Llwyddodd *Gavin & Stacey* i daro deuddeg â chynulleidfaoedd yng Nghymru, a chafodd y bennod olaf ei gwyllo gan 1.8 miliwn o wylwyr (59% o boblogaeth Cymru), gan olygu mai dyma'r rhaglen deledu a wylwyd fwyaf yng Nghymru ers 2002. Denodd y rhaglen ddogfen *Gavin & Stacey: A Fond Farewell* 8.7 miliwn o wylwyr ledled y DU, gan olygu mai dyma'r rhaglen unigol a wnaed gan BBC Cymru a berfformiodd orau erioed.

Comisiynodd BBC Cymru hefyd ei gyfres gomedi gyntaf erioed ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU. Mae'r gyfres *Mammoth*, sy'n cynnwys Mike Bubbins fel yr athro Addysg Gorfforol Tony Mammoth, wedi'i hailgomiynu yn dilyn ei llwyddiant. Gwnaethom hefyd gomiynu lleisiau newydd gyda *The Golden Cobra*, drama gomedi wedi'i hanimeiddio llawn dychan wedi'i lleoli yng nghymoedd de Cymru. Cafodd cyfres *Death Valley*, gyda Gwyneth Keyworth a Timothy Spall, a ddarlledwyd ar y teledu ac iPlayer ym mis Mai 2025, hefyd ei chomiynu a'i chynhyrchu gan BBC Cymru.

Wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, stori gariad yw *Lost Boys And Fairies*, sy'n adrodd hanes cwpl hoyw sy'n mabwysiadu plentyn

90%
23/24 90%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan
% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.
Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK 16+

51%
23/24 51%

% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio cynnwys BBC Cymru bob wythnos ar gyfartaledd.
Ffynhonnell: BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK



Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Gymru ar **dudalen 234**

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Nghymru, **gweler tudalen 123**

Ymhlith rhaglenni dogfen grymus eraill roedd *Mr Nice, Helmand: Tour of Duty*, a'r gyfres feddygol *Saving Lives in Cardiff*. Cynigiodd BBC Cymru hefyd ystod amrywiol o ddramâu, fel *Lost Boys and Fairies* gan Dafydd James, sef stori ddwyieithog glodwiw am gwpl o'r un rhyw yn mabwysiadu plentyn, a *The One That Got Away*, a gafodd ei gwneud mewn partneriaeth ag S4C.


Dangosodd BBC Wales News ei ymrwymiad i ganfod gwirionedd heb unrhyw agenda yn ystod Etholiad Cyffredinol 2024, gan ddarparu darllediadau manwl gyda dadansoddiadau graffeg gan Jeremy Vine o stiwdios Sgwâr Canolog Caerdydd. Ymhlith y straeon mawr roedd dileu swyddi yn Tata Steel ac ymchwiliad i'r adain dde eithaf.

Manteisiodd ein timau chwaraeon ar gyfleoedd digidol yn gyntaf. Drwy ail-lansio brand *Scrum V*, llwyddwyd i gynyddu cynulleidfa'r rhaglen 47% o fewn chwe wythnos, ac arloesodd *A Feast of Football* gyda chynnwys pêl-droed ar iPlayer, Sounds a llwyfannau llinellol. Talodd y buddsoddiad mewn chwaraeon menywod ar ei ganfed, a chafodd gêm ail gyfle Euro 2025 ei gwyllo gan 181,000 o wylwyr yng Nghymru, a chymhwysu ar gyfer trwnamaint yr haf yn y Swistir. Ym mis Mawrth, gwnaethom sicrhau hawliau unigryw i ddarlledu 13 o gemau pêl-droed rhyngwladol dynion Cymru.

Roedd gan Radio Cymru a Radio Cymru 2 bresenoldeb cryf mewn digwyddiadau mawr yng Nghymru a gwnaethant ddathlu Wythnos Dysgu Cymraeg. Llwyddodd Radio Cymru 2 i ddyblu ei chyrhaeddiad drwy gynyddu ei horiau gwreiddiol o 20 awr i fwy na 60 awr yr wythnos. Cynyddodd cyrhaeddiad wythnosol BBC Radio Wales 4% ar draws y flwyddyn i 350,000 o oedolion yng Nghymru. Ymhlith y podlediadau llwyddiannus roedd *Wrongly Accused: The Annette Hewins Story* a *Death on the Farm*, y cafwyd dros filiwn o geisiadau gan wrandawyr am y ddau ohonynt.

Gwnaethom gyflwyno cerddoriaeth glasurol nodedig, gan gynnwys perfformiad cofiadwy gan Syr Stephen Hough yn Neuadd Brangwyn, Abertawe, ac ymddangosiadau fel rhan o Proms y BBC. Gwnaeth Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ddarparu 40 o ddarllediadau o Gymru ar BBC Radio 3, gan ymweld ag amrywiaeth o leoliadau yn cynnwys Aberystwyth a Wrecsam, a pherfformio mewn cyngerdd cofiadwy ym Mangor gyda'r grŵp pop Eden fel rhan o ddarllediad arbennig ar gyfer BBC Radio Cymru.

Denodd teithiau o Sgwâr Canolog bron 11,000 o ymwelwyr, gan adlewyrchu eu poblogrwydd cynyddol ymysg y cyhoedd. Enillodd y tîm nifer o wobrau, a gwnaethom hefyd atgyfnerthu ein partneriaethau â Seren, Gyrfa Cymru, yr Urdd, a BBC Plant mewn Angen, gan bwysleisio ein hymrwymiad i addysg, cymuned a chynhwysiant.



Mae *Dinosaur*, cyfres gomedi sydd wedi ennill gwobr BAFTA, wedi'i ffilmio a'i lleoli yn Glasgow

YR ALBAN

Y BBC YN YR ALBAN

Lansiodd BBC Scotland *Reporting Scotland*; *News at Seven*, gan gyflwyno straeon o bob rhan o'r wlad, a chyfres podlediadau newydd *Scotcast* sydd ar gael ar bum llwyfan – BBC Sounds, BBC Scotland, BBC One Scotland, BBC iPlayer a BBC Radio Scotland – gan gynnig mwy o ffyrdd i gynulleidfaoedd wyllo a gwrando ar newyddion a materion cyfoes. Parhaodd ein hymrwymiad i ganfod gwirionedd heb agenda drwy gyfres ymchwiliadau lwyddiannus *Disclosure*, gan gynnwys archwilio honiadau o greulondeb mewn ysbyty seiciatrig i blant ac ymchwiliad tair blynedd i honiadau o gaethwasiaeth fodern ar longau pysgota yn y DU.

Daeth cynnwys yn ymwneud â digwyddiadau chwaraeon lleol, cenedlaethol a rhyngwladol â phobl ynghyd drwy allbwn Saesneg a Gaeleg yn cynnwys: athletwyr o'r Alban yn y Gemau Olympaidd; tîm pêl-droed cenedlaethol dynion yr Alban yn Euro 2024 a'u gêm gyntaf fel rhan o gytundeb newydd cyn Pencampwriaeth Cwpan y Byd FIFA 2026; rygbi a phêl-droed dynion a menywod, yn ogystal â llawer o chwaraeon eraill ar-lein, ar y radio ac ar y teledu.

83%

23/24 **84%**

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd. Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK 16+

56%

23/24 **57%**

% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio cynnwys BBC Scotland bob wythnos ar gyfartaledd. Ffynhonnell: BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK

Denodd Euro 2024 y cynulleidfaoedd mwyaf erioed mewn wythnos, gyda 48% o boblogaeth yr Alban yn gwylio cynnwys BBC Scotland a 6.6 miliwn o ymwelwyr unigryw â BBC Sport Scotland, sef y nifer mwyaf erioed. Roedd ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn cynnwys effaith uchel a sicrhau gwerth drwy weithio mewn partneriaeth a chydgomisiynu yn cynnwys: y gyfres gomedi a enillodd wobr BAFTA, *Dinosaur*, yr oedd niwroamrywiaeth yn rhan greiddiol ohoni; y gyfres gomedi *Only Child*, a oedd yn dangos y gwahaniaethau rhwng cenedlaethau rhwng tad a mab a oedd yn byw yn Forres, a ddrama dirgelwch a llofruddiaeth Aeleg o'r radd flaenaf gyntaf y DU, *An t-Eilean*, gyda'n partneriaid MG ALBA, Screen Scotland a All3Media.

Daethom â phobl ynghyd mewn gwyliau a digwyddiadau pwysig yn yr Alban drwy ddarllediadau Saesneg a Gaeleg yn cynnwys: gwyliau TRNSMT; Belladrum; The Môd a Chaeredin yn cynnwys Cerddorfa Symffoni yr Alban y BBC, ac *Authors Live*, partneriaeth BBC Scotland Learning gydag Ymddiriedolaeth Lyfrau yr Alban. Gwnaethom ddathlu Noson Burns gyda rhaglen yn cynnwys cerddorion o Gerddorfa Symffoni yr Alban y BBC ac enillwyr cystadleuaeth talent ifanc.

Ymhlith cynnwys a oedd yn adlewyrchu yr Alban gyfan roedd y dramâu *Shetland*, *Rebus* a *Granite Harbour* yn ogystal â'r cyfresi dogfen *Murder Trial*, *Inside Barlinnie* a *Sir Alex*. Dychwelodd y gyfres lwyddiannus *The Agency: Unfiltered* am drydedd gyfres yn chwilio am brif ddylanwadwr yr Alban, gan ddenu cynulleidfaoedd iau.

Fel rhan o'n strategaeth Across the UK, gwnaethom agor hwb sain rhwydwaith newydd gyda chanolfannau yng Nghaeredin, Glasgow a Belfast er mwyn gwneud mwy o gynnwys ar gyfer Radio'r BBC, BBC Sounds a BBC World Service o'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Perfformiodd cynnwys sain wedi'i gynhyrchu yn yr Alban yn dda ar BBC Sounds a BBC Sport, gyda *Sportsound* yn cael ei chwarae chwe miliwn o weithiau, *An Assassin Comes to Town* ar lwyfan brand newydd y Gwledydd, *Crime Next Door* yn cael ei chwarae filiwn o weithiau, a *Romanov: Czar of Hearts* yn cael ei chwarae 450,000 o weithiau ers mis Chwefror. Lansiodd BBC Radio nan Gàidheal ddathliad o ganeuon a chyfansoddiadau Gaeleg newydd, sef *Òran Ùr*, ar BBC Sounds a llwyfannau llinellol.

i Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am yr Alban ar **dudalen 238**

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn yr Alban, **gweler tudalen 123**

GOGLEDD IWERDDON

Y BBC YNG NGOGLEDD IWERDDON

Gwnaethom adeiladu ar amrywiaeth a chryfderau lleol y BBC, gan gyflwyno cynnwys gwyb ac ymateb i gyfleoedd digidol newydd. A gwnaethom ddathlu 100 mlynedd ers darllediadau cyntaf y BBC yng Ngogledd Iwerddon gyda rhaglenni arbennig a digwyddiadau cymunedol.

Rhoddodd BBC News sylw manwl i straeon o bob rhan o'r rhanbarth. Gwnaeth ddefnydd effeithiol o newyddiaduraeth arbenigol y BBC, gan esbonio materion a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Darparodd ein timau ddarllediadau uchelgeisiol o etholiad San Steffan a'i ganlyniadau. A gwnaethom barhau i adrodd ar waith Cynulliad a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a rhai o'r heriau a wynebwyd gan sectorau gwahanol. Bu technolegau a llwyfannau digidol yn gymorth i ni ymgysylltu â chynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd, a rhoddodd *I Am Not OK*, un o raglenni ymchwiliol *Spotlight*, gipolwg ar brofiadau teuluoedd a phlant sydd ag anghenion cymhleth. Roedd ein gwasanaethau newyddion yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth yn ystod anawsterau yn ymwneud â'r tywydd ac achosion o darfu yn ystod yr haf mewn rhannau o Belfast; ac enillodd ystafell newyddion Foyle ei lle fel rhan o ddarpariaeth newydd trawslwyfan integredig y BBC yng Ngogledd Iwerddon.

Llwyddodd BBC Radio Ulster/Foyle i gynnal ei hapêl boblogaidd eang. Ychwanegwyd rhaglenni a chyflwynwyr newydd at ei hamserlen; dychwelodd lleisiau cyfarwydd o'r gorffennol i nodi 50 mlynedd ers sefydlu'r orsaf; a chyflwynodd rhagen brysur o ddarllediadau allanol wyliau a digwyddiadau lleol i gynulleidfa ehangach y BBC. Rhoddodd recordiadau o gyngherddau, gan gynnwys *The Living Air* o Eglwys Gadeiriol Belfast, lwyfan i Gerddorfa Ulster a thalent gerddorol leol. Ac roedd straeon a lleisiau gwrandawyr wrth wraid rhaglenni rhyngweithiol fel *Talkback* a *The Stephen Nolan Show*. Cafodd dramâu, comedi a llinynnau rhaglenni dogfen eu cynrychioli'n dda hefyd; llwyddodd *Assume Nothing* a *GAA Social* i ddenu cynulleidfa lawer ehangach ar BBC Sounds; a gwelwyd llawer o sgysiau ac eitemau yn ymwneud â llyfrau fel rhan o fenter flynyddol *Book Week* mewn partneriaeth â Libraries NI.

86%

23/24 **86%**

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio teledu/iPlayer, Radio neu Wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK 16+

64%

23/24 **62%**

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio cynnwys BBC Northern Ireland bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell: BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK



Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ogledd Iwerddon ar **dudalen 242**

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Ngogledd Iwerddon, gweler **tudalen 124**

Dychwelodd *Blue Lights* ar gyfer ail gyfres gan roi sylw i bobl, lleoedd a thalent lleol, a chyflwynodd *Hope Street* ar deledu rhwydwaith y BBC a Crá ddrama Wyddeleg i gynulleidfaoedd ar draws y DU. Ymhlith comisiynau rhwydwaith newydd eraill roedd: *Anna Haugh's Big Irish Food Tour*, *First Communion* a *Teen Predator/Online Killer* – y cafodd pob un ohonynt eu cynhyrchu'n lleol gyda chymorth gan Northern Ireland Screen. Drwy *Chronicles of the Sperrins*, *Give My Head Peace*, *House of the Year*, *Paula McIntyre's Hamely Kitchen USA* a *The Priests: Faith and Fame*, cawsom gyfle i adlewyrchu agweddau eraill ar fywyd a phrofiad cymunedol. A gwelwyd datblygiadau arloesol ym myd comedi gyda *Fun Boys* – a gomisiynwyd ar y cyd â BBC Three.

Cafodd *Mastermind* a *The Finish Line* eu recordio yn Stiwdio Blackstaff y BBC, gan ddefnyddio ein cerbyd darllediadau allanol newydd. Cafodd recordiadau o *A Kind of Spark* a *Picklestorm* ar gyfer BBC Children eu hwyluso gan sylfaen sgiliau o'r sector cynhyrchu lleol; symudodd BBC Parliament ei waith darlledu i Belfast; cafodd cam datblygu cyntaf y gwaith sylweddol o adnewyddu Broadcasting House ei gwblhau, gan ei baratoi ar gyfer y dyfodol; a gwnaethom barhau â'n hymdrechion, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, i sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy y diwydiannau sgrin yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys drwy fenter CINE.

Roeddem yn falch o sicrhau hawliau darlledu ar gyfer gemau pêl-droed rhyngwladol dynion Gogledd Iwerddon, gan ategu ein darllediadau o Gêm Derfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Iwerddon Gyfan y GAA, Cynghrair Iwerddon a phêl-droed menywod, rygbi a North West 200. Allbwn digidol yw llawer o'r allbwn hwn, gan ymateb i anghenion cynulleidfaoedd newydd a chyfleoedd.

Cyfes ddrama drosedd yw *Hope Street*, wedi'i ffilmio yn Donaghadee, Gogledd Iwerddon



LLOEGR

GWASANAETHAU LLEOL Y BBC YN LLOEGR

Bu'n 12 mis hanesyddol i BBC Local, gan fanteisio ar ffyrdd newydd o weithio i wasanaethu ein cynulleidfaoedd ledled Lloegr. Gyda'i gilydd, mae llwyfannau BBC Local (ar y teledu, ar y radio ac ar-lein) bellach yn denu mwy na 21 miliwn o bobl bob wythnos.

Ym mis Gorffennaf 2024, roedd ein darllediadau o'r Etholiad Cyffredinol yn seiliedig ar gael atebion i gynulleidfaoedd i'w galluogi i wneud eu dewis ar y diwrnod pleidleisio. Dyna'n union a wnaethom ar y Radio, ar y Teledu ac Ar-lein drwy *Your Voice*, *Your Vote*, nodwedd a lansiwyd ar bob llwyfan i roi atebion a'r cyd-destun i faterion a oedd yn bwysig yn lleol. Roedd ein holl drafodaethau ar draws y gorsafoedd radio lleol ar gael ar BBC Sounds a BBC iPlayer, ac ymddangosodd ASau newydd eu hethol ar eu gorsaf leol. Rydym hefyd wedi datblygu fformat 'Sedd Boeth' ar orsafoedd radio lleol, gan ddwyn gwleidyddion, penderfynwyr lleol a rheolwyr timau pêl-droed i gyfrif yn rheolaidd.

Ein rhaglenni newyddion rhanbarthol am 6.30pm yw'r rhaglenni newyddion a gaiff eu gwyllo fwyaf yn y DU o hyd. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein stiwdios gyda setiau newydd ym mhob un o'n 13 o ganolfannau teledu ac rydym wedi cwblhau'r broses o lansio fersiynau HD o holl amrywiadau rhanbarthol BBC One.

Y flwyddyn diwethaf, gwnaethom lansio 11 o dimau ymchwiliol newydd i ganfod gwirionedd ac mae ein rhaglenni dogfen ffurf hir wedi sbarduno sgwrs genedlaethol a thrafodaeth wleidyddol drwy eu rhaglenni ar gyfer BBC One a BBC iPlayer. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth yn Prime Minister's Questions yn dilyn ein diwrnod o gynnwys ar y system lesddaliadau, a holi uwch-swyddogion gweithredol yn y sector bwyd cyflym a'r sector manwerthu yn y Senedd, yn dilyn ein rhaglen ddogfen a'n darllediadau ar gaethwasiaeth fodern yn eu cadwyni cyflenwi.

Mae ein buddsoddiad mewn prosesau adrodd straeon cartref yn taro deuddeg â'n cynulleidfaoedd. Ym mis Mawrth, cafodd *Scams & Scandals*, *The Golden Toilet Heist*, ein hymchwiliad i'r achos o ddwyn toiled aur wedi'i blymio'n llawn ym Mhalas Blenheim, ei ddarlledu ar BBC One a BBC iPlayer gan archwilio gwirionedd y drosedd, a chafodd podlediad cysylltiedig ei lansio ar BBC Sounds, *Creme Next Door*, *The Golden Toilet Heist*.

Mae ein gorsafoedd radio lleol a'n tudalennau newyddion byw ar-lein wedi bod wrth wraidd straeon newyddion sy'n digwydd ar y pryd ac wedi dod â chymunedau ynghyd ar adegau anodd.

Yn dilyn yr ymosodiad a llofruddiaeth tair merch ifanc yn Southport, gwreiddiodd BBC Radio Merseyside yr orsaf yn y gymuned a darparodd tîm Gogledd-orllewin Lloegr ddiweddariadau i gynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol. Dilynodd tudalen newyddion fyw ddynodedig bob datblygiad a chafodd cynnwys sain y gorsafoedd radio lleol ei goladu mewn un sianel hawdd ei chanfod ar BBC Sounds, 'Southport' – y gyntaf o'i bath ar y rhwydwaith. Ymhell ar ôl i'r timau newyddion cenedlaethol adael, Radio Merseyside oedd y glud a ddaliodd y gymuned at ei gilydd drwy gynnig lle diogel i bobl ddod ynghyd a galaru.

Unwaith eto, yn ystod stormydd peryglus y gaeaf, gwnaethom barhau i ddarparu rhaglennu lleol pa bryd bynnag yr oedd ei angen, gan gynnig tudalennau newyddion byw ar-lein ar yr un pryd yn aml.

Yn ystod yr adegau da, mae ein timau yn dathlu ac yn dangos gogoniant ein cymunedau, yn ogystal â rhoi llwyfan i gerddoriaeth ar lawr gwlad ac ymrwymiad parhaus i raglenni ffydd.

Mae Radio Leeds wedi bod wrth wraidd y broses o lansio Bradford Dinas Diwylliant y DU 2025 drwy gyflwyno straeon cartref gwreiddiol ac eitemau diwylliannol ar bob llwyfan. Mae ein timau Radio, Teledu ac Ar-lein lleol yn tywys cynulleidfaoedd drwy ddigwyddiadau chwaraeon mawr, o ddyrchafiad Ipswich Town yn 2024 i Newcastle United yn ennill Cwpan Carabao – buddugoliaeth gyntaf y clwb mewn cystadleuaeth cwpan fawr ers 70 mlynedd.

Yn ystod yr hydref, gwnaethom gynnal 39 o seremonïau gwobrwyo Make a Difference ledled y wlad a rhoddwyd sylw i'r fenter ar draws y BBC ar *Morning Live* a *The One Show*. Y flwyddyn hon, gwnaethom gyhoeddi y byddwn yn ehangu'r fenter ymhellach wrth i'r gwledydd datganoledig ymuno â Make a Difference.

Creodd ein timau lleol bodlediadau cartref cyffrous gan roi sylw i straeon a oedd yn effeithio ar gymunedau yn Lloegr, fel *DNA Trail*, *The Promise* ac *In Detail...The Toxic Waste Scandal*, yr oedd Corby yn ganolbwynt iddo. Cafodd cyfres *Crime Next Door: The Salisbury Poisonings*, ei chwarae 1.6 miliwn o weithiau ar BBC Sounds.



Staz Nair yn y ddrama drosedd gyffrous *Virdee*, a gafodd ei darlledu am y tro cyntaf yn Bradford yn ystod ei blwyddyn fel Dinas Diwylliant

Ym mis Medi 2024, gwnaethom ryddhau pum pennod olaf y gyfres lwyddiannus *Rob Burrow Seven*, *Meets* a wnaed gan BBC Radio Leeds, gan ddathlu bywyd a gwaddol y diweddar chwaraewr rygbi'r gynghrair. Cafodd y gyfres, a recordiwyd cyn ei farwolaeth o Glefyd Niwronau Motor, ei chreu drwy ddefnyddio llais cyfrifiadurol y gwnaeth Rob ei fancio cyn iddo golli'r gallu i siarad, a thechnoleg llygaidd arbennig. Cyflwynodd y gyfres sgwrsiau eofn a dychanol Rob, wrth iddo ofyn saith cwestiwn i sêr y byd chwaraeon.

Rydym yn parhau i adolygu'r newidiadau o ran allbwn a wnaethom yn 2023 ar draws Radio Lleol y BBC ac, o ganlyniad, gwnaethom rai newidiadau yn ystod chwarter cyntaf 2025. Gwnaethom gyflwyno tair rhaglen frecwest bore dydd Sadwrn newydd, un yng Nglannau Mersi, un arall ar gyfer Norfolk, Suffolk, Essex a Swydd Gaergrawnt, ac un ar gyfer Henffordd a Chaerwrangon, Swydd Amwythig a Stoke.

83%

23/24 **85%**

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd. Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK 16+

45%

23/24 **45%**

% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio cynnwys lleol y BBC bob wythnos ar gyfartaledd. Ffynhonnell: BARB, RAJAR, Piano Analytics, Compass gan Ipsos UK



Ceir rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Loegr ar **dudalen 245**

I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn Lloegr, **gweler tudalen 124**

EIN CYNULLEIDFAOEDD

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi cydberthynas y BBC â chynulleidfaoedd: sut mae pobl yn y DU yn ein defnyddio a'u barn amdanom; sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein targedau ar gyfer y flwyddyn; a sut rydym yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd.

2024/25 yw blwyddyn gyntaf strategaeth newydd y BBC, 'A BBC for the Future', sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethu tair rôl – gyda pherfformiad cryf ym mhob un.

Mewn byd lle mae saith o bob 10 yn poeni am yr hyn sy'n wir ac yn ffug mewn newyddion ar-lein, nod y BBC, drwy ei ymrwymiad i **ganfod gwirionedd heb unrhyw agenda**, yw ceisio helpu i fynd i'r afael ag un o bryderon y cyhoedd – ac mae bron 70% hefyd yn teimlo'n anniddig am ddyfodol cymdeithas ddemocrataidd waraidd yn y DU. Ers ei lansio yn 2023, mae BBC Verify wedi bod yn esbonio'r hyn y mae BBC News yn ei wybod, a sut rydym yn ei wybod, i gynulleidfaoedd, gan olygu mai BBC Verify yw'r gwiriwr ffeithiau sydd fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio yn y DU. Mae'r cyhoedd yn gweld y BBC fel y darparwr sy'n gwneud y mwyaf i gynnig adroddiadau a chynnwys cywir. Yn 2024/25, y BBC oedd y ffynhonnell newyddion a ddefnyddiwyd fwyaf yn y DU o hyd, a chynyddodd safbwyntiau'r cyhoedd am ddibynadwyedd BBC News i 62% o 57% yn 2023/24.

Mewn byd lle mae lleiafrif o 21% o oedolion yn y DU o'r farn bod ffrydwr byd-eang yn adlewyrchu bywydau pobl yn y DU, mae'r BBC yn canolbwyntio ar **gefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau**. Yn gyffredinol, cred 64% o oedolion yn y DU fod y BBC yn arddangos creadigrwydd y DU (8% yn anghytuno). Ac ym marn y cyhoedd yn y DU, ni yw'r darparwr sy'n gwneud yr ymdrech fwyaf i gynnig cynnwys cartref o ansawdd uchel o bob cwr o'r DU – ymhell o flaen y darparwr nesaf. Yn ystod 2024/25 yn gyffredinol, gwelwyd gwelliant yn safbwyntiau oedolion yn y DU am ansawdd, creadigrwydd a natur unigryw rhaglenni, cynnwys a gwasanaethau'r BBC o un flwyddyn i'r llall. Gwelwyd gwelliant hefyd mewn canfyddiadau o'r graddau y mae'r BBC yn darparu ar gyfer rhannau gwahanol o'r DU.

Mewn byd lle mae tri chwarter yr oedolion yn y DU o'r farn bod cymdeithas y DU wedi'i rhannu, nod y BBC yw helpu i'n cysylltu a **dod â phobl ynghyd gyda chynnwys na ellir ei golli**. Cred y cyhoedd yn y DU mai ni yw'r darparwr sy'n gwneud yr ymdrech fwyaf i gyflawni hyn – ymhell o flaen y darparwr nesaf. Rydym hefyd yn rhan ganolog o fywyd pob dydd yn y DU. Ar ddiwrnod arferol yn 2024/25, dechreuodd 16 miliwn o bobl eu diwrnod gyda'r BBC, a throdd 24 miliwn at y BBC am adloniant gyda'r nos.

Gwelwyd gwelliant yng nghanfyddiadau'r cyhoedd o'r graddau y mae rhaglenni a chynnwys y BBC yn gwasanaethu amrywiaeth eang o ddiddordebau o un flwyddyn i'r llall yn 2024-25.

Cawsom effaith ddofn ar gynulleidfaoedd yn ystod 2024/25 a gwelwyd gwelliant mewn canfyddiadau'r cyhoedd o un flwyddyn i'r llall, ond gwyddom fod mwy y mae angen i ni ei wneud.

Gwnaethom berfformio'n dda ar draws tair rôl y BBC yn ystod 2024/25. Ac yn fwy cyffredinol, roedd 68% o oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran cyflawni ei genhadaeth y flwyddyn hon (dywedodd 13% ei fod yn aneffeithiol), yn debyg i'r tair flwyddyn flaenorol.* Mewn cartrefi sy'n talu ffi'r drwydded, cynyddodd y ffigur hwn i 70% (dywedodd 12% ei fod yn aneffeithiol).

Ym mhob grŵp cynulleidfa, ni waeth beth fo'i oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, tarddiad ethnig na daearyddiaeth, mae'r nifer mwyaf o bobl yn dal i deimlo ein bod wedi cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion. Gyda chryfder y cynnwys yn 2024/25 ac ar ôl heriau o ran enw da yn 2023/24, mae llawer o'r sgoriau canfyddiadau i fyny o un flwyddyn i'r llall.

Fodd bynnag, mae mwy y mae angen i ni ei wneud i leihau gwahaniaethau o ran pa mor dda rydym yn adlewyrchu pobl wahanol, safbwyntiau gwahanol am y byd a rhannau gwahanol o'r DU.

Mae angen i ni wneud mwy o gynnydd wrth leihau'r bwlch mewn lefelau boddhad ymhlith cynulleidfaoedd o gefndiroedd llai cefnog, cynulleidfaoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a phobl anabl.

O ran ein perfformiad ledled y DU, mae'r defnydd o gynnwys y gwledydd, rhanbarthau a phortreadu yn uchel – yn yr wythnos gyffredin yn 2024/25, defnyddiwyd y cynnwys hwn gan 34 miliwn o'r 46 miliwn o bobl a drodd at y BBC. Gwnaethom ganolbwyntio ar leihau gwahaniaethau sy'n bodoli ar draws y DU o ran canfyddiadau o bortreadu.

Mae ein cynllun gweithredu ar ddiueddrwydd, cynlluniau Across the UK, ymrwymadau amrywiaeth greadigol a'n hadolygiad thematig annibynnol ar bortreadu i gyd yn rhan o'n ffocws ar y blaenoriaethau hyn.

Parhaodd y BBC i arwain y ffordd ym maes y cyfryngau yn gyffredinol, fideo, sain a newyddion yn y DU yn 2024/25, a bydd angen i ni barhau i ymateb yn gyflym i'r tueddiadau o'n cwmpas.

Yn y farchnad cyfryngau yn gyffredinol, mae'r BBC yn wasanaeth cyhoeddus y mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn y DU – beth bynnag fo'u hoedran – yn dewis ei ddefnyddio bob wythnos. Yn 2024/25, ar gyfartaledd, roedd 84% o oedolion yn gyffredinol yn defnyddio'r BBC bob wythnos – mwy nag unrhyw frand arall ar gyfer y cyfryngau – ac roedd 94% yn ei ddefnyddio bob mis. Treuliodd oedolion 15 awr 20 munud gyda ni bob wythnos ar gyfartaledd – eto, mwy na gydag unrhyw frand cyfryngau arall. Parhaodd sgôr gyfartalog oedolion ar gyfer gwerth am arian i fod yn bump allan o ddeg. Ac o ran gwerth a gyflawnwyd, costiodd pob awr o ddefnydd o'r BBC 8c ar gyfartaledd.

Yn y farchnad fideo, cyflwynodd y BBC ddilyniant cyfoethog o gynnwys yn ystod y flwyddyn, gan ddechrau â theitlau ffeithiol, adloniant a drama cryf yn y gwanwyn; i'r haf o chwaraeon a darllediadau o Etholiad Cyffredinol y DU; yna i ddenu'r nifer mwyaf o wylwyr i BBC One ar Ddydd Nadolig mewn bron 20 mlynedd yn ystod y gaef; ac yna *The Traitors*, *Gladiators* a Chwpan yr FA yn y flwyddyn newydd.

Roedd hyn yn golygu bod nifer y bobl a wylodd y BBC yn fwy sefydlog o un flwyddyn i'r llall o gymharu â'r darlledwyr eraill, ac y bu cynnydd yn nifer yr oriau a dreuliwyd gan y cyhoedd yn y DU yn gwylio ein cynnwys o gymharu â 2023/24, yn groes i dueddiadau'r farchnad darlledwyr. Mae'r cyhoedd yn y DU yn parhau i wyllo mwy o oriau o gynnwys teledu y BBC nac unrhyw ddarparwr arall, gan gynnwys mwy na Netflix, Disney+ ac Amazon Prime gyda'i gilydd.

Ymhlith cynulleidfaoedd ifanc, bu cynnydd hefyd yn yr amser a dreuliwyd ganddynt yn gwylio teledu'r BBC o un flwyddyn i'r llall – eto, gan fynd yn groes i duedd y farchnad darlledwyr. Fodd bynnag, er mai'r BBC yw eu prif ddarlledwr o hyd, mae cynulleidfaoedd ifanc yn dal i dreulio'r mwyafrif o'u hamser fideo gyda llwyfannau rhannu fideos byd-eang (44% o'r holl amser fideo) a gwasanaethau fideo ar alw y tanysgrifir iddynt neu sy'n seiliedig ar hysbysebion (SVOD/AVOD) (29% o'u hamser fideo erbyn hyn), o flaen darlledwyr gyda'i gilydd (27%).



Samuel Anderson a Lucy Punch yn *Amandaland*, y gyfres a ddeilliodd o *Motherland*

Yn y farchnad sain, Radio'r BBC sy'n arwain y farchnad o hyd gyda mwy na 31 miliwn o oedolion yn gwrandao bob wythnos ar gyfartaledd – mwy nag unrhyw gwmni radio darlledu neu chwaraewr ar-lein arall. Ers 2021/22, mae Radio'r BBC wedi colli gwrandawyr ac amser gwrandao, gan deimlo pwysau yn sgil y sector radio masnachol bywiog a llwyfannau ffrydio cerddoriaeth. Fodd bynnag, yn 2024/25, llwyddodd Radio'r BBC i wrthdroi ei thuedd ddiweddar, gan sicrhau ffigurau gwrandao mwy sefydlog o un flwyddyn i'r llall ymhlith oedolion yn gyffredinol yn ogystal â phobl 16-34 oed. Parhaodd twf llwyfannau ffrydio cerddoriaeth yn gadarn ymhlith pob cynulleidfya, yn enwedig ymhlith oedolion ifanc gyda mwy ohonynt – 84% – bellach yn gwrandao ar lwyfannau ffrydio a phodlediadau bob wythnos nag unrhyw gynnwys radio (79%).

Yn y farchnad newyddion, BBC News yw'r darparwr a ddefnyddir fwyaf, gan gyrraedd 74% o oedolion yn y DU bob wythnos ar gyfartaledd yn 2024/25 a chyrraedd uchafbwynt yn ystod wythnos Etholiad Cyffredinol y DU gyda 82% o oedolion yn gyffredinol a 71% o bobl 16-34 yn ei ddefnyddio. Yr her o hyd yw cynnal cyrhaeddiad BBC News y tu hwnt i'r momentau mawr hyn pan fo'r bar wedi'i osod yn uwch ar gyfer ymgysylltu, yn enwedig wrth i bobl barhau i osgoi'r newyddion.

Ar-lein, y BBC oedd unig frand cynulleidfaoedd y DU ymhlith y deg mwyaf poblogaidd yn gyson – yr unig ddarparwr o'r DU ymhlith darparwyr byd-eang. Yn ystod wythnos arferol, defnyddiodd 34 miliwn o'r 46 miliwn o oedolion a drodd at y BBC ein gwasanaethau ar-lein – gan barhau ar y trywydd y bydd angen i ni ei ddilyn er mwyn parhau i fod yn berthnasol mewn byd ar-lein.

Er mwyn sicrhau effaith gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, mae angen i ni gynyddu ein cyfran o'r farchnad cyfryngau. Bydd angen i ni hefyd barhau i ymateb yn gyflym i dueddiadau'r farchnad, yn enwedig gan fod 36 miliwn o bobl yn gwylio gwasanaethau SVOD bob wythnos ar gyfartaledd – ac y gwelir y twf mwyaf ymhlith cynulleidfaoedd hŷn – a bod nifer y bobl sy'n gwrandao ar lwyfannau ffrydio cerddoriaeth/podlediadau wedi cynyddu i 29 miliwn.

Llwyddwyd i gyflawni pob un o'r targedau perfformiad a osodwyd gan y BBC ar gyfer 2024/25 heblaw un.

Gwnaethom gyflawni ein targed ar gyfer ehanger y gydberthynas sydd gennym â'r cyhoedd yn y DU yn gyffredinol, wrth i fwy nag wyth o bob deg o oedolion yn y DU ddefnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2024/25. Gwnaethom hefyd gyflawni ein targedau wrth fesur dyfnder ein cydberthynas – hynny yw, canran yr oedolion sy'n troi at y BBC bum diwrnod neu fwy bob wythnos, am bum awr neu fwy bob wythnos, a'r rhai sy'n defnyddio dau fodd neu fwy bob wythnos. Er i ni gyrraedd ein targedau, tueddodd perfformiad i lithro o un flwyddyn i'r llall ar y metrigau hyn.

Gan adlewyrchu ein cynlluniau digidol, 2024/25 oedd y flwyddyn orau eto i BBC Ar-lein. Gwnaethom ragori ar ein targedau cynulleidfaoedd ar gyfer cyrhaeddiad â chyfrifon i BBC Ar-lein yn gyffredinol, iPlayer (yn gyffredinol ac ymhlith pobl dan 35 oed) a BBC News Online. Roeddem ar y trywydd cyrraedd i gyrraedd ein

nod o ran cyfrifon BBC Sounds ond rydym am wthio ymhellach. Yn ogystal â'r cynnydd mwyaf erioed yn nifer y cyfrifon iPlayer, cynyddodd yr amser a dreuliwyd gan bobl yn defnyddio iPlayer yn fwy o un flwyddyn i'r llall nag unrhyw ffrydiwr ffurf hir arall yn 2024/25.[^]

Ymhlith y rhai dan 16 oed, defnyddiodd 70%, y BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2024/25 (69% yn 2023/24) – ar ben uchaf yr ystod darged. Yn dilyn tair blynedd o ostyngiad, bu cynnydd yn yr amser a dreuliwyd ganddynt gyda ni bob wythnos ar gyfartaledd o un flwyddyn i'r llall. Defnyddiodd hanner y rhai dan 16 oed ein gwasanaethau plant ac addysg bob wythnos ar gyfartaledd yn 2024/25, sef cynnydd o gymharu â'r llynedd a chan ragori ar y targed unwaith eto.

Ymhlith pobl 16-34 oed, defnyddiodd 67% y BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2024/25. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 71% yn 2023/24 ac islaw'r targed o 70%. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, bu cynnydd yn sgôr perthnasedd personol pobl 16-34 oed o un flwyddyn i'r llall ac mae'n unol â'r targed, ac mae sgôr pobl 16-34 oed ar gyfer cyflawni'r genhadaeth yn gryf ac yn gadarn o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er bod cyrhaeddiad cyffredinol y BBC wedi gostwng ymhlith pobl 16-34 oed, y BBC yw'r unig ddarparwr yn y DU ymhlith eu pum prif frand ar gyfer y cyfryngau o hyd, a hynny yn wyneb cystadleuaeth gan ddarparwyr byd-eang. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn parhau i fod yn rhan reolaidd o ddeiet cyfryngau y mwyaf i'r bobl ifanc yn y DU.

Rydym yn cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol ac ymchwil gyda'r cyhoedd yn y DU fel bod eu llais wrth wraidd y drafodaeth am ddyfodol y BBC.

Mae'r BBC eisoes yn arolygu ac yn siarad â miloedd o aelodau o'r cyhoedd yn y DU i gasglu eu barn am yr hyn rydym yn ei gynnal, fel y nodir yn fanylach dros y dudalen. Fodd bynnag, rydym yn cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu â chynulleidfaoedd a'n sgysiau â'r cyhoedd yn y DU.

Y flwydyn hon, gwnaethom lansio 'Ein BBC, Ein Dyfodol', ein proses ymgysylltu â'r cyhoedd fwyaf erioed, yn gofyn i ddeiliaid cyfrifon am yr hyn y maent am ei gael gan y BBC, nawr ac yn dyfodol. Byddwn yn rhannu'r canlyniadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd rhagor o weithgarwch ac ymchwil gyda chynulleidfaoedd yn dilyn, gan sicrhau bod y bobl sy'n gwylio cynnwys y BBC, yn gwrandao arno ac yn ei ddefnyddio yn helpu i lunio dyfodol ein BBC.

i Ceir rhestr lawn o wybodaeth ar **dudalen 223**

68%

23/24 **67%**

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol o ran eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu nhw/pobl yn y DU
(Aneffithiol: 13%. 23/24 13%)
Ffynhonnell: Ipsos UK 16+

Mae'r BBC yn ddarparwr cyfryngau cyffredinol Defnyddir gan:


Bob dydd **63%** o oedolion yn y DU **35 miliwn**

Bob wythnos **84%** o oedolion yn y DU **46 miliwn**

Bob mis **94%** o oedolion yn y DU **51 miliwn**


Parhaodd y BBC i arwain y ffordd ym maes y cyfryngau yn gyffredinol, fideo a sain yn y DU yn 2024/25.

Y pum brand a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer y cyfryngau




Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK (16+) yn seiliedig ar gyrrhaeddiad wythnosol cyfartalog cronedig o 15 munud (ar lwyfannau)

Y farchnad fideo



Ffynhonnell: BARB Fel y'i Gwilywyd Pob dyfais (4+) yn seiliedig ar gyrrhaeddiad wythnosol cyfartalog parhaus o 15 munud. NB mae YouTube ac ITV ynghlwm yn y data hyn

Y farchnad sain



Ffynhonnell: Cyrhaeddiad RAJAR (15+) yn seiliedig ar 15+ munud / MIDAS RAJAR (15+) / YouGov (16+)

* Ipsos UK, 4,123 oedolion 16+ oed yn y DU, Rhagfyr2024-Chwefror 2025. Sgôr gyfartalog ar draws hysbysu, addysgu a diddanu pobl yn y DU a nhw.

Ein cynulleidfaoedd – parhad

YMGYSYLLTU Â CHYNULLEIDFAOEDD

GWERTH I BAWB

Yn y BBC, Caiff ein strategaeth Gwerth i Bawb ei hategu gan ddealltwriaeth ddofn o gynulleidfaoedd ledled y DU. Rydym yn defnyddio amrywiaeth eang o adborth a data i lywio penderfyniadau ym mhob rhan o'n sefydliad.

Sut rydym yn deall ein cynulleidfaoedd:

Mesur y Cyfryngau a Dadansoddi Digidol: Rydym yn defnyddio dulliau sy'n arwain y diwydiant i olrhain dewisiadau pobl o ran y cyfryngau ar draws llwyfannau fideo, sain ac ar-lein. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gwybod beth mae ein cynulleidfaoedd yn ei ddefnyddio, gan y BBC a thu hwnt.

Adborth Uniongyrchol gan Gynulleidfaoedd: Rydym yn arolygu'r cyhoedd yn y DU yn rheolaidd er mwyn deall eu teimladau am y BBC, ein rhaglenni a'n gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ein harolwg 'Ein BBC, Ein Dyfodol', yr ydym wedi gwahodd dros 40 miliwn o ddeiliaid cyfrifon y BBC i gymryd rhan ynddo. Yn yr arolwg, rydym yn gwahodd y cyhoedd i fynegi eu barn am ddyfodol y BBC – ac yn gofyn am eu hadborth ar yr hyn y maent am i'r BBC ganolbwyntio arno. Byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

Virtual In Person: Ein rhaglen ymgysylltu â chynulleidfaoedd sy'n hwyluso sgysiau rhwng staff y BBC a'r cyhoedd.

Mae'r holl wybodaeth hon yn ein helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wnawn.

RHAGLEN YMGYSYLLTU VIRTUAL IN PERSON (VIP)

Virtual In Person (VIP) yw rhaglen ymgysylltu â chynulleidfaoedd y BBC. Mae VIP, a lansiwyd yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, bellach yn ei chweched flwyddyn, ac mae'n parhau i gynnis cyfleoedd wythnosol i staff y BBC glywed yn uniongyrchol gan bobl go iawn, mewn amser real.

Sesiynau byw, ar-lein, 90 munud yw sesiynau VIP lle y caiff aelodau o'r cyhoedd eu cyfweled am eu harferion o ran y cyfryngau, eu cydberthynas â'r BBC a'u barn am gynnwys, cynhyrchion a gwasanaethau'r BBC. Mae cydweithwyr yn y BBC yn gwylio ac yn gwrandao ar y sesiynau ac maent yn ffordd bwerus o weld a chlywed yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl mewn gwirionedd.

Dros y 12 mis diwethaf, mae tîm VIP wedi cynnal 110 o sesiynau ychwanegol, gan gynnwys 623 o aelodau cynulleidfaoedd a 1,792 o gydweithwyr o'r BBC. Mae hyn yn golygu bod y tîm wedi cynnal mwy na 500 o sesiynau VIP ac wedi siarad â mwy na 3,000 o aelodau o'r cyhoedd, a wylwyd gan fwy na 10,000 o gydweithwyr yn y BBC, ers i'r rhaglen ddechrau.

Mae aelodau'r cynulleidfaoedd yn cynrychioli amrywiaeth eang o oedranau a demograffeg ac yn dod o leoliadau o bob cwr o'r DU. Yn ogystal â sicrhau bod pob un o'r gwledydd yn cael eu cynrychioli yn y

sesiynau drwy'r flwyddyn, cynhaliodd tîm VIP hefyd 17 o sesiynau yn ymwneud â gwlad benodol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Ymysg y pynciau a drafodwyd mae arferion gwylio a gwrandao, BBC iPlayer a BBC Sounds, newyddion cenedlaethol a lleol, chwaraeon, cynnwys plant, cynrychiolaeth ar y sgrin, gwerth ar gyfer ffi'r drwydded, didueddrwydd a thryloywder.

Yn hyn o beth, roedd gan gyfranogwyr ddiddordeb ym mlaenoriaethau strategol y BBC, dewisiadau golygyddol, ac roeddent am deimlo cysylltiad a gwybod bod safbwyntiau'r gynulleidfa yn llywio'r penderfyniadau a wneir gan y BBC. Ar y cyfan, roeddent yn fodlon ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ond roeddent am ei chael mewn fformatau haws eu defnyddio.

Mae Pwyllgorau Gwledydd y BBC hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â chynulleidfaoedd rheolaidd, y ceir rhagor o fanylion amdanynt ar dudalen 123.

Mae deall ein cynulleidfaoedd yn well drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw yn rhan hanfodol o'r broses o helpu'r BBC i gyflawni ei nod o sicrhau gwerth i bawb.



Adelayo Adedayo a Martin Freeman yn chwarae rhan swyddogion yr heddlu yn y ddrama dditectif, *The Responder*

SICRHAU GWERTH I GYNULLEIDFAOEDD
Perfformiad yn erbyn targedau cynulleidfaoedd 2024/25

Sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd yn gyffredinol

Cyrhaeddiad y BBC % yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK	84% Targed 80-90%
Arfer a werthfawrogir gyda'r BBC % yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio'r BBC bum diwrnod neu fwy bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK	64% Targed 60-65%
% yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio'r BBC am bum awr neu fwy bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK	53% Targed 50-55%
% yr oedolion 16+ oed yn y DU sy'n defnyddio dau neu fwy o foddau'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK	60% Targed tua 60%

Parhau i ganolbwyntio ar heriau allweddol o ran cynulleidfaoedd

Oedolion ifanc Cyrhaeddiad y BBC % y bobl 16-34 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK	67% Targed tua 70%
Perthnasedd personol % y bobl 16-34 oed yn y DU sydd o'r farn bod 'y BBC yn adlewyrchu pobl fel nhw' Ffynhonnell: Ipsos UK	51% Targed tua 50%
Y rhai dan 16 oed Cyrhaeddiad y BBC % y rhai dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK	70% Targed 65-70%
Cyrhaeddiad gwasanaethau BBC Children/Education % y rhai dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC Children/Education bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK	51% Targed 45-50%

Blaenoriaethu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad sy'n ganolog i ddyfodol digidol y BBC

Cyrhaeddiad BBC Ar-lein o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC Ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd Ffynhonnell: Piano Analytics	23.6m Targed 23m+
Cyrhaeddiad BBC iPlayer o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd Cyfrifon yn gyffredinol Ffynhonnell: Piano Analytics	15.2m Targed 14.0m+
Cyfrifon y rhai dan 35 oed Ffynhonnell: Piano Analytics	4.3m Targed 4.0m+
Amser a dreulir ar BBC iPlayer y pen bob wythnos Amser cyfartalog a dreulir y pen bob wythnos Ffynhonnell: BARB Fel y'i Gwyliwyd (pob dyfais)	81 munud Targed 70 munud+
Sgôr BBC iPlayer Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig allan o 10) Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU Ffynhonnell: YouGov	8 o bob 10 Targed 8 o bob 10
Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU Ffynhonnell: YouGov	8 o bob 10 Targed 8 o bob 10
Cyrhaeddiad BBC Sounds o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio BBC Sounds bob wythnos ar gyfartaledd Cyfrifon yn gyffredinol Ffynhonnell: Piano Analytics	4.8m Targed 4.8m~
Cyrhaeddiad BBC News o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon Cyfrifon gweithredol sy'n defnyddio amrywiaeth o gynhyrchion BBC News bob wythnos ar gyfartaledd Cyfrifon yn gyffredinol Ffynhonnell: Piano Analytics	10.5m Targed 10.0m+

~ Effeithiodd achos o orgyfrif wrth fesur ar ddata Sounds yn ystod 2023/24. Effeithiodd hyn ar y targed a bennwyd ar gyfer 2024/25 yng Nghynllun Blynyddol 2024/25. Adferwyd cyfrifon Sounds ar gyfer 2023/24 ac mae'r targed ar gyfer 2024/25 wedi'i ailddatgan yn 4.8 miliwn i dynnu'r gorgyfrif.

Ymgynghoriadau

YMGYNGORIADAU

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y BBC ystyried manteision ymgynghori â phobl â budd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, ac mae'n elfen allweddol o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn 2024/25, cyhoeddodd y BBC ganlyniad dau ymgynghoriad ar newidiadau sylweddol arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Cynhaliodd y BBC hefyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft diwygiedig o Ganllawiau Golygyddol y BBC.

YMGYNGORIADAU PRAWF BUDD Y CYHOEDD AR ORSAFOEDD CERDDORIAETH DIGIDOL NEWYDD A NEWIDIADAU I BBC RADIO 5 LIVE SPORTS EXTRA
Y flwyddyn diwethaf, gwnaethom nodi bod y BBC wedi agor dau ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd – un ar gynigion ar gyfer pedair gorsaf cerddoriaeth DAB+ newydd – estyniadau i BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 3 – a'r llall ar gynigion i gynyddu oriau darlledu BBC Radio 5 live sports extra. Datblygwyd y cynigion er mwyn rhoi mwy o ddewis a mwy o werth o ffi'r drwydded i gynulleidfaoedd, yn enwedig i'r rheini nad yw'r BBC yn eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd. Gofynnodd yr ymgynghoriadau am farn am werth posibl y cynigion i'r cyhoedd a'u heffaith gystadleuol bosibl.

Defnyddiwyd yr adborth a gafwyd o'r ymgynghoriadau, ynghyd â gwaith dadansoddi'r farchnad a chynulleidfaoedd, i helpu i lunio cynigion terfynol y BBC, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024. Roedd y cynigion hyn yn amlinellu ein hystyriaethau o ymatebion rhanddeiliaid a newidiadau manwl i'n cynigion cychwynnol. Daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad bod y cynigion diwygiedig ar gyfer gorsafoedd newydd wedi bodloni gofynion y Prawf Budd y Cyhoedd.

Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr adborth a gafwyd a'r Prawf Budd y Cyhoedd, yma: [bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/bbc-new-digital-music-stations-5-sports-extra-public-interest-test/](https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultation/bbc-new-digital-music-stations-5-sports-extra-public-interest-test/).

Cyfeiriwyd y cynigion at Ofcom, rheoleiddiwr y BBC, am benderfyniad terfynol. Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Ofcom ei chasgliadau dros dro – yn cymeradwyo lansio tair gorsaf DAB+, sef Radio 1 Anthems, Radio 1 Dance a Radio 3 Unwind, a gwrthod cynigion y BBC ar gyfer BBC Radio 5 Sports Extra a'r estyniad newydd i Radio 2 oherwydd ei asesiad o effaith debygol y cynigion ar y farchnad. Gellir gweld y manylion yma: [ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/bbc/consultation-proposed-new-bbc-dab-radio-stations-and-proposed-changes-to-radio-5-sports-extra](https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/bbc/consultation-proposed-new-bbc-dab-radio-stations-and-proposed-changes-to-radio-5-sports-extra). Disgwylir i Ofcom gyhoeddi ei phenderfyniad terfynol yn ystod haf 2025.

YMGYNGHORIAD AR DDRAFFT DIWYGIEDIG O GANLLAWIAU GOLYGYDDOL Y BBC
O dan y Siarter bresennol, Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am y Canllawiau Golygyddol a rhaid iddo bennu, cyhoeddi a dilyn canllawiau sydd â'r nod o sicrhau safonau priodol yng nghydestun gwasanaethau cyhoeddus y DU, a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.
Mae'r BBC yn adolygu'r Canllawiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydfynd â newidiadau cyfreithiol, golygyddol a thechnolegol, yn ogystal â newidiadau i arferion ac agweddau cynulleidfaoedd. Cynhelir yr adolygiadau hyn bob pedair neu bum mlynedd yn fras.
Ym mis Tachwedd 2024, agorodd y BBC ymgynghoriad ar ddrafft diwygiedig o Ganllawiau Golygyddol y BBC a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a Bwrdd y BBC.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ynghylch a oedd y Canllawiau yn nodi safonau golygyddol priodol i'r rhai sy'n gwneud rhaglenni a chynnwys y BBC ac a oeddent yn adlewyrchu'n ddigonol y newidiadau ym myd y cyfryngau ers yr adolygiad diwethaf yn 2019.
Yn dilyn adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaed diwygiadau pellach i'r Canllawiau drafft diwygiedig.
Cymeradwyodd Bwrdd y BBC newidiadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn a'r testun terfynol dilynol. Ar 24 Mehefin 2025, cyhoeddodd y BBC Ganllawiau Golygyddol y BBC 2025, sydd ar gael yma: [bbc.co.uk/editorialguidelines](https://www.bbc.co.uk/editorialguidelines). Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr adborth a gafodd y BBC, yma: [bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultations](https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/consultations)



Enillodd CBeebies wobwr BAFTA am Gynnwys Wedi'i Sgrïptio i Blant yn 2025 am ei chynhyrchiad o *As You Like It* yn Shakespeare's Globe

ADRODDIAD



GWEITHREDOL

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar sut mae'r BBC yn gweithredu: ein sefyllfa ariannol; sut rydym yn recriwtio, datblygu a chadw'r bobl orau; a sut rydym yn blaenoriaethu cynaliadwyedd amgylcheddol.

t58

Adolygiad y Prif
Swyddog Gweithredu

t61

Ein sefyllfa ariannol

t65

Ein pobl

t70

Cynaliadwyedd
amgylcheddol

t75

Gwaith elusenol

ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDU

Leigh Tavaziva

Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp



Mae cynnig gwerth i bob cynulleidfwrth wraidd ein gweithrediadau o hyd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad gweithredol ac ariannol dros y 12 mis diwethaf a'r rhagolwg wrth i ni barhau i drawsnewid i fod yn sefydliad ystywyth sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

SEFYLLFA ARIANNOL

Yn gyffredinol, roedd y perfformiad ariannol yn 2024/25 yn well na'r disgwyl mewn blwyddyn o drawsnewid sylweddol.

Roedd refeniw Grŵp y BBC, sef £5.9 biliwn, 9% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (2023/24: £5.4 biliwn). Mae refeniw'r Grŵp yn cynnwys incwm ffi'r drwydded gwasanaeth cyhoeddus, sef y ffynhonnell unigol fwyaf o incwm o hyd, ffrydiau incwm allanol gwasanaeth cyhoeddus eraill fel incwm grant ac incwm y Grŵp Masnachol.

Cynyddodd incwm ffi'r drwydded o un flwyddyn i'r llall, a'r cyfanswm yn 2024/25 oedd £3.8 biliwn (2023/24: £3.7 biliwn), wedi'i ysgogi gan y cynnydd chwyddiannol o 6.7% ym mhriis ffi'r drwydded i £169.50. Mae'r mwyafrif helaeth o'n cynulleidfaoedd yn parhau'n ymrwymedig i dalu ffi'r drwydded ac roedd 23.8 miliwn o drwyddedau gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn.

Perfformiodd BBC Commercial yn dda er gwaethaf y cefndir o amodau masnachu heriol a marchnad hysbysebu feddalach, gan gyflawni'r gwerthiannau uchaf erioed, sef £2.2 biliwn (2023/24: £1.9 biliwn).

Gwellodd diffyg gweithredu'r Grŵp o un flwyddyn i'r llall i £132 miliwn (2023/24: £263 miliwn) gan adlewyrchu'r twf refeniw yn ein gweithrediadau masnachol.



Mae sicrhau gwerth yn rhan flaenllaw o'n gweithrediadau wrth i ni barhau i adeiladu BBC ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Tachwedd 2024, cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol astudiaeth Gwerth am Arian ar berfformiad BBC Studios rhwng 2018 a'r presennol. Daeth i'r casgliad bod BBC Studios wedi llwyddo i gynyddu ei adenillion i'r BBC a'i fod wedi addasu i newidiadau yn y farchnad, gan ei alluogi i dyfu. Nododd yr adroddiad, er mwyn cyflawni ei gynlluniau twf ar gyfer y dyfodol, y byddai angen i BBC Studios dyfu maint a phroffidioldeb ei wasanaeth digidol yn sylweddol a chanolbwyntio ar greu eiddo deallusol newydd wrth barhau i fanteisio ar eiddo deallusol a brandiau presennol.

Gwnaethom gyflawni diffyg llai o lawer i'r Grŵp na'r lefel a gynlluniwyd, sef £112 miliwn ar gyfer 2024/25 (2023/24: gwarged o £233m) o gymharu â'r diffyg a ragwelwyd o £492 miliwn fel y'i nodwyd yng Nghynllun Blynnyddol 2024/25, a oedd yn adlewyrchu'r flwyddyn eithriadol o weithgareddau trawsnewid yr oeddem yn ei disgwyl. Mae'r diffyg llai yn deillio o amseru gwariant yn ystod y flwyddyn yn oystal â gwell perfformiad gan ffi'r drwydded a gwell perfformiad masnachol.

Gwnaethom gau'r flwyddyn gyda chronfeydd arian parod wrth gefn grŵp o £477 miliwn (2023/24: £559 miliwn). Roedd dyled net

Grŵp y BBC gan gynnwys benthyciadau prydles ar 31 Mawrth 2025, sef £1.6 biliwn (2023/24: £1.6 biliwn), o fewn ein terfyn benthycia o £3.0 biliwn.

O ran y gwasanaeth cyhoeddus, gwnaethom fuddsoddi £3.1 biliwn mewn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus – gan fuddsoddi mwy mewn cynnwys Prydeinig gwreiddiol nag unrhyw un arall. Caiff gwariant ar gynnwys ei gefnogi'n bennaf gan ffi'r drwydded, ac o ganlyniad i'n cynlluniau arbedion ac ailfuddsoddi presennol, llwyddwyd hefyd i fuddsoddi mewn cynnwys a chynhyrchion digidol o bwys yn unol â'r strategaeth.

Yn 2024/25, gwnaeth y gwasanaeth cyhoeddus gyflawni £241 miliwn o arbedion newydd, gan ddod â chyfanswm yr arbedion a gyflawnwyd gennym ers 2022/23 i £564 miliwn, yn erbyn ein targed o £700 miliwn erbyn mis Mawrth 2028. Mae'r arbedion yn cynnwys amrywiaeth o arbedion sefydliadol a phenderfyniadau datgomiysinu anodd er mwyn gallu ailflaenoriaethu gwariant tuag at gynnwys fideo premiwm, cynhyrchion a blaenoriaethau strategol eraill, i sicrhau bod ffi'r drwydded yn cynnig y gwerth gorau posibl i'n cynulleidfaoedd. Ym mis Gorffennaf 2024, er mwyn helpu i gyflawni'r cynlluniau arbedion hyn, cyhoeddodd gwasanaeth cyhoeddus y BBC cynllun diswyddiadau gwirfoddol cyflymach sydd wedi helpu i gau a throsglwyddo rolau ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ac wedi ein galluogi i greu rolau newydd mewn meysydd twf fel peirianeg feddalwedd a chynnwys digidol. Y flwyddyn diwethaf gwnaethom gyhoeddi gostyngiad net o 500 i rolau cyfwerth ag amser llawn y gwasanaeth cyhoeddus dros y cyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Mawrth 2026.

Disgwyliwyd i hyn gynnwys cau tua 1,200 o swyddi ac ychwanegu tua 700 o safleoedd newydd mewn meysydd â ffocws strategol. Ym mis Mawrth 2025, rydym wedi sicrhau gostyngiad net o 400, sy'n cynnwys cau tua 900 o rolau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau ailfuddsoddiad mewn tua 400 o rolau newydd gan gynnwys 200 yn ein tîm Cynhyrchion.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd Grŵp y BBC yn cyflogi 21,508 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (2023/24: 21,918). Gostyngodd nifer cyfartalog y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn ychydig yn ystod y flwyddyn hefyd i 21,773 (2023/24: 21,795). Cyfanswm taliadau diswyddo Grŵp y BBC ar gyfer y flwyddyn oedd £70 miliwn (2023/24: £55 miliwn). Gweler tudalen 61 ar gyfer ein hadroddiad ariannol.

POBL A DIWYLLIANT

Does dim byd yn bwysicach nag ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC. Ar draws y flwyddyn, gwnaethom gwblhau ymchwiliadau a gomisiynwyd yn sgîl honiadau hanesyddol o gamymddwyn rhywiol difrifol mewn perthynas â Tim Westwood a Russell Brand a chyhoeddi canlyniadau'r ymchwiliadau hynny. Nod yr ymchwiliadau oedd ystyried yr hyn yr oedd y BBC yn ei wybod am eu hymddygiad honedig yn ystod eu cyfnod yn gweithio i'r BBC a sut yr ymdriniodd ag unrhyw gwynion ar y pryd.

Mae'r BBC a BBC Studios yn cymryd y ddyletswydd gofal yn wirioneddol o ddifrif ac, ym mis Medi 2024, gwnaethom gwblhau adolygiad i'r cwynion a wnaed gan Amanda Abbington yn erbyn Giovanni Pernice – gan gadarnhau rhai o'r cwynion a wnaed, ond nid pob un ohonynt. Caiff prosesau lles a chymorth eu hadolygu'n gyson, a chyflwynwyd mesurau estynedig ar *Strictly Come Dancing*.

Mae'r BBC wedi gwneid cais i Huw Edwards ddychwelyd yr arian a dalwyd iddo o adeg ei arestio, hyd at ei ymddiswyddiad ar 22 Ebrill 2024. Mae Banijay UK, cwmni cynhyrchu *MasterChef*, wedi penodi cwmni cyfreithiol i ymchwilio i'r honiadau a wnaed yn erbyn y cyflwynydd Gregg Wallace.

Mae sicrhau bod y BBC yn lle gwyh i weithio ynddo yn rhan greiddiol o'n strategaeth Gwerth i Bawb, a disgwyliar i bawb yn y BBC ddeall ein Gwerthoedd a'n Cod Ymddygiad ac ymrwymo iddynt. Mae angen i bob aelod o'r staff a'r unigolion sy'n gweithio gyda'r BBC gael ymddiriedaeth a hyder yn y ffordd y caiff materion pwysig eu codi a'r ffordd yr ymdrinnir â nhw yn y BBC, ac ym mis Hydref 2024, comisiynodd Bwrdd y BBC adolygiad annibynnol o ddiwylliant y gweithle, dan arweiniad Change Associates. Amlinellodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, gyfres o ganfyddiadau ac argymhellion manwl a dderbyniwyd yn llawn. Ers cyhoeddi'r adroddiad rydym wedi lansio 'Cod Ymddygiad' cryfach, cyflwyno Polisi Disgyblu mwy cadarn, a rhoi ymgrych 'Call it Out' newydd ar waith. Caiff gwaith pellach ei gwblhau yn 2025/26 yn unol â'r camau gweithredu a rannwyd adeg cyhoeddi'r adroddiad.

Prif benawdau ar gyfer 2024/25

£3,843m

2023/24 £3,660m
Incwm o ffi'r drwydded

£2,155m

2023/24 £1,859m
Incwm masnachol

£564m

2023/24 £323m
Arbedion a gyflawnwyd hyd yma

Mae'r angen i wobrwyo ein pobl yn unol â'n hegwyddorion o gyflog 'teg', 'clir' a 'chystadleuol' yn sail i'n cynlluniau i wneud y BBC yn lle gwyh i weithio ynddo. Mae ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau wedi lleihau ychydig ers y flwyddyn ddiwethaf i 7.6% (2023/24: 7.9%) a chynyddodd ein bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiau i 5.7% (2023/24: 5.4%). Rydym yn parhau i fonitro ein bylchau cyflog yn agos ac rydym yn disgwyl gweld rhai amrywiadau, sy'n adlewyrchu symudiadau cyffredinol yn ein gweithlu, gan gynnwys hurio prentisiaid. Gweler tudalen 252 am ein hadroddiad llawn.

Rydym yn ymrwymedig i greu sefydliad lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn. Ym mis Mawrth 2025, gwnaethom nodi cam nesaf ein Strategaeth Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn, gan ddod â'n cynllun amrywiaeth yn y gweithlu a'n cynllun amrywiaeth greadigol ynghyd o dan un strategaeth am y tro cyntaf. Gwnaethom ddiwygio ein nodau Amrywiaeth i 50:20:14:25 – 50% Rhywedd, 20% Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, 14% Byddar, Anabl a/neu Niwrowahanol (DDN) a 25% Economaidd-gymdeithasol. Mae ein huchelgeisiau bellach yn adlewyrchu dosbarthiad DDN safonol y diwydiant. Mae hyn yn golygu ein bod wedi disodli ein targed anabledd o 12% â nod newydd o 14%. Rydym yn parhau i wneud cynnydd tuag at ein huchelgeisiau cyffredinol a'r flwyddyn diwethaf gwnaethom gyflawni cydbwysedd o 50/50 rhwng y rhywiau ar lefel arweinyddiaeth. Rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i greu BBC sy'n llwyddo o ddifrif i gynrychioli demograffeg poblogaeth y DU, ac mae ethnigrwydd ac anabledd yn parhau'n ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gweler tudalen 65 am ragor o fanylion ar amrywiaeth ein gweithlu.

Fel y saif ym mis Mawrth 2025, rydym yn symud yn agosach at gyflawni ein targed o 1,000 o brentisiaid gyrfaoedd cynnar a phrentisiaid staff gyda chyfanswm o 808 o brentisiaid ar leoliadau ar 40 o wahanol gynlluniau (Mawrth 2024: 689). Mae ein cyfraddau cwblhau yn rhagorol gyda 94% o brentisiaid gyrfaoedd cynnar y BBC yn cwblhau eu cynllun.

Rydym yn parhau i symud cyfran sylweddol o'n prosesau cynhyrchu cynnwys, arweinyddiaeth olygyddol a gwneud penderfyniadau o Lundain a De-ddwyrain Lloegr er mwyn cefnogi twf y diwydiannau creadigol ledled y DU. Mae mwy na 54% o'n gweithlu gwasanaeth cyhoeddus wedi'i leoli y tu allan i Lundain. Gweler tudalen 44 am fwy ar ein prosiect Across the UK.

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ei ganfyddiadau o'i ymchwiliadau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 gan nodi achosion o fynd yn groes i'r Ddeddf yn cynnwys pum cwmni yn y sector cynhyrchu chwaraeon. Cyfaddefodd y BBC dri achos o fynd yn groes i'r Ddeddf a oedd yn ymwneud â chyfnod gwybodaeth gystadleuol sensitif a chafodd ddirwy o £424,165 a oedd yn adlewyrchu disgownt i gydnabod ein cydweithrediad drwy gydol yr ymchwiliad a'n penderfyniad i ymrwymo i gytundeb setlo. Cwblhaodd yr Awdurdod hefyd ymchwiliad i saith cwmni (gan gynnwys y BBC) yn y sector cynhyrchu nad yw'n ymwneud â chwaraeon heb ganfod achos o fynd yn groes i'r Ddeddf. Ers i'r honiadau ddod i'r amlwg, rydym wedi cynnal hyfforddiant gloywi i gydweithwyr ar gyfraith cystadleuaeth ac wedi darparu canllawiau a gwybodaeth benodol i staff ym mhob rhan o'r sefydliad.

Cafwyd heriau sylweddol yn gysylltiedig ag argyfyngau geo-wleidyddol o hyd, yn ogystal â risgiau i ddiogelwch ein pobl. Mae'r BBC yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch staff a pharhad gweithrediadau ac allbwn sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i gynulleidfaoedd ledled y byd. Mae Timau Diogelwch Newyddion Risg Uchel wedi parhau i gefnogi cydweithwyr yn Syria, Sudan, Wcráin a Rwsia, Israel-Gaza yn ogystal ag yn India a Phacistan. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd cynnydd yn nifer y bygythiadau i ddiogelwch corfforol a diogelwch ar-lein ein staff, yn arbennig i'n newyddiadurwyr, gyda chynnydd mewn achosion o aflonyddu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd cynnydd hefyd o ran gweithgarwch protestio ar ein safleoedd yn y DU, lle bu'n rhaid rhoi mesurau cadarnach ar waith.

TECHNOLEG

Yn weithredol, mae'r BBC yn ymrwymedig i allu technoleg gwydn â pherfformiad uchel. Yn 2024/25, gwnaethom barhau i berfformio'n dda yn erbyn ein targedau perfformiad gweithredol allweddol o 99.99% ar gyfer argaeledd TV Payout, 100% ar gyfer cywirdeb teledu a 99.95% ar gyfer argaeledd ar draws ein Cynhyrchion Digidol. Diolch i ragoriaeth weithredol, llwyddwyd i ddarparu blwyddyn arall o gynnwys o'r radd

Adroddiad gweithredol – parhad

flaenaf â lefelau uchel o gydnerthedd darlledu a chydnerthedd digidol.

Wrth i newidiadau o ran ymddygiad gwyllo cynulleidfaoedd barhau i gyflymu, rydym yn addasu i ofynion ein cynulleidfaoedd yn yr oes ddigidol. iPlayer oedd y llwyfan Fideo ar Alw ffurf hir a dyfodd gyflymaf yn y DU yn 2024/25 a chawsom y flwyddyn orau erioed o ran nifer y cyfrifon gweithredol sy'n ei ddefnyddio bob wythnos. Mae arloesi ar draws ein hystâd ddigidol yn faes ffocws allweddol o hyd, ac mae technoleg yn helpu i lywio newid sylweddol o ran hygyrchedd ein cynnwys.

Yn ogystal â galluogi ein cynulleidfaoedd i fwynhau rhaglenni byw *Strictly Come Dancing* â Disgrifiadau Sain, aethom ati'r flwyddyn diwethaf i dreialu lapiad Navilens o amgylch y codau QR i bleidleisio, a oedd yn golygu y gallai unigolion ag amhariadau ar eu golwg bleidleisio dros eu hoff gwpwl ar y rhaglen.

Rydym yn parhau i harneisio deallusrwydd artiffisial i gefnogi ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus. Mae ein hegwyddorion arweiniol yn sicrhau ein bod yn defnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn ffordd gyfrifol, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth ddynol effeithiol a deallus. Yn 2024, gwnaethom gynnal nifer o gynlluniau peilot i ystyried y cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Yn dilyn llwyddiant y cynlluniau peilot hyn, rydym yn gweithio i gyflwyno deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i bawb yn y BBC, ac rydym wedi galluogi Cyd-beilot Microsoft ym mhob rhan o'r BBC. Mae'n hanfodol bod ein staff yn hyderus i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn ffordd effeithiol a chyfrifol sy'n unol â'n gwerthoedd ac, ym mis Medi 2024, gwnaethom

lansio ein cwrs Hyfforddiant Gorfodol newydd ar Hanfodion Deallusrwydd Artiffisial.

Ym mis Ebrill 2024, gwnaethom gyrraedd carreg filltir hanesyddol ar gyfer teledu drwy lansio Freely – y gwasanaeth darlledu teledu byw dros fand eang cyntaf mewn partneriaeth â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus cenedlaethol eraill. Mae Freely eisoes wedi cyflawni cyfran gyffredinol o 60% o'r farchnad yn y DU.

Yn 2024/25, gwnaethom gynnal gweithgarwch ail-gaffael sylweddol yn ein cadwyn gyflenwi trydydd parti, gan gynnwys dyfarnu ein contract Rheoli Cyfleusterau Integredig. Ym mis Gorffennaf 2024, gwnaethom lwyddo i symud ein gwasanaethau cyflogres a busnes i Tata Consultancy Services Ltd (TCS). Mae gwaith uwchraddio technoleg ar gontract â phartner strategol allweddol yn mynd rhagddo ac yn cael ei reoli'n ofalus o hyd.

CYNALIADWYEDD

Mae ad-drefnu ein hystâd eiddo yn rhan bwysig o'n gwaith i gyflawni ein hymrwymiad Sero Net ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gwblhau gwerthiant Elstree a chyfnwyd ar Caversham. Disgwylir i'r broses gael ei chwblhau yn 2025/26.

Ym mis Ionawr 2025, gwnaethom lansio ein Cynllun Trawsnewid i Sero Net, sy'n nodi sut rydym yn bwriadu cyrraedd Sero Net erbyn 2050, ac mae ein targedau wedi'u cymeradwyo gan y fenter Science-Based Targets. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau ein hallyriadau gweithredol, gyda gostyngiad o 29% yn erbyn ein blwyddyn sylfaen – a gyflawnwyd drwy gyfres wedi'i thargedu o fentrau i leihau ein defnydd o danwyddau ffosil a thrydan, gan gynnwys uwchraddio a gadael safleoedd.

Mae allyriadau o'n cadwyn gwerth wedi cynyddu 3% yn erbyn ein blwyddyn sylfaen, sef 2019/20, ond maent wedi lleihau 4% o un flwyddyn i'r llall. Gweler tudalen 70 am ein hadroddiad cynaliadwyedd manwl.

Mae'r adroddiadau a geir dros y tudalennau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am berfformiad Grŵp y BBC dros y 12 mis diwethaf, gan ddangos sut rydym yn dyrannu cyllid ac adnoddau a sut rydym yn bwriadu gwneud mwy a gweithredu'n gyflymach i greu BBC ar gyfer y dyfodol.

Ar ran y Pwyllgor Gweithredol cyfan, hoffwn ddiolch i'n holl gyflogeion, gweithwyr llawrydd a chyfranwyr, y mae pob un ohonynt yn chwarae rôl hanfodol yn sicrhau gwerth i'n holl gynulleidfaoedd ac yn helpu i wneud y BBC yn lle gwyh i weithio ynddo.

Leigh Tavaziva

Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu
27 Mehefin 2025



Yr arweinydd Elim Chan a'r pianydd Isata Kanneh-Mason yn *First Night of the Proms* 2024

Ein sefyllfa ariannol

EIN SEFYLLFA ARIANNOL

Mae'r adran hon yn rhoi manylion ein perfformiad ariannol dros y flwyddyn ddiwethaf.

INCWM O FFI'R DRWYDDED

Y flwyddyn hon, gwnaethom gasglu £3,843 miliwn o incwm ffi'r drwydded, cynnydd o £183 miliwn o un flwyddyn i'r llall yn sgil cynyddu pris ffi'r drwydded i £169.50 o fis Ebrill 2024. Pennir cynnydd mewn chwyddiant gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac roedd y cynnydd o 6.7% yn unol â chyfradd chwyddiant mis Medi 2023, ond yn is na'r gyfradd chwyddiant flynyddol a gymhwysir fel arfer at ffi'r drwydded. Roedd hyn yn dilyn dwy flynedd o rewi prisiau gan roi pwysau ychwanegol ar ein sylfaen costau.

Mae ein cynulleidfaoedd yn parhau'n ymrwymedig i dalu ffi'r drwydded gyda 23.8 miliwn o drwyddedau gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn (2023/24: 24.1 miliwn).

Ceir rhagor o fanylion ar incwm ffi'r drwydded yn Nodyn B2 o'r datganiadau ariannol.

CASGLU FFI'R DRWYDDED

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC â'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un.

Caiff y broses o gasglu ffi'r drwydded ei hategu gan ofyniad cyfreithiol i brynu trwydded os byddwch yn gwyllo neu'n recordio rhaglenni sy'n cael eu dangos ar unrhyw wasanaeth darlledu teledu; yn gwyllo ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein; neu'n lawrlwytho neu'n gwyllo rhaglenni ar BBC iPlayer (yn fyw, drwy'r gwasanaeth dal i fyny neu ar alw).

Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu'r gwaith o gasglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianelau talu a rhwydweithiau manwerthu. Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol yn cael ei gynnal gan Capita Business Services Ltd ac mae contractau ar waith tan 2027.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddulliau talu yn cynnwys mewn siopau, dros y ffôn ac ar-lein. Rydym yn parhau i gefnogi'r sawl sy'n wynebu caledi ariannol difrifol drwy gynnig y Cynllun Talu Syml, cynllun talu hyblyg sy'n lledaenu cost ffi'r drwydded dros 12 mis. Mae trwyddedau teledu am ddim, a ariennir gan y BBC, ar gael i unrhyw un dros 75 oed sy'n cael Credyd Pensiwn*.

Mae'r dull casglu presennol yn parhau i fod yn deg ac yn effeithiol gan sicrhau gwerth da am arian. Wrth i ni nesáu at ddiwedd cyfnod y Siarter, byddwn yn mynd ati i ymchwilio i'r modd y gallwn ddiwygio ffi'r drwydded i sicrhau buddiannau BBC cymesur cyffredinol â'r adnoddau priodol ar gyfer yr hirdymor.

DATGANIAD FFI'R DRWYDDED

Rydym yn paratoui datganiad blynyddol o referniw ffi'r drwydded, a gaiff ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EF yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r SAG yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i Senedd y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad referniw ffi'r drwydded yn: www.tvlicensing.co.uk/about/bbc-trust-statement-AB21.

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol ar y sefydliad i wneud y canlynol:

- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded;
- sicrhau'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill;
- rhoi gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC;
- sicrhau bod yr allbwn wedyn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteffeithlon â phosibl.

* Mae deiliad trwydded sydd dros 75 oed ac sy'n byw mewn cynllun Llety Gofal Preswyl â Hawliau a Gedyr hefyd yn gymwys i gael trwydded am ddim. Ar gyfer Tiriogaethau Dibynol y Goron, rhoddwyd trefniadau cyfatebol ar waith, gan ddechrau o 1 Ionawr 2021, yn seiliedig ar fudd-daliadau lleol.

Datganiad Incwm Grŵp y BBC

Datganiad incwm	Wedi'i ddiffinio fel	2024/25 £m	2023/24** £m	Gweithgarwch sylweddol
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	3,843	3,660	Chwyddiant CPI (6.7%) o fis Ebrill 2024 wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o 1% yng nghyfanswm y trwyddedau
Incwm arall	Incwm masnachol ac incwm grant	2,057	1,729	Yr incwm masnachol uchaf erioedd sy'n deillio o BritBox International sydd dan berchenogaeth lwy'r a chynhyrchion i ddefnyddwyr
Cyfanswm incwm		5,900	5,389	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	(6,032)	(5,652)	Cynnydd yn y gwariant ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn deillio o ddigwyddiadau chwaraeon mawr a buddsoddi mewn twf masnachol
Diffyg gweithredu'r Grŵp		(132)	(263)	
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	5	29	Gostyngiad yn deillio o waredu New Video Channel America (BBC AMERICA) yn ystod y flwyddyn
Enillion a cholledion eraill	Enillion a cholledion o symudiadau mewn offerynnau ariannol a gwaredu asedau neu weithrediadau	23	213	Mae 2023/24 yn cynnwys gwarediad tybiedig 50% o gyfranddaliadau BritBox International yn dilyn proses o gaffael y cyfranddaliadau sy'n weddill, gan arwain at enillion o £206 miliwn
Incwm ariannu net	Incwm a gaiff ei ennill neu a gafwyd mewn perthynas ag offerynnau ariannol ac asedau a rhwymedigaethau pensiwn	(19)	13	Gostyngiad yn deillio o gynydd mewn llog net a delir ar ddyled net a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan symudiadau yng ngwerth teg offerynnau ariannol
Trethiant	Y credyd treth net ar gyfer y flwyddyn	11	241	Caiff credydau treth teledu pen uchaf eu gwrthbwyso gan newidiadau treth gorfforaeth; mae 2023/24 hefyd yn cynnwys ad-daliad treth hanesyddol, sef £137 miliwn
(Diffyg)/gwarged y Grŵp ar gyfer y flwyddyn		(112)	233	

** Ailddatganwyd elfennau cymharol i adlewyrchu diwedd y broses gyfrifyddu ar gyfer caffael BritBox fel y caniateir o dan IFRS 3 Business Combinations. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn C1.

Ein sefyllfa ariannol – parhad

5% o gynnydd mewn incwm o ffi'r drwydded
£3 biliwn mewn gwariant ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus
Gorbenion gwasanaeth cyhoeddus o fewn 5% o wariant y gellir ei reoli

INCWM ARALL

Caiff ein hincwm o ffi'r drwydded ei gefnogi gan ffrydiau incwm eraill gan gynnwys incwm a gaiff ei greu gan BBC Commercial a ffynonellau allanol. Yn 2024/25 daeth yr incwm arall i gyfanswm o £2,057 miliwn (2023/24: £1,729 miliwn).

Cyflawnodd BBC Commercial, gan gynnwys trafodion o fewn y Grŵp, ei referiw uchaf erioed, sef £2,155 miliwn yn 2024/25 (2023/24: £1,859 miliwn), yn deillio o dwf yn BritBox International sydd bellach dan berchenogaeth lwyr ac mewn cynhyrchion i ddefnyddwyr, yn arbennig yn sgil trwyddedu brand Bluey.

Mae'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn parhau i fuddsoddi yn BBC World Service gyda chyfanswm incwm grant o £104 miliwn yn 2024/25 (2023/24: £96 miliwn). Cadarnhaodd Cyllideb yr Hydref 2024 y bydd cyllid grant 2025/26 yn cynyddu i £137 miliwn i'n galluogi i barhau i gefnogi gwasanaethau iaith a darlledu Saesneg BBC World Service.

DIFFYG GRŴP Y BBC

Yn 2024/25, cyflawnodd Grŵp y BBC ddiffyg ar ôl treth o £112 miliwn. Mae diffyg y Grŵp yn dilyn gwarged o £233 miliwn yn 2023/24 a oedd yn cynnwys dau ennill sylweddol unigryw, credyd treth net a'r broses waredu dybiedig ar gyfer ein cyfranddaliad o 50% yn BritBox International ar ôl caffael y cyfranddaliadau a oedd yn weddiill. Mae diffyg gweithredu Grŵp y BBC wedi gwella o un flwyddyn i'r llall i £132 miliwn (2023/24: £263 miliwn) sy'n adlewyrchu'r twf yn ein gweithrediadau masnachol.

Mae diffyg 2024/25 wedi'i lywio gan fuddsoddiad mewn cynnwys a blwyddyn o gostau trawsnewidiol a gynlluniwyd er mwyn helpu i roi strategaethau Gwerth i Bawb ar waith. Rhagwelodd ein Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2024/25 ddiffyg o £492 miliwn, a oedd yn cynnwys costau newid untro a defnyddio ein cronfeydd arian parod wrth gefn. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, mae ffi'r drwydded a pherfformiad masnachol cadarn, ynghyd â rheolaeth ofalus dros wariant, wedi lleihau'r diffyg i £112 miliwn, gyda rhywfaint o'r gwariant yn cael ei drosglwyddo i 2025/26.

Mae ein gwariant gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ganolbwyntio ar gynnwys a gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd a gwariwyd £3,089 miliwn ar gynnwys ar draws ein gwasanaethau yn 2024/25, cynnydd o 4% o un flwyddyn i'r llall, yn deillio o nifer o ddigwyddiadau chwaraeon mawr yn ystod y flwyddyn a buddsoddiad mewn llwyfannau digidol. Ceir manylion ar ein gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar dudalen 64.

Bydd ein cynllun arbedion ac ailfuddsoddiadau gwasanaeth cyhoeddus presennol yn golygu y gellir parhau i fuddsoddi mewn cynnwys a chynhyrchion digidol o bwys er mwyn gwella profiad defnyddwyr, yn ogystal â helpu i reoli effaith setliad ffi'r drwydded a phwysau cost chwyddiannol. Y flwyddyn hon, gwnaethom gyflawni £241 miliwn o arbedion newydd tuag at ein targed. Rydym wedi cyflawni cyfanswm o £564 miliwn o arbedion ers 2022/23, gyda'r uchelgaïs o gyflawni mwy na £700 miliwn o arbedion cylchol blynnyddol erbyn mis Mawrth 2028. Cyflawnwyd arbedion drwy effeithlonrwydd gweithredol a thrwy benderfyniadau datgomisiynu er mwyn gallu ailfuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau newydd i'n cynulleidfaoedd.

Mae ein busnes masnachol yn parhau i wneud buddsoddiadau strategol mewn twf organig er mwyn ysgogi referiw ac elw, sydd yn ei dro yn creu enillion ariannol i Grŵp y BBC, gan sicrhau'r gwerth gorau o ffi'r drwydded i gynulleidfaoedd. Mae BBC Commercial yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni ei ymrwymiad i sicrhau adenillion o £1.5 biliwn i'r BBC dros bum mlynedd, erbyn 2027/28. Ceir rhagor o wybodaeth am ein perfformiad masnachol ar dudalen 76.

ARIAN PAROD A DYLED NET

Roedd cronfeydd arian parod wrth gefn Grŵp y BBC ar 31 Mawrth 2025 yn £477 miliwn (2023/24: £559 miliwn) y delir £369 miliwn ohono gan y gwasanaeth cyhoeddus (2023/24: £361 miliwn). Lliniarwyd y defnydd a gynlluniwyd o'r cronfeydd arian parod gwasanaeth cyhoeddus wrth gefn yn 2024/25 drwy gyflawni arbedion yn gynnar a rheolaeth gaeth dros wariant yn ystod y flwyddyn gyda rhywfaint o'r gwariant bellach wedi'i ragweld yn 2025/26. Bydd ein rheolaeth ariannol gadarn yn golygu y gellir buddsoddi ymhellach mewn cynhyrchion Fideo Premiwm a chynhyrchion digidol, gan ar yr un pryd sicrhau cronfeydd digonol wrth gefn i reoli'r broses o amseru llif arian parod ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Roedd dyled net Grŵp y BBC gan gynnwys benthyciadau prydles ar 31 Mawrth 2025 yn £1,616 miliwn (2023/24: £1,644 miliwn), yn ddiogel o fewn ein terfyn benthycia o £3,000 miliwn, sy'n cynnwys £2,200 miliwn yn benodol ar gyfer prydlesau. Caiff ein terfynau benthycia eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol â'r cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Ceir rhagor o fanylion ar ein benthycia yn Nodiadau G2 a G3 o'r datganiadau ariannol.

COSTAU PENSIWN

Rydym yn parhau i adolygu ein cynnig darpariaeth pensiynau ar gyfer y dyfodol gyda'r nod o gynnig darpariaeth sy'n ariannol gynaliadwy, yn decach ac yn fwy cyson i'n cyflogeion (nawr ac yn y dyfodol). Ym mis Mai 2023, gwnaethom ofyn i'r Uchel Lys egluro un o'r rheolau diwygio yng Nghynllun Pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC (y 'Cynllun') er mwyn egluro pa newidiadau y gellid eu gwneud. Ym mis Gorffennaf 2024, cadarnhaodd y Llys Apêl ddyfarniad yr Uchel Lys yn 2023 na ellir defnyddio'r rheol diwygio i wneud newidiadau sylweddol i fuddiannau gwasanaeth yn y dyfodol. Rydym bellach wrthi'n ystyried y camau nesaf fel rhan o'n hadolygiad pensiynau. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r buddiannau a gronwyd hyd yma a byddwn yn gweithio gyda'r Undebau Llafur i lywio ein darpariaeth pensiynau ar gyfer y dyfodol. Byddai unrhyw gynigion ar gyfer newid yn destun ymgynghoriad â chyflogeion.

Dangosodd y prisiad actiwaraid teirblwydd diweddaraf o'r Cynllun warged o £296 miliwn ar sail darpariaethau technegol ar 1 Ebrill 2024. Cynhaliwyd y prisiad flwyddyn yn gynnar ar ôl i ddiweddariad interim 2023 ddangos lefel gyllido o 101%, y tro cyntaf i'r Cynllun ddangos gwarged ers sawl blwyddyn. Cytunodd Ymddiriedolwr y Cynllun y caiff y prisiad actiwaraid ffurfiol nesaf ei gynnal erbyn 1 Ebrill 2026 fan bellaf.

Mae'r prisiad actiwaraid yn defnyddio amrywiaeth o dybiaethau ariannol a demograffig i arfarnu asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae'r asesiad hwn yn ofynnol yn ôl y gyfraith i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni ei rhwymedigaethau yn y dyfodol. Gan ystyried y sefyllfa ariannol well, gostyngwyd costau gwasanaeth yn y dyfodol o 30.0% i 22.7% o gyflogau pensiynadwy, gyda chyfradd is o 18.3% yn gymwys tan 1 Ebrill 2026, a dilëwyd unrhyw gyfraniadau adennill diffyg eraill. Mae'r Rhestr Cyfraniadau newydd y cytunwyd arni â'r Cynllun yn darparu ar gyfer cyfraniad cyflogwr o £125 miliwn i'w dalu i'r Cynllun erbyn 1 Gorffennaf 2027 neu'r dyddiad y caiff prisiad 2026 ei gwblhau, pa un bynnag fydd gynharaf, oni fydd Rhestr Cyfraniadau arall wedi'i rhoi ar waith sy'n golygu nad yw hynny'n ofynnol. Nod y ddarpariaeth hon yw helpu i ddiogelu'r Cynllun yn erbyn y risg y caiff y gwelliant diweddar yn y sefyllfa ariannol ei wydroi.

Mae'r safonau cyfrifyddu (IAS 19 Buddiannau Cyflogeion) yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal prisiad cyfrifyddu blynyddol o'r cynllun pensiwn. Ar 31 Mawrth 2025, cafodd y cynllun ei ailbrisio at ddibenion cyfrifyddu a dangosodd warged o £868 miliwn (2023/24: diffyg o £121 miliwn) sy'n deillio o ennill net ar asedau'r cynllun. Mae'r prisiad cyfrifyddu'n rhoi 'cipolwg' ar ddiwedd y flwyddyn ac felly mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Yn aml, mae'r prisiad cyfrifyddu'n cyflwyno sefyllfa gyllid fwy ffafriol o gymharu â phrisiad yr actiwari oherwydd y cyfraddau disgowntio a ddefnyddir – fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad cyfrifyddu yn effeithio ar gost arian parod adfer diffyg y cynllun pensiwn actiwaraid a'r buddiannau pensiwn i'r aelodau.

STRATEGAETH TRETH

Rydym yn ymrwymedig i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir yn yr holl awdurdodaethau rydym yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, dreth gyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu'r swm cywir o dreth i'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau cydymffurfio â rheolau treth o ddifrif.

Rydym yn rheoli ein materion treth o fewn fframwaith deddfwriaeth treth y DU a'r awdurdodaethau eraill rydym yn gweithredu ynddynt. Mae lefel goddefiant y BBC mewn perthynas â threth yn isel, a dangosir hyn yn ein dull o gynllunio a llywodraethu treth. Mae ein hasesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â threth yn ystyried nid yn unig y swm ariannol sydd yn y fantol, ond hefyd effaith y mater dan sylw ar ein henw da. Mae'r amgylchedd gwleidyddol, deddfwriaethol ac adrodd yn dod yn gynyddol gymhleth mewn nifer o diriogaethau allweddol ledled y byd.

Mae'r Grŵp o fewn cwrdd rheolau treth sylfaenol byd-eang Colofn 2 o 2024/25. Mae'r rhain yn gymwys i isafswm cyfradd treth incwm gorfforaethol effeithiol o 15% ym mhob gwlad sy'n gwneud elw gydag unrhyw atebolrwydd atodol yn daladwy yn y DU. Byddai'r dreth bresennol yn cynnwys tâl y Grŵp ar gyfer unrhyw drethi incwm Colofn 2. Fodd bynnag, yn seiliedig ar asesiadau o berfformiad y Grŵp a'r eithriadau sydd ar gael, ni ddylai fod angen tâl treth sylweddol ar gyfer y flwyddyn ac mae unrhyw dâl treth yn debygol o fod yn isel iawn neu'n sero. O safbwynt polisi cyfrifyddu, mae'r Grŵp yn cymhwyso'r eithriad i gydnabod a datgelu gwybodaeth am asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig sy'n gysylltiedig â threthi incwm Colofn Dau, fel y nodir yn y diwygiadau i IAS 12 'Income Taxes' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae'n debygol y bydd cost cydymffurfio yn sylweddol uwch nag unrhyw dreth atodol a fydd yn daladwy.

Rydym yn cyhoeddi ein strategaeth treth yn unol â Deddf Cyllid 2016, y gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan: bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/bbc-tax-strategy-2025.pdf.

Gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos sut y cafodd arian ffi'r drwydded ei wario yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gofyniad y Siarter i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys yn cynrychioli'r gost o wneud cynnwys ar draws gwasanaethau'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau yn cynrychioli holl gostau cynhyrchu, cefnogi a chyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfaoedd.

Gwariant Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

	2024/25 £m	2023/24 £m
Newyddion a Materion Cyfoes	324	321
Ffeithiol a Dysgu	251	271
Y Celfyddydau a Cherddoriaeth	32	34
Ffilm a Drama	411	391
Adloniant a Chomedi	224	241
Cynyrchiadau Chwaraeon	92	67
Plant*	21	92
Gwariant ar gynnwys teledu arall	464	330
Gwasanaethau teledu fesul genre	1,819	1,747
Radio	491	507
Ar-lein*	278	239
Content spend on services by platform	2,588	2,493
Cerddorfeydd a grwpiau perfformio	32	29
S4C (gwariant ar y gwasanaeth)	22	22
Gwariant ar ddatblygu	109	91
Grant BBC World Service	104	101
Trwydded Weithredu BBC World Service**	234	233
Gwariant arall ar y gwasanaeth	501	476
Cyfanswm gwariant ar gynnwys	3,089	2,969
Costau dosbarthu	197	208
Cynnwys a chymorth dosbarthu	451	482
Cymorth cyffredinol	191	165
Cyfanswm gwariant ar wasanaethau	3,928	3,824
Costau casglu ffi'r drwydded	166	145
Rhwymedigaethau eraill (S4C)	95	89
Monitro	7	10
Taliad gostwng diffyg pensiwn Grŵp PSB	8	41
Costau PSB i gynhyrchu incwm heblaw am ffi'r drwydded	230	209
Costau ailstrwythuro	84	30
Cyfanswm gwariant Grŵp PSB	4,518	4,348
Eitemau a nodwyd y tu allan i wariant gweithredu***	(69)	(55)
Gwariant gweithredu Grŵp PSB	4,449	4,293

* Mae'r gostyngiad mewn gwariant ar gynnwys plant yn deillio o newid yn yr amcangyfrif cyfrifyddu yn hytrach na gostyngiad o ran buddsoddiad arian parod. O 1 Ebrill 2024, caiff cost rhaglenni plant ei chydabod dros gyfnod cyfartalog amcangyfrifedig y contract er mwyn adlewyrchu patrymau defnydd plant yn well. Heb y newid amcangyfrifo hwn, byddai gwariant ar gynnwys teledu plant yn 2024/25 wedi bod yn £94 miliwn a byddai'r gwariant ar-lein wedi bod yn £288 miliwn. Gweler nodyn E am fanylion pellach.

** Mae Trwydded Weithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £37 miliwn (2023/24: £37 miliwn). Gwariwyd cyfanswm o £262 miliwn ar Drwydded Weithredu BBC World Service yn 2024/25 wrth gynnwys costau cynnwys, dosbarthu a chymorth cyffredinol (2023/24: £265 miliwn).

*** Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Grŵp PSB fesul gwasanaeth, caiff costau penodol eu cynnwys uchod, a nodir y tu allan i wariant gweithredu (h.y. llog prydles gyllidol).

Ein pobl

EIN POBL

Creu lle gwych i weithio ynddo, lle mae'r bobl orau yn gwneud eu gwaith gorau

EIN DIWYLLIANT A PHROFIAD POBL

Rydym yn creu BBC lle gall y bobl orau wneud eu gwaith gorau. Yn 2024/25, llwyddwyd i gynnal ein sgôr uchaf erioed ar gyfer ymgysylltu â chyflogaion, sef 64%, gyda 75% o'r staff yn argymhell y BBC fel lle gwych i weithio ynddo. Dangosodd Glassdoor UK, ym mis Chwefror 2025, fod sgoriau'r BBC ar gyfer Diwylliant a Gwerthoedd, Cydbwysedd Bywyd/Gwaith a Chyfleoedd Gyrfa 10% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant a bod y gyfradd gadael gwirfoddol yn parhau'n isel ym mhob rhan o'r BBC, sef 3.8%. Mae ein hymdrechion cyson ym mhob rhan o'r sefydliad yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol, ond mae rhagor o waith i'w wneud wrth i ni ganolbwyntio ar weithredu diwylliant sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd.

Ym mis Ebrill 2025, cadarnhaodd Adolygiad annibynnol o Ddiwylliant y Gweithle nad oes diwylliant gwenwynig yn y BBC, ond argymhellodd welliannau er mwyn gwella disgwyliadau ynghylch ymddygiad, ymddiriedaeth a gwerthoedd. Derbyniodd y BBC bob un o'r argymhellion yn llawn ac rydym wedi cymryd camau ar unwaith gan gynnwys lansio 'Cod Ymddygiad' BBC cryfach, cyflwyno Polisi Disgyblu mwy cadarn, cyflwyno ymgyrch 'Call it Out' newydd, gwella safonau partneriaid cynhyrchu, cyflwyno addewidion newydd i'r BBC ar gyfer unrhyw un sy'n codi pryderon, a lansio hwb newydd 'Raising Concerns' ar y fewnwyd. Mae rhaglen weithredu dwy flynedd bellach yn mynd rhagddi i wneud newidiadau hirdymor ac i wneud gwahaniaeth i brofiad pawb o weithio yn y BBC.

Mae mwy o gwynion yn dod i law o hyd ers i ni wella'r cyngor a'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch sut i godi pryderon, ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau profiad o'r radd flaenaf i bobl ac amgylchedd cefnogol a chadarnhaol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu ein prosesau ffurfiol ac wedi atgyfnerthu ein swyddogaeth Cymorth yn y Gwaith sy'n ymdrin â chwynion cyflogaeth ffurfiol a honiadau o fwlio ac aflonyddu, gan fuddsoddi mewn adnoddau rheoli achosion yn unol ag argymhellion yr adolygiad o gwynion nad ydynt yn rhai golygyddol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024, er mwyn sicrhau y gall ein staff godi pryderon a chael cymorth.

Gwnaed ymdrechion parhaus i weithredu 'Parch yn y Gwaith' a hyrwyddo Gwerthoedd y BBC ac ym mis Mai 2024, gwnaethom gyflwyno proses ofodol o ymrwymo i 'God Ymddygiad' y BBC. Ym mis Hydref 2024, gwnaethom lansio canllawiau newydd ar godi pryderon ac atal achosion o Gamddefnyddio Pŵer a rhodddwyd nifer o lwybrau ar waith i roi gwybod am bryderon ymddygiadol, gan fwrw ati i hyrwyddo diwylliant o leisio barn wedi'i ategu gan well adnoddau a threfniadau llywodraethu.

Ym mis Tachwedd 2024, gwnaethom atgyfnerthu'r cymorth rydym yn ei roi i reolwyr drwy dreialu dull 'datrys yn gyntaf' er mwyn datrys achosion o wrthdaro yn y gweithle yn gynnar.

Ym mis Chwefror 2025, cyflwynodd BBC Content sesiynau gloywi Parch yn y Gwaith a Chodi Pryderon, gan hyfforddi 378 o arweinwyr a staff a 144 o gyflwynwyr, gan egluro disgwyliadau o ran ymddygiad a rhoi gwybodaeth ynghylch sut i godi pryderon. Parhaodd y BBC i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi Awdurdod Safonau Annibynnol y Diwydiannau Creadigol (CIISA) hefyd, drwy roi cyllid datblygu, helpu i bennu safonau i'r diwydiant, cymryd rhan mewn gweithgordd a grwpiau llywio allweddol, a'i gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr teledu ddilyn y safonau hyn er mwyn mynd i'r afael ag achosion o fwlio ac aflonyddu yn y diwydiannau creadigol.

Cyflwynwyd Tim Llesiant newydd dan arweiniad Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol i gefnogi gofynion unigryw sefydliad sy'n gwneud cynnwys ac yn casglu newyddion ac roedd cyfraddau cydymffurfio gwasanaeth cyhoeddus y BBC mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol ar lefel o 98.4% ym mis Mawrth 2025.

Mae gwella ein diwylliant a phrofiad ein pobl yn flaenoriaeth strategol o hyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod y BBC yn rhywle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu hysbrydloli a'u galluogi i wneud eu gwaith gorau a bod cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddo i wneud hynny.

TRAWSNEWID Y SEFYDLIAD ER MWYN CREU BBC AR GYFER Y DYFODOL

Rydym yn moderneiddio ein ffordd o weithio er mwyn parhau'n ymatebol ac effeithlon a pharhau i ganolbwyntio ar y gynulleidfa, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cefnogodd yr adran Adnoddau Dynol newidiadau strategol i'r gweithlu yn unol â'n strategaeth Gwerth i Bawb. Datblygodd BBC News ei broses trawsnewid digidol yn gyntaf, gan gyhoeddi strwythurau golygyddol, cyfarwyddiaethau a thimau aml-lwyfan newydd. Lansiodd BBC Nations Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth sydd wedi cyraedd mwy na 600 o arweinwyr drwy gyfleoedd hyfforddi, mentora a dysgu trochol, ac mae BBC Content wedi rhoi hyfforddiant hanfodol ar gynhwysiant i fwy na 1,890 o arweinwyr a staff.

Cyflawnodd ein dull 'myConversation' – sgysrsiau gyrfa ystyrion ddwywaith y flwyddyn rhwng cyflogaion a'u rheolwyr llinell gan gysylltu adborth, cyfleoedd datblygu a chyflog – gyfradd gwblhau o 98.8% y flwyddyn hon. Ac am y tro cyntaf, roedd datblygiad cyflog – sut rydym yn sicrhau bod ein pobl yn symud drwy amrediad cyflog swydd sy'n seiliedig ar y farchnad ac yn cael cydnabyddiaeth o'u cyfraniad – yn gysylltiedig â chymau cwblhau, gan atgyfnerthu pwysigrwydd atebolrwydd ac arweinyddiaeth yn seiliedig ar werthoedd.

Mae ein rhwydwaith o asiantiaid newid wedi parhau i lywio ein hymdrechion trawsnewid ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'r rhwydwaith yn harneisio arbenigedd mewnol ac allanol i hyrwyddo ymgyrchoedd ar draws y BBC cyfan ac mae'n gweithredu fel grŵp gwranddo hanfodol i gefnogi timau arwain a meithrin dealltwriaeth, er mwyn gwella gallu'r BBC i addasu a dysgu.

ASTUDIAETH ACHOS

Prentis Staff – Molly Temple

Mae Molly yn Uwch-gynghorydd Caffael Talent wedi'i lleoli yn BBC Belfast. Yn ddiweddar, cwblhaodd brentisiaeth Gweithiwr Proffesiynol sy'n Defnyddio Data Lefel 3, a roddodd gyfle iddi feithrin sgiliau allweddol ar gyfer ei rôl. "Mae data wedi dod mor bwysig. Mae'n ein galluogi i nodi tueddiadau a phroblemau ac i wneud penderfyniadau hurio priodol." Ar ôl cael anrhydedd, sylwodd Molly ar yr effaith roedd y brentisiaeth wedi'i chael ar ei hyder. "Cyn hynny, byddwn wedi osgoi tasgau lle roedd angen gweithio gyda data, ond nawr, rwyf wir yn mwynhau'r tasgau hynny. Rwyf hyd yn oed wedi dechrau fy mhrentisiaeth Dadansoddwr Data Lefel 4 er mwyn gallu canolbwyntio mwy ar ddata fel rhan o fy rôl. Rwy'n edrych ymlaen at weld beth y bydda i'n ei wneud yn y dyfodol!"



Rydym hefyd wedi parhau i wella ein gwasanaethau adnoddau dynol digidol, gan gyflawni lefel gydymffurfiaeth o 96% â'n proses wedi'i hawtomeiddio ar gyfer datgan buddiannau personol. Bellach gall staff ddiweddarau eu cofnodion demograffig eu hunain, ac mae ein Porth Talu Gweithwyr Llawrydd a lansiwyd yn ddiweddar yn galluogi gweithwyr llawrydd i reoli archebion a hawlio taliadau, gyda mwy na 84,000 o daliadau wedi'u hawlio ers ei lansio.

Yn 2024/25, cafodd 84% o geisiadau i greu contractau staff newydd eu prosesu o fewn un diwrnod gwaith ac rydym wedi gwneud welliannau allweddol i'n dangosfwrdd Arweinwyr Tim sy'n golygu bod data ar bobl ar gael yn haws fyth.

Mae'r gwelliannau hyn yn helpu'r BBC i symleiddio prosesau, cynnig profiad neilltuo i gyflogeion a chreu diwylliant sy'n seiliedig ar wybodaeth sy'n cefnogi perfformiad ac yn llywio penderfyniadau gwybodus.

DIWYLLIANT O BERTHYN LLE GALL PAWB FFYNNU

Bob blwyddyn, drwy ein hadroddiad ar amrywiaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb yn y gweithlu, rydym yn nodi gwybodaeth fanwl am amrywiaeth ein gweithlu mewn perthynas ag ystod o wahanol nodweddion, wedi'u dadansoddi yn ôl categori gwahanol gan gynnwys teuluoedd swydd, bandiau gradd, math o gontract a hyd gwasanaeth. Gellir cael gwybodaeth lawn ar-lein ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynnyddol hwn, sy'n nodi ein perfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, a'r gweithgareddau allweddol a'u heffaith ar wella diwylliant cynhwysol ac ymdeimlad o berthyn i bawb.

Ym mis Mawrth 2025, gwnaethom lansio cam nesaf ein Strategaeth Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn, gan gysoni nodau a chynlluniau ar gyfer amrywiaeth y gweithlu ac amrywiaeth greadigol hyd at fis Rhagfyr 2027 a chyfnod y Siarter newydd. Mae ein ffocws ar berthyn yn anelu at greu amgylcheddau lle gall pob aelod o'n staff ffynnu, yn seiliedig ar ein datganiad cenhadaeth: 'Rydych chi'n perthyn yn y BBC am fod y BBC yn perthyn i chi'.

Rydym wedi ailbwyseisio'r nodau yn ein strategaeth newydd i ganolbwyntio ar i) menywod, ii) pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, iii) pobl fyddar, anabl a/neu niwrowahanol, iv) cefndir dosbarth gweithiol. Rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ein nodau amrywiaeth y gweithlu gan gyflawni cysondeb rhwng y rhywiau ar lefel arweinyddiaeth a phenodi 122 o bobl y flwyddyn hon drwy ein rhaglen Extend glodwiw, sy'n neilltuo rolau i bobl anabl a all gynnwys y rhai hynny sy'n uniaethu fel pobl fyddar a/neu niwrowahanol. Ym mis Tachwedd 2024, enillodd ein hymgyrch allgymorth Extend wob'r Ymgyrch y Flwyddyn yn y Gwobrau Marchnata Recriwtio.

Rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud, yn enwedig o ran staff anabl a staff o gefndir dosbarth gweithiol. Er mwyn bod yn gyson ag arferion gorau yn y diwydiant, o'r flwyddyn nesaf byddwn yn adrodd yn erbyn ein nod newydd sy'n mesur cyfanswm cyfun staff fyddar, anabl a/neu niwrowahanol ac rydym wedi cynyddu'r nod gweithlu hwn i 14%.

Er mwyn creu gweithle mwy cynhwysol, mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i sicrhau y caiff addasiadau i'r gweithle eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithlon ac amserol, ac rydym wedi parhau i gyflwyno hyfforddiant i staff ar arferion cyffredin er mwyn creu amgylcheddau mwy cynhwysol i bawb. Rydym hefyd wedi dechrau adolygiad llawn o'n polisiau er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried pob cyfle i roi arferion cynhwysol ar waith.

Mae nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn ein naw rhwydwaith staff ffyniannus ar ei lefel uchaf erioed, ag aelodaeth gyfun o fwy na 13,800* a'r flwyddyn hon gwnaethom lansio'r BBC Jewish Staff Network a BBC Salaam yn swyddogol, gan gefnogi ein staff ymhellach drwy gynnig ymdeimlad a rennir o berthyn a chydberthnasau cadarnhaol. Mae'r rhwydweithiau hyn wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys meist'r-ddosbarthiadau, sgysiau gyrfa a thrafodaethau panel am ein cynnwys amrywiol, sgysiau cymorth menopos a'n Gŵyl Anabledd ReThink. Ar yr un pryd, cwblhaodd dros 1,400 o arweinwyr hyfforddiant Arweinyddiaeth Gynhwysol, a chyflwynwyd mesurau perfformiad newydd i asesu sut mae arweinwyr yn creu amgylcheddau cynhwysol.

Rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn ymrwymïadau amrywiaeth greadigol uchelgeisiol i gynyddu amrywiaeth a chynhwysiant o fewn timau gwneud rhaglenni, ac i sicrhau bod y straeon a adroddir ar yr awyr yn cynnig adlewyrchiad dilyn o gynulleidfaoedd ledled y DU. Ym mis Medi 2024, gwnaethom ymrwymo i fuddsoddi o leiaf £80 miliwn bob blwyddyn mewn cynnwys sy'n bodloni meini prawf amrywiaeth greadigol y BBC, ac rydym wedi codi targedau cynrychiolaeth ar gyfer timau cynhyrchu teledu ar draws ethnigrwydd, anabledd ac amrywiaeth economaidd-gymdeithasol o 20% i 25% ar draws yr holl rolau cynhyrchu. Gwnaethom hefyd gyhoeddi Egwyddorion Cynhyrchu Cynhwysol newydd sy'n anelu at feithrin diwylliant cynhwysol ar bob un cynhyrchiad.

Rydym yn ymrwymedig i'n huchelgais y dylai pawb sy'n ymgysylltu â'r BBC deimlo eu bod yn perthyn.

* Gall rhai aelodau o staff fod yn aelodau o sawl rhwydwaith a grŵp. Nid yw'r ffigur a roddwyd yn cynrychioli cyfanswm yr unigolion unigryw.

i Ceir data manwl ar y rhain a nodweddion eraill, yn cynnwys dadansoddiadau is-adrannol, yn: bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/equality-information-report-2024-25.pdf.

ASTUDIAETH ACHOS

Prentis Gyrfaodd Cynnar – Archie Farmer

Cwblhaodd Archie ei brentisiaeth Newyddiadurwr Lefel 5 ym mis Mehefin 2024. "Rwyf wedi mwynhau adrodd straeon erioed, ac roeddwn yn cyflwyno fy rhaglen radio gymunedol fy hun yn 15 oed, ond fel bachgen dosbarth gweithiol yn Plymouth, yn mynychu fy ysgol gyfun leol, roeddwn i'n gwybod bod cyfleoedd i ymgymryd â phrentisiaeth yn y cyfryngau yn brin." Pan gafodd prentisiaeth ei chynnig yn BBC South West, roedd Archie wrth ei fodd yn cael cyfle i feithrin sgiliau newyddiaduraeth wrth weithio ac i ennill Diploma NCTJ. Ar ôl cwblhau'r brentisiaeth, cafodd swydd newyddiadurwr ar-lein, yn dod o hyd i straeon lleol ac yn ysgrifennu amdanant, a chafodd Glod Uchel yng nghategori Prentis Uwch y Flwyddyn y Gwobrau Prentisiaethau Cenedlaethol – y tro cyntaf i un o brentisiaid y BBC wneud hynny.



Ar draws y BBC – Pob aelod o staff ac arweinyddiaeth: 31 Mawrth 2025

Nodwedd	Gweithlu	Mawrth 2025	Mawrth 2024	Nod
Menywod	Pob aelod o staff	50.6%	50.4%	50%
	Arweinyddiaeth*	50.0%	49.1%	
Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	Pob aelod o staff	17.7%	17.2%	20%
	Arweinyddiaeth*	13.9%	14.4%	
Anabledd	Pob aelod o staff	9.8%	9.3%	12%
	Arweinyddiaeth*	8.2%	8.0%	
Cefndir Economaidd-gymdeithasol lsel (metrig galwedigaeth yr aelwyd)	Pob aelod o staff	20.8%	20.8%	25%
	Arweinyddiaeth*	19.8%	19.3%	

* Bandiau E+

DENU A DATBLYGU POBL

Mae ein dull gweithredu mewn perthynas â thalent yn gyfannol – yn amrywio o yrfaoedd cynnar, arweinyddiaeth, sgiliau ar gyfer y dyfodol a chynrychiolaeth o bob cwr o'r DU. Mae ein timau Caffael Talent arbenigol yn helpu holl is-adrannau'r BBC i hurio ac maent hefyd yn rhoi blaenoriaeth i symudedd mewnol a meithrin gallu.

Yn 2024/25, gwnaethom hurio 265 o brentisiaid newydd (69% y tu allan i Lundain), ac roedd y lefel uchaf erioed o brentisiaid, sef 971, yn cymryd rhan yn y cynllun erbyn mis Rhagfyr 2024. Llwyddodd y BBC i gadw 77% o'r unigolion a gwlblaodd brentisiaeth gyrfaoedd cynnar. Mae amrywiaeth ymhlith prentisiaid gyrfaoedd cynnar yn parhau'n gadarn: mae 64% yn fenywod, mae 31% o grwpiau ethnig leiafrifol, mae gan 18% anabledau ac mae 21% o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Rydym ar y trywydd cywir i groesawu ein nifer mwyaf erioed o brentisiaid gyrfaoedd cynnar ym mis Medi 2025 – tua 300 o brentisiaid ar 28 o raglenni.

Mae 97% o brentisiaid yn nodi eu bod yn fodlon ar eu profiad gyda'r BBC, ac mae'r rhaglen wedi ennill sawl gwobr, gan gynnwys Y 50 Cyflogwr Gorau i Brentisiaid; Cyflogwr Creadigol, Cyfryngau a Marchnata Amlddwyllianol y Flwyddyn; a'r pumed safle ar restr The Times o'r 100 cyflogwr gorau i raddedigion.

Er mwyn helpu i sicrhau cyflenwadau talent yn y dyfodol, darparwyd dros 30 o ddiwrnodau rhagflas ar ffurf profiad gwaith 'Get In' i dros 360 o fyfyrwr yn 30 o leoliadau'r BBC a chynhaliwyd ymweliadau â 100 o ysgolion. Gwnaethom hefyd ehangu ein hasiantaeth prentisiaethau swyddi hyblyg, gan drefnu lleoliadau i brentisiaid â chwmnïau cynhyrchu annibynnol, a throsglwyddo cyllid ardoll heb ei wario i gefnogi prentisiaid mewn busnesau bach a chanolig yn y sectorau creadigol.

Cynhaliodd BBC Academy fwy na 30 o ddigwyddiadau hyfforddiant cenedlaethol, gan gyrraedd mwy na 21,000 o bobl wyneb yn wyneb ac ar-lein. Roedd y mentrau blaenllaw yn cynnwys y canlynol:

- Fusion – yn arddangos yr arferion gorau o ran deallusrwydd artifisial, data mawr ac adrodd straeon (7,500+ o gyfranogwyr);
- Production Unlocked – yn cefnogi sector cynhyrchu llawrydd y DU;
- Gohebydd Ifanc – yn ymgysylltu â mwy na 10,000 o bobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed, llawer ohonynt o gymunedau a dangynrychiolir.

Rydym wedi sicrhau bod 'Arwain Mentrau' wrth wraidd ein diwylliant sefydliadol. Mae Arwain Mentrau yn ffordd o feddwl, yn ogystal â chyfres o ymddygiadau a gweithredoedd sy'n annog unigolion i ystyried y fenter gyfan, gan helpu pawb yn y BBC i feddwl am y sefydliad ac i roi blaenoriaeth i'n strategaeth Gwerth i Bawb. Rydym wedi llunio darpariaeth datblygu Arwain Mentrau flaenllaw, sy'n addas i reolwyr newydd hyd at uwch-arweinwyr. Y flwyddyn hon, cwblhaodd mwy na 250 o arweinwyr gyrsiau arwain, a chymerodd mwy na 950 ran mewn gweithdai a oedd yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth, Hyfforddiant a Pherfformiad Cynhwysol. Yn ogystal, cynigiodd ein rhwydwaith hyfforddi mewnol gymorth datblygu wedi'i deilwra i 63 o arweinwyr.

DYSGU A DATBLYGU BBC ACADEMY A BBC STUDIOS

Cyrrhaeddiad	2024/25	2023/24	2022/23
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddi a gwlblhawyd*	123,141	100,876	88,146
Staff y BBC a gwlblaodd un cwrs neu fwy	98%	91%	79%
Cyfanswm oriau dysgu a datblygu	193,275	189,458	185,209
Nifer y diwrnodau dysgu a datblygu fesul CALL	1.3	1.2	1.2

Gwerth am arian	2024/25	2023/24	2022/23
Gwariant ar gyflwyno hyfforddiant (£m)**	£11.76	£11.98	£12.3
Cost dysgu a datblygu fesul CALL***	£555	£549	£553

Mae data hyfforddiant a ffigurau CALL ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, BBC Studios ac is-gwmnïau masnachol eraill.

* Cyfanswm cyrsiau unigol wyneb yn wyneb, ystafell ddosbarth rithwir ac ar-lein a gwlblhawyd.

** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant ac eithrio prosiectau mawr.

*** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant wedi'i rannu â chyfanswm CALL.



ASTUDIAETH ACHOS

Prentis Staff – Stefan King

Mae Stefan yn Swyddog Gweithredol Materion Masnachol, Hawliau a Busnes wedi'i leoli yn Llundain. Mae ganddo Barlys yr Ymennydd Athetoid. Cwblhaodd Stefan brentisiaeth Gwyddor Data a Deallusrwydd Artiffisial Lefel 7 yn ddiweddar, gan feithrin y sgiliau sydd eu hangen arno i fod yn rhan o BBC digidol yn gyntaf. "Rwyf wedi bod yn y BBC ers 18 mlynedd a bu diddordeb gennyf mewn deallusrwydd artiffisial ers iddo ddod i'r amlwg gyntaf, gan ddysgu am y datblygiadau diweddaraf drwy fynychu cynadleddau. Pan welais gyfle i ymgymryd â phrentisiaeth deallusrwydd artiffisial yn y BBC, roeddwn yn gwybod mai dyma oedd y cam nesaf perffaith i mi ehangu fy set sgiliau. Rwyf bellach yn teimlo'n barod i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol yn y BBC."

Hawliau dynol, caethwasiaeth fodern a gwrth-lwgrwobrwyo

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol y rhai sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â nhw, ac unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn codau ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/BBC_Ethical_Policy.pdf.

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o ymyrryd â hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn glynu wrth Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hynny. Mae'r datganiad llawn ar gael yn: bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/bbcmsa2025.pdf.

Rydym wedi ymrwymo i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â llwgrwobrwyo a llygredd. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n cynrychioli'r BBC ddilyn Cod Ymddygiad Gwrth-lwgrwobrwyo y BBC. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/foi/classes/policies_procedures/anti-bribery-policy.pdf

Datganiad Gwybodaeth Anariannol a Chynaliadwyedd

Rydym yn cydnabod gofynion adrodd anariannol Deddf Cwmnïau 2006 ac wedi datgelu gwybodaeth gysylltiedig a pherthnasol drwy gydol yr adroddiad strategol. Er hwylustod, gellir dod o hyd i wybodaeth am y pum mater a gwnmpesir gan y rheoliad ar y tudalennau canlynol: cynaliadwyedd amgylcheddol (tudalen 70 a 255); ein pobl (tudalen 65 a 250); hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, gwrth-lwgrwobrwyo (i'r chwith). Hefyd, ceir rhagor o wybodaeth am ein model busnes (tudalen 82), ein prif risgiau (tudalen 108) a'n perfformiad anariannol (drwy gydol yr adroddiad strategol).

CODI PRYDER
YN Y BBC

Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o bryderon a godir gan staff drwy Bolisi Cwynion y BBC neu Bolisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu'r BBC. Mae gennym amrywiaeth o ffyrdd y gall cyflogeion a'r sawl sy'n gweithio gyda'r BBC godi pryderon yn uniongyrchol ac yn gyfrinachol drwy reolwyr llinell, rhwydweithiau staff, undebau llafur ac yn uniongyrchol i dimau arbenigol dros y ffôn ac ar-lein.

Gall honiadau chwythu'r chwiban, a elwir yn 'Ddatgeliadau a Ddiogelir' hefyd, gael eu gwneud gan unrhyw un â phryderon gwirioneddol am gamymddwyn difrifol yn y BBC. Mae'r pryderon y gellir eu codi drwy bolisi Chwythu'r Chwiban y BBC yn cynnwys y canlynol:

- Materion sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol, colled ariannol neu rwymedigaeth gyfreithiol ar ran y BBC, neu a allai gael effaith ddifrifol ar enw da'r BBC fel arall
- Achosion o gamymddwyn wrth gynnal busnes y BBC, gan gynnwys er enghraifft, camddefnyddio pŵer a llygredd (e.e. nepotiaeth, camddefnyddio achos o wrthdaro buddiannau nas datganwyd), a llwgrwobrwyo
- Camymddwyn golygyddol difrifol (y tu hwnt i anghytundebau golygyddol arferol) neu weithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd eraill sy'n gyfystyr â chamymddwyn proffesiynol difrifol
- Pryderon diogelu am blentyn neu berson ifanc (h.y. person o dan 18 oed) neu oedolyn agored i niwed

NIFER Y CWCYNION MEWNOL
Cwynion a wnaed ac yr ymchwiliwyd iddynt

	2024/25	2023/24
Bwlio ac aflonyddu Cwynion cyflogaeth a wnaed naill ai'n uniongyrchol i'r adran Adnoddau Dynol, drwy gyflwyno cwyn gyflogaeth, neu drwy'r llinell gymorth bwlio ac aflonyddu gyfrinachol.	46 o achosion ffurfiol • 1 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol • 45 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu • 21 wedi'u cau • 23 yn mynd rhagddynt • 2 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 119 diwrnod*	50 o achosion ffurfiol • 4 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol • 46 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu • 24 wedi'u cau • 24 yn mynd rhagddynt • 2 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 101 diwrnod*
Achosion o chwythu'r chwiban Daw honiadau o chwythu'r chwiban i law naill ai drwy Navex Global, sy'n rheoli llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol ar ein rhan, drwy uwch-reolwyr yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol dynodedig, neu'n uniongyrchol i'r timau Ymchwiliadau.	Cafwyd 82 o achosion drwy ddulliau chwythu'r chwiban amrywiol y BBC a chawsant eu brysennu, a derbyniodd 21 eu bod wedi cyrraedd y trothwy o ran chwythu'r chwiban. • Cwblhawyd 26 o achosion o chwythu'r chwiban, (gan gynnwys 18 a ddygwyd ymlaen o 23/24, a 3 o'r rhain a ddygwyd ymlaen o 22/23) • 10 (o'r 26 a oedd wedi'u cau) wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol • 6 heb eu cefnogi • 10 heb eu cadarnhau • 13 yn mynd rhagddynt Amser cyfartalog i gau achos: 113 diwrnod*	Cafwyd 53 o achosion drwy ddulliau chwythu'r chwiban amrywiol y BBC a chawsant eu brysennu, a derbyniodd 22 eu bod wedi cyrraedd y trothwy o ran chwythu'r chwiban • Cwblhawyd 22 o achosion o chwythu'r chwiban (gan gynnwys rhai a ddygwyd ymlaen o 22/23) • 13 (o'r 22 a oedd wedi'u cau) wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol • 1 heb ei gefnogi • 8 heb eu cadarnhau • 18 yn mynd rhagddynt Amser cyfartalog i gau achos: 160 diwrnod*

* Cyfrifiad yn seiliedig ar wythnos saith diwrnod. Ymysg yr amseroedd cau achosion a nodwyd yn 2024/25 mae: achosion o fath Asesiad Chwythu'r Chwiban, Brysbennu ac Ymchwiliad. Yn 2023/24 dim ond amseroedd cau achosion Ymchwiliad Chwythu'r Chwiban yr oedd y cyfartaledd yn eu cynnwys

POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Mae chwythu'r chwiban yn ddull allweddol o nodi achosion posibl o gamymddwyn a mynd i'r afael â nhw. Mae'r BBC yn ymrwymo i ddiogelu'r sawl sy'n codi pryderon rhag triniaeth annheg o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi lleisio eu barn.

Cafwyd cynnydd o 55% yn nifer yr achosion a gyflwynwyd yn 2024/25 (82 o achosion o gymharu â 53 o achosion a gyflwynwyd yn 2023/24).

Gwelwyd bod ehangu cylch gwaith polisi Chwythu'r Chwiban i gynnwys achosion o gamymddwyn golygyddol difrifol yn ffactor arwyddocaol yn y cynnydd yn nifer yr adroddiadau gydag achosion golygyddol yn cyfrif am 34% o'r cynnydd yn nifer yr achosion (a 12% o nifer cyffredinol yr achosion) yn 2024/25 (10 achos). Mae'r cynnydd hwn yn nifer yr achosion yr adroddir amdanynt o un flwyddyn i'r llall yn bennaf oherwydd cynnydd mewn ymwybyddiaeth ond mae hefyd yn nodi lefel ymddiriedaeth uwch yn swyddogaeth Chwythu'r Chwiban y BBC i ddatrys pryderon yn briodol ac yn gyflym. Gan droi cefn ar dueddiadau'r ddwy flwyddyn flaenorol, y categori amlycaf o bryderon a nodwyd yn 2024/25 oedd bwllo ac aflonyddu, a oedd yn cyfrif am 18% (15 o achosion) o'r holl achosion. Y categori nesaf oedd cam-drin rhywiol, aflonyddu a chamfanteisio, sef 17% (14 o achosion). Gwnaed chwe adroddiad o gamddefnyddio pŵer a llygredd yn 24/25, i lawr 14% o saith adroddiad yn 23/24.

Mae'r parodrwydd ymddangosiadol i adrodd am aflonyddu rhywiol o fewn y sefydliad yn cynnig cyfle pwysig i atgyfnerthu ein gweithdrefnau a'n prosesau i ddiogelu ein cydweithwyr yn unol â Deddf Diogelu Gweithwyr 2024, a ddaeth yn weithredol ym mis Hydref 2024. Ein blaenoriaeth o hyd yw gweithredu'n gyflym ac yn gadarn wrth gael adroddiadau o'r fath er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau ataliol yn erbyn aflonyddu rhywiol yn y gweithle.

Gwelwyd gostyngiad yn yr amser cyfartalog i gau achosion ar gyfer yr holl faterion a gaewyd yn ystod y cyfnod perthnasol dros y cyfnod blaenorol o 12 mis. O'r holl achosion a gaewyd yn 2023/24, yr amser cyfartalog a gymerwyd i gau'r materion hyn oedd 18.2 wythnos (127 diwrnod). Caewyd materion mewn 16.1 wythnos (113 diwrnod) ar gyfartaledd yn 2024/25, gostyngiad o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli hyn i'r gwaith sylweddol a wnaed i symleiddio prosesau a gwella adnoddau a gwydnwch o fewn y swyddogaeth. Mae canran yr adroddiadau a wnaed yn ddienw yn gysylltiedig o hyd o un flwyddyn i'r llall ac mae hyn yn dangos cyfle i feithrin rhagor o ymddiriedaeth yn y broses o sicrhau cyfrinachedd i'r sawl sy'n adrodd.

Mae Tîm Chwythu'r Chwiban wedi parhau i hyrwyddo mentrau strategol i godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth gan gynnwys i godi proffil a phroffesiynoldeb sianelau 'lleisio barn' ym mhob rhan o'r diwydiant darlledu a'r cyfryngau drwy fentrau traws-sector â sefydliadau cymheiriaid. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach i ehangu strategaeth farchnata fewnol Chwythu'r Chwiban y BBC, gan gynnwys hyfforddiant penodol wedi'i anelu at reolwyr a gwella ymddiriedaeth a hyder yn y broses. Gan edrych i'r dyfodol, caiff y broses o chwythu'r chwiban ar gyfer pryderon a godwyd ynghylch materion golygyddol ei symleiddio i sicrhau ei bod yn fuddiol ac yn hygyrch o hyd i bawb dan sylw. Mae sicrwydd ansawdd trydydd partion annibynnol o ymchwiliadau chwythu'r chwiban yn parhau ar sail chwarterol, gydag achosion o gamymddwyn golygyddol difrifol bellach yn cael eu cynnwys yn y sampl sicrwydd. Caiff canlyniadau sicrwydd eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol ar gyfer achosion perthnasol er mwyn sicrhau goruchwyliaeth gynhwysol gan bob uwch-randdeiliad perthnasol.

Wedi'i gadarnhau: Nodir bod achos wedi'i gadarnhau pan gaiff tystiolaeth o'r honiad ei phrofi'n llawn neu'n rhannol ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau, a ddaw o dan baramedrau un o'r pum llinyn datgeliad gwarchodedig

Heb ei gadarnhau: Nodir bod achos heb ei gadarnhau pan na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwyno i brofi'r honiadau ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau; neu y cafwyd tystiolaeth i'r gwrthwyneb sy'n gwrthbrofi'r honiadau

Heb ei gefnogi: Nodir bod achos heb ei gefnogi pan na fydd digon o dystiolaeth i brofi'r honiadau ond bod canfyddiadau, cyhyd ag y llwyddwyd i ddilyn eu trywydd, yn cyfeirio at y ffaith bod sylwedd i rywfaint o dystiolaeth o'r honiadau. Gall hyn fod oherwydd amharodrwydd i ddatgelu rhagor o wybodaeth gan y chwythwr chwiban, neu gyfyngiadau ynghylch data sydd ar gael, neu dystiolaeth ddiriaethol i gadarnhau'r honiad

Achosion na chânt eu derbyn fel rhai Chwythu'r Chwiban: Cyfeirir y rhain gyda chaniatâd y chwythwr chwiban at y tîm priodol i adolygu'r achos

EIN HUCHELGAIS CYNALIADWYEDD – GWERTH I BAWB

O BLAID NATUR

Rheoli ein heffaith ar natur er mwyn gwneud mwy o dda na drwg i'n planed

Mae ein strategaeth O Blaid Natur yn cydnabod ein heffeithiau posibl ar natur, er enghraifft drwy ein cadwyn gyflenwi a'n cynrychiadau ar safleoedd, ac yn nodi llwybr i fapio ein heffeithiau ar fioamrywiaeth ac ecosystemau ble bynnag y byddant yn digwydd. Rydym yn cynnal dadansoddiadau gwirfoddol ac yn ystyried sut y gallwn wneud newidiadau wedi'u targedu er mwyn lleihau effeithiau negyddol dros amser, a'u hosgoi yn y pen draw, drwy ddefnyddio'r safonau corfforaethol a'r canllawiau diweddaraf i'r diwydiant. Mae ein prosiectau hyd yn hyn wedi cynnwys partneriaethau â sefydliadau gan gynnwys cwmnïau ymgynghori amgylcheddol a sefydliadau gwyddonol blaenllaw, wrth i ni gydweithio i asesu ein heffeithiau a'n dibyniaethau.

DATBLYGU A CHYDWEITHIO

Mae'r broses o olrhain a rheoli effeithiau ar natur yn gymhleth. Mae ein gwaith yn gyson â'r arferion gorau sy'n dod i'r amlwg, ac mae'n bosibl y byddwn yn gosod targedau yn y dyfodol. Rydym yn ystyried cyfleoedd i gydweithio â'r diwydiant a phrosiectau gwella bioamrywiaeth penodol.

SERO NET

Mabwysiadu dull gweithredu datgarboneiddio yn gyntaf wedi'i ategu gan y wyddoniaeth

Mae ein Cynllun Trawsnewid i Sero Net yn nodi sut y byddwn yn parhau i gynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf yn unol â'r safonau cynhyrchu cynaliadwy uchaf. Mae gennym dargedau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn ein gweithrediadau a'n cadwyn gyflenwi. Mae ein hamcanion yn berthnasol ar draws Grŵp y BBC, ac rydym yn canolbwyntio ar roi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil, optimeiddio ynni, ac ymgysylltu â'n partneriaid. Datgarboneiddio dwfn yw ein blaenoriaeth; byddwn yn gwaredu allyriadau yn eu tarddle, lle y bo'n bosibl, ac yn sicrhau bod ein strategaeth yn gydnaws ag arferion gorau. Mae gennym uchelgais clir i fod yn Sero Net erbyn 2050, wedi'i ategu gan gamau gweithredu credadwy ac atebolrwydd.

GWEITHREDU A CHYFLAWNI

Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Trawsnewid ym mis Ionawr 2025, sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein uchelgais Sero Net. Bydd ein ffocws yn ystod y flwyddyn i ddod ar weithredu, wrth i ni roi amcanion ar waith ym mhob rhan o'r BBC a defnyddio ein data i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau cyson i gefnogi ein targedau tymor agos hyd at 2030/31.

O BLAID POBL

Hysbysu ac addysgu cynulleidfaoedd am y materion mwyaf dybryd sy'n wynebu ein planed

Mae creu diwylliant cynaliadwy yn sail i'n helpfen O Blaid Pobl, wrth i ni hysbysu ac addysgu ein cynulleidfaoedd, staff, cyflenwyr a chymunedau. Rydym yn grymuso pobl i ystyried agweddau cynaliadwyedd ein gwaith, gan gynnig hyfforddiant ac ymgysylltu ar ein heffeithiau gweithredol a golygyddol, gan ddefnyddio gwyddor amgylcheddol. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi a'n partneriaid cynhyrchu, ac yn cydweithio ar ddigwyddiadau a fforymau i'r diwydiant cyfan. Ein nod yw galluogi diwydiant cyfryngau cynaliadwy. Mae a wnelo'r elfen O Blaid Pobl â chreu'r amodau i gydweithio, gan wasanaethu ein cynulleidfaoedd a chyflawni ein strategaeth cynaliadwyedd.

MESUR A MONITRO

Mae creu diwylliant cynaliadwy yn uchelgais parhaus. Er mwyn olrhain cynnydd, gwnaethom ddatblygu ein dangosfwrdd O Blaid Pobl cyntaf. Bydd hyn yn darparu dolen adborth cadarnhaol i rymuso rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd a gwneud penderfyniadau gwybodus.

47%

Y gostyngiad o ran cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan weithrediadau yn y DU
2023/24 **40%**

29%

Y gostyngiad o ran allyriadau Cwmpas 1 a 2 o gymharu â'n blwyddyn sylfaen 2019/20
2023/24 **22%**

3%

Y cynnydd mewn allyriadau Cwmpas 3 yn erbyn ein blwyddyn sylfaen 2019/20
2023/24 **7%**

59%

Poblogaeth 16+ oed y DU y gwnaeth cynnwys Teledu a Radio a oedd yn cynnwys themâu amgylcheddol penodol eu cyrraedd – y tu hwnt i fwletinâu Newyddion a rhaglenni dilyniannol

**DATGELIAD SY'N GYSYLLTIEDIG
Â'R HINSAWDD Y BBC**

Rydym yn cyflwyno datgeliad yn unol â Rheoliadau Cwmnïau (Adroddiad Strategol) (Datgeliad Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd) 2022 ar dudalennau 70-74, a 255-256, sy'n gydnaws â'r argymhellion a gyhoeddwyd gan y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Mae'r wybodaeth yn rhan o'n Datganiad Gwybodaeth Anariannol a Chynaliadwyedd sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac sy'n berthnasol i Grŵp y BBC.

**CYFRIFOLDEB DROS RISGIAU A
CHYFLEOEDD SY'N GYSYLLTIEDIG
Â'R HINSAWDD**

Gallai effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r broses o drawsnewid i economi carbon iseri risg i'r BBC. Mae ein henw da am gynnwys amgylcheddol o'r radd flaenaf yn gryfder hirsefydledig ond mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i ni eu monitro a'u lliniaru.

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn brosiect allweddol i ni ac mae'n rhan o bortffolio trawsnewid a gynlluniwyd i gyflawni ein strategaeth Gwerth i Bawb. Fel prosiect hanfodol, mae cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o strwythur llywodraethu Grŵp y BBC a chaiff ei adolygu gan y Pwyllgor Gweithrediadau, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae ein strwythur llywodraethu llawn i'w weld ar dudalen 84. Ein Prif Swyddog Ariannol yw'r noddwr, ag atebolrwydd fel aelod o'r Pwyllgor Gweithredol, a'n Swyddog Cynaliadwyedd sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith cyflawni.

Er mwyn monitro gweithgarwch ar draws Grŵp y BBC, mae gennym Grŵp Llywio Cynaliadwyedd, wedi'i gadeirio gan ein Prif Swyddog Ariannol; mae'r grŵp yn cynnwys uwch-arweinwyr o bob rhan o'r BBC ac mae'n cyfarfod bob mis i lywio strategaeth yr hinsawdd ac i ystyried risgiau cysylltiedig.

Rydym hefyd wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Cynaliadwyedd ategol, y mae ei aelodau yn cynnwys arweinwyr cynaliadwyedd, sy'n cyfarfod bob mis i rannu arferion gorau, nodi risgiau a chydgysylltu gwaith ym mhob rhan o'r BBC. Caiff yr holl weithgareddau eu cefnogi gan arbenigedd ac adnoddau cynaliadwyedd penodol, gan gynnwys ein llwyfan cyfrifyddu nwyon tŷ gwydr, sy'n olrhain cynnydd yn erbyn targedau ac yn galluogi dadansoddiadau i nodi risgiau a chyfleoedd.

Caiff risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sydd o bwysigrwydd strategol eu dwyn at sylw'r Pwyllgor Gweithredol i'w cymeradwyo a'r Bwrdd i'w goruchwylio. Mae amllder adolygiadau yn gymesur â'r trefniadau ar gyfer rheoli prif risgiau eraill i Grŵp y BBC.

Roedd cyhoeddi Cynllun Trawsnewid i Sero Net cyntaf y BBC, a gymeradwywyd gan ein Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd y BBC cyn ei gyhoeddi, yn garreg filltir allweddol yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys diweddariadau chwarterol ar berfformiad yn erbyn targedau a gaiff eu hadolygu gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Cymeradwyodd y Bwrdd
Gynllun Trawsnewid i Sero
Net cyntaf y BBC, sy'n nodi
amcanion seiliedig ar
wyddoniaeth i
ddatgarboneiddio ein
gweithrediadau a'r diwydiant
yn unol â pholisi'r DU**

Mae newidiadau i strategaethau neu gynlluniau buddsoddi hefyd yn destun prosesau adolygu a chymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol.

**NODI, ASESU A RHEOLI RISGIAU A
CHYFLEOEDD SY'N GYSYLLTIEDIG
Â'R HINSAWDD**

Er mwyn sicrhau BBC gwydn ar gyfer y dyfodol, mae angen i ni ddeall effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd ar bob rhan o Grŵp y BBC. Mae pob rhan o'r BBC yn gyfrifol am ddeall risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a'u rheoli'n barhaus. Cyflwynir adroddiadau misol ar risgiau neu gyfleoedd a nodir drwy ein strwythur llywodraethu ac mae ein harweinwyr cynaliadwyedd yn cael cymorth gan dîm Cynaliadwyedd y Grŵp.

Mae ein proses yn helpu i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o ddydd i ddydd. Mae tîm Cyllid y Grŵp hefyd yn cynnal asesiad risg blynyddol i ystyried ein cydnerthed yn erbyn risgiau a chyfleoedd ffisegol a thrawsnewidiol cyffredin er mwyn ystyried cydnerthed Grŵp y BBC. Rydym yn asesu effaith ariannol bosibl risgiau a chyfleoedd a nodir ar draws gwahanol orwelion amser ac yn pennu arwyddocâd uchel, canolig neu isel i bob risg neu gyfle, wedi'i lywio gan drothwyon risgiau a chyfleoedd y Grŵp. Mae gorwelion amser yn gydnaws â'n targedau seiliedig ar wyddoniaeth er mwyn sicrhau y caiff risgiau eu monitro'n unol â'n cynllun i gyflawni ein strategaeth Sero Net. Caiff canlyniadau eu hadolygu gan ein Swyddog Cynaliadwyedd a'n Grŵp Llywio Cynaliadwyedd i lywio sail ein datgeliad blynyddol.

**INTEGREIDDIO Â PHROSESAU
RHEOLI RISG**

Ystyrir bod cynaliadwyedd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd yn un o risgiau blaenoriaeth y BBC a chaiff ei hintegreiddio â'n proses rheoli risg. Mae ein dull gweithredu yn cydnabod bod effeithiau mwyaf sylweddol newid yn yr hinsawdd yn debygol o ddod i'r amlwg yn y dyfodol hirdymor ond bod angen gweithredu nawr.

Rydym yn defnyddio dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i ystyried risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor, sy'n weithdrefn wedi'i theilwra'n benodol yn erbyn risgiau blaenoriaeth eraill. Gweler tudalen 108 am wybodaeth am ddull rheoli risg y BBC.

**DADANSODDIADAU O SENARIOS SY'N
GYSYLLTIEDIG Â'R HINSAWDD**

Rydym yn modelu'r effeithiau posibl i'r BBC gan ddefnyddio senario Sero Net a senario Polisiâu Cyfredol. Bwriedir i'r senario Sero Net gyd-fynd â'n targedau seiliedig ar wyddoniaeth a pholisi'r DU, gyda'r senario Polisiâu Cyfredol wedi'i dewis fel dull cymharu busnes fel arfer.

Dewisir y senarios yng nghyd-destun dwysedd carbon isel y BBC o gymharu â sectorau eraill, gan sicrhau hefyd bod modd eu cymharu â gweddill ein sector.

Senarios a ddewiswyd	Llwybr tymheredd hyd at 2100
Sero Net	1.5°C
Polisiâu cyfredol	3.5-4.5°C

Caiff data eu cyrchu o ffynonellau cydnabyddedig gan gynnwys Rhwydwaith Gwyrddhau'r System Ariannol, yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol, a Llwybrau Crynodiad Cynrychioliadol, fel sail ar gyfer dadansoddiadau'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd.

TYBIAETHAU A CHYFYNGIADAU

Mae dadansoddiadau o senarios yn symleiddio'r byd go iawn, ac mae'n bwysig cydnabod eu cyfyngiadau sylweddol. Mae angen data ar y risgiau a'r chyfleoedd sy'n gysylltiedig ag enw da'r BBC er mwyn amcangyfrif yr effeithiau sy'n deillio o newid ymddygiad. Rydym yn gofyn am gyngor allanol wrth gyrchu data ac rydym o'r farn bod ein dull gweithredu yn gyson ag arferion cyffredin, ond mae'r casgliadau wedi'u cyfyngu gan y data sydd ar gael. Nid yw risgiau neu gyfleoedd eraill, fel y perygl posibl o lifogydd, yn dibynnu ar ymddygiadau ond maent yn dibynnu o hyd ar ffactorau lle ceir cryn dipyn o ansicrwydd, fel tebygolrwydd lifogydd dros amser.

Mae dadansoddi senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ymarfer newydd i gorfforaethau, ac rydym wedi bod yn datblygu arbenigedd ac yn mireinio ein dull gweithredu. Mae ein hasesiad diweddaraf yn cynnwys newidiadau i adlewyrchu ein targedau Sero Net hirdymor, ffynonellau data wedi'u diweddarau a dulliau cyfrifo manylach. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y byddwn yn cyflwyno senarios newydd, neu'n modelu risgiau a chyfleoedd newydd a nodir. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn newid ein dull gweithredu er mwyn ymateb i wybodaeth newydd neu adnoddau a fydd ar gael. Nid ydym yn dibynnu'n llwyr ar y casgliadau wrth wneud penderfyniadau gan fod cryn dipyn o ansicrwydd yn gysylltiedig â'n nhw. Rydym yn datgelu canlyniadau ein dadansoddiadau ar dudalen 72 a 73.

CYDNERTHEDD YN ERBYN RISGIAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD

Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth a gwasanaethu ein cynulleidfaoedd, mae angen i ni ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i hysbysu, addysgu a diddanu. Rhaid i ni deithio, prynu nwyddau a gwasanaethau, a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, ac mae hyn oll yn cael effaith ar yr amgylchedd. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau ein hasesiad risg blynyddol a'n hymatebion strategol.

RISGIAU FFISEGOL SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD

Rydym o'r farn mai'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid i economi carbon is sydd fwyaf perthnasol i'n sefydliad. Nid ydym yn gweithredu mewn sector sy'n gwneud defnydd dwys o garbon ac, er ein bod yn dibynnu ar asedau ffisegol a lleoliadau, nid ydym yn cael ein hamlygu cymaint i risgiau ffisegol â sectorau eraill.

Rydym wedi canolbwyntio ein dadansoddiad o'r risg ffisegol ar safleoedd yn y DU a thramor sydd o dan ein rheolaeth weithredol, gan asesu achosion posibl o darfu arnynt oherwydd llifogydd. Mae'n bosibl y ceid achosion sylweddol o darfu yn yr hirdymor, ond caiff y risg ei lliniaru gan yswiriant ar gyfer asedau'r BBC a chynlluniau parhad busnes. Mae'r dull gweithredu sy'n gysylltiedig â'n model diweddaraf yn fanylach na'r llynedd, gyda data lleoliad mwy penodol yn arwain at asesiad mwy penodol. Rydym wedi lleihau'r sgôr risg o dan y senario Sero Net o risg ganolig i risg isel o gymharu â'n hadroddiad blaenorol.

Caiff mathau eraill o risg ffisegol, fel achosion posibl o darfu oherwydd gwres eithafol, neu danau gwyllt, eu hystyried ac mae'n bosibl y byddant yn rhan o waith dadansoddi a datgelu yn y dyfodol.

RISGIAU TRAWSNEWID SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R HINSAWDD

Mae gennym enw da am gynnwys amgylcheddol o'r radd flaenaf ac mae ein cynulleidfaoedd, ein staff a'n partneriaid yn debygol o ddisgwyl yr un lefel o ofal ac ymrwymiad i ansawdd wrth i ni reoli ein heffeithiau gweithredol. Mae'n bosibl y bydd costau newydd yn codi hefyd yn sgil newidiadau i bolisiau.

Mae ein hymarfer dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi modelu pedair risg drawsnewid er mwyn asesu'r effeithiau posibl. Rhaid cydnabod bod cryn dipyn o ansicrwydd, ond nid ydym yn gweld risg glir i gydnerthedd y BBC yn y byrdymor. Rydym o'r farn bod camau lliniaru ar waith i atal effeithiau sylweddol, ond mae tebygolrwydd uchel y bydd ein strategaeth a'n camau gweithredu yn destun craffu.

Mae ein hasesiad diweddaraf yn uwchraddio arwyddocâd risgiau hirdymor posibl yn deillio o gostau carbon y polisi, a'n gallu i ddenu a chadw talent. Rydym o'r farn bod y risgiau hyn yn cael eu lliniaru gan ein ffocws strategol ar Sero Net a datgarboneiddio gweithredol, gyda'r newid i'r sgôr risg wedi'i lywio gan fewnbynnau allanol i'n dadansoddiad. Rydym hefyd wedi dileu risg a ddatgelwyd yn flaenorol, yn ymwneud â chost cyfalaf, oherwydd y sgoriau risg isel parhaus a fodelwyd dros amser.

Mae cyflawni ein strategaeth Sero Net yn dibynnu ar gydweithio â phawb rydym yn gweithio gyda nhw. Rhaid i ni weithio mewn partneriaeth er mwyn bod yn llwyddiannus, a dyna pam ein bod yn cefnogi dulliau cynhyrchu cynaliadwy drwy albert BAFTA, ac yn cynnal digwyddiadau i'r diwydiant i hwyluso cynnydd ar y cyd.

Effaith ariannol newid yn yr hinsawdd

Rydym o'r farn nad yw newid yn yr hinsawdd yn bygwth cynllun ariannol tair blynedd y BBC. Gweler tudalen 120 am Ddatganiad ynghylch Hyfywedd y Grŵp. Rydym yn rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd a nodir drwy barhau i fuddsoddi mewn arbenigedd, technoleg a seilwaith cynaliadwyedd ym mhob rhan o'r BBC, gan reoli gweithgareddau mewn ffordd sy'n gymesur â risgiau blaenoriaeth eraill.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaethom baratoi a chyhoeddi ein Cynllun Trawsnewid i Sero Net, lansio ein llwyfan cyfrifyddu nwyon tŷ gwydr a gosod ein pympiâu gwres cyntaf. Caiff y costau gweithredu ar gyfer y rhaglen cynaliadwyedd eu cynnwys yn ein cynllun tair blynedd. Ni chofnodwyd unrhyw gostau annisgwyl nac andwyol sylweddol mewn perthynas â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn ystod y cyfnod.

Dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd: Risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Risg neu gyfle sylweddol	Gorwel amser	Disgrifiad	Yr effaith ariannol bosibl os na chymerir unrhyw gamau i liniaru'r risg	Effaith yn 2030		Ymateb strategol
				Polisiau cyfredol (3.5-4.5°C)	Sero Net (1.5°C)	
Costau uwch yn gysylltiedig â phrisiau, gwrthbwyso a threthi carbon	Hirdymor	Mae'n bosibl y bydd ymrwymïadau Sero Net y DU ac yn rhyngwladol yn arwain at gyflymu a gweithredu systemau prisiau carbon, gan gynnwys capiau allyriadau, gofynion gwrthbwyso a threthi.	Costau uniongyrchol uwch mewn perthynas ag ôl troed allyriadau'r BBC a chostau anuniongyrchol wrth i gyflenwyr y BBC drosglwyddo costau carbon.			Parhau i ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio gweithrediadau'r BBC yn unol â'n strategaeth Sero Net i leihau costau posibl yn y dyfodol. Archwilio prosiectau i gyflymu gweithgareddau datgarboneiddio, fel cyllidebu a phrisio carbon.
Llai o waith i ddenu a chadw staff a talent	Hirdymor	Bydd strategaeth datgarboneiddio ac enw da'r BBC o ran materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar ein gallu i ddenu cyflogeion i'r BBC a'u cadw.	Costau staff uwch i gymell a chadw cyflogeion a chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hurio oherwydd cyfraddau gadael uwch.			Sicrhau y caiff strategaeth Sero Net y BBC ei gweithredu, ac y caiff targedau cyhoeddus eu cyflawni yn unol â'n Cynllun Trawsnewid. Hyfforddi a datblygu staff yn ogystal â pharhau i ymgysylltu i gyfleu ein strategaeth a'n camau gweithredu.
Risg i enw da o wyrddgalchu	Hirdymor	Canfyddiad y cyhoedd ynghylch diffyg cysondeb rhwng negeseuon cynnwys cryf a pherfformiad gwael yn erbyn targedau neu ddiffyg cysondeb rhwng camau gweithredu gan y cyhoedd a strategaeth Sero Net y BBC.	Colli incwm o ganlyniad i ddifrod i enw da'r BBC, gan arwain at lai o gyfleoedd i greu partneriaethau wrth i gwsmeriaid symud â gystadleuwyr, yn ogystal â chostau uwch yn sgil ymgyfreitha mewn perthynas â'r hinsawdd.			Sicrhau y caiff strategaeth Sero Net y BBC ei gweithredu, ac y caiff targedau cyhoeddus eu cyflawni yn unol â'n Cynllun Trawsnewid. Gwaith ymgysylltu a chymorth wedi'i dargedu i gynrychiadau a phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi.
Risg o lifogydd yn achosi difrod ac yn tarfu ar wasanaethau	Hirdymor	Mae'n debygol y bydd mwy o law a dwysedd digwyddiadau yn cynyddu'r risg o lifogydd, gan felly gynyddu'r risg o ddifrod i asedau a seilwaith, yn ogystal â tharfu ar wasanaethau.	Costau uwch o ganlyniad i atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw, premiymau yswiriant uwch, yn ogystal â gostyngiad mewn incwm o ganlyniad i darfu ar wasanaethau.			Yswiriant i asedau'r BBC a chynlluniau wrth gefn o ran parhad busnes er mwyn lleihau achosion o darfu. Asesiadau risg blynyddol i fodelu difrod posibl.

Risg amcangyfrifedig heb ymateb strategol

Risg isel Risg ganolig Risg uchel

Gorwel amser: Byr (2025-2029) Canolig (2030-2039) Hir (2040-2050)

CYFLEOEDD I WEITHREDU MEWN PERTHYNAS Â'R HINSAWDD

Rydym yn ystyried camau gweithredu i leihau ein hŏl troed eiddo, trydaneiddio systemau gwresogi a lleihau ein defnydd o ynni o dechnoleg. Bydd bob amser angen i ni ddefnyddio ynni, felly mae'r cyfle i wneud arbedion wedi'i gyfyngu i waredu defnydd gormodol a'n gallu i optimeiddio. Mae'n bosibl hefyd y bydd technolegau newydd yn defnyddio mwy o ynni, a all wrthbwysu arbedion yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau ein hasesiad blynyddol a'n hymatebion strategol.

Mae cyfleoedd hirdymor yn gysylltiedig â'n henw da yn niwydiant y cyfryngau a'r potensial y gall hynny gynyddu incwm neu ffynonellau cyllido. Rydym yn credu y gallwn barhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid, tra'n gwneud cynnydd sylweddol o ran ein huchelgais Sero Net.

Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2024, gwnaethom gynnal ein hail *Symposiwm ar Gynaliadwyedd* blynyddol, digwyddiad yn canolbwyntio ar ysgogi camau gweithredu ym mhob rhan o'n cadwyn gyflenwi. Yn dilyn y symposiwm, lansiwyd ein cod ymddygiad cyntaf ar gyfer cadwyn gyflenwi gynaliadwy, sy'n nodi disgwyliadau sylfaenol ac uwch ar gyfer pob cyflenwr ac eithrio cwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae digwyddiadau o'r fath yn helpu i annog cydweithio drwy ystyried heriau cyffredin a rhannu straeon. Nododd 98% o'r bobl a roddodd adborth fod y digwyddiad wedi'u hysbrydoli.

Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd o ran effaith ariannol ein henw da mewn perthynas â'r hinsawdd. Rydym yn defnyddio ein llwybr datgarboneiddio i amrywio mesurau ariannol fel buddsoddiad gan drydydd partion, a ffiniau elw dros amser. Mae'n bosibl y bydd ein cymheiriaid yn y diwydiant hefyd yn rhoi strategaethau tebyg ar waith, ac rydym wedi diweddarau ein dadansoddiad, gan leihau cyfanswm y cyfleoedd a fodelwyd, i adlewyrchu'r posibilrwydd hwnnw.

Ncuti Gatwa yn chwarae rhan y Doctor, a Varada Sethu yn chwarae rhan Belinda Chandra yn *Doctor Who*



ASTUDIAETH ACHOS

Datgarboneiddio cynyrchiadau

Rydym yn rhoi cymorth datgarboneiddio i gynyrchiadau annibynnol – gyda'r llwyddiannau yn cynnwys gostyngiad o 19% mewn allyriadau ar gyfer cyfres ddiweddaraf *Doctor Who*. Treialwyd sawl menter carbon isel gan gynnwys newid nifer sylweddol o deithiau ffordd i deithiau rheilffordd, lleihau cyfanswm nifer yr hediadau, defnyddio tanwyddau carbon isel fel pŵer a bwydlenni carbon is.

Mae cyfleoedd ar gael i leihau dwysedd carbon cynyrchiadau, ond yn aml caiff penderfyniadau sy'n dylanwadu ar ddwysedd carbon eu gwneud yn gynnar yn y broses ddatblygu. Rydym yn ystyried adnoddau i gefnogi dealltwriaeth ac ystyriaeth gynnar – gan gynnwys rhagfynegi carbon a meincnodau genre i greu'r amodau ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus, wrth anelu at ragoriaeth greadigol.

Dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd: Cyfleoedd ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Risg neu gyfle sylweddol	Gorwel amser	Disgrifiad	Yr effaith ariannol bosibl os cymerir camau i wireddu'r cyfle	Effaith yn 2030		Ymateb strategol
				Polisiâu cyfredol (3.5–4.5°C)	Sero Net (1.5°C)	
Arbedion o effeithlonrwydd ynni	Byrdymor	Cyfle i gyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiladau a gweithrediadau'r BBC, a thrwy alluogi newid mewn ymddygiad.	Costau uniongyrchol is o ddefnydd ynni ar draws ystâd gyfan y BBC.	■	■	Parhau i weithredu rhaglen effeithlonrwydd ynni ac optimeiddio ystadau. Gwariant cyfalaf wedi'i gynllunio i osod ffynonellau gwresogi amgen ar safleoedd mawr y BBC.
Ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chynhyrchu cynnwys ffeithiol	Hirdymor	Gall y BBC fod yn arweinydd wrth gynhyrchu cynnwys ffeithiol drwy barhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd, eu hysbysu a'u diddanu.	Mae cynnwys ffeithiol y BBC yn apelio at gynulleidfaoedd ehangach a marchnadoedd newydd, gan alluogi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau newydd a chyfleoedd ariannu newydd ar gyfer cynnwys.	■	■	Prosesau olrhain cynnwys hinsawdd a strategaeth O Blaid Pobl ar waith o 2025. Sicrhau y caiff strategaeth Sero Net y BBC ei gweithredu, ac y caiff targedau cyhoeddus eu cyflawni yn unol â'n Cynllun Trawsnewid.
Enw da o ran arweinyddiaeth hinsawdd	Hirdymor	Gall y BBC ddangos arweinyddiaeth yn niwydiant y cyfryngau drwy gyflawni ei strategaeth Sero Net.	Incwm uwch wedi'i lywio gan y buddiannau sy'n gysylltiedig ag enw da gan arwain at gynulleidfa ehangach ar gyfer gwasanaethau'r BBC, yn ogystal â mwy o gyfleoedd am bartneriaethau.	■	■	Lluniwyd a chyhoeddwyd Cynllun Trawsnewid i Sero Net yn gynt na llawer o'n cymheiriaid yn y diwydiant. Gwnaethom gynnal digwyddiadau BBC Academy Climate Creatives a'r Symposiwm Cynaliadwyedd er mwyn ymgysylltu â phartneriaid.

Cyfle amcangyfrifedig gydag ymateb strategol

■ Cyfle isel ■ Cyfle canolig ■ Cyfle uchel

Gorwel amser: Byr (2025–2029) Canolig (2030–2039) Hir (2040–2050)

i Fel rhan o'n hadroddiadau ar yr Addewid Cynnwys Hinsawdd, dysgwch fwy am sut mae themâu cynaliadwyedd yn cael eu cynnwys ar y sgrin ac ar yr awyrr ar dudalennau 16, 26, a 36

Cynaliadwyedd – parhad

TARGEDU CYNNYDD YN SEILIEDIG AR WYDDONIAETH

Ym mis Awst 2024, gwnaethom gyhoeddi bod ein targedau Sero Net hirdymor i leihau ein hallyriadau gweithredol a'n hallyriadau yn y gadwyn gwerth 90% erbyn 2050/51 o flwyddyn sylfaen 2019/20 wedi'u cymeradwyo.

Rydym yn ymrwymedig, yn y tymor agos, i leihau allyriadau gweithredol 46% ac allyriadau yn y gadwyn gwerth 28% erbyn 2030/31 o flwyddyn sylfaen 2019/20.

Mae ein targedau yn gyson â gwyddor yr hinsawdd, deddfwriaeth y DU, ac wedi'u cymeradwyo gan y fenter Targedau ar sail Gwyddoniaeth, sef fframwaith pennu targedau a gydnabyddir yn rhwngwladol i gorfforaethau.

Rydym yn defnyddio ffin rheoli gweithredol, fel y'i diffinnir gan y Protocol Nwyon Tŷ Gwyr, ac mae'r targedau yn gymwys i Grŵp y BBC, gan gynnwys gweithrediadau ac is-gwmnïau nad ydynt yn y DU.

Drwy ein targedau Sero Net, byddwn yn anelu at reoli a gwreiddu'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a nodwyd gennym. Dylai cynnydd cyson yn erbyn ein targedau arwain at BBC gwydn ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn cyflawni ein targedau, rydym yn cydweithio â chyflenwyr a chymheiriaid creadigol i helpu i greu diwydiant cynaliadwy ar y sgrin ac oddi arni.

Mae ein cynnydd hefyd yn bwysig i'n staff, ac mae angen eu cymorth arnom i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni Sero Net. Rydym yn olrhain gostyngiadau allyriadau absoliwt dros amser, ond er mwyn cyflawni'r cynnydd hwnnw, mae angen i ni greu a gweithredu diwylliant cynaliadwy. Bydd gan feysydd O Blaid Pobl ac O Blaid Natur ein strategaeth cynaliadwyedd ran allweddol i'w chwarae wrth i ni anelu at wneud newidiadau gwledol a dilys ym mhob rhan o'r BBC.

CYNNYDD A HERIAU HYD YMA

Rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol wrth leihau ein hallyriadau gweithredol, gyda gostyngiad o 29% yn erbyn ein blwyddyn sylfaen.

Ein strategaeth yw canolbwyntio ar ddatgarboneiddio dwfn, gan leihau ein hól troed eiddo, lle mae'n gwneud synnwyr gwneud hynny, a gwaredu defnydd o danwyddau ffosil ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae gennym waith i'w wneud ond credwn fod ein cynnydd hyd yma yn well na'r disgwyl.

Mae allyriadau o weithgareddau yn ein cadwyn gwerth yn anos i'w lleihau. Mae ffynonellau ar gyfer allyriadau'r gadwyn gwerth yn cynnwys y nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu, cynyrchiadau annibynnol a nwyddau trwyddedig. Cynyddodd cyfanswm allyriadau gweithgareddau'r gadwyn gwerth 3% yn erbyn ein blwyddyn sylfaen ond mae wedi lleihau 4% o gymharu â 2023/24.

Mae'r twf o'n busnes masnachol yn llywio cynnydd o 63% yn yr allyriadau amcangyfrifedig o gynhyrchion trwyddedig a chynhyrchion i ddefnyddwyr o gymharu â 2023/24. Caiff y cynnydd hwn ei gydbwysu gan ostyngiadau o'r seilwaith darlledu, gyda chyflenwr allweddol yn lleihau cyfanswm ei ddefnydd trydan 19% ac yn newid i dariff ynni adnewyddadwy. Mae allyriadau o deithiau busnes yn parhau i leihau, gyda gostyngiad o 25% o gymharu â 2019/20.

Amcangyfrifir rhan helaeth o'n hallyriadau cadwyn gwerth yn seiliedig ar wariant; o ganlyniad, mae'r allyriadau yn newid yn unol â'n gwariant, na fydd o bosibl adlewyrchu'r effaith go iawn. Ein hamcan yw gwella ansawdd data drwy gyrchu data ar lefel gwasanaeth neu gynnyrch. Rydym yn gweithio i ymdrin â pherfformiad drwy wella ansawdd data, datgarboneiddio cynyrchiadau ac ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi. Nid ydym yn disgwyl cynnydd llinellol a bydd angen amser cyn y bydd effeithiau gweithgarwch ymgysylltu i'w gweld yn y data a adroddir gennym.

ASTUDIAETH ACHOS

Glasgow – Pympiâu gwres

Er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil, rydym yn ystyried ffynonellau ynni amgen ar gyfer rhai o'n safleoedd mwyaf. Ym mis Gorffennaf 2024, cwblhawyd y gwaith o osod ein pedwar pwmp gwres diwydiannol newydd i ddarparu system oeri a gwresogi i'n hadeilad Pacific Quay yn Glasgow. O ganlyniad i'r pympiâu gwres newydd, disgwyli'r y bydd allyriadau'r BBC yn cynnwys 900 tonnall yn llai o CO₂e, sy'n cyfateb i 3% o'r allyriadau gweithredol o'n blwyddyn sylfaen 2019/20.


CYNYRCHIADAU CYNALIADWY AC OLRHAIN CYNNWYS SY'N YMWNEUD Â'R HINSAWDD

Rydym yn gofyn i gynhyrchwyr rydym yn gweithio gyda nhw gymryd camau i leihau effaith amgylcheddol cynyrchiadau ac ystyried a yw'n briodol ac yn berthnasol cynnwys themâu sy'n ymwneud â'r hinsawdd fel rhan o gynnwys golygyddol. Ar gyfer cynyrchiadau teledu nad ydynt yn newyddion, mae'r camau gweithredu disgwyliedig yn cynnwys cynhyrchu cynllun gweithredu ôl troed carbon a charbon drwy albert BAFTA. Disgwylir i 734 o gynyrchiadau gwblhau cynllun gweithredu carbon ar gyfer 2024/25 (2023/24: 583), a disgwyli'r i 100% o'r cyfrifiadau ôl troed carbon gorfodol gael eu cwblhau hefyd (2023/24: 97%). Yn 2025, gwnaethom hefyd gyflwyno gofyniad i olrhain cyfeiriadau ar yr awyr ac oddi ar yr awyr at gynaliadwyedd.

Targedau'r BBC ar sail gwyddoniaeth a pherfformiad mewn perthynas â'r llinell sylfaen


Allyriadau o weithrediadau'r BBC

Cwmpas 1 a 2 (Yn seiliedig ar y farchnad) (Unedau mewn tunelli CO₂e)



Allyriadau cadwyn gwerth o weithgareddau'r BBC

Cwmpas 3 (Unedau mewn tunelli CO₂e)



i Gweler **tudalen 255** am ddatgeliad allyriadau cyflawn a **thudalen 256** am ddata defnydd ynni a gwastraff.

* Cwblhawyd 90% o'r cyfrifiadau ôl troed albert gorfodol, a disgwyli'r i'r 10% arall gael eu cwblhau
* Cwblhawyd 644 o'r cynlluniau gweithredu carbon albert gorfodol, a disgwyli'r i 90 arall gael eu cwblhau
* Wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar gyfanswm yr olion troed albert a'r cynlluniau gweithredu carbon a gadarnhawyd

Gwaith elusennol

GWAITH ELUSENNOL

Unwaith eto y flwyddyn hon, dangosodd cynulleidfaoedd haelioni eithriadol tuag at yr elusennau a gafodd eu cynnwys gan y BBC fel rhan o apeliadau ar yr awyr. Codwyd miliynau o bunnoedd er budd unigolion, cymunedau a sefydliadau ledled y DU a'r byd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n cynulleidfaoedd am eu cefnogaeth barhaus.

Y flwyddyn hon, cafodd 60 o elusennau eu cynnwys ar Apêl Radio 4: bbc.co.uk/programmes/b006qnc7 a rhaglen Lifeline BBC One: bbc.co.uk/programmes/b006nb6j. Caiff elusennau eu dewis ar gyfer yr apeliadau hyn ar ôl proses asesu drylwyr. Roedd yr apeliadau yn sôn am amrywiaeth o straeon o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol a gellir gweld effaith rhoddion cynulleidfaoedd yma: bbc.com/charityappeals/what-your-money-does.

Yng Ngogledd Iwerddon, cafwyd 11 o Apeliadau Darlledu ar BBC Radio Ulster/ Foyle yn 2024/25. Lluniwyd ffilmiau byr i gyd-fynd â hyn ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Gwahoddwyd ceisiadau hefyd ar gyfer slotiau Apêl sydd i ddod. Mae'r Apeliadau Darlledu yng Ngogledd Iwerddon yn dal i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o waith elusennau lleol, eu gwasanaethau a'u hanghenion cymorth.

Cafodd Apêl Nadolig flynyddol Radio 4 ag Elusen St Martin-in-the-Fields ei darlledu ym mis Rhagfyr, gan godi dros £2 filiwn. Diolch i roddion pellach drwy gydol y flwyddyn dan ddylanwad yr apêl, codwyd cyfanswm o ychydig dros £5.1 miliwn.

Bydd yr arian hwn yn helpu pobl ddigartref ledled y DU i ddod o hyd i fan diogel i fyw ac i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Darlledodd y BBC Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol ar ran y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC) ym mis Hydref 2024. Codwyd £45 miliwn hyd yma. Mae arian yn cael ei roi o hyd i Apêl Daeargryn Twrci-Syria a oedd wedi derbyn cyfanswm o dros £163 miliwn erbyn adeg ei chau ym mis Mai 2024, ac i Apêl Ddyngarol Wcráin a oedd wedi codi dros £446 miliwn erbyn adeg ei chau ym mis Rhagfyr 2024.

340,000

Mae BBC Plant mewn Angen wedi helpu i wella bywydau 340,000 o blant a phobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf

90m

Nifer y bobl a gyrhaeddwyd gan BBC Media Action mewn mwy na 30 o wledydd yn 2024/25

BBC PLANT MEWN ANGEN

Ar hyn o bryd mae elusen y DU y BBC yn ariannu bron i 1,400 o elusennau a phrosiectau lleol yn y pedair gwlad, gan helpu i wella bywydau 340,000 o blant a phobl ifanc yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Cyhoeddwyd bod cyfanswm anhygoel o £39 miliwn wedi'i godi ar ddiwedd Apêl 2024, ac mae'r ffigur wedi parhau i gynyddu. Roeddem yn ddiolchgar am y gefnogaeth aruthrol a gafwyd gan bob rhan o'r BBC, gan rannu straeon pwerus ac ysbrydoli'r cyhoedd ledled Prydain i ymateb gan ddangos haelioni eithriadol unwaith eto. Ymhlith y rhaglennu arbennig roedd: *Countryfile*, *Ramble*; *Interior Design Masters*; *Thousand Mile Challenge* gyda'r Gwledydd a'r Rhanbarthau; *The One Show Challenge Squad*; ac *Ultra Endurance Cycle Challenge* Radio 2, lle aeth Paddy McGuinness ati i seiclo drwy dair gwlad gan godi mwy na £10 miliwn. Am ragor o wybodaeth ewch i: bbc.co.uk/pudsey.

BBC MEDIA ACTION

Dathlodd BBC Media Action ei chwarter canmlwyddiant â strategaeth sefydliadol newydd i drechu twyllwbyodaeth a rhaniadau drwy ddarparu cyfryngau y gellir ymddiried ynddynt i bobl sy'n byw drwy wrthdaro ac argyfwng. Er gwaethaf y cyd-destun allanol heriol parhaus (gan gynnwys toriadau i gyllidebau cymorth yr UD a'r DU), cyrhaeddodd elusen ryngwladol y BBC dros 90 miliwn o bobl mewn mwy na 30 o wledydd yn 2024/25.

Roedd hyn yn cynnwys helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn Wcráin i aros ar yr awyr yn ystod cyfnodau o wrthdaro, ac yn rhanbarth y Môr Tawel, yn ystod etholiadau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd; lansio prosiect cymorth cyfryngau i 20 o wledydd; helpu'r cyfryngau lleol yn Nwyrain Ewrop, Zambia a mannau eraill i addasu i dechnolegau newydd; a helpu 54 o ddarlledwyr lleol, gan gynnwys gorsafoedd radio wedi'u hanelu at fenywod, yn Affganistan i ddarparu gwybodaeth allweddol am iechyd. Dysgwch fwy yn: bbcmmediaaction.org.

COMIC RELIEF

Parhaodd y BBC i roi cymorth eang i Comic Relief, a ddathlodd ei 40ain flwyddyn. Mae Diwrnod Trwynau Coch 2025 wedi codi dros £36 miliwn hyd yma, â chyflwynwyr poblogaidd ar y noson ar y teledu, eitemau comedi cydweithredol gyda *Strictly Come Dancing*, *Gladiators*, *Not Going Out* a *Beyond Paradise*, yn ogystal â sgetsys gyda Munya Chawawa a pharodi Oasis. Dangoswyd gweledigaeth yr elusen o fyd cyfiawn heb dlodi yn y ffilmiau apêl a oedd yn dangos effaith ariannu prosiectau sy'n ymdrin â cham-drin domestig, tlodi bwyd, digartrefedd a mwy, gan helpu pobl o bob cwr o'r byd ac yn y DU i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Cafwyd cefnogaeth amhrisiadwy gan orsafoedd radio'r BBC, *The One Show*, *BBC Breakfast* a thu hwnt, a llwyddodd heriau i ddenu sylw'r genedl, gan gynnwys Iron Man Billy Monger, disgo sglefrolio 24 awr *Morning Live* ac Ultramarathon Man Radio 1 Jamie Laing.

Darllenwch fwy yn: comicrelief.com.



The One Show's Challenge Squad ar gyfer BBC Plant mewn Angen 2024: ymgymerodd pedwar person ifanc a oedd wedi cael cymorth gan gyllid Plant mewn Angen â heriau personol i helpu i godi arian i'r elusen

GWEITHREDIADAU



Mae BBC Commercial yn cefnogi'r BBC drwy gynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC. Mae ei weithrediadau yn cynyddu gwerth byd-eang eiddo deallusol – brandiau a phrosesau adrodd straeon, gan y BBC a mannau eraill – i'r eithaf, gan ariannu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd y DU, a hyrwyddo ansawdd a chreadigrwydd y BBC ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'n chwarae rôl allweddol wrth gefnogi strategaeth Grŵp y BBC.

Prif gangen fasnachol BBC Commercial yw BBC Studios, sy'n cynnwys Content Studio, sy'n creu ac yn gwerthu rhaglenni i gynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol, a chyfryngau a ffrydio: portffolio o sianelau, gwasanaethau digidol ac uniongyrchol i'r defnyddiwr, sydd ar gael i gynulleidfaoedd byd-eang ble bynnag y bônt.

Mae'r adran hon yn nodi cerrig milltir allweddol ar gyfer gweithrediadau masnachol y BBC yn ystod y flwyddyn ariannol, ei berfformiad yn erbyn nodau strategol y BBC, uchafbwyntiau allweddol o ran cynnwys yn y DU a ledled y byd, a'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bwrdd Masnachol y BBC sy'n goruchwyllo'r broses o gyflawni uchelgeisiau masnachol y Gorfforaeth. Mae'n adrodd i Fwrdd y BBC ar y broses o gyflawni amcanion BBC Commercial, yn unol â strategaeth fasnachol gyffredinol y BBC.

Cadeirir y Bwrdd Masnachol gan Syr Damon Buffini, Dirprwy Gadeirydd Bwrdd y BBC, ac ar ddyddiad yr adroddiad hwn, mae'n cynnwys mwyafrif o wyth aelod anweithredol, ynghyd â dau aelod gweithredol o Grŵp y BBC.

t77

Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredol

t78

Adolygiad strategol

Uchod:
Dychwelodd fersiwn yr UD o *Dancing With the Stars* yn 2024 am ei 33ain gyfres, wedi'i chyd-gyflwyno gan Alfonso Ribeiro a Julianne Hough

Gweithrediadau masnachol

ADOLYGIAD PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL BBC COMMERCIAL

Tom Fussell
Prif Swyddog Gweithredol, BBC Commercial



Ysgogwyd y lefel refeniw uchaf erioed, sef £2.2 biliwn (2023/24: £1.9 biliwn) gan dwf BritBox International, sydd bellach o dan berchnogaeth lwyr, mewn cynhyrchion i ddefnyddwyr, yn enwedig *Bluey*, a chyflenwad iach o gynnwys. Mae elw gweithredu statudol wedi cynyddu i £82 miliwn (2023/24: colled gweithredu o £56 miliwn) oherwydd y flwyddyn gyntaf o berchenogaeth lawn o Britbox a chydnabod ei ganlyniadau, a'r ffaith y bu'n rhaid ailddosbarthu credydau treth Teledu a Ffilm y DU o fewn costau gweithredu yn hytrach na threth. Er gwaethaf buddsoddiad organig parhaus mewn twf yn y dyfodol, cynyddodd EBITDA 15% i £228 miliwn (2023/24: £199 miliwn).

Mae'r busnes ar y trywydd cywir i ddarparu'r adenillion a gynlluniwyd i'r BBC ochr yn ochr â buddsoddiadau mewn arloesedd creadigol a thwf hirdymor cynaliadwy. Mae'n rhan greiddiol o strategaeth Grŵp y BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd yn y DU a ledled y byd: gan ddod â chynulleidfaoedd ynghyd ac adrodd straeon ysbrydoledig.

Er ei fod yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol iawn, mae prif gangen fasnachol y BBC, BBC Studios, wedi dargyfeirio'n rhyngwladol. Mae'n anelu at ddatblygu llwybrau uniongyrchol pellach i'r farchnad fel rhan o strategaeth i sicrhau twf cynaliadwy i'r busnes, ac mae buddsoddiadau sylweddol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol bellach yn dwyn ffrwyth.

Mae ganddo bortffolio o lwyfannau ffrydio ac ar-lein sy'n tyfu'n gyflym, yn enwedig ym marchnad allweddol UDA. Yn ystod ei 12 mis cyntaf o berchnogaeth lawn, cynyddodd

refeniw BritBox International 20% o un flwyddyn i'r llall; cynyddodd cynulleidfaoedd ar alw UKTV draean yn sgil buddsoddiad a wnaed yn y gwasanaeth a gwaith ailfrandio cadarn; a chynyddodd ymwelwyr byd-eang gwasanaeth newydd BBC.com ac ap y BBC 15%.

Mae'r busnes yn cynnig amrywiaeth eang o sianelau wedi'u hariannu gan hysbysebion (FAST). Yn seiliedig ar 19 o frandiau, mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o genres, yn ogystal â BBC News Channel FAST benodedig, a lansiwyd yn 2024.

Diolch i lwyddiannau creadigol y busnes, enillwyd dros 150 o wobrau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Oscar a phedair gwobr BAFTA i'r ffilm nodwedd *Conclave*, a chwe gwobr Emmy i'r gyfres Netflix boblogaidd *Baby Reindeer*. Darlledodd yr Uned Hanes Naturiol gyfresi nodedig ffeithiol newydd *Mammals* ac *Asia* i bob cwr o'r byd, a pharhaodd llwyddiant y fformat adloniant byd-eang *Dancing with the Stars* i ddenu cynulleidfaoedd.

Mae brandiau digidol BBC Studios bellach yn cyrraedd cynulleidfa wythnosol fyd-eang o fwy na 40 miliwn o bobl mewn 17 o ieithoedd, diolch yn bennaf i boblogrwydd eithriadol *Bluey* wrth iddi ennill ei phlwyf fel y rhaglen a gafodd ei ffrydio fwyaf yn yr UD o blith pob genre. Wrth i dimau cynhyrchu sain y BBC ymuno â BBC Studios i ehangu gwasanaethau sain masnachol y BBC, cafodd cynulleidfaoedd gyfle i fwynhau'r podlediad cloddiw *To Catch a Scorpion*.

Gan edrych ymlaen, mae'r amodau masnachu yn parhau'n heriol yn sgil ansicrwydd geoleidyddol a macroeconomaidd cynyddol, a newidiadau strwythurol parhaus o ran arferion gwylio cynulleidfaoedd, ond mae'r buddsoddiadau a wnaed mewn gwasanaethau uniongyrchol i'r defnyddiwr yn golygu bod BBC Commercial mewn sefyllfa dda i barhau i ddatblygu ei weithrediadau a'i dwf masnachol.

Tom Fussell

Tom Fussell
Prif Swyddog Gweithredol, BBC Commercial
27 Mehefin 2025



**Roedd y flwyddyn
ariannol ddiwethaf yn
llawn llwyddiant creadigol,
gan helpu i ddarparu
twf ariannol i gangen
fasnachol y BBC, er
gwaethaf marchnad
cynnwys fyd-eang heriol.**

Gweithrediadau masnachol – parhad
Adolygiad strategol – BBC Commercial

ADOLYGIAD ARIANNOL

Cynyddodd referniw BBC Commercial Ltd i'w lefel uchaf erioed, sef £2.2 biliwn (2023/24: £1.9 biliwn), wedi'i ysgogi gan berfformiad cryf gan BritBox International a chynhyrchion i ddefnyddwyr, gyda'r penderfyniad i drwyddedu brand *Bluey* yn benodol yn gwneud cyfraniad sylweddol.

Cynyddodd EBITDA 15% i £228 miliwn (2023/24: £199 miliwn) wrth i'r busnes wneud buddsoddiadau strategol mewn twf organig, gan gynnwys BBC.com ac UKTV, y cynyddodd ffigurau perfformiad allweddol y ddau ohonynt.

Wedi'i ysgogi gan dwf o 20% yn referniw BritBox International yn ystod y flwyddyn berchnogaeth lawn gyntaf, cynyddodd referniw'r cyfryngau a ffrydio 43%. Cafodd twf mewn EBITDA ar gyfer BritBox International ei wrthbwyso ar lefel y busnes gan ostyngiad mewn adenillion ar gyfer gwasanaethau sianelau llinellol, gwerthu cyfran BBC Studios yn New Video Channel America LLC (sef 'BBC AMERICA'), a buddsoddiad parhaus mewn cynhyrchion digidol.

Perfformiad yn ôl math o fusnes

	Gwerthiannau £m		EBITDA £m	
	2024/25	2023/24	2024/25	2023/24
Content studio	1,433	1,354	116	114
Y cyfryngau a ffrydio	786	549	101	85
Addasiadau'r Grŵp	(88)	(66)	8	3
Cyfanswm BBC Studios	2,131	1,837	225	202
Cyfanswm BBC Commercial	2,155	1,859	228	199

Cysoni EBITDA Grŵp Masnachol y BBC i'r (colled)/elw gweithredu statudol

	2024/25 £m	2023/24 £m
Elw/(colled) gweithredu statudol	82	(56)
Ychwanegu yn ôl		
Eitemau eithriadol gweithredu	29	56
Cyfran partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau o EBITDA	6	39
Credydau treth cymhelliant yn y sector creadigol	6	80
Dibrisiant, amorteiddiad a lleihad mewn gwerth	105	80
EBITDA	228	199

Mae BBC Commercial yn diffinio EBITDA fel elw gweithredu statudol, gyda'r treuliau gweithredu canlynol yn cael eu hychwanegu'n ôl: dibrisiant; amorteiddio nad yw'n gysylltiedig â chynnwys; amariadau; costau ennill ar ôl gwerthu a chostau cynllun cymhelliant hirdymor a setlwyd nad yw'n arian parod; costau cytundebau; costau ailstrwythuro trawsnewidiol ac eitemau eithriadol eraill nad ydynt yn gylchol. Wrth gyfrifo EBITDA, mae'r Grŵp hefyd yn gwrthbwyso costau gyda chredydau treth cymhellion y sector creadigol, sy'n cyd-fynd ag arferion y farchnad.

Rydym o'r farn mai 'EBITDA' yw'r dull anstatudol o fesur perfformiad sy'n cynnig yr arweiniad gorau er mwyn helpu i ddeall perfformiad ar sail gymaradwy o flwyddyn i flwyddyn. Bwriad hyn yw dangos proffidioldeb sylfaenol y gellir ei feincnodi'n gymharol hawdd ac sy'n rhoi sylfaen resymol ar gyfer cysylltu â mesurau llif arian.

Mae'r farchnad cynnwys fyd-eang yn destun newidiadau strwythuredig wrth i ymddygiad cynulleidfaoedd barhau i symud tuag at wylïo ar alw, ac wrth i wasanaethau Tanysgrifio Fideo Ar Alw aeddfedu, gan symud o sefyllfa dwf i ganolbwyntio ar broffidioldeb. Mewn marchnad hynod gystadleuol, mae hyn wedi arwain at gyflenwad cynnwys arafach ym maes cynhyrchu a thu hwnt i werthiannau cynnwys yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chyfluoedd twf o ran gwasanaethau uniongyrchol i'r defnyddiwr wrth i'r sector gyfnerthu. Arweiniodd heriau economaidd byd-eang a'r newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr at ansicrwydd parhaus ym maes gwerthu hysbysebion, a gwelwyd costau uwch o hyd yn sgil chwyddiant.

Arweiniodd yr amodau gweithredu heriol a amlinellir uchod at dwf arafach o ran referniw Content Studio, a chynnydd yn EBITDA, wedi'i lywio'n bennaf gan lwyddiant BritBox International a *Bluey*.

CONTENT STUDIO

Mae'r Content Studio yn creu amrywiaeth eang o raglennu o ansawdd uchel yn y DU a ledled y byd ar gyfer genres Wedi'i Sgriptio, Ffeithiol, Adloniant Byd-eang a Phlant a Theuluoedd ac mae'n datblygu masnachfreintiau byd-eang, gan gynnwys *Dancing with the Stars*, *Doctor Who* a *Bluey*. Mae'r busnes hefyd yn cyllido, dosbarthu a thrwyddedu cynnwys a fformatau ar sail fyd-eang.

Roedd yn flwyddyn gadarn i gynnwys wedi'i sgriptio a heb ei sgriptio gan y cwmni cynhyrchu a enillodd y nifer mwyaf o wobrau yn y DU. Enillodd 151 o wobrau ar draws pob genre a chafodd 490 o enwebiadau.

Cafodd y ddrama ffurf hir *Conclave*, a oedd yn seiliedig ar nofel Robert Harris am y broses ddewis babaidd, ac a wnaed gan House Productions BBC Studios, lwyddiant ysgubol o ran gwobrau, gan ennill 21 o wobrau o blith 55 o enwebiadau gan gynnwys gwobr Academy am y Ddrama Sgrin wedi'i Haddasu Orau, gwobr BAFTA am y Ffilm Orau, dwy wobr Critics' Choice, a Golden Globe.

Cyrhaeddodd *Baby Reindeer*, a gynhyrchwyd gan Clerkenwell Films BBC Studios, dros 250 miliwn o wylwyr ar Netflix, gan ennill chwe gwobr Emmy, dwy wobr Golden Globe, dwy wobr Critics' Choice, Gwobr RTS, Gwobr Arbennig AFI a Rose D'Or, a drama *The Jetty*, a wnaed gan Firebird Pictures BBC Studios, oedd y ddrama newydd â berfformiodd orau'r BBC yn 2024 adeg ei lansio. Lansiwyd *Doctor Who* ar ei newydd wedd ar Disney+, a darlledwyd ail gyfres *Sherwood* a enillodd wobr BAFTA, a wnaed gan House Productions BBC Studios, ar BBC One.

A Good Girl's Guide to Murder, a wnaed gan Moonage Pictures, a oedd o dan berchnogaeth leiafrifol ar y pryd, ar gyfer BBC iPlayer a BBC Three, a gyd-gynhyrchwyd gan Netflix a ZDF Neo, oedd y gyfres wreiddiol a ffrydiwyd fwyaf yn ystod ei hwythnos gyntaf ar Netflix, ac mae'r ail gyfres eisoes wedi'i chyhoeddi. Enillodd ail gyfres y ddrama gomedi a enillodd wobr BAFTA, *Alma's Not Normal*, gan y cwmni annibynnol y buddsoddwyd ynddo Expectation ar gyfer BBC Two, dair Gwobr Rhaglenni RTS.

Cadarnhawyd poblogrwydd *Ghosts* yn yr UD – sef cyd-gynhyrchiad â Lionsgate – drwy benderfyniad anarferol gan CBS i'w hailgomisiynu am ddwy gyfres, sy'n golygu y bydd y pumed a'r chweched gyfres yn darlledu yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Darlledwyd fersiynau lleol o *Ghosts* yn Ffrainc a'r Almaen ar ôl diwedd y flwyddyn, a chaiff y gyfres ei darlledu am y tro cyntaf yn Awstralia a Gwlad Groeg yn ddiweddarach yn 2025. Mae'r rhaglen gwis gwybodaeth gyffredinol *The Answer Run*, a grëwyd gan BBC Studios Entertainment ac a lansiwyd ym mis Awst ar BBC One, eisoes wedi cael ei hailgomisiynu am ail gyfres.

Dathlodd rhaglenni hir sefydledig poblogaidd yn y DU ben-blwyddi allweddol, gan gynnwys *EastEnders* (40), *Strictly Come Dancing* (20), *Bargain Hunt* (25) a'r ddrama Gymraeg *Pobol y Cwm* (50), gan ddangos apêl barhaus y teitlau hyn.

Ym maes ffeithiol, *The Americas* oedd y rhaglen ddogfen natur a wylwyd fwyaf ar deledu llinellol yr UD ers dros 15 mlynedd. Cafodd ei gwneud gan yr Uned Hanes Naturiol a'i lleisio gan Tom Hanks, cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Hans Zimmer, a chaffaelwyd y gyfres arbennig 11-rhan gan y BBC i gynulleidfaoedd yn y DU.

Creodd yr Uned hefyd ddwy gyfres ddogfen nodedig i'r BBC a chynulleidfaoedd byd-eang. Y gyfres saith rhan *Asia* oedd y gyfres ddogfen a wylwyd fwyaf yn 2024 gan gynulleidfaoedd yn y DU, a llwyddodd i sicrhau cytundebau ymlaen llaw yn Awstralia, Sbaen a Japan, a dychwelodd *Mammals* i archwilio'r grŵp anifeiliaid mwyaf llwyddiannus ar y ddaear, dros 20 mlynedd ers darllediad gwreiddiol *Life of Mammals*, gan gyrraedd 13 miliwn yn y DU yn unig.

Fel rhan o raglen newydd, *Big Cats* 24/7, i BBC Two a PBS, gweithiodd yr Uned ag arbenigwyr gwneud ffilmiau ac arbenigwyr bywyd gwyllt yn Delta Okavango yn Botswana i ddilyn llewod, llewpardiaid hela a llewpardiaid, ac mae ail gyfres eisoes wedi'i chomisiynu.

O ran cynnwys i blant, cafwyd trydedd cyfres o *Supertato*, a wnaed gan BBC Studios Kids & Family, ac mae ymhlith y pum teitl mwyaf poblogaidd i blant hyd at chwech oed yn y DU. Caiff ei darlledu ar RTÉ yn Iwerddon ac ar ABC yn Awstralia yn ogystal â sianelau byd-eang CBeebies. Drama ffurf hir i deuluoedd oedd *The Primrose Railway Children*, i BBC One, yn seiliedig ar addasiad modern Jacqueline Wilson o *The Railway Children* gan E Nesbit, yn cynnwys Kevin McKidd.

Roedd digwyddiadau cenedlaethol allweddol yn y DU yn cynnwys 80 mlynedd ers D-Day, gydag amrywiaeth o raglennu ar 6 Mehefin neu o amgylch y dyddiad hwnnw, gan gynnwys tri digwyddiad byw o Portsmouth a Normandi a oedd yn cynnwys tystiolaeth emosiynol gan arwyr milwrol, a gynhyrchwyd gan dîm BBC Studios Events. Enillodd *D-Day 80: Tribute to the Fallen* Wobr Rhaglenni RTS. Cynhyrchodd Adloniant Ffeithiol raglenni coffa arbennig, gyda *The One Show*, *Countryfile*, *Bargain Hunt* ac *Antiques Roadshow* yn archwilio'r straeon hynod sy'n gysylltiedig â D-Day.

Crëwyd BBC Studios Audio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac mae bellach yn creu cynnwys sain ffeithiol, adloniant, drama, comedi a gwyddoniaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd. Ochr yn ochr â throsglwyddo staff a chynrychiadau yn hwylus, mae BBC Studios bellach yn goruchwyllo dosbarthiad rhyngwladol holl gynnwys sain llafar y BBC, gan sicrhau bod ei allbwn ar gael yn ehangach ar draws llwyfannau lluosog â phartneriaid allweddol. Cyhoeddwyd partneriaethau gwerthu hysbysebion newydd ag iHeartMedia yn yr UD ac iHeart ARN yn Awstralia. Cyflwynwyd adran sain newydd sbon yn cynnwys podlediadau a radio byw ar BBC.com ac ap y BBC hefyd ym mis Chwefror.

Ymhlith yr uchafbwyntiau cynnwys roedd y gyfres ffuglen wyddonol *Zeroes* i Audible; *Strong Message Here*, cyfres wedi'i chyflwyno gan Armando Iannucci a Helen Lewis yn edrych ar iaith wleidyddol; y podlediad poblogaidd *Stalked* a *To Catch a Scorpion*, y podlediad ar ffurf rhaglen ddogfen a enillodd wobr Prix Europa a oedd yn dilyn arweinwyr gangiau a oedd yn smyglo pobl.

Mae busnes brandiau a thrwyddedu BBC Studios yn dod â straeon yn fyw, gan greu carfan o ddilynwyr go iawn ar gyfer syniadau ar y sgrin. Roedd llwyddiant byd-eang *Bluey* yn allweddol i'w berfformiad, wrth i'r gyfres animeiddiad ennill ei phlwyf fel y rhaglen a wylwyd fwyaf yn yr UD ar draws pob genre yn 2024, gyda mwy na 55 biliwn o funudau yn cael eu gwyllo. Enillodd lu o wobrau pwysig, gan gynnwys BAFTA ac Emmy, a chyhoeddwyd ffilm ffurf hir, wedi'i chyllido a'i dosbarthu gan BBC Studios, mewn partneriaeth â Disney+. Disgwylir iddi gyrraedd sinemâu yn 2027. Cymerodd *Bluey* ran ym Mharêd Diolchgarwch Macy's yn 2024 unwaith eto, ac agorodd profiad trochol *Bluey's World* yn Brisbane ym mis



Y gyfres wedi'i hanimeiddio *Bluey* oedd y rhaglen a wylwyd fwyaf yn yr UD ar draws pob genre, gyda 55 biliwn o funudau wedi'u gwyllo.

Tachwedd, yn ogystal ag amrywiaeth o gytundebau trwyddedu ar gyfer dillad, tegantau, llyfrau a chasgliad o ddarnau arian.

Mae *Strictly Come Dancing* / *Dancing with the Stars* wedi'i thrwyddedu mewn mwy na 60 o diriogaethau, ac mae'n torri recordiau o hyd. Dathlodd fersiwn yr UD ei 500fed pennod, ac uchafbwynt o fwy na 32 miliwn o bleidleisiau ar gyfer rownd derfynol y gyfres honno, a dathlodd fersiwn y DU ei hugeinfed gyfres yn 2024. Mae'r fformat cwis poblogaidd *The 1% Club* wedi'i drwyddedu i 13 o diriogaethau, ac yn dilyn lansio cyfres fyd-eang newydd â Disney, darlledwyd ail dymor *Doctor Who* ym mis Ebrill.

Ar draws ei bortffolio o frandiau yn ystod y flwyddyn, denodd BBC Studios y gyfran wyllo uchaf ar YouTube ac roedd ei gyfradd ymgyssylltu ar TikTok llawn cystal ag unrhyw un o'r prif ddarlledwyr yn y DU a'r rhan fwyaf o wasanaethau ffrydio, gan gynnwys ffrydwyr byd-eang. Mae tîm penodedig yn creu, comisiynu a churadu cynnwys sy'n cyrraedd gwylwyr ble bynnag y bônt, gan ddenu tua 14 biliwn o achosion o wyllo fideos cymdeithasol ar oddeutu 150 o sianelau yn 2024, gan gynnwys TikTok ac YouTube, gydag amser gwyllo'r ail bron yn dyblu o un flwyddyn i'r llall. Mae comisiynau gwreiddiol yn cynnwys Book Reads *Bluey* a wylwyd fwy na 75 miliwn o weithiau hyd yn hyn, a

phenodau byr *Bluey*, sydd bellach ar gael ar lwyfannau digidol a llinellol.

Cyfnethwyd partneriaethau rhyngwladol cryf yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a chytunwyd ar bartneriaeth ffeithiol aml-flwyddyn newydd â France Télévisions, sy'n cynnwys cael y cyfle cyntaf i ystyried teitlau heb eu sgriptio a chyn-werthu ar draws catalog BBC Studios o safbwynt cydgynhyrchu, a chyhoeddwyd partneriaeth strategol hirdymor â ZDF yn yr Almaen i gydgyhyrchu a chaffael cynnwys wedi'i sgriptio o'r radd flaenaf.

Cytunodd BBC Studios a Movistar ar bartneriaeth aml-flwyddyn ar gyfer cynnwys ffeithiol premiwm, cytunwyd i gyflwyno gwasanaeth Fideo ar Alw BBC Player a sianelau FAST ar Movistar Plus+ i gynulleidfaoedd yn Sbaen, a chrëwyd partneriaeth gynhyrchu â Banijay Asia i roi mynediad i'r cwmni cynhyrchu yn Mumbai i gatalog fformatau wedi'u sgriptio a heb eu sgriptio BBC Studios er mwyn cynhyrchu fersiynau i gynulleidfaoedd lleol.

Lluniodd y busnes fodolau partneriaeth newydd ac arloesol yn Asia i greu a dosbarthu cynnwys ffeithiol. Cydgynhyrchodd BBC Studios Asia gyfres ddogfen wreiddiol *Deep Dive Korea: Song Ji-Hyo's Haenyeo Adventure* â JTBC yn Korea (i'w darlledu yn Ne Korea). Bydd BBC Earth Asia a BBC Player yn dosbarthu'r gyfres ledled Asia.

Mae cefnogi talent greadigol a buddsoddi ynddi yn rhan greiddiol o strategaeth BBC Studios a'i allu i arloesi. Ymrwymodd y cwmni i gytundeb partneriaeth â'r cwmni cynhyrchu newydd Jolly Octopus Media i weithio ar fformatau adloniant ledled y byd, cytunodd ar bartneriaeth ddatblygu â chwmni annibynnol wedi'i sgriptio newydd Armando Iannucci, Touchscreen, ac ar ddiwedd y flwyddyn, ymrwymodd i gytundeb partneriaeth â'r cwmni annibynnol newydd Bango Studios, i rannu syniadau am gynnwys a hawliau dosbarthu. Cymerodd y busnes gyfran leiafrifol yn y cynhyrchydd ffeithiol



Richard Gadd, a greodd ac a oedd yn actio yn *Baby Reindeer*, a wnaed gan Clerkenwell Films BBC Studios

Gweithrediadau masnachol – parhad

Adolygiad strategol – BBC Commercial – parhad

Samphire Films, a gwerthodd ei gyfran leiafrifol yn Moonage Pictures, gan gadw hawliau dosbarthu ar gyfer cyfresi sy'n dychwelyd gan gynnwys *A Good Girl's Guide to Murder* a *The Famous Five*.

Er gwaethaf achosion sylweddol o amharu ar y farchnad drwy gydol 2024/25, a barhaodd yn heriol iawn i gyfleusterau cynhyrchu, roedd perfformiad BBC Studioworks yn gadarn, yn uwch na'r disgwyliadau o ran referniw ac EBITDA. Roedd y llwyddiannau masnachol yn cynnwys denu cleientiaid newydd o farchnadoedd rhyngwladol, gan gynnwys yr UD, ac ehangu i sectorau sy'n dod i'r amlwg fel E-chwaraeon, Podlediadau a Digwyddiadau Byw.

Yn dilyn adolygiad, rhoddwyd strwythur sefydliadol newydd ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sy'n golygu bod y busnes mewn sefyllfa well i ymateb i gyfleoedd yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Y CYFRYNGAU A FFYRDIO

Mae'r cyfryngau a ffrydio yn cynnwys pob sianel, gwasanaethau digidol a gwasanaethau uniongyrchol i'r defnyddiwr: darlledwr UKTV yn y DU, sianelau rhyngwladol â brand y BBC a weithredir gan BBC Studios, BritBox International, BBC.com a gweithgareddau ffrydio eraill.

Bu UKTV yn destun trawsnewid sylweddol yn ystod y flwyddyn i greu busnes digidol yn gyntaf dan arweiniad y gynulleidfa, gan flaenoriaethu twf yn y dyfodol drwy fuddsoddi mewn cynnwys, brandio a chynhyrchion.

Cynyddodd lefelau gwyllo U, sef yr enw newydd ar y gwasanaeth ffrydio uniongyrchol i'r defnyddiwr, draean ac ychwanegodd dros 2,000 awr o gynnwys yn 2024. Gwelwyd cyfanswm oriau gwyllo cynnwys Fideo ar Alw UKTV yn cynyddu 56 miliwn o oriau o un flwyddyn i'r llall ar draws ei lwyfannau am ddim a'r llwyfannau y codir tâl amdanynt yn 2024/25. Fel cyfran o'r gwyllo ar draws rhwydwaith sianelau a gwasanaeth ffrydio UKTV, cynyddodd gwyllo Fideo ar Alw o 6.5% yn 2023 i 9.5% y flwyddyn diwethaf.

Mae twf Fideo ar Alw UKTV yn 2024 yn dangos ffocws y busnes ar ysgogi llwyddiant digidol, sydd i'w weld yn y ffaith bod cyfran Fideo ar Alw darlledwr masnachol y rhwydwaith wedi cynyddu 53% rhwng 2022 a 2024, a bod lefelau gwyllo uniongyrchol i'r defnyddiwr gwasanaeth ffrydio U wedi dyblu mewn dim ond dwy flynedd.

Llwyddodd portffolio sianelau llinellol y rhwydwaith – a gafodd hefyd ei ailfrandio er mwyn bod yn gyson â'i wasanaeth ar alw – i gynnal ei gyfran o'r gynulleidfa fasnachol (SOCl), sef 8.79%, yn erbyn cystadleuaeth ffyrnig y flwyddyn diwethaf. Gostyngodd cyfran UKTV o'r cyfanswm lefelau gwyllo a nodwyd – gan gynnwys sianelau llinellol a gwasanaethau ar alw o dan berchnogaeth y darlledwr – ychydig o 3.3% yn 2023 i 3.1% yn 2024, yn sgil perfformiad cadarn y BBC a chystadleuaeth gynyddol gan fideo ar alw drwy danysgrifiad. Comisiwn wedi'i sgriptio gwreiddiol cyntaf U&DRAMA, *The Marlow Murder Club*, oedd rhaglen fwyaf poblogaidd y rhwydwaith yn 2024, a chafodd ei gwyllo gan 2.6 miliwn.

Ers cymryd perchnogaeth lawn dros BritBox International ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, mae'r gwasanaeth ffrydio wedi parhau i dyfu'n gyflym, gyda'i referniw yn cynyddu 20% a'i elw yn dyblu dros yr un cyfnod. Mae'r gwasanaeth ffrydio yn parhau i fuddsoddi i gomisiynu a chydgyhyrchu teitlau newydd i'w lansio yn 2025/26, yng Ngoogledd America i ddechrau. Bydd y cyfresi poblogaidd *Ludwig* a *Blue Lights* yn dychwelyd, ynghyd â chyfresi gwreiddiol *Lynley*, cynhyrchiad newydd o nofelau trosedd poblogaidd *Inspector Lynley*; *The Lady* gyda Mia McKenna-Bruce a Natalie Dormer; *Riot Women*, drama newydd gan Sally Wainwright; a *The Other Bennet Sister*, drama wedi'i gosod ym myd *Pride and Prejudice* Jane Austen, yn seiliedig ar y nofel gan Janice Hadlow.

Yn yr hydref, lansiodd BritBox International ei becyn ffrydio cyntaf gyda'r gwasanaeth ffrydio STARZ gan gynnig pecyn tanysgrifiad i wylwyr yn yr UD, wedi'i ddilyn gan bartneriaeth tebyg ag MGM+ ar Amazon yn yr UD yn y gwanwyn, a chafodd *The Jetty*, a wnaed gan Firebird Pictures BBC Studios, ei drwyddedu'n arbennig ar y cyd ar gyfer BritBox a Hulu. Yn y cyfamser, cafodd y gwasanaeth ffrydio ar gyfer rhaglenni dogfen BBC Select, sydd ar gael yn yr UD a Chanada ar Amazon Prime Video, sianelau Apple TV a Roku, gynydd o 46% mewn tanysgrifwyr o un flwyddyn i'r llall, ymhell o flaen y targed.

Parhaodd BBC Studios i dyfu ei bortffolio sianel ffrydio teledu am ddim rhyngwladol a gefnogir gan hysbysebion (FAST), mewn partneriaeth â chwe llwyfan newydd, gan gynnwys Movistar a Tivify yn Sbaen, Waipuu yn yr Almaen, Molotov yn Ffrainc, Nine yn Awstralia a'r gweithgynhyrchwyr setiau teledu clyfar LG. BBC Earth oedd seithfed brand FAST i lansio yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica, a chyflwynwyd gwasanaeth fideo ar alw aml-genre BBC iPlayer mewn tair marchnad newydd: Groeg, Slofacia a Gweriniaeth Siec.

BBC.com ac ap y BBC yw'r llwyfannau digidol allweddol bellach i gynulleidfaoedd rhyngwladol sydd am gael cynnwys newyddion, ffeithiol a sain diduedd y gellir ymddiried ynddo gan y BBC, gyda chynnydd o 15% yn fyd-eang o un flwyddyn i'r llall. Denodd etholiad Arlywydd yr UD ym mis Tachwedd 43 miliwn o ymwelwyr byd-eang i BBC.com, a chafwyd cynnydd o 78% yn nifer y cofrestrïadau o un flwyddyn i'r llall, gyda chynnydd o 18% mewn referniw digidol yn ystod yr un cyfnod. Caiff BBC News Channel bellach ei ffrydio'n fyw ar y safle yn yr UD ac Awstralia, ac am y tro cyntaf, roedd y prif setiau cerddoriaeth o Wyl Glastonbury yn y DU ym mis Mehefin, a oedd yn cynnwys Dua Lipa a Coldplay, ar gael yn fyw yn rhyngwladol ar BBC.com.



Y cyfarwyddwr Edward Berger a'r actor Ralph Fiennes ar set *Conclave*, a wnaed gan House Productions BBC Studios



Alison Hammond yn eistedd o flaen pwll tân gyda Mel B wrth ffilmio ar gyfer *Alison Hammond's Big Weekend*

Ym mis Tachwedd, gwerthodd BBC Studios ei gyfran o 50.1% yn BBC AMERICA am \$42 miliwn (£33 miliwn) i AMC Networks. Ategwyd y gwerthiant gan gytundeb trwyddedu brand ar wahân a bydd y sianel yn parhau i ddarparu brand y BBC am y tair blynedd nesaf. Yn ogystal, mae cytundeb trwyddedu cynnwys cynhwysfawr yn sicrhau y bydd y sianel yn parhau i ddarparu cynnwys BBC Studios dros y pum mlynedd nesaf.

RHAGOLYCON

Gan edrych i'r dyfodol, disgwylir y bydd buddsoddiadau mewn seilwaith, gwasanaethau a brandiau cynnwys yn parhau i ddwyn ffrwyth, gyda BritBox International yn arbennig yn perfformio'n well na'i dargedau twf. Mae gan y busnes gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu ar hyn, gyda mandad clir i anelu at dwf cynaliadwy hirdymor. Mae BBC Commercial yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni ei ymrwymiad pum mlynedd i greu elw o £1.5 biliwn erbyn 2027/28.

Yn 2025/26, roedd uchafbwyntiau cynnwys wedi'i sgriptio yn cynnwys y gyfres drosedd *Death Valley* gyda Timothy Spall i BBC Two, a drama chwe rhan *Outrageous*, yn seiliedig ar fywgraffiad diffiniol Mary Lovell o'r Chwirydd Mitford, gan Firebird Pictures BBC Studios ar gyfer UKTV a BritBox International, gyda Bessie Carter ac Anna Chancellor.

Yn *Alison Hammond's Big Weekend*, cyfres chwe rhan gan BBC Studios Entertainment ar gyfer BBC One/iPlayer, mae'r cyflwynydd yn treulio amser gwerthfawr yng nghwmni seleds gwahanol er mwyn meithrin dealltwriaeth o'u bywydau, ac yn *Big Zuu and AJ Tracey's Rich Flavours* ar gyfer Sky Max, mae'r cerddor a'r rapiwr yn teithio ledled y byd gan samplu bwydydd arbennig lleol. Mae'r rhaglen garu naw rhan newydd *The Honesty Box*, a wnaed gan y cwmni annibynnol y buddsoddiwyd ynddo Mettlemouse Entertainment ac a gyflwynwyd gan Vicky Pattison a Lucinda Light, yn annog cystadleuwyr i beidio â dweud celwydd wrth chwilio am bartner.

Ym mis Mai 2025, dan arweiniad tîm BBC Studios Events, nododd BBC 80 mlynedd ers Diwrnod VE gydag amrywiaeth eang o raglennu arbennig, gan gynnwys *VE Day 80: The Nation Pays Tribute*, darllediad byw ar BBC One ac iPlayer o'r orymdaith filwrol a'r awyrennau yn hedfan dros Lundain wedi'i gyflwyno gan Sophie Raworth. Cafodd sylw arbennig hefyd ar *Antiques Roadshow*, *The One Show* ac *EastEnders*.

Ym maes ffeithiol nodedig bydd *Walking With Dinosaurs* yn dychwelyd i BBC One ar ôl 25 mlynedd am gyfres chwe rhan gan Uned Wyddoniaeth BBC Studios, gan gyfuno dealltwriaeth wyddonol ag effeithiau gweledol i'r BBC a PBS, ar ffurf cyd-gynhyrchiad â ZDF a France Télévisions. Wedi'i chreu gan Uned Hanes Naturlol BBC Studios, *Kingdom* yw'r gyfres gyntaf i ddilyn pedwar teulu o anifeiliaid dros gyfnod o bedair blynedd, i gyd mewn un lleoliad yn Zambia.

Dilynodd *Tucci In Italy* yr actor Stanley Tucci wrth iddo ymweld â phum rhanbarth allweddol yn yr Eidal. Gwnaed y gyfres gan SALT Productions ar y cyd ag Uned Ffeithiol Arbenigol BBC Studios ar gyfer National Geographic a Disney+, a chaiff ei darlledu ym mis Mai. Bydd *Evolution*, wedi'i chyflwyno gan Chris Packham, gan Uned Wyddoniaeth BBC Studios i PBS a'r BBC, wedi'i chydgynhyrchu gan Y Brifysgol Agored, yn ystyried yn fanwl pam y mae rhai rhywogaethau penodol wedi goroesi, ond na lwyddodd rhai eraill i wneud hynny.

Mae model arallgyfeirio busnes BBC Commercial, sy'n cynnwys gweithrediadau ym mhob rhan o'r sector cynnwys ac ym mhob cwr o'r byd, wedi sicrhau lefel uchel o gydnerthedd i'r cwmni, yn erbyn cefndir o newid strwythurol parhaus o ran arferion cynulleidfaoedd a galw cadarn am gynnwys sy'n cydymffurfio ag ansawdd a gwerthoedd y BBC. Mae'r ansicrwydd geowleidyddol a macroeconomaidd byd-eang yn debygol o barhau yn ystod 2025, gyda marchnad gomisiynu arafach a marchnad hysbysebu teledu llinellol feddal.

LLYWODRAETHU



Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull cyffredinol o ymdrin â llywodraethu corfforaethol, ein sefyllfa reoleiddiol a chadarnhad o ddyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynnyddol.

t83

Bwrdd y BBC

t87

Adroddiad cydnabyddiaeth

t95

Datgeliadau cyflogau

t105

Adroddiad y
Pwyllgor Archwilio a Risg

p126

Adroddiad y Bwrdd Masnachol

t121

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau
a Safonau Golygyddol

Llywodraethu

CYFLWYNO EIN BWRDD



Dr Samir Shah CBE
Cadeirydd



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr
Cyffredinol
a Phrif Olygydd



Shumeet Banerji
Cyfarwyddwr
anweithredol



Syr Damon Buffini
Dirprwy Gadeirydd



Syr Robbie Gibb
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod Lloegr



Muriel Gray
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod yr Alban



Chris Jones
Cyfarwyddwr
anweithredol



Michael Plaut OBE
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod Cymru



**Michael Smyth CBE
CB (Anrh)**
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod Gogledd
Iwerddon



Marinella Soldi
Cyfarwyddwr
anweithredol



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog
Gweithredu



Caroline Thomson
Cyfarwyddwr
anweithredol



Deborah Turness
Prif Swyddog
Gweithredol,
Newyddion
a Materion
Cyfoes y BBC

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan delerau Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb.

Mae'r Siarter yn amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, ei aelodaeth a'r gofyniad am nifer o Bwyllgorau i gefnogi ei waith. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff holl swyddogaethau'r BBC eu harfer mewn modd priodol, effeithiol ac annibynnol. Mae'n pennu cyfeiriad strategol y gorfforaeth ac yn cymeradwyo'r cylch gwaith creadigol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Samir Shah ac mae'n cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol – gan gynnwys y Cadeirydd – a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff y Cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol y pedair gwlad eu penodi gan EF Y Brenin, ar sail argymhelliad Gweinidogion ar draws y DU. Caiff aelodau eraill y Bwrdd eu penodi gan y BBC, drwy Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd. Ystyrir bod yr aelodau anweithredol yn annibynnol at ddibenion llywodraethu corfforaethol da.

Gall yr holl gyfarwyddwyr fanteisio ar gyngor Ysgrifennydd y Cwmni, Chris Sandford, sy'n gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar yr holl faterion llywodraethu.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau. Mae'n ofynnol iddo gael Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl, Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a Phwyllgor Archwilio a Risg. Caiff gwaith y pwyllgorau hyn ei ategu gan waith nifer o bwyllgorau eraill, a sefydlwyd gan y Bwrdd – mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a phwyllgorau ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU. Mae'r Bwrdd Masnachol yn goruchwyllo is-gwmnïau masnachol y BBC ar ran y Bwrdd. Ceir trosolwg o'r strwythur llywodraethu ar dudalen 84.

Mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf, ac a gadeirir ganddynt, fel sy'n ofynnol gan y Siarter. Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Bwrdd ar 27 Mehefin 2025, pan lofnodwyd yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Robbie Gibb am ail gyfnod, ar 7 Mai 2024, a phenodwyd Michael Plaut fel yr aelod ar gyfer Cymru, gan ymuno â'r Bwrdd o 1 Mehefin 2024. Ar 27 Chwefror 2025 cyhoeddodd Charlotte Moore ei bod yn gadael y BBC a gadawodd y Bwrdd.

Ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, daeth cyfnod Nicholas Serota fel aelod Bwrdd i ben, ar 2 Ebrill 2025. Cafodd ei ddisodli gan Caroline Thomson, a ymunodd â'r Bwrdd fel Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol o 3 Ebrill 2025.

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac is-bwyllgorau ar dudalen 104.

Llywodraethu – parhad

Ein strwythur llywodraethu

Gweithrediadau masnachol y BBC

STRWYTHUR Y BBC YN 2024/25

Y Bwrdd

Cadeirydd: Samir Shah

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus. Gwna hyn drwy bennu: y cyfeiriad strategol ar gyfer y BBC; y cylch gwaith creadigol ar gyfer allbwn a gwasanaethau golygyddol a chreadigol y BBC; cyllideb y BBC; a fframwaith ar gyfer asesu perfformiad. Rhaid i'r Bwrdd gynnal a diogelu annibyniaeth y BBC a gwneud ei benderfyniadau er budd y cyhoedd. Mae'n atebol am ein holl weithgareddau gan gynnwys y gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, a'n gweithgareddau masnachol yn y DU a ledled y byd. Ceir manylion yr aelodaeth ar dudalen 83.

Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

Cadeirydd: Samir Shah

Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu sy'n gyfrifol am wneud penodiadau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae hefyd yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd. Gweler tudalen 104.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl

Cadeirydd: Robbie Gibb

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl sy'n gyfrifol am y strategaeth gwobrwyo a chydabyddiaeth ar draws Grŵp y BBC. Mae'n goruchwyllo'r trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau gweithredol o'r Bwrdd ac aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'n monitro ac yn cymeradwyo adroddiadau allweddol ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chyflogau. Gweler tudalen 87.

Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Cadeirydd: Samir Shah

Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau golygyddol y BBC. Mae'n sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i fframwaith cwynion ac â Chod Darlledu Ofcom. Mae hefyd yn asesu perfformiad allbwn y BBC yn erbyn y canllawiau golygyddol, yn benodol mewn perthynas â diduedrwydd dyledus a chywirdeb. Gweler tudalen 121.

Y Bwrdd Masnachol

Cadeirydd: Damon Buffini

BBC Commercial Limited (y Bwrdd Masnachol) sy'n goruchwyllo'r broses o gyflawni uchelgeisiau masnachol y Gorfforaeth. Mae'r adrodd i Fwrdd y BBC ar y broses o gyflawni amcanion BBC Studios, yn unol â strategaeth fasnachol ar-lein y BBC ac ar BBC Studioworks. Gweler tudalen 126.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd: Chris Jones

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am adolygu a goruchwyllo gwaith archwilio'r SAG, adroddiadau ariannol a prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg y BBC, gan gynnwys y risgiau allweddol hynny y mae'r gorfforaeth yn eu hwynebu. Mae'n goruchwyllo gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC ac yn monitro prosiectau allweddol a risgiau gweithredol ar ran y Bwrdd. Gweler tudalen 105.

Pwyllgorau'r Gwledydd

Cadeirydd: Aelodau'r Gwledydd y Bwrdd

Y Pwyllgorau ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar berfformiad y BBC ym mhob un o'r gwledydd hynny. Maent yn asesu a yw'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ym mhob gwlad a'r modd y mae'n cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Blynyddol. Gweler tudalen 123.

Nodyn:

Ar 1 Medi 2024, cafodd y Pwyllgor Masnachu Teg ei ddirwyn i ben fel Pwyllgor annibynnol a chafodd ei swyddogaethau o ran sicrwydd eu cymryd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w weld ar dudalen 105 ac mae'r adroddiad Sicrwydd Masnachu Teg i'w weld ar dudalen 125.

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw Prif Swyddog Gweithredol y BBC a'i Brif Olygydd. Ef yw arweinydd golygyddol, gweithredol a chreadigol y BBC, gyda chyfrifoldeb am y gweithlu byd-eang, gan ddarparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd ar draws teledu, radio ac ar-lein.

Pwyllgor Gweithredol

Caiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am reolaeth y BBC o ddydd i ddydd. Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ynghyd â phob agwedd ar reoli gweithredol. Y Pwyllgor yw'r prif grŵp ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth weithredol a chreadigol o fewn y BBC ac mae'n adolygu perfformiad cynulleidfaoedd ac allbwn, ynghyd â goruchwyllo cyllid a gweithrediadau.

Y Pwyllgor Gweithrediadau

Cadeirydd: Leigh Tavaziva

Y Pwyllgor Gweithrediadau sy'n sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol y BBC eu cyflawni. Yn benodol, mae'n cwmparu: y broses o weithredu, cydlynio a chyflawni prosiectau strategol allweddol ar draws y BBC; rheoli risgiau, archwilio mewnol a gweithgareddau sicrwydd; y broses o adolygu a chymeradwyo polisïau ar draws y BBC ar faterion gweithredol; a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau ariannol, rheoleiddiol a gweithredol.

Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol

Cadeirydd: Storm Fagan

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol yn adolygu'r cynnydd a wneir tuag at weithredu Amcanion a Chanlyniadau Allweddol ar draws y BBC ac mae'n goruchwyllo gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag aeddfedrwydd digidol. Sefydlwyd y Grŵp yn 2020 ac mae'n goruchwyllo map ffordd cynhyrchion ac arferion gwaith digidol yn gyntaf ar draws y BBC, wrth gefnogi'r strategaeth Gwerth i Bawb.

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Cyd-gadeiryddion: Hollie Driver a Joshua Sach

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf yn 2017 fel is-bwyllgor ffurfiol o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'n cyflawni swyddogaeth gynghori ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol, yn benodol i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r BBC o safbwynt cynulleidfaoedd iau. Gweler tudalen 86.

Pwyllgor Gweithredol Studios

Cadeirydd: Tom Fussell

Un o bwyllgorau Bwrdd BBC Studios Limited yw Pwyllgor Gweithredol BBC Studios, is-gwmni dan berchenogaeth lawn BBC Commercial Limited – sy'n gyfrifol am oruchwyllo grŵp BBC Studios. Pwyllgor Gweithredol BBC Studios sydd ag awdurdod o ddydd i ddydd ac ef yw corff cymeradwyo grŵp BBC Studios. Y pwyllgor sy'n cyflawni'r canlyniadau masnachol fel sy'n ofynnol, neu fel y dirprwyir, gan Fwrdd Masnachol y BBC.

Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol

CYDYMFFURFIWN AG ARFER GORAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn [bbc.com/aboutthebbc/governance/charter](https://www.bbc.com/aboutthebbc/governance/charter).

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis cymhwyso arferion gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y DU ('y Cod'), lle y bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cyrraedd y safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc reoleiddiedig yr UE.

ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD

Comisiynodd y Bwrdd adolygiad effeithiolrwydd a arweiniwyd yn allanol, a gynhaliwyd yn ystod chwarter cyntaf 2025. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Christopher Saul Associates (sy'n annibynnol ar y BBC ac na wnaeth ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau yn deillio o'r gwaith), i sicrhau y gellir cymharu yn erbyn canfyddiadau'r adolygiad blaenorol, a arweiniwyd gan yr un cwmni. Roedd yr adolygiad yn cynnwys cyfweiliadau ag aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Pwyllgor Gweithredol, holiadur ar berfformiad y Bwrdd ac archwiliad o sgiliau pob aelod. Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2025, a chafwyd trafodaeth Bwrdd arall ym mis Mawrth 2025.

Canfu'r adolygiad bod y Bwrdd yn gweithio'n effeithiol, a bod y Cadeirydd newydd a'r aelodau newydd yn ymgysylltu'n weithredol ac yn ystyrlon. Codwyd yr angen i godeiddio prosesau yn ymwneud â rheoli ac uwchgyfeirio materion risgiau i enw da yn yr adolygiad ac mae'r Bwrdd wedi cytuno ar gamau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys amserlen ddiwygiedig o faterion sydd wedi'u cadw i'r Bwrdd.

Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys trefn, amllder a chynnwys cyfarfodydd Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd i symud i galendr diwygiedig o gyfarfodydd, gan ganolbwyntio'n fanylach ar flaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y BBC. Caiff agendâu'r cyfarfodydd eu hadolygu gan ystyried hyn ac ychwanegwyd sesiynau preifat i gyfarwyddwyr anweithredol yn unig ar ddiwedd pob cyfarfod. Bydd y ffocws cynyddol ar sesiynau â gwneuthurwyr rhaglenni ac ar strategaeth cynnwys yn parhau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu fformat a strwythur papurau'r Bwrdd.

Mewn perthynas â Phwyllgorau'r Bwrdd, cytunwyd y byddai'n werth gwneud rhai newidiadau i brosesau'r Pwyllgorau a fyddai'n cwmparu'r llwyth gwaith yn fwy effeithlon ac yn rhoi ffocws ychwanegol ar bynciau penodol.

Cytunodd y Bwrdd ar gyfres o gamau gweithredu mewn ymateb i'r adolygiad ym mis Mawrth 2025 ac mae'r camau gweithredu hyn bellach yn cael eu rhoi ar waith.

DARPARIAETHAU'R COD CORFFORAETHOL

Mae nifer o elfennau o'r Cod nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na nhw.

Mae hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- darpariaeth 3, 4, 36 a 37, mewn perthynas ag ymgysylltu â chyfranddalwyr a chyd-fynd â'u buddiannau, nad ydynt yn gymwys, o ystyried nad oes gan y BBC gyfranddalwyr yn yr un modd ag sydd gan gwmni. Fodd bynnag, mae gan y BBC amrywiaeth eang o fesurau ar waith i sicrhau ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd (ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn gwneud hyn ar dudalen 48)
- darpariaeth 5, materion a nodir yn adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n berthnasol i gwmnïau yn unig ac y mae dibenion cyhoeddus y BBC, fel y'u disgrifir yn y Siarter, yn drech na nhw
- darpariaeth 18, aelodaeth o'r Bwrdd, a lywodraethir gan erthyglau'r Siarter, ynghyd â darpariaethau 33 a 34, lle caiff cyflogau'r Cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
- darpariaeth 25 a 26, y dull o benodi neu ailbenodi'r archwilydd allanol, a lywodraethir ac a bennir gan gymal 55 o'r Cytundeb

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn unigol â holl aelodau'r Bwrdd fel rhan o'r broses arfarnu flynyddol ar gyfer y Cadeirydd.

Yn ogystal, penodwyd cynghorwyr cydnabyddiaeth allanol i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn 2022/23, o ystyried nad oedd Cadeirydd y pwyllgor wedi gwasanaethu'n flaenorol am gyfnod o 12 mis ar Bwyllgor o'r fath.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb yn ogystal â chydymffurfio'n llawn ag elfennau gweddilliol y Cod.

COST CYDYMFFURFIO

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r BBC yn ddarostyngedig iddi fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2024/25 aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £23 miliwn (2023/24: £20 miliwn), gan gynnwys ffi'r BBC i Ofcom, sef £11 miliwn. Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys £379,000 a wariwyd yn cynnal yr adolygiad Respect at Work, a gomisiynwyd gan y Bwrdd mewn ymateb i faterion profil uchel â chyflwynwyr ar yr awyr.

RHEOLEIDD-DRA

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyrir bod trafodion sy'n cyflawni'r dibenion a fwrriadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymdrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'. Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra (fel archwilwyr allanol, ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol), cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesiwr eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmplas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau perthnasol, gweithredu o fewn terfynau benthyca a'r risg o dwyll. Ni nodwyd unrhyw eithriadau perthnasol o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

Mae Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y DU (CMA) wedi cyhoeddi canfyddiadau ei ymchwiliadau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998, a cheir rhagor o wybodaeth yn Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu. Mae'r ddirwy a dalwyd yn afreolaidd. Nid yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw drafodion eraill y gellid eu hystyried yn afreolaidd.

Llywodraethu – parhad Y Pwyllgor Gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwyllo prosiectau strategol allweddol a chynigion o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynulleidfaoedd a pherfformiad ariannol, yn ogystal â goruchwyllo polisiâu a materion gweithredol y BBC cyfan. Mae gwybodaeth am drefniadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2024/25 ar gael yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalen 92.

Ar 27 Chwefror 2025, cyhoeddodd Charlotte Moore ei bod yn gadael y BBC a gadawodd ei rôl ar y Pwyllgor. Cymerodd Kate Phillips ei lle, fel Prif Swyddog Cynnwys Dros Dro a chafodd ei chadarnhau fel y Prif Swyddog Cynnwys parhaol ar 18 Mehefin 2025. Ar 1 Mawrth 2025, ychwanegwyd Storm Fagan, Prif Swyddog Cynhyrchion y Grŵp, fel aelod newydd o'r Pwyllgor Gweithredol. Ar ôl diwedd y flwyddyn, gadawodd Gautam Rangarajan y BBC ar 30 Ebrill 2025. Ymunodd John Curbishley â'r Pwyllgor gan ymgymryd â'r rôl Prif Swyddog Strategaeth a Thrawsnewid ar 1 Ebrill. Ar 12 Mehefin 2025, camodd Rhodri Talfan Davies yn ôl o'i rôl fel Cyfarwyddwr y Gwledydd, a chafodd ei ddisodli gan Rhuanedd Richards fel Cyfarwyddwr y Gwledydd Dros Dro o 13 Mehefin.

Mae manylion llawn aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gael yn: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/exco](https://www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/exco). Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mehefin 2025.



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr
Cyffredinol a
Phrif Olygydd



Kerris Bright
Prif Swyddog
Cwsmeriaid



John Curbishley
Prif Swyddog
Strategaeth a
Thrawsnewid



Alan Dickson
Prif Swyddog Ariannol



Storm Fagan
Prif Swyddog
Cynhyrchion



Tom Fussell
Prif Swyddog
Gweithredol,
BBC Studios



Alice Macandrew
Cyfarwyddwr Materion
Corfforaethol y Grŵp



Kate Phillips
Prif Swyddog Cynnwys



Uzair Qadeer
Prif Swyddog Pobl



Rhuanedd Richards
Cyfarwyddwr y
Gwledydd Dros Dro



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog
Gweithredu



Deborah Turness
Prif Swyddog
Gweithredol
Newyddion a Materion
Cyfoes y BBC

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2017 gyda'r nod o gynghori Pwyllgor Gweithredol ac Uwch-arweinwyr y BBC a sicrhau bod llais a syniadau pobl iau yn cael eu clywed ar lefel weithredol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 15-20 o aelodau iau o'r staff o bob rhan o'r sefydliad am gyfnod o 12-18 mis. Yn 2024/25, datblygodd y Pwyllgor gynigion ar y canlynol: gwella datblygiad staff ifanc a gwella gwelededd uwch-arweinwyr; gwella gweithrediad iPlayer er mwyn gwella gwerth i gynulleidfaoedd iau; a newid canfyddiadau o ffi'r drwydded i bobl dan 35 oed er mwyn llywio proses adnewyddu'r siarter a rhoi hwb i'r nifer sy'n talu ffi'r drwydded.

Yr aelodau ar gyfer 2024/25 yw:

Hollie Driver (Cyd-gadeirydd)
*Uwch-gynllunydd Cynulleidfaoedd,
Strategaeth a Gwybodaeth am Gwsmeriaid*

Joshua Sach (Cyd-gadeirydd)
Cydlunydd Sain, Studios

Sophie Anderson
*Swyddog Gweithredol CRBA, Pop a
Digwyddiadau Byw*

Jasdeep Bahia
Newyddiadurwr, rhaglen Today

Morgan Bridge
Cynorthwydd Caffael/Masnachol, y Gweithle

Rachel Close
*Uwch-reolwr Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol,
Llywodraethu Data*

Oscar Edwards
Newyddiadurwr, Effaith

Shannon Gwilym
Cyfrifydd, Newyddion

Leila Hoyle
Uwch-reolwr Prosiectau, Ymchwil a Datblygu

Amie Igoe
Uwch-gynhyrchydd, The Social

Rob Kelly
*Uwch-wyddonydd Data – Cyfrifon
a Hunaniaeth*

Thomas Leach
*Rheolwr Ymchwil i Gynulleidfaoedd,
Strategaeth a Gwybodaeth am Gwsmeriaid*

Juliet Martin
Rheolwr Twf Sain, Studios

Caroline Michael
Cynghorydd Polisi, Materion Corfforaethol

Noor Nanji
Gohebydd, Diwylliant

Olivia Portas
Cynhyrchydd Cynorthwyol, BBC Sport

Adroddiad cydnabyddiaeth

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl ar gyfer 2024/25, sy'n nodi gwybodaeth am gydnabyddiaeth y Bwrdd a'r pwyllgor gweithredol. Mae hefyd yn cynnwys yr adroddiad ar ddatgeliadau cyflog sy'n ofynnol gan Siarter y BBC, a gaiff ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl bum gwaith, a chynhaliwyd busnes all-lein hefyd yn ôl yr angen. Ymunodd Muriel Gray a Damon Buffini â mi fel aelodau'r Pwyllgor. Cefnogwyd ein gwaith gan Uzair Qadeer, Prif Swyddog Pobl y Grŵp, y timau Adnoddau Dynol a Gwobrwy o fewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC, yn ogystal â chyfraniadau gan PwC, gan weithredu fel cynghorwyr cydnabyddiaeth annibynnol i'r Pwyllgor. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cymorth yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y strategaeth wobrwyo tair blynedd, gan gynnwys newidiadau i'r broses o reoli cyflogau sy'n cyd-fynd yn agos â gwaith ehangach ar ddiwylliant a pherfformiad, gyda ffocws clir ar sut y caiff gwaith ei gyflawni a sut mae pobl yn ymddwyn wrth ryngweithio â'i gilydd o ddydd i ddydd. Cyflwynwyd lefel newydd o fanylrwydd drwy asesiadau perfformiad ac adborth yn y broses adolygu perfformiad reolaidd 'myConversation' ac roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r cynnydd mewn lefelau cydymffurfiaeth â phrosesau gorfodol, gan gynnwys myConversation, yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd adolygiad o gyflog y Pwyllgor Gweithredol a daeth yn weithredol o fis Awst 2024 a chytunwyd ar godiadau yn unol â'n dull ar gyfer rheoli cyflogau uwch-arweinwyr ehangach gan adlewyrchu cyfraniad unigol a'r sefyllfa yn erbyn dulliau meicnodi allanol. Roedd y buddsoddiad yng nghyflogau'r cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â'r cynnydd cyfartalog a gafodd cyflogeion.

O ran BBC Studios, cymeradwyodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol yn ystod y flwyddyn: Yr alldro o dan gynllun Bonws Cwmni Studios 2023/24, gan adlewyrchu perfformiad ariannol cadarn mewn marchnad heriol. Roedd y targedau ar gyfer cynllun Bonws Cwmni Studios 2024/25 yn cyd-fynd â mesurau sefydliadol. Rydym hefyd wedi cymeradwyo newidiadau i'r cynllun Bonws ar gyfer 2025/26 sy'n sicrhau bod y cynllun yn parhau i wobrwyo lefelau perfformiad uchel ac sy'n ein galluogi i barhau i fod yn gystadleuol yn y farchnad allanol. Gwnaethom hefyd gymeradwyo mesurau a thargedau ar gyfer dyfarniad LTIP 2024-2027 sy'n adlewyrchu'r Cynllun Ystod Hir yn ogystal â chyfraniadau i'r sefydliad gwasanaeth cyhoeddus a'n hymrwymiad i gynhwysiant a rhagoriaeth wrth reoli.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom drafod a chytuno ar strategaeth ddiwygiedig i sicrhau bod perthyn a chynhwysiant yn rhan ganolog o'r agenda Pobl. Nod y pwyslais ar berthyn yw sicrhau bod gan yr holl staff yr amodau i wneud eu gwaith gorau i gynulleidfaoedd a bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y BBC. Mae'r cynllun newydd hefyd yn cynyddu ein hymyriadau o ran hygyrchedd ac anabledd.

Rydym wedi monitro bylchau cyflog drwy adroddiadau rheolaidd gan y rheolwyr. Mae'r bylchau hyn yn deillio'n bennaf o hyd o niferoedd staff ar wahanol lefelau ac o fewn teuluoedd swydd gwahanol ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae'n galonogol gweld gostyngiad ym mwyafrif y bylchau cyflog y flwyddyn hon, gan gynnwys y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau, a gweld bod y bylchau cyflog yn ôl bandiau swyddi yn fach o hyd a bod y bylchau cyffredinol yn parhau islaw lefelau'r DU a diwydiant y cyfryngau. Rydym wedi gofyn am sicrwydd manwl gan y Bwrdd Gweithredol, ac wedi cael sicrwydd o'r fath, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw broblemau sylfaenol o ran tegwch cyflogau yn gysylltiedig â ffigurau'r BBC ac rydym yn ffyddiog bod prosesau craffu gofalus ar waith ar gyfer yr holl benderfyniadau cyflog a wneir fel rhan o'r prosesau llywodraethu rheolaidd.

Rydym yn cael adroddiadau rheolaidd gan y rheolwyr ar niferoedd cyflogeion, sydd wedi gostwng y flwyddyn hon drwy newidiadau a reolwyd fel rhan o waith mwy deallus i drawsnewid a symleiddio'r sefydliad. Rydym hefyd wedi monitro costau cyflogau cyffredinol, a thaliadau diswyddo, fel rhan o'n busnes rheolaidd.

Ar y cyfan, rwy'n hyderus bod yr adroddiad blynyddol hwn yn dangos bod cyflogau yn y BBC yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn unol â normau'r farchnad, a bod materion ehangach sy'n ymwneud â phobl yn cael sylw a ffocws priodol o hyd a bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo iddynt. Edrychaf ymlaen at barhau i oruchwylio'r broses o ddatblygu strategaeth gwobrwyo a phrosesau pobl y BBC yn 2025/26.

Robbie Gibb

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl
27 Mehefin 2025

Llywodraethu – parhad
Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

ADRODDIAD
CYDNABYDDIAETH

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae hyn yn cynnwys ein datgeliad blynyddol o gyflogau fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC.

Fe'i paratowyd gan ystyried gofyniad Rheoliadau Cwmniâu a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (fel y'u diwygiwyd) a'r Rheolau Rhestru lle bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol i'r BBC. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol y BBC, a nodwyd fel 'archwiliedig', gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilwyr statudol y BBC.

CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH A PHOBL A'R FFRDD Y MAE'N GWEITHREDU
Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl y Bwrdd, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i Grŵp y BBC ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Ei aelodau yw'r cyfarwyddwyr anweithredol Robbie Gibb (Cadeirydd), Muriel Gray a Damon Buffini.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol a gan PwC fel cynghorwyr annibynnol y Pwyllgor. Penodwyd PwC yn 2022. Rhoddodd cwmni ehangach PwC wasanaethau eraill i'r BBC hefyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chymorth cyfreithiol, pensiynau a chymorth ymgynghori arall. Mae'r Pwyllgor yn fodlon nad oes gan bartner ymgysylltu a thim cynghori PwC sy'n rhoi cyngor ar gydnabyddiaeth i'r Pwyllgor unrhyw gysylltiad â'r Cwmni na Chyfarwyddwyr unigol a allai gyfaddawdu eu hannibyniaeth neu wrthrychedd.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â diben a gwerthoedd y BBC. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau'n dryloyw ac yn hawdd eu deall, a bod lefelau cydnabyddiaeth yn gymesur â chyfraniad.

Caiff adroddiad gan reolwyr ar gyflogau a nifer staff ei adolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl. Mae pwyllgorau cymeradwyo is-adrannol ac uwch-arweinwyr yn adolygu ac yn cymeradwyo unrhyw geisiadau eithriadol am addasiadau cyflogau, nifer ychwanegol o staff a diswyddiadau anghytundebol.

AELODAETH Y BWRDD A'R PWYLLGOR GWEITHREDOL
At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyr gweithredol yw'r rhai sy'n aelodau o'r Bwrdd ynghyd â'r aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol.

Mae Bwrdd y BBC yn cynnwys 14 o aelodau, gyda mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol. Penodwyd y Cadeirydd a phedwar o'r aelodau anweithredol gan y Brenin mewn Cyngor ar argymhelliad Gweinidogion, gydag un aelod yn cynrychioli pob un o bedair gwlad y DU.

Mae Bwrdd y BBC yn penodi pum aelod anweithredol arall drwy ei Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Mae pedwar cyfarwyddwr gweithredol ar y Bwrdd, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, sef prif swyddog gweithredol a phrif olygydd y Gorfforaeth. Ceir rhagor o fanylion am aelodaeth y Bwrdd ar dudalen 83.

Cefnogir Bwrdd y BBC gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol y Gorfforaeth. Ceir manylion am lefelau cydnabyddiaeth yr 11 o gyfarwyddwyr gweithredol ar dudalen 91. Ceir manylion am aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ar dudalen 86.

EGWYDDORION CYFLOGAU'R BBC
Mae gennym fframwaith cydnabyddiaeth sefydledig sy'n cynnwys ein Hegwyddorion Gwobrwyo ac sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau cyson am gyflogau ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae ein Hegwyddorion Gwobrwyo yn sicrhau ein bod yn cynnal ein ffocws ar gyflogau teg ac yn sicrhau bod trefniadau gwobrwyo yn y BBC yn cael eu deall a'u cyfleu mewn ffordd dryloyw, yn ogystal â chydbwysu'r angen i gynnig gwobrau sy'n cystadlu â'r farchnad â gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

1. Teg: Rydym yn ymrwymedig i gyflogau teg ym mhob rhan o'r BBC, gan gydnabod y gwahaniaethau yn y gwaith a wnawn ac yn y marchnadoedd talent rydym yn gweithredu o'u mewn. Rydym yn sicrhau y gellir cyfiawnhau pob penderfyniad gwobrwyo. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol arnom mewn perthynas â'n pobl o ran cyflog cyfartal. Rydym yn ymrwymedig i gynnal lefel uchel o dryloywder mewn perthynas â chyflog er mwyn parhau i feithrin ymddiriedaeth ymhlith ein pobl.
2. Clir: Mae ein cynnig gwobrwyo yn syml ac yn hawdd i'w ddeall. Rydym yn dilyn polisiâu a phrosesau cyson wrth wneud penderfyniadau am gyflogau. Rydym yn gosod disgwyliadau perfformiad clir ac yn cydnabod y rhai hynny sy'n gwneud gwaith eithriadol.
3. Cystadleuol: Rydym yn cymharu ein dull yn rheolaidd yn erbyn dulliau'r farchnad er mwyn sicrhau bod ein holl ddarpariaeth wobrwyo yn gystadleuol, gan bwysu a mesur hynny yn erbyn yr angen i reoli costau'n ofalus. Rydym yn hyblyg ac yn ymatebol. Mae hyn yn ein galluogi i ddenu ac i gadw'r dalent sydd ei hangen arnom i greu'r cynnwys a'r gwasanaethau gorau i'n cynulleidfaoedd.

POLISI CYDNABYDDIAETH UWCH-ARWEINWYR
Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Mae egwyddorion gwobrwyo'r BBC yn gymwys i'r holl staff, cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ym mhob rhan o Grŵp y BBC.

Wrth bennu polisi'r BBC ar gyflogau, mae'r Pwyllgor yn ystyried darpariaethau arferion gorau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn llawn.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yr hawl i gael y codiad cyflog blynyddol y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o gynyddran flynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl all wneud penderfyniadau ar gyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a chaiff penderfyniadau ar gyflogau uwch-arweinwyr eu hadolygu gan Bwyllgor Eithriadau'r Uwch-arweinwyr er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Cyflog sylfaenol	Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, diffinnir cyflog sylfaenol drwy gyfeirio at ganolrif y farchnad wedi'i ddisgowntio ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol). Ar gyfer uwch-arweinwyr, caiff ystodau cyflog swydd eu llywio gan gyfanswm arian parod targed canolrifol y farchnad (cyflog sylfaenol, lwfansau a bonws targed) sy'n llywio penderfyniadau ar gyflogau. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at bennu cydnabyddiaeth is na'r farchnad gan mai dim ond grŵp bach iawn o'n huwch-swyddogion gweithredol yn ein hendidau masnachol a gaiff gynnig cymhellion hirdymor. Ni chaiff unrhyw un ei dalu ar lefel sy'n is na'r isafswm ystod cyflog swydd ar gyfer ei rôl, ac mae'r holl ystodau cyflog yn dryloyw i weithlu ehangach y BBC.	Defnyddir y ffactorau canlynol i bennu lefel y cyflog sylfaenol a bennir ar gyfer cyfarwyddwr gweithredol neu uwch-arweinydd: • graddfa a chymhlethdod y rôl • gwybodaeth, sgiliau a phrofiad • perfformiad a chyfraniad • ffactorau'r farchnad a fforddiadwyedd Caiff cyflogau eu hadolygu'n flynyddol, gyda chodiadau yn weithredol o 1 Awst. Cytunir ar gyllideb ac fe'i dosberthir yn unol â'r ffactorau uchod. Caiff ystodau cyflog ar gyfer uwch-arweinwyr eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddaru yn ôl yr angen.	Dim uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd penodedig i gyfarwyddwyr gweithredol. Mae ystodau cyflog swydd uwch-arweinwyr yn cynnwys isafswm ac uchafswm; lle mae unigolyn uwchlaw uchafswm ei ystod cyflog am resymau etifeddol neu fasnachol yna ni fydd ei gyflog yn cynyddu ymhellach.
Tâl amrywiadwy	Mae arweinwyr sydd wedi'u cyflogi ym musnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael bonws blynyddol ar sail perfformiad. Caiff bonysau o'r fath eu hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau masnachol yn hytrach na ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw. Mae nifer cyfyngedig o'r arweinwyr uchaf yn y busnes masnachol yn gymwys ar gyfer cynllun cymhelliad hirdymor y mae ei daliadau yn gysylltiedig â chyflawni amcanion strategol i'r busnes masnachol.	Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yn y gwasanaeth cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad. Mae taliadau bonws o fewn busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyrraedd targedau yn seiliedig ar elw a pherfformiad unigol. Mae taliadau o dan y cynllun cymhelliad hirdymor yn y busnes masnachol yn gysylltiedig â chyflawni targedau ariannol ac anariannol hirdymor.	Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y gwasanaeth cyhoeddus wedi cael taliad bonws ers 2008. Ar gyfer 2024/25, cymerodd un cyfarwyddwr gweithredol – Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios – ran mewn cynllun bonws. Yn 2024/25, roedd gan y cynllun cymhelliant ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol fonws targed o 60% ac uchafswm o 90% o'r cyflog sylfaenol. Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios hefyd yn gymwys ar gyfer y cynllun cymhelliad hirdymor. Yr uchafswm taliad o dan y cynllun hwn ar ôl tair blynedd yw 100% o'r cyflog sylfaenol.
Buddiannau – Pensiwn	Cynigir pensiynau yn unol â'r trefniadau pensiwn a gynigir i holl gyflogeion y BBC. Yn ogystal â phensiynau, darperir yswiriant bywyd yn unol â'r trefniadau a ddarperir ar gyfer holl gyflogeion y BBC.	Gall cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ddewis ymuno â chynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC, sef LifePlan. Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno. Trefnir yswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.	Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr. Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiynadwy.
Buddiannau – Cludiant/teithio	Mae defnydd o gar a gyrrwr ar gael i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cadeirydd yn unig.	Mae defnydd o gar a gyrrwr ar gael i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cadeirydd fel hawl gytundebol ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae rhai uwch-arweinwyr yn parhau i gael lwfans car etifeddol ers i'r buddiannau ceir gael eu dileu yn 2012.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig yn gysylltiedig â'r lwfans car etifeddol gan mai budd hanesyddol ydoedd, nad yw wedi cael ei gynnig i staff newydd sy'n ymuno ers 2012.
Buddiannau – Yswiriant Meddygol Preifat	Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth y BBC ddileu budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch-reolwr newydd a chysoni â threfniadau i holl gyflogeion y BBC. Yn dilyn ymgynghoriad, cytunwyd i ddileu budd yswiriant meddygol preifat i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr o 1 Ebrill 2019.	Mae un cyfarwyddwr gweithredol yn cael lwfans etifeddol yn lle yswiriant meddygol preifat.	Budd hanesyddol â gwerth penodedig ydyw.

Llywodraethu – parhad
Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Contractau cyflogaeth a diswyddo	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Yn dilyn diswyddiad, mae gan bob gyfarwyddwr gweithredol hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
Cydnabyddiaeth arall	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl cyn gweithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

PENSIWN

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ('y Cynllun'), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogeion o 5%. Caiff cyfraniadau cyflogeion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol. Mae cyfraniadau cyflogeion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Talodd y BBC 3% a thalodd cyflogeion 5% o enillion cymwys i NEST yn 2024/25 yn unol â gofynion statudol. Gall unigolion ddewis ymeithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein cyfarwyddwyr gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogeion eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn: bbc.co.uk/mypension/.

Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC						
Cynllun	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011	Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
Dyddiad y caewyd	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
Croniad	60fed croniad	60fed croniad	1.67% o groniat Wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniat wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os bydd cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is	Bydd y BBC yn cyfrannu 3% o enillion cymwys (2024/25)
Cyflog	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa		
Oedran pensiynadwy arferol	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
Cap ar enillion	Wedi ymuno cyn 1 Mehefin 1989, heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall ar £223,800	Wedi'i gapio ar £223,800	Wedi'i gapio ar £223,800	Wedi'i gapio ar £193,800	Heb ei gapio	Isafswm enillion £6,240 y.f. Uchafswm enillion £50,270 y.f. (2024/25)
Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwyso	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
Cyfraniad cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)	7.50%	7.50%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 5%	5% o enillion cymwys (2024/25)

Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2024/25.

Ceir manylion Cadeiryddion pob un o wahanol bwyllgorau'r BBC ar dudalen 84. Mae pob cadeirydd yn cael £5,000 y flwyddyn yn ychwanegol at eu ffioedd sylfaenol. Cynhwysir y ffioedd hyn yn y tabl canlynol. Dangosir pob ffi ar sail pro rata lle y bo'n briodol.

BWRDD Y BBC (ARCHWILIEDIG)
Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Nodyn	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	Blwyddyn	Cyflwg sylfaenol ¹	Buddiannau trethadwy ²	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr anweithredol									
Samir Shah		04/03/2024	03/03/2028	2024/25	£160	£9	£0	£0	£169
				2023/24	£12	£1	£0	£0	£13
Richard Sharp	3	16/02/2021	27/06/2023	2024/25	£0	£0	£0	£0	£0
				2023/24	£39	£3	£0	£0	£42
Shumeet Banerji		07/01/2022	31/12/2025	2024/25	£33	£0	£0	£0	£33
				2023/24	£33	£0	£0	£0	£33
Damon Buffini		01/01/2022	31/12/2025	2024/25	£38	£0	£0	£0	£38
				2023/24	£38	£0	£0	£0	£38
Shirley Garrood	4	03/07/2019	02/07/2023	2024/25	£0	£0	£0	£0	£0
				2023/24	£10	£0	£0	£0	£10
Robbie Gibb	5	07/05/2021	06/05/2028	2024/25	£43	£0	£0	£0	£43
				2023/24	£43	£0	£0	£0	£43
Muriel Gray	6	03/01/2022	02/01/2026	2024/25	£43	£0	£0	£0	£43
				2023/24	£38	£0	£0	£0	£38
Ian Hargreaves	7	03/04/2020	02/04/2023	2024/25	£0	£0	£0	£0	£0
				2023/24	£1	£0	£0	£0	£1
Michael Plaut	8	01/06/2024	31/05/2028	2024/25	£32	£0	£0	£0	£32
				2023/24	£0	£0	£0	£0	£0
Nicholas Serota	9	03/04/2017	02/04/2025	2024/25	£34	£0	£0	£0	£34
				2023/24	£38	£0	£0	£0	£38
Elan Closs Stephens	10	20/07/2017	19/01/2024	2024/25	£0	£0	£0	£0	£0
				2023/24	£119	£7	£0	£0	£126
Michael Smyth		20/07/2023	19/07/2026	2024/25	£38	£0	£0	£0	£38
				2023/24	£27	£0	£0	£0	£27
Marinella Soldi		11/09/2023	10/09/2026	2024/25	£33	£0	£0	£0	£33
				2023/24	£18	£0	£0	£0	£18
Chris Jones		24/07/2023	23/07/2027	2024/25	£38	£0	£0	£0	£38
				2023/24	£26	£0	£0	£0	£26
Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol				2024/25	£492	£9	£0	£0	£501
				2023/24	£442	£11	£0	£0	£453
Cyfarwyddwyr gweithredol									
Tim Davie		01/09/2020	Dd/G	2024/25	£541	£6	£0	£0	£547
				2023/24	£525	£2	£0	£0	£527
Charlotte Moore	11	01/09/2020	27/02/2025	2024/25	£452	£2	£0	£0	£454
				2023/24	£468	£2	£0	£0	£470
Leigh Tavaziva	12	01/02/2021	31/01/2027	2024/25	£466	£0	£0	£0	£466
				2023/24	£442	£0	£0	£0	£442
Deborah Turness	13	05/09/2022	04/09/2026	2024/25	£431	£0	£0	£0	£431
				2023/24	£413	£0	£1	£0	£414
Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol				2024/25	£1,890	£8	£0	£0	£1,898
				2023/24	£1,848	£4	£1	£0	£1,853
Cyfanswm y Bwrdd				2024/25	£2,382	£17	£0	£0	£2,399
				2023/24	£2,290	£15	£1	£0	£2,306

1 Caiff y ffioedd eu dangos ar sail pro-rata lle gwnaeth yr aelodau adael neu ymuno yn ystod y flwyddyn

2 Buddiannau trethadwy: lwfans car, yswiriant meddygol preifat/lwfans etifeddol a threuliau trethadwy eraill. Mae car â gyrrwr ar gael i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol at ddibenion busnes yn unig

3 Ymddiswyddodd Richard Sharp o'i rôl fel Cadeirydd ar 28 Ebrill 2023 a gadawodd y BBC ar 27 Mehefin 2023. Felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2024/25

4 Gadawodd Shirley Garrood y Bwrdd a gadawodd y BBC ar 2 Gorffennaf 2023 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2024/25

5 Penodwyd Robbie Gibb am ail gyfnod a ddechreuodd ar 7 Mai 2024

6 Penodwyd Muriel Gray yn Gadeirydd dros dro y Pwyllgor Masnachu Teg o fis Medi 2023 hyd at fis Medi 2024. Cafodd ei ffi fel Cadeirydd ei chymhwyso ym mis Ebrill 2024 a gwnaed taliad ôl-weithredol

7 Gadawodd Ian Hargreaves y Bwrdd a gadawodd y BBC ar 2 Ebrill 2023. Cafodd £211 yn 2023/24 ac ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2024/25

8 Ymunodd Michael Plaut â'r Bwrdd ar 1 Mehefin 2024 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2023/24

9 Penodwyd Nicholas Serota am ail gyfnod a ddechreuodd ar 3 Ebrill 2021. Gadawodd y Bwrdd a gadawodd y BBC ar 2 Ebrill 2025

10 Penodwyd Elan Closs Stephens yn Gadeirydd dros dro o 28 Mehefin 2023. Gadawodd y Bwrdd a gadawodd y BBC ar 3 Mawrth 2024, pan gafodd y Cadeirydd newydd ei benodi

11 Penodwyd Charlotte Moore am drydydd cyfnod a ddechreuodd ar 1 Medi 2024. Gadawodd y Bwrdd ar 27 Chwefror 2025 yn dilyn ei hymddiswyddiad

12 Penodwyd Leigh Tavaziva am ail gyfnod a ddechreuodd ar 1 Chwefror 2023

13 Penodwyd Deborah Turness am ail gyfnod a ddechreuodd ar 5 Medi 2024. Daeth cyfraniadau NEST i ben yn 2024

Llywodraethu – parhad
Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2024/25, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a ddangosir isod yn ymwneud â'u cyfnod o wasanaeth ar y Pwyllgor Gweithredol yn unig.

AELODAU PWYLLGOR GWEITHREDOL Y BBC (ARCHWILIEDIG)
Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Nodyn	Dyddiad y'i penodwyd i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol ¹	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn ²	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tim Davie		01/11/2012	2024/25	£541	£6	£0	£0	£547
			2023/24	£525	£2	£0	£0	£527
Charlotte Moore	3	06/07/2016	2024/25	£452	£2	£0	£0	£454
			2023/24	£468	£2	£0	£0	£470
Leigh Tazaviva		01/02/2021	2024/25	£466	£0	£0	£0	£466
			2023/24	£442	£0	£0	£0	£442
Kerris Bright		18/06/2018	2024/25	£395	£0	£4	£0	£399
			2023/24	£380	£0	£4	£0	£384
Tom Fussell	4	01/09/2020	2024/25	£485	£0	£0	£384	£869
			2023/24	£465	£0	£0	£309	£774
Gautam Rangarajan		01/06/2018	2024/25	£259	£0	£33	£0	£292
			2023/24	£248	£0	£12	£0	£260
Rhodri Talfan Davies		01/01/2021	2024/25	£308	£0	£32	£0	£340
			2023/24	£293	£0	£11	£0	£304
Alan Dickson		17/12/2022	2024/25	£323	£0	£0	£0	£323
			2023/24	£310	£0	£0	£0	£310
Deborah Turness	5	05/09/2022	2024/25	£431	£0	£0	£0	£431
			2023/24	£413	£0	£1	£0	£414
Uzair Qadeer		27/02/2023	2024/25	£350	£0	£0	£0	£350
			2023/24	£339	£0	£0	£0	£339
Alice Macandrew		30/01/2023	2024/25	£315	£0	£31	£0	£346
			2023/24	£303	£0	£28	£0	£331
Storm Fagan	6	03/03/2025	2024/25	£31	£0	£3	£0	£34
			2023/24	£0	£0	£0	£0	£0
Kate Phillips	7	28/02/2025	2024/25	£34	£0	£1	£0	£35
			2023/24	£0	£0	£0	£0	£0
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol			2024/25	£4,390	£8	£104	£384	£4,886
			2023/24	£4,186	£4	£56	£309	£4,555

1 Caiff cyflog sylfaenol ei ddangos ar sail pro-rata lle gwnaeth yr aelodau adael neu ymuno yn ystod y flwyddyn

2 Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogeion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Ar gyfer aelodau Cynllun Pensiwn y BBC, dangosir hyn yn fanwl yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig

3 Ymddiswyddodd Charlotte Moore o'r BBC a gadawodd y Pwyllgor Gweithredol ar 27 Chwefror 2025

4 Ariennir rôl Tom Fussell yn gyfan gwbl gan refferniw masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdal. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni targedau perfformiad. Telir dwy ran o dair o'r bonws yn fuan ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2024/25, gydag un rhan o dair wedi'i gohirio am hyd at dair blynedd

5 Daeth cyfraniadau NEST Deborah Turness i ben yn 2024

6 Penodwyd Storm Fagan yn Brif Swyddog Cynhyrchion ac ymunodd â'r pwyllgor gweithredol ar 3 Mawrth 2025

7 Penodwyd Kate Phillips yn Brif Swyddog Cynnwys dros dro ac ymunodd â'r pwyllgor gweithredol ar 28 Chwefror 2025 ar ôl ymddiswyddiad Charlotte Moore. Cafodd ei chadarnhau fel y Prif Swyddog Cynnwys parhaol ar 18 Mehefin 2025

Cyfanswm cydnabyddiaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (archwiliedig)

Cyfanswm y cydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000oedd)	2024/25	2023/24
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd)	£4,886	£4,555
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	£501	£453
Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol	£5,387	£5,008

Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Oedran ar 31 Mawrth 2025	Adran	Pensiwn cronedig 31 Mawrth 2025	Pensiwn a gronwyd ar 1 Ebrill 2024 (neu ar adeg ymuno â'r Bwrdd/Pwyllgor Gweithredol os ar ôl hynny)	Cyfraniadau buddiannau diffiniedig cyfarwyddwyr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2024/25	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
		Buddiannau newydd				
Charlotte Moore	56		49	46	12	0
Gautam Rangarajan	53	CAB 2011	38	33	12	33
Rhodri Talfan Davies	54	CAB 2011	39	34	12	32
		Hen fuddiannau				
Alan Dickson	57		38	36	6	0

CYFLOG CYMHAROL DRWY'R BBC CYFAN

Ers 2021/22, mae cymhareb enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr gweithredol i gyflog chwarter isaf, canolig ac uchaf cyflogeion darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC wedi cael ei datgelu'n wirfoddol bob blwyddyn. Mae hyn yn unol â chwmnïau rhestredig sy'n cyhoeddi cymhareb cyflog eu Prif Swyddog Gweithredol o gymharu â chyflogeion y DU o dan Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ('Rheoliadau').

Mae'r cwmni wedi dewis Opsiwn A i nodi cyflogeion ar y chwarter isaf, canolig ac uchaf a'u priod gyflogau a buddiannau, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn, oherwydd y cydnabyddir mai dyna'r dull mwyaf cywir i'w ddefnyddio a'r hyn a ystyrir fel arfer fel yr arfer gorau. Mae pob un o gyflogeion darlledu gwasanaeth cyhoeddus llawn amser y DU ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiadau, a chaiff y cyflogeion eu sgorio yn seiliedig ar eu cydnabyddiaeth ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 ar 31 Mawrth.

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm gwerth y cyflogau a buddiannau a dderbyniwyd gan gyflogeion a nodwyd yn y chwarter isaf, canolig ac uchaf yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

2024/25	25ain canradd	50fed canradd	75ain canradd
Cyfanswm y Cyflogau a'r Buddiannau	£46,236	£59,215	£74,829
Cyflogau	£43,205	£54,218	£67,623

CYMHAREB Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL

Mae'r gymhareb cyflogau (a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfanswm cyflogau a buddiannau) yn gymharol gyson â'r flwyddyn flaenorol.

Blwyddyn	Cymhareb cyflog 25ain canradd	Cymhareb cyflog ganolrifol	Cymhareb cyflog 75ain canradd
2025	11.8:1	9.2:1	7.3:1
2024	11.7:1	8.9:1	7.0:1

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i gyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2024/25 o gymharu â'r newid yng nghyflogau canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod.

	2024/25 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2023/24
Cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol	541	3.0%
Cyflog canolrifol y BBC cyfan	54	3.4%

Nid yw'r cyfrifiad o gyflog ar draws y BBC cyfan yn cynnwys cyfraniadau pensiwn na chyflog y Pwyllgor Gweithredol.

Mae'r tybiaethau data a gynhwyswyd yn ein hadroddiadau fel a ganlyn:

Elfen	Disgrifiad
Cyflog	Rydym wedi defnyddio'r cyfwerth ag amser llawn, ar ddiwedd y flwyddyn, fel y ffigur cyflogau i sgorio ein cyflogeion. Mae symiau cyflog sylfaenol hefyd yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn lwfansau a lwfansau dros dro ar gyfer ymlyniadau o fewn adrannau/rolau eraill yn y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys ystod o lwfansau lleoliad a lwfansau ar sail rôl ar sail pro rata ar gyfer cydweithwyr rhan amser.
Cyfanswm y cyflogau a'r buddiannau	Yn ogystal â'r cyflog fel y'i diffinnir uchod, mae hyn yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Llywodraethu – parhad
Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

TALIADAU DISWYDDO

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.

BUDDIANNAU ALLANOL

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau Gweithredol y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC.

Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy na dau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

BUSNESAU MASNACHOL Y BBC

Yn ystod 2024/25, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan bedwar prif is-gwmni masnachol:

- BBC Studios (gan gynnwys BBC Global News)
- BBC Studioworks
- UKTV
- BritBox

Mae cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol yn ddarostyngedig i brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC. Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a chymelldaliadau ei hunanariannu gan refeiwi masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalw drwy ffi'r drwydded.

CYNLLUN BONWS CWMNI BBC STUDIOS

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios wedi'i lunio a'i alldro. Roedd dau fesur allweddol yn rhan o gynllun 2024/25 ar gyfer uwch-arweinwyr y cwmni, ynghyd â pherfformiad unigol wedi'u pwysoli fel a ganlyn:

- EBITDA, wedi'i bwysoli 60%
- Mynegai Arweinwyr, wedi'i bwysoli 10%
- perfformiad unigol, wedi'i bwysoli 30%

Mae elfen o ohirio yn perthyn i'r bonws, gydag un rhan o dair yn cael ei gohirio am hyd at dair blynedd, i'r cyfranwyr sydd yn y swyddi uchaf yn unig.

Adolygwyd y cynllun hwn ac mae newidiadau yn gymwys i flwyddyn 2025/26 y cynllun. Nod y newidiadau hyn yw gwobrwyo lefelau uchel o berfformiad a chyd-fynd yn agosach ag arferion y farchnad allanol, gan sicrhau'r gallu i ddenu a chadw talent er mwyn cyflawni amcanion strategol y busnes masnachol.

CYNLLUN CYMHELLIAD HIRDYMR BBC STUDIOS

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Cymhelliad Hirdymor BBC Studios, a roddwyd ar waith yn 2023, wedi'i lunio a'i alldro. Mae'r Cynllun wedi'i gyfyngu i ryw 25 o'r arweinwyr masnachol uchaf yn yr endidau masnachol, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios. Mae'n gynllun tair blynedd, a gwneir dyfarniad amodol ar ddechrau'r cyfnod perfformiad tair blynedd. Bydd cyfran y dyfarniad i'w freinio ar ôl tair blynedd yn dibynnu ar berfformiad yn ystod y cyfnod hwnnw yn erbyn cyfres o dargedau diffiniedig. Roedd dau fesur ariannol yn rhan o ddyfarniad 2024 (i'w freinio ym mis Mawrth 2027) ynghyd â mesur anariannol wedi'u pwysoli fel a ganlyn:

- llif arian parod rhydd, wedi'i bwysoli 60%
- elw gan Eiddo Deallusol Newydd y BBC, wedi'i bwysoli 30%
- perfformiad yn erbyn mynegeion cynhwysiant a pherfformiad, wedi'i bwysoli 10%

Ceir lefel sylfaenol hefyd o ran Cyfanswm yr Elw Masnachol sydd ei angen i'r BBC er mwyn breinio'r dyfarniad.

CANLYNIADAU 2024/25

Ar gyfer 2024/25, cyflawnodd y mesur ariannol (EBITDA) berfformiad a oedd ychydig yn uwch na'r targed. Roedd canlyniad y mesur arwain (Mynegai Arweinyddiaeth) hanner ffordd rhwng lefel y trothwy ar gyfer taliadau a'r targed. O ganlyniad i'r cyfuniad o ganlyniadau'r Cwmni a pherfformiad personol, gwnaed dyfarniad bonws o 79.2% (£384,389) i Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios mewn perthynas â pherfformiad yn ystod y flwyddyn. Caiff un rhan o dair o gyfanswm y taliad hwn ei gohirio am dair blynedd. Derbyniodd hefyd ddyfarniad o £43,125 wedi'i ohirio o fonws 2022/23.

Datgeliadau cyflogau

ADRODDIAD GAN BWYLLGOR CYDNABYDDIAETH Y BBC AR Y BOBL A GAFODD EU TALU DROS £178,000 O REFENIW FFI'R DRWYDDED YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL

Mae'n ofynnol i'r BBC gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon restr o'r unigolion hynny, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, a gafodd fwy na £178,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu taliadau ar gyfer gwasanaethau yn ystod y flwyddyn a thelerau cytundebol. O dan y Siarter, dim ond y symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r unigolion hyn, wedi'u nodi mewn bandiau, y mae'n ofynnol i ni eu cyhoeddi. Rydym yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwnnw drwy gyhoeddi mwy o fanylion am ymrwymïadau rhaglen unigolion sy'n ymddangos ar yr awyr.

Caiff y datgeliad ei gyfrifo a'i gyhoeddi yn yr un ffordd ag mewn blynyddoedd blaenorol. Diwygiwyd y trothwy ar gyfer datgeliadau, o dan delerau Siarter Frenhinol y BBC, o £150,000 i £178,000 yn 2022/23, er mwyn cydnabod effaith chwyddiant cyflogau dros amser. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithredu mewn marchnadoedd lle mae'r gystadleuaeth am dalent a chyfraddau chwyddiant cyflogau cyffredinol yn arwain at heriau sylweddol.

Yn y datgeliadau ar gyfer uwch-swyddogion gweithredol, gwelwyd cynnydd bach i 49% ers y flwyddyn diwethaf yng nghanran y menywod a ddatgelwyd.

Menywod yw 43% o'r unigolion sydd wedi'u cynnwys yn y datgeliadau ar yr awyr. Mae hyn i fyny o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r niferoedd ar gyfer datgeliadau ar yr awyr yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn sgil nifer o ffactorau fel unigolion sy'n ymuno, unigolion sy'n gadael, faint o gynnwys Chwaraeon a geir mewn blwyddyn, a newidiadau i'r amserlenni Radio a Newyddion.

TABLAU CYFLOG AR YR AWYR

Dangosir yr unigolion ar y rhestr hon fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC gan gynnwys Teledu. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys taliadau o refeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 heb gynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano, symiau a dalwyd na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hendidau masnachol – er enghraifft BBC Studios. Hefyd, nid ydynt yn cynnwys taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarlledu, symiau adenilladwy cytundebol a symiau adenilladwy eraill, na threuliau. Mae ymrwymïadau rhaglenni yn adlewyrchu'r prif ymrwymïadau cytundebol ar gyfer y cyflog a gafwyd yn ystod y flwyddyn, ac maent wedi'u datgan i'r 10 rhaglen agosaf yn gyffredinol. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff penodau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn. Mae'n bosibl y bydd ymrwymïadau rhaglen yn newid yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, er mwyn adlewyrchu newidiadau i raglennu neu argaeledd unigolyn.

Llywodraethu – parhad

Datgeliadau cyflogau – parhad

AR YR AWYR

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Newyddion a Materion Cyfoes			
<i>Today</i>	Nick Robinson	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>Political Thinking</i> <i>The Today Podcast</i> Cyfweiliadau ag Arweinwyr Etholiad Cyffredinol y DU ar <i>Panorama</i>	£410,000 – £414,999
	Justin Webb	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>Americast</i> Etholiad Cyffredinol y DU	£365,000 – £369,999
	Mishal Husain	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno (blwyddyn rannol) Tua 20 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One <i>Today Debates</i> ar gyfer BBC Radio 4 Dadleuon Etholiad Cyffredinol y DU	£325,000 – £329,999
	Amol Rajan	Tua 100 o ddiwrnodau cyflwyno <i>Amol Rajan Interviews</i> <i>The Today Podcast</i>	£315,000 – £319,999
	Emma Barnett	Tua 85 o ddiwrnodau cyflwyno Cyfweiliadau aml-lwyfan <i>Woman's Hour</i>	£285,000 – £289,999
<i>World at One</i>	Sarah Montague	Tua 180 o raglenni Cyflenwi ar <i>HARDtalk</i>	£250,000 – £254,999
<i>PM</i>	Evan Davis	Tua 200 o raglenni <i>The Bottom Line</i> ar BBC Radio 4	£300,000 – £304,999
<i>BBC News at Six</i> a <i>BBC News at Ten</i>	Sophie Raworth	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Etholiad Cyffredinol y DU	£350,000 – £354,999
	Clive Myrie	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One <i>Music Matters</i> ar BBC Radio 3 Etholiad Cyffredinol y DU	£335,000 – £339,999
	Reeta Chakrabarti	Tua 180 o fwletinâu ar BBC One Etholiad Cyffredinol y DU	£300,000 – £304,999
	Jane Hill	Tua 135 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One <i>The World Tonight</i> ar BBC Radio 4	£200,000 – £204,999
<i>Question Time</i>	Fiona Bruce	Tua 40 o benodau o <i>Question Time</i> Diwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Etholiad Cyffredinol y DU	£410,000 – £414,999
<i>Newsnight</i>	Victoria Derbyshire	Tua 110 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>UkraineCast</i>	£275,000 – £279,999
<i>BBC Breakfast</i>	Jon Kay	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno a gohebu ychwanegol ar raglenni <i>Pick of the Week</i> ar BBC Radio 4 <i>Saturday Live</i> ar BBC Radio 4 Bwletinâu teledu Etholiad Cyffredinol y DU	£240,000 – £244,999
	Sally Nugent	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Etholiad Cyffredinol y DU	£200,000 – £204,999
	Charlie Stayt	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£190,000 – £194,999
<i>Sunday with Laura Kuenssberg</i>	Laura Kuenssberg	Tua 40 o raglenni ar ddydd Sul Podlediad <i>Newscast</i> ar benwythnosau Cylchlythyr wythnosol i danysgrifwyr Colofn wythnosol ar wefan Etholiad Cyffredinol y DU	£395,000 – £399,999
<i>HARDtalk</i>	Stephen Sackur	Cyfweiliadau <i>HARDtalk</i>	£210,000 – £214,999
BBC News Channel	Christian Fraser	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Cyflenwi ar <i>Newsnight</i> Etholiad Cyffredinol y DU	£205,000 – £209,999
	Ben Thompson	Cyflwynydd BBC Business Cyflwynydd BBC Breakfast Cyflenwi fel cyflwynydd ar Sianel BBC News	£205,000 – £209,999

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflog
Newyddion a Materion Cyfoes			
Sianel BBC News – parhad	Matthew Amroliwala	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£200,000 – £204,999
	Ben Brown	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar Sianel BBC News a BBC News at One	£200,000 – £204,999
	Lucy Hockings	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>Global Story</i> Cyflenwi ar <i>Ukraine</i> cast	£200,000 – £204,999
	Maryam Moshiri	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£195,000 – £199,999
	Sally Bundock	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Business	£190,000 – £194,999
	Annita McVeigh	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£190,000 – £194,999
	Caitriona Perry	Tua 230 o ddiwrnodau cyflwyno (UDA) Podlediad <i>The President's Path</i> Podlediad <i>Global Story</i>	£185,000 – £189,999 USD 240,000 – 244,999
Sianel BBC News (International) *	Sumi Somaskanda	Tua 230 o ddiwrnodau cyflwyno (UDA) Podlediad <i>The President's Path</i> Podlediad <i>Global Story</i>	£185,000 – £189,999 USD 235,000 – 239,999
	Steven Lai	Tua 220 o ddiwrnodau cyflwyno (Singapore)	£178,000 – £184,999 SGD 300,000 – 304,999
Golygyddion a gohebwy'r ar yr awyr	Ros Atkins	Golygydd Dadansoddi <i>The Media Show</i>	£295,000 – £299,999
	Chris Mason	Golygydd Gwleidyddol	£270,000 – £274,999
	Jeremy Bowen	Golygydd Rhyngwladol	£260,000 – £264,999
	Katya Adler	Golygydd Ewrop Podlediad <i>Global Story</i>	£240,000 – £244,999
	Faisal Islam	Golygydd Economaidd Cyflenwi ar <i>Newsnight</i>	£235,000 – £239,999
	Fergal Keane	Gohebydd Arbennig	£235,000 – £239,999
	Sarah Smith	Golygydd Gogledd America	£230,000 – £234,999
	Simon Jack	Golygydd Busnes Cyflenwi ar <i>Today</i> ar BBC Radio 4	£225,000 – £229,999
	Katie Razzall	Golygydd y Cyfryngau a Diwylliant Cyflenwi ar <i>Newsnight</i> <i>The Media Show</i>	£220,000 – £224,999
	Mark Easton	Golygydd Cartref	£210,000 – £214,999
	Orla Guerin	Uwch-olygydd Rhyngwladol	£210,000 – £214,999
	Lyse Doucet	Prif Ohebydd Rhyngwladol	£205,000 – £209,999
	Jonny Dymond	Gohebydd Brenhinol <i>The World This Weekend</i> ar BBC Radio 4 <i>The World at One</i> ar BBC Radio 4 <i>World Questions</i> Cyflenwi ar raglen <i>Today</i>	£205,000 – £209,999
	John Simpson	Golygydd Materion y Byd <i>Unspun World with John Simpson</i>	£190,000 – £194,999
Radio			
BBC Radio 1	Greg James	Tua 215 o benodau o Radio 1 Breakfast Show Tua 5 pennod o <i>Rewinders</i> ar Radio 4 Ymgysylltiadau bach eraill amrywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus	£425,000 – £429,999
	Charlie Hedges	Tua 180 o raglenni ar Radio 1 Tua 40 o benodau o <i>Dance Anthems</i> ar Radio 1 Tua 30 o benodau o <i>Dance Shows</i> ar Radio 1 Ymgysylltiadau bach eraill amrywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus	£178,000 – £184,999

* Sianel BBC News (International): Mae'r unigolion hyn wedi'u lleoli y tu allan i'r DU a thelir cyflog lleol iddynt, sydd wedi'i drosi i GBP gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid tramor misol.

Llywodraethu – parhad

Datgeliadau cyflogau – parhad

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Radio – parhad			
BBC Radio 2	Zoe Ball	Tua 125 o benodau o <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i>	£515,000 – £519,999
	Vernon Kay	Tua 210 o benodau o'r rhaglen ganol bore Tua 50 o benodau o <i>Dance Sounds of the 90s</i> Ymgysylltiadau bach eraill amrywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus	£390,000 – £394,999
	Scott Mills	Tua 185 o benodau o'r rhaglen ddechrau'r prynhawn Tua 40 o benodau o <i>The Scott Mills Breakfast Show</i> ar Radio 2 Tua 20 o benodau o <i>Pop Top 10</i> ar BBC Sounds Ymgysylltiadau bach eraill amrywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus	£355,000 – £359,999
	Sara Cox	Tua 220 o benodau o'r rhaglen min nos Ymgysylltiadau bach eraill amrywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus	£310,000 – £314,999
	Jeremy Vine	Tua 210 o raglenni ar Radio 2 Rhaglenni Newyddion am yr Etholiad	£310,000 – £314,999
	Trevor Nelson	Tua 50 o raglenni ar Radio 1Xtra Tua 155 o raglenni <i>Rhythm Nation</i> ar Radio 2 Tua 20 o raglenni yn y prynhawn ar Radio 2 Ymgysylltiadau bach eraill amrywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus	£245,000 – £249,999
	Jo Whiley	Tua 180 o raglenni ar Radio 2 Ymgysylltiadau bach eraill amrywiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus	£230,000 – £234,999
	Owain Wyn Evans	Tua 200 o benodau o'r rhaglen frechwast gynnar	£195,000 – £199,999
	Gary Davies	Tua 50 o benodau o <i>Sounds of the 80s with Gary Davies</i> Tua 80 o raglenni wedi'u cyflenwi ar Radio 2	£178,000 – £184,999
	Nicky Campbell	Tua 230 o benodau o <i>Nicky Campbell Show</i> Tua 20 o benodau o <i>Different</i> Rhaglen ddogfen ar Radio 4	£300,000 – £304,999
BBC Radio 5 live	Rick Edwards	Tua 250 o benodau o <i>5 live Breakfast Show</i> Tua 30 o benodau o <i>Fighting Talk</i> Darllediadau Pêl-droed ar 5 live	£235,000 – £239,999
	Rachel Burden	Tua 190 o benodau o <i>5 live Breakfast Show</i> Tua 10 o benodau o <i>BBC Breakfast</i>	£220,000 – £224,999
BBC Radio 6 Music	Craig Charles	Tua 205 o benodau o'r rhaglen yn ystod y dydd ar 6 Music Tua 50 o benodau o <i>Funk & Soul</i> ar 6 Music	£190,000 – £194,999
Chwaraeon			
Pêl-droed	Gary Lineker	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyngghair Lloegr, Cwpan FA; Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop	£1,350,000 – £1,354,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day</i> : Uwch Gyngghair Lloegr, Cwpan FA; Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop	£440,000 – £444,999
	Alex Scott	<i>Football Focus</i> , Uwch-gyngghair y Merched, Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop, <i>Sports Personality of the Year</i>	£205,000 – £209,999
Gwahanol chwaraeon	Mark Chapman	Tua 120 o benodau o BBC Radio 5 live Sport <i>Match of the Day 2</i> Cwpan Her Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop; Y Gemau Olympaidd	£325,000 – £329,999

GENRES GWAHANOL A THELEDU

Mae nifer bach o unigolion sydd â chydberthnasau aml-flwyddyn â chomisiynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron i 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Prif raglen	Enw	Ymrwymïadau rhaglen	Cyflog
Radio a Theledu	Stephen Nolan	<i>The Nolan Show</i> ar Radio Ulster <i>Nolan Live</i> ar BBC One (Gogledd Iwerddon) <i>Stephen Nolan Show</i> ar BBC Radio 5 live	£405,000 – £409,999
	Naga Munchetty	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno <i>BBC Breakfast</i> Tua 140 o raglenni <i>Naga Munchetty</i> ar BBC Radio 5 live Etholiad Cyffredinol y DU	£355,000 – £359,999
	Tina Daheley	Rhaglen Radio 2 dros frecwast Cyflenwi ar raglen Jeremy Vine Bwletinâu Newyddion BBC One <i>BBC Breakfast</i>	£295,000 – £299,999
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	BBC Radio Wales <i>Final Score</i> <i>Good Morning Sunday</i> BBC Radio 2	£230,000 – £234,999
	Chris Sutton	BBC Radio 5 live Sport Podlediad <i>Monday Night Club</i> Podlediad <i>606</i> Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop <i>Football Focus</i> a <i>Final Score</i>	£200,000 – £204,999

Llywodraethu – parhad
Datgeliadau cyflogau – parhad

UWCH-SWYDDOGION GWEITHREDOL

Rydym yn cyhoeddi cyflog a threuliau pob uwch-arweinydd sy'n ennill dros £178,000 yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC ar ein gwefan. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl sy'n rhestru holl uwch-swyddogion gweithredol y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt am wasanaethau o refeiwiw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflog	Enw	Rôl
Cyfarwyddwr Cyffredinol		
£540,000 - £544,999	Tim Davie	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Pwyllgor Gweithredol		
£495,000 - £499,999	Charlotte Moore	Prif Swyddog Cynnwys
£465,000 - £469,999	Leigh Tavaziva	Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp
£430,000 - £434,999	Deborah Turness	Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes
£390,000 - £394,999	Kerris Bright	Prif Swyddog Cwsmeriaid
£350,000 - £354,999	Storm Fagan	Prif Swyddog Cynhyrchion
£345,000 - £349,999	Uzair Qadeer	Prif Swyddog Pobl
£320,000 - £324,999	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol
£310,000 - £314,999	Alice Macandrew	Cyfarwyddwr y Grŵp, Materion Corfforaethol
	Kate Phillips	Cyfarwyddwr Comisiynu
£305,000 - £309,999	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£255,000 - £259,999	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad y Grŵp
Swyddogaethau Corfforaethol		
£315,000 - £319,999	Jo Sherlock	Cyfarwyddwr Hawliau a Masnachol y Grŵp
£305,000 - £309,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp
£255,000 - £259,999	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd
£250,000 - £254,999	Toby Philipps	Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol
£245,000 - £249,999	Shirley Cameron	Cyfarwyddwr Rheoli Refeniw a Chwsmeriaid
	Claude Sarfo	Cyfarwyddwr Cyllid, Newyddion a Materion Cyfoes
	John Shield	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
	Rebecca Wallace	Cyfarwyddwr Strategaeth
£235,000 - £239,999	Eddy Datubo	Cyfarwyddwr Trawsnewid
	Holly King	Rheolydd Ariannol y Grŵp
£225,000 - £229,999	Peter Ranyard	Cyfarwyddwr Cyfreithiol Corfforaethol
£220,000 - £224,999	Sarah Gregory	Cyfarwyddwr Profiad Pobl a Dirprwy Brif Swyddog Pobl
£215,000 - £219,999	Irene Asare	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Newyddion
	Rhona Burns	Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Dealltwriaeth Ariannol
	Peter Johnston	Cyfarwyddwr Cwynion Golygyddol ac Adolygiadau
	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid – Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu, Grŵp y Prif Swyddog Cynnwys a Swyddogaethau Corfforaethol
	Samantha Sing	Cyfarwyddwr Cyllid, y Gwledydd
£210,000 - £214,999	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
	Nick Wilcox	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
£200,000 - £204,999	Sophie Garnham	Cyfarwyddwr Masnachol, Hawliau a Materion Busnes
	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
	Natasha Wojciechowski	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Swyddogaethau Corfforaethol
£195,000 - £199,999	Alan Bainbridge	Cyfarwyddwr y Gweithle
	Phil Kemp	Cyfarwyddwr Strategaeth
	Paul Oldfield	Pennaeth Staff
£190,000 - £194,999	Tove Okunniwa	Cyfarwyddwr Partneriaethau Grŵp
£185,000 - £189,999	David Attfield	Cyfarwyddwr Cyfreithiol
	Sam Carrier	Cyfarwyddwr Cyllid, Trawsnewid a Gweithrediadau
	Deborah Copeland	Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mewnol
	Danielle Mulder	Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd
	Dan Peters	Cyfarwyddwr Rheoli Cynhyrchion
	Anna Shackleton	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cynnwys

Cyflog	Enw	Rôl
Swyddogaethau Corfforaethol – parhad		
£185,000 - £189,999	Rob Skidmore	Cyfarwyddwr, Caffael
	Gareth Tuck	Cyfarwyddwr Cyllid, Cynnwys
£178,000 - £184,999	Zoe Baker	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, y Gwledydd
	Declan Kelly	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Pobl
	Jo Korn	Cyfarwyddwr Masnachol, Hawliau a Materion Busnes
	Nigel Lewis	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cysylltiadau Cyflogeion a Phensiynau
	Chris Rowsell	Rheolwr Rheoleiddio
Grŵp Technoleg a Grŵp Cynhyrchion		
£345,000 - £349,999	Peter O’Kane	Prif Swydddog Technegol
£265,000 - £269,999	Sinead Greenaway	Cyfarwyddwr Darlledu a Thechnoleg Defnyddwyr Terfynol
£255,000 - £259,999	Jack Whyte	Cyfarwyddwr Peirianeg Cynhyrchion a Data
£245,000 - £249,999	Andy Ryan	Cyfarwyddwr Cymorth Technegol a Gweithrediadau
£230,000 - £234,999	Helen Rabe	Prif Swydddog Diogelwch Gwybodaeth
£225,000 - £229,999	Jatin Aythora	Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu
£215,000 - £219,999	Morwen Williams	Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Cyfryngau
£210,000 - £214,999	Ellie Runcie	Prif Swydddog Dylunio
£195,000 - £199,999	Richard Cooper	Cyfarwyddwr Dosbarthu Digidol
	Anna Murcar	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau
£185,000 - £189,999	Venkata Devarapalli	Uwch-beiriannydd Meddalwedd
	Brett Haylock	Cyfarwyddwr Rheoli Cynhyrchion
£178,000 - £184,999	Noreen Adams	Cyfarwyddwr Technoleg a Gwasanaethau Archifau
	Tanja Lichtensteiger	Cyfarwyddwr Peirianeg Cynhyrchion
	Jules Marshall	Cyfarwyddwr Data Cynhyrchion
Marchnata a Chynulleidfaoedd		
£280,000 - £284,999	Charl Bassil	Prif Swydddog Brand
£210,000 - £214,999	Paul Davies	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
	Nick North	Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd
£200,000 - £204,999	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
Y Gwledydd		
£200,000 - £204,999	Sarah Calcott	Prif Swydddog Gweithredu y Gwledydd
£190,000 - £194,999	Rhuanedd Richards	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£185,000 - £189,999	Jason Horton	Rheolydd Cynhyrchu
£178,000 - £184,999	Adam Smyth	Cyfarwyddwr y Gwledydd
Cynnwys		
£305,000 - £309,999	Lindsay Salt	Cyfarwyddwr Comisiynu (Drama)
£270,000 - £274,999	Dan McGolpin	Cyfarwyddwr iPlayer a'r Sianelau
£255,000 - £259,999	Fiona Campbell	Rheolydd Sianel
	Patricia Hidalgo	Cyfarwyddwr Plant ac Addysg
£240,000 - £244,999	Jon Petrie	Cyfarwyddwr Comisiynu
£235,000 - £239,999	Graham Ellis	Rheolydd BBC Audio
£230,000 - £234,999	Lorna Clarke	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
	Alex Kay-Jelski	Cyfarwyddwr Chwaraeon
£225,000 - £229,999	Mohit Bakaya	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
£220,000 - £224,999	Lucy Richer	Uwch-olygydd Comisiynu (Drama)
	Jonathan Wall	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
£215,000 - £219,999	Jo McClellan	Golygydd Comisiynu (Drama)
£210,000 - £214,999	Philip Bernie	Pennaeth Cynnwys Chwaraeon / Cyfarwyddwr Dros Dro (Chwefror-Medi 2024)
	Gaynor Holmes	Golygydd Comisiynu (Drama)
	Sam Jackson	Rheolydd Radio
	Eva Yates	Cyfarwyddwr Comisiynu
	Lindsay Currie	Pennaeth Rheoli Sianelau
£205,000 - £209,999	Heidi Dawson	Rheolydd Radio
	David Pembrey	Prif Swydddog Gweithredu, Cynnwys
	Clare Sillery	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol

Llywodraethu – parhad
Datgeliadau cyflogau – parhad

Cyflog	Enw	Rôl
Cynnwys – parhad		
£195,000 - £199,999	Catherine Catton	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Rob Unsworth	Pennaeth Comisiynu Rhaglenni Dydd a Brig Cynnar
£190,000 - £194,999	Jack Bootle	Uwch-bennaeth Comisiynu
	Rebecca Ferguson	Golygydd Comisiynu Drama
£185,000 - £189,999	Suzy Klein	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Kalpna Patel-Knight	Uwch-bennaeth Comisiynu Adloniant
	Kerensa Samanidis	Prif Swyddog Gweithredu, iPlayer
£178,000 - £184,999	Geraldine Atlee	Pennaeth Busnes (Comisiynu)
Newyddion a Materion Cyfoes		
£300,000 - £304,999	Jonathan Munro	Cyfarwyddwr Byd-eang a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol BBC News
£225,000 - £229,999	John McAndrew	Cyfarwyddwr Rhaglenni Newyddion
£220,000 - £224,999	Richard Burgess	Cyfarwyddwr Cynnwys Newyddion
£215,000 - £219,999	Phil Harrold	Cyfarwyddwr Trawsnewid Is-adrannol
	Naja Nielsen	Uwch-reolydd Newyddion
£205,000 - £209,999	Sam Taylor	Prif Swyddog Gweithredu, Newyddion a Materion Cyfoes
£185,000 - £189,999	Joanna Carr	Rheolydd Newyddion
Cyn-aelodau o staff		
£178,000 - £184,999	Monika Turska	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Dylunio

Barn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar ddatgeliadau cyflog

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, gan gydnabod bod y Senedd hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cyflawni gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) sy'n deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol ar gyfer parhau'r BBC (y Siarter Frenhinol) bod rhaid cyhoeddi enwau holl uwch weithredwyr y BBC a gafodd daliadau o fwy na £178,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac enwau holl staff eraill y BBC a gafodd daliadau o fwy na £178,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Y datgeliadau hyn yw'r Datgeliadau Cyflog fel y'u nodir ar dudalennau 95 i 102 o Adroddiad Blynyddol y BBC (y pwnc) (y "Datgeliadau Cyflog").

Mae fy ngwaith yn cael ei wneud yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Ymrwymiadau Sicrwydd (ISAE) 3000 Ymrwymiadau Sicrwydd Heblaw Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

PRIOD GYFRIFOLDEBAU BWRDD Y BBC A'R RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a geir yn yr adroddiad hwn, Bwrdd y BBC oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl uwch weithredwyr y BBC a gafodd daliadau o fwy na £178,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac
- enwau holl staff eraill y BBC a gafodd daliadau o fwy na £178,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Fi sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r pwnc, ym mhob ystyr berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'i baratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Wrth wneud y gwaith hwn, mae fy staff a minnau wedi cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gweithdrefnau. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni'n cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Mae fy staff a minnau wedi cymhwyso Safon Ryngwladol 1 ar Reoli Ansawdd ac yn unol â hynny yn cadw system gynhwysfawr o reoli ansawdd gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau wedi'u cofnodi ynghylch cydymffurfio â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol.

FY YMAGWEDD I

Rwyf wedi cyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw cyflawni unrhyw weithdrefnau er mwyn sicrhau gwybodaeth ac esboniadau yr wyf yn credu eu bod yn angenrheidiol er mwyn mynegi barn ynghylch a yw'r Datgeliadau Cyflog (y pwnc), ym mhob ystyr berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Roedd fy ngwaith i yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC i lunio'r Datgeliadau Cyflog, yn enwedig cyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnrwydd y datgeliadau, gan gynnwys:
 - Croesgyfeirio at fy ngweithdrefnau archwilio ar gyfer Grŵp y BBC mewn perthynas â chyflogres a gwariant;
 - Cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol a fy nealltwriaeth i o'r BBC;
 - Adolygiad o unigolion a dalwyd yn y mis dilynol a dalwyd yn agos at y trothwy datgelu yn 2024/25;
- Cysoni datgeliadau'r staff â slipiau cyflog neu, pan nad yw'r staff yn cael eu talu drwy gyflogres y BBC, cysoni'r gwariant yn ôl â thystiolaeth arall megis contractau;
- Cysoni'r gwariant fesul unigolyn a gafodd daliadau o fwy na £178,000 o refeniw Ffi'r Drwydded â'r bandiau cyflog priodol;
- Adolygu'r sylwebaeth gysylltiedig o ran rhesymolrwydd ac eglurder ynghylch sail y datgeliad.

CYFYNGIADAU CYNHENID

Mae fy ngweithdrefnau sicrwydd wedi'u bwriadu i roi sicrwydd rhesymol. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw lleihau risg yr ymrwymiad i lefel dderbyniol o isel yn amgylchiadau'r ymrwymiad fel sail ar gyfer ffurf gadarnhaol i fynegi fy nghasgliad. Er hynny, nid yw'n dileu'r risg hon yn gyfan gwbl. Yn benodol, wrth baratoi'r datgeliadau, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC wneud dyfarniadau sy'n cyflwyno elfen o risg yn gynhenid.

Mae fy ngwaith i wedi'i wneud er mwyn imi ddatgan i Fwrdd y BBC a'r Senedd y materion hynny y mae'n ofynnol i mi eu datgan yn yr adroddiad hwn ac nid at unrhyw ddiben arall.

BARN

Ar sail canlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r Datgeliadau Cyflog a gynhwysir ar dudalennau 95 i 102 yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt. Mae'r farn hon wedi'i ffurfio ar sail y materion a amlinellir mewn manau eraill yn yr adroddiad sicrwydd annibynnol hwn.

CYFIEITHIAD CYMRAEG

Rwyf wedi ardystio ac wedi adrodd ar y Datgeliadau Cyflog ar eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae'r BBC yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiadau hyn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP
30 Mehefin 2025

Llywodraethu – parhad
Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

PENODIADAU I'R BWRDD
Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â phenodi aelodau'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a Phwyllgorau'r Bwrdd yn unol â gofynion y Siarter a'r Cod Corfforaethol.

Y flwyddyn hon, cadeiriwyd y Pwyllgor gan Samir Shah. Aelodau anweithredol y Pwyllgor oedd yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, Nicholas Serota, Damon Buffini a Muriel Gray.

Y flwyddyn hon, mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi cyfarfod bum gwaith, a chafwyd un sesiwn all-lein.

Arweiniodd y Pwyllgor Enwebiadau y broses o recriwtio un aelod anweithredol newydd i'r Bwrdd: Caroline Thomson, a ddisodlodd Nicholas Serota o 3 April 2025. Cefnogwyd y broses hon gan yr ymgynghorwyr recriwtio Egon Zehnder, cwmni annibynnol ac ni ddatganodd unrhyw wrthdaro na chysylltiadau ychwanegol â chyfarwyddwyr unigol yn ystod y broses. Ailbenodwyd aelod gweithredol o'r Bwrdd, Leigh Tavaziva, y Prif Swyddog Gweithredu am ddwy flynedd arall. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwyllo ymarfer cynllunio a datblygu olyniaeth cynhwysfawr o ran uwch-swyddogion gweithredol y BBC.

Y Pwyllgor sydd hefyd yn gyfrifol am oruchwyllo materion llywodraethu yn ymwneud â gweithrediad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau. Fel rhan o'r rôl hon, mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn comisiynu adolygiad gwerthuso blynyddol o weithrediad Bwrdd y BBC a'i is-bwyllgorau. Y flwyddyn hon, comisiynodd y Pwyllgor adolygiad dilynol gan Christopher Saul (sy'n annibynnol ar y BBC ac a ddatganodd nad oes gwrthdaro buddiannau yn codi o'r gwaith a wnaeth), a adeiladodd ar ei arsylwadau blaenorol ar effeithiolrwydd y Bwrdd y flwyddyn flaenorol. Trafodwyd canfyddiadau'r adolygiad gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror ac, o ganlyniad, lluniodd y Pwyllgor Enwebiadau gynllun gweithredu yn mynd i'r afael â'r argymhellion, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 85.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am adolygu achosion o ddatgelu buddiannau personol ac annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, a gynhaliwyd ganddo ym mis Medi 2024. Mae hefyd yn adolygu ac yn monitro gweithgareddau proffesiynol allanol aelodau'r Bwrdd am wrthdaro buddiannau ac er mwyn sicrhau y caiff amodau'r penodiad eu cyflawni. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu ymrwymïadau amser cyffredinol Cyfarwyddwyr yn rheolaidd.

Samir Shah
Cadeirydd
27 Mehefin 2025

Ebrill 24-Mawrth 25	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl	Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol	Pwyllgor y Gwledydd – Lloegr	Pwyllgor y Gwledydd – yr Alban	Pwyllgor y Gwledydd – Cymru	Pwyllgor y Gwledydd – G. Iwerddon
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	11	6	5	4	6	4**	4**	4**	4**
Cyfarwyddwyr anweithredol									
Samir Shah	11		5		6		4		
Shumeet Banerji	10 o 11	6							
Damon Buffini	10 o 11		2 o 5	3 o 4					
Robbie Gibb	11			4	6	4			
Muriel Gray	11		5	4			4		
Chris Jones	11	6							
Michael Plaut*	11	4 o 4						4	
Nicholas Serota	11		4 o 5		6	4			
Michael Smyth	11							4	4
Marinella Soldi	11								
Cyfarwyddwyr gweithredol									
Tim Davie	11		5		6				
Charlotte Moore*	8 o 9								
Leigh Tavaziva	11								
Deborah Turness	11				6				

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys sesiynau Bwrdd anffurfiol na busnes a gynhaliwyd all-lein.
* Ymunodd Michael Plaut â'r Bwrdd ar 1 Mehefin 2024 a gadawodd Charlotte Moore y Bwrdd ar 27 Chwefror 2025
** Ym mis Rhagfyr 2024, cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd o bwyllgor y pedair Gwlad yn Belfast. Ystyrir hyn yn gyfarfod llawn o bob pwyllgor

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

CRYNODEB

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC (y Pwyllgor) ar gyfer 2024/25, fy mlwyddyn gyntaf lawn fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn, gan oruchwyllo'r agweddau perthnasol ar drefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol, rheoli risg a Masnachu Teg. Cefais gymorth effeithiol yn ystod y flwyddyn gan fy nghyd-aelodau o'r Bwrdd, Shumeet Banerji a Michael Plaut (a ymunodd ym mis Mehefin 2024).

Isod nodir prif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, yr ymdrinnir â nhw yn fanylach yn yr adroddiad.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon: mae'r Pwyllgor wedi adolygu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC (ac wedi argymhell y dylid ei gymeradwyo), gan fynd ati i herio'r rheolwyr mewn ffordd adeiladol ar eu dyfarniadau a'u hamcangyfrifon allweddol, ynghyd â'r modd y mae'r rheolwyr wedi sicrhau bod y cyfrifon yn deg, yn gytbwys, yn ddealladwy ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

Goruchwyllo'r archwilwyr allanol: cafodd cydberthynas y BBC â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) yn ei rhinwedd fel ein harchwilwyr allanol ar ran y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ei goruchwyllo gan y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys adolygu ei chynllun archwilio, adolygu ei hasesiad o risg archwilio, cwblhau ei harchwiliad a monitro'r broses o weithredu ei hargymhellion i reolwyr sy'n codi o'i gwaith.

Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a Rheoli Risg: adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd systemau rheoli risg y BBC a'r fframwaith rheolaeth fewnol ar ran y Bwrdd. Cyflwynwyd canfyddiadau gweithgarwch sicrwydd ac adroddiadau gan y rheolwyr ar risgiau gweithredol a risgiau cydymffurfiaeth i'r Pwyllgor. Cafwyd diweddariadau ar drefniadau'r BBC i baratoi ar gyfer y gofynion adrodd yn y dyfodol o ran effeithiolrwydd rheolaethau perthnasol yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol 2024.

Masnachu Teg: Ym mis Medi 2024, rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Pwyllgor dros oruchwyllo risgiau Masnachu Teg (cydymffurfiaeth reoleiddiol Ofcom) ar ran y Bwrdd. Adolygwyd papurau ar Fasnachu Teg a risgiau rheoleiddiol cysylltiedig ochr yn ochr â chanlyniadau gweithgarwch sicrwydd annibynnol a mewnol.

Archwiliad Mewnol: cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun blynyddol, cyflwynwyd adroddiadau archwilio iddo yn ogystal ag asesiad blynyddol yr archwilwyr mewnol o'r rheolaethau. Comisiynodd y Pwyllgor asesiad ansawdd allanol o'r archwilwyr mewnol a chymeradwyodd gynnydd yn nifer y staff gyda gostyngiad cymesur mewn gwariant cyd-fyfhonell. Cynhaliwyd proses ail-dendro lwyddiannus ar gyfer y trefniadau cyd-fyfhonell.

Chwythu'r chwiban: Cafwyd adroddiadau ar statws honiadau chwythu'r chwiban a chanlyniadau ymchwiliadau, a baratowyd ar gyfer yr Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd effeithiolrwydd y trefniant presennol ar gyfer ymdrin â honiadau ynghylch bwllo ac aflonyddu a bydd yn monitro camau gwella'r rheolwyr.

Yn ogystal â'r eitemau a nodwyd uchod, mae'r agenda wedi parhau i adlewyrchu materion blaenoriaeth y mae angen eu goruchwyllo ac sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys perfformiad prosiectau hanfodol y BBC, cyllid pensiwn ac ymatebion i faterion cyfoes a digwyddiadau sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn.

Mae effaith diwylliant y sefydliad ar risg a rheolaeth yn ffocws y mae'r Pwyllgor wrthi'n ei ddatblygu. Caiff y Pwyllgor gymorth yn hyn o beth drwy ddiweddariadau gan yr archwilwyr mewnol ar ymwybyddiaeth rheolwyr o risg a rheolaeth fel rhan o'i rhaglen o archwiliadau. Yn ehangach, mae pynciau fel ymchwiliadau i gwynion gan staff, hyfforddiant gorfodol, rheoli canlyniadau ac archwiliadau dwfn i faterion risg wedi ategu'r ffocws hwn.

RÔL, CYFARFODYDD AC AELODAETH Y PWYLLGOR

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ar adegau allweddol yn y calendr adrodd, risg ac archwilio. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn fanylach. Cafodd ei adolygu a'i gymeradwyo ddiwethaf gan y Bwrdd yn 2024. Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd a chyhoeddir y cylch gorchwyl a chofnodion cryno ar wefan y BBC: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard](https://www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard)

Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar faterion allweddol a ystyriwyd yn ogystal ag unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn breifat â'r Archwilwyr Mewnol a'r archwilwyr allanol ar adegau yn ystod y flwyddyn, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol.

Fel arfer, mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 oedd:

- Chris Jones (Cadeirydd y Pwyllgor)
- Shumeet Banerji
- Michael Plaut (penodwyd ym mis Mehefin 2024)

Mae gan Chris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod a wasanaethodd ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unigolion sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol.

Caiff y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp, Prif Swyddog Ariannol y Grŵp a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o'r tîm Archwilio Mewnol, Rheoli Risg a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yn ogystal, bydd un o Gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd Masnachol y BBC yn bresennol fel arsylwr.

Caiff perfformiad y Pwyllgor ei asesu'n rheolaidd. Yn ystod 2024/25, bu gwaith y Pwyllgor yn rhan o adolygiad allanol o Fwrdd a Phwyllgor y BBC, a gynhaliwyd gan Chris Saul. Cafodd y canfyddiadau eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2025.

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- ystyried y busnes gweithredol a'r datganiadau ynghylch hyfywedd
- trafod a herio papurau a gyflwynwyd gan reolwyr ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag adrodd ariannol. Roedd hyn yn cynnwys meysydd lle mae dyfarniadau ac amcangyfrifon ariannol sylweddol wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol
- ystyried y risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll a gwall – cyflwynodd y rheolwyr bapurau ar weithrediad ac effeithiolrwydd rheolaethau cysylltiedig
- asesu p'un a yw'r cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan
- ceisio sicrwydd gan y rheolwyr ar gydymffurfiaeth ag IFRS a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, a'r esboniad am unrhyw eithriadau mewn perthynas â'r cod hwnnw
- adolygu a herio'r rheolwyr ar gysondeb reoleidd-dra'r cyfrifon a gyflwynwyd

Cafodd y Pwyllgor gadarnhad gan y rheolwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol na chamddatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwiadol neu mewn camgymeriad er mwyn rhoi darlun penodol.

Gofynnodd y Pwyllgor i ymarfer dysgu gwersi gael ei gynnal yn dilyn diwedd blwyddyn 2023/24. Roedd hyn hefyd yn ystyried arsylwadau'r SAG ar amseroldeb a pharodrwydd y wybodaeth a gyflwynwyd iddi. Mae'r Pwyllgor wedi monitro'r cynnydd sylweddol a wnaed yn sgil y Cynllun Gwella Diwedd Blwyddyn dilynol ar gyfer Cyllid.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r dyfarniadau sylweddol a'r amcangyfrifon allweddol, o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau. Gwnaethom argymhell y cyfrifon i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Cafodd y meysydd allweddol canlynol o ran dyfarniadau eu hystyried gan y Pwyllgor. Mae'r datganiadau ariannol a'r nodiadau ategol yn rhoi rhagor o fanylion.

Cydnabod Incwm: Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y contractau mwyaf sylweddol a'r dulliau lliniaru sydd ar waith, a chadarnhaodd y rheolwyr fod hyfforddiant ar gyfer meysydd busnes

Llywodraethu – parhad
Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg – parhad

perthnasol ac adolygiadau rheolaidd o gontractau refeniw perthnasol ar waith. Cadarnhaodd y rheolwyr hefyd fod pob contract newydd yn cael ei asesu yn erbyn IFRS 15 – Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid. Ni welwyd unrhyw newidiadau sylweddol i gontractau refeniw masnachol yn ystod 2024/25.

Pensiwn a Thybiaethau Actiwaraid: Nododd y Pwyllgor y defnydd o arbenigwyr annibynnol a'r defnydd o ddadansoddiadau sensitifrwydd a senario i bennu'r thybiaethau mwyaf priodol. Rhoddwyd adroddiadau i'r Pwyllgor ar faterion cynllun pensiwn gan gynnwys thybiaethau, dyfarniadau ac amcangyfrifon allweddol. Cynhaliodd y Pwyllgor archwiliad dyfnach o faterion ehangach yn ymwneud â phensiynau yn ystod y flwyddyn.

Prydlesau: Gall natur gymhleth eiddo'r BBC ac amodau cytundebol trefniadau prydlesau olygu bod angen llunio barn o dan IFRS 16 – Prydlesau. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y cafodd yr eiddo a brydleswyd eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad y rheolwyr a'r telerau cytundebol. Nododd y Pwyllgor fod yr adran Gyllid yn gweithio'n agos gyda BBC Workplace er mwyn deall newidiadau i'r ystâd.

Cyfnewidiadau Llif Arian Parod: Mae cyfnewidiadau datrys llif arian parod yn newid taliadau rhent y BBC sy'n gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer Broadcasting House Llundain (LBH) yn broffil llif arian parod mwy gwastad hyd at 2045. Cafodd y Pwyllgor ei frifffio ar y thybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo eu gwerth teg a nodwyd bod tîm Cyllid Corfforaethol y BBC yn adolygu'r model prisio bob blwyddyn. Cafodd gwall amherthnasol ei nodi a'i gywiro yn y flwyddyn flaenorol a chafodd y Pwyllgor wybod am y gwiriadau ychwanegol a roddwyd ar waith ers hynny.

Cyfuno: Cadarnhaodd y rheolwyr i'r Pwyllgor fod adolygiadau manwl yn cael eu darparu dros fodolau cyfuno a meysydd o farn. Caiff pob endid newydd ei asesu er mwyn penderfynu sut y dylid rhoi cyfrif amdano.

Cyfrifyddu Asedau Rhaglenni: Cadarnhaodd y rheolwyr i'r Pwyllgor ganlyniad yr adolygiad cydnabod gwariant blynyddol, gan nodi ei fod yn dal i fod yn briodol ar y cyfan i barhau i gydnabod costau pan fydd cynnwys ar gael am y tro cyntaf i gynulleidfaoedd ar y prif sianelau llinellol ar gyfer 2024/25.

Caffaeliadau a Gwarediadau: ty trafodiny mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd gwaredu'r gyfran o 50.1% yn New Video Channel America (BBC AMERICA) gan BBC Studios am \$42 miliwn (£32.5 miliwn). Caffaelodd BBC Studios sawl cwmni cynhyrchu yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn cael papurau ar drafodion perthnasol a'r goblygiadau.

Fel rhan o'r adolygiad o'r datganiadau ariannol, ystyriodd y Pwyllgor yr amcangyfrifon a'r materion perthnasol eraill canlynol hefyd:

Darpariaethau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn: Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar faterion a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl eraill a thrafododd lefel y darpariaethau, lle y bo'n briodol, â rheolwyr. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.

Mae'r Pwyllgor wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliad sifil yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i ymddygiad gwrthgystadleuol gan y BBC a busnesau cyfryngau eraill mewn perthynas â chynnwys chwaraeon. Rhoddodd y CMA ddinwyr i'r BBC yn ystod y flwyddyn.

Yr Adroddiad Blynyddol ehangach: adolygodd y Pwyllgor hefyd ddatganiadau ariannol y Grŵp a'u lle yn yr adroddiad blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan reolwyr, Archwilio Mewnol a'r archwilwyr allanol, yn cwmpasu'r canlynol:

- ansawdd a derbynioldeb polisiau cyfrifyddu, gan gynnwys cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu
- cydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, gan gynnwys esboniadau dros unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol
- cywirdeb profion data a datganiadau allweddol yn adran flaen yr adroddiad
- a yw'r adroddiad blynyddol cyfan yn rhoi'r wybodaeth ddibynadwy sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC

GORUCHWYLIO'R ARCHWILWYR ALLANOL
O dan Siarter Frenhinol a Chytundeb 2016, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a thrwy hynny'r SAG y mae'n bennaeth arni, wedi'i benodi'n archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter. Goruchwyliodd y Pwyllgor y gydberthynas â'r SAG mewn perthynas â'r archwiliad statudol, gan gynnwys cwmpas ac annibyniaeth ei gwaith. Ymhlith y meysydd y canolbwyntiodd y Pwyllgor arnynt yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- proses y BBC o roi argymhellion archwiliad allanol 2023/24 ar waith
- adolygiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor o effeithiolrwydd archwiliad allanol 2023/24 a pherfformiad yr archwilwyr
- y broses archwilio allanol, gan gynnwys y gofyniad i adrodd ar reoleidd-dra
- asesiad y SAG o feysydd o risg neu farn archwilio. Ar gyfer 2024/25, roedd y rhain yr un fath â'r meysydd o risg a barn a nodwyd gan y rheolwyr
- ansawdd yr archwiliad gan gynnwys adroddiad cwblhau yr archwilydd, canfyddiadau'r archwiliad a llythyr y rheolwyr

Mae'r Pwyllgor wedi nodi hyd arweinyddiaeth yr archwiliad allanol, i sicrhau cydbwysedd addas rhwng deall y BBC a chael safbwynt ffres. Mae arweinydd presennol yr archwiliad allanol wedi bod yn ei swydd ers pedair blynedd.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo polisi'r BBC ynglŷn â chomisiynu'r archwilwyr i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio. Nid yw'r SAG yn darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio ond er gwaethaf hyn, ni fyddai'n cael ei hystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC.

Mae'r SAG yn cynnal adolygiadau gwerth am arian ac yn archwilio Datganiad Ymddiriedolaeth Ffi'r Drwydded ar ran y Senedd.

Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio aelod o staff y SAG i unrhyw swydd uwch-reolwr yn y BBC.

**EFFEITHIOLRWYDD
RHEOLAETHAU MEWNOL**

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd systemau rheoli risg a rheolaethau mewnol y BBC ar ran y Bwrdd. Er mwyn gwneud yr asesiad hwn, dibynnodd y Pwyllgor yn bennaf ar ganfyddiadau'r gweithgarwch sicrwydd a'r her i adroddiadau ac asesiadau risg y rheolwyr.

Ymhlith y meysydd penodol eraill a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn roedd:

- cadarnhad i'r Bwrdd gan aelodau'r Pwyllgor Gweithredol
- themâu a chanfyddiadau'r gweithgarwch Archwilio Mewnol, gan gynnwys ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a'r camau gweithredu a roddwyd ar waith
- adroddiadau chwarterol ar faterion yn ymwneud â risg a chydymffurfiaeth. Nododd y Pwyllgor aeddfedrwydd cynyddol adroddiadau a'r defnydd o DPAau, a heriodd y rheolwyr ar risgiau amlgwg y tu allan i'r awydd a chamau gweithredu i'w lliniaru
- canlyniadau'r rhaglen gweithgarwch sicrwydd Masnachu Teg
- agwedd ac ymateb y rheolwyr i ddigwyddiadau proffil uchel neu gritigol;
- canfyddiadau archwilio allanol fel y nodir yn llythyr rheoli'r SAG
- canlyniadau archwiliadau dwfn i risgiau allweddol. Mae risg seiber bellach yn eitem reolaidd ar yr agenda. Mae'r meysydd risg eraill a drafodir yn fanwl yn cynnwys diogelwch, diogelwch ffisegol, gweithrediadau rhyngwladol, diogelu a chynaliadwyedd
- y systemau sydd ar waith i atal camweddau, gan gynnwys chwythu'r chwiban,
- adolygiadau rheolaidd o gynnydd prosiectau allweddol a ddarparwyd gan Swyddfa Drawsnewid y BBC.

Er bod rheoli risg yn eitem reolaidd ar yr agenda, defnyddiwyd un cyfarfod i ganolbwyntio'n fanylach ar arferion rheoli risg, gan gynnwys y dulliau ar gyfer rhoi gwybod am risgiau a datblygu fframwaith risg y BBC.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan reolwyr ar fentrau sy'n mynd rhagddynt i gynnal cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn y dyfodol.

Yn benodol, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad a gwnaeth argymhellion er mwyn helpu i ddosbarthu Risgiau Perthnasol (gan gynnwys risgiau strategol, gweithredol ac adrodd ariannol) a thrafododd dulliau ar gyfer adnabod a phrofi rheolaethau perthnasol â'r rheolwyr yng nghyd-destun datganiad disgwylidiedig gan y Bwrdd yn y dyfodol.

O ran risgiau adrodd ariannol, mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau am y broses o weithredu'r fframwaith Rheolaethau Mewnol dros Adrodd Ariannol (ICFR) ar waith, gan gefnogi effeithiolrwydd risgiau perthnasol o ran adrodd ariannol. Caiff y Fframwaith ICFR ei roi ar waith mewn dau gam, gan ganolbwyntio i ddechrau ar reolaethau sylfaenol disgwylidiedig wedi'i ddilyn gan brosesau perthnasol ar sail eitemau llinell datganiadau ariannol.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i oruchwyllo cynnydd y prosiect yn ystod 2025/26, gan gynnwys canlyniad profion cychwynnol ar y rheolaethau a chamau unioni.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y gweithgarwch sicrwydd a rheoli risg a nodir uchod, a gefnogir gan y wybodaeth a gyflwynwyd gan reolwyr, a'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau ac ymholiadau pellach, yn ddigonol i'r Bwrdd asesu bod effeithiolrwydd cyffredinol rheolaethau mewnol a gweithgarwch rheoli risg yn ddigonol.

Am ragor o fanylion ar risgiau'r BBC, gweler yr adroddiad ar y Prif Risgiau ar dudalen 108.

MASNACHU TEG

Penderfynodd Bwrdd y BBC y dylai cyfrifoldebau'r Pwyllgor Masnachu Teg gael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg o 1 Medi 2024. Mae Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor yn adlewyrchu'r un a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Masnachu Teg. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Risg o ran Masnachu Teg yw cynorthwyo'r Bwrdd i fodloni gofynion rheoleiddiedig masnachu a gwahanu Ofcom, fel y'u nodir yn ei Fframwaith Gweithredu.

Mae'r prif gyfrifoldebau yn cynnwys y canlynol: monitro risgiau Masnachu Teg ym mhob rhan o'r grŵp; adolygu cydymffurfiaeth gweithgareddau masnachol y BBC â'r meini prawf masnachol disgwylidiedig; goruchwyllo hyfforddiant ac ymwybyddiaeth; sicrhau ac adolygu trefniadau sicrwydd annibynnol ar reolaethau cydymffurfiaeth a gofynion adrodd blynyddol.

Adolygodd y Pwyllgor ganlyniad y sicrwydd blynyddol a roddwyd gan Deloitte o ran cydymffurfiaeth â threfniadau Masnachu Teg, gan nodi barn Deloitte fod y BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Trafododd ac adolygodd y Pwyllgor hefyd gynigion gan y rheolwyr

ynghylch y trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau Masnachu Teg a rhoi sicrwydd yn hynny o beth yn y dyfodol

ARCHWILIO MEWNOL

Parhaodd swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC â'i llinell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor, a chynhaliodd raglen o archwiliadau mewnol yn unol â'r prif risgiau a wyneb ir gan y BBC. Mae gwaith y tîm yn eitem reolaidd ar agenda pob cyfarfod.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Pwyllgor rôl, adnoddau a galluoedd y swyddogaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y BBC. Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- comisiynu PwC i gynnal asesiad ansawdd allanol o'r trefniadau archwilio mewnol. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol a chadarnhaodd gydymffurfiaeth â safonau archwilio mewnol a meysydd o ymarfer blaenllaw. Bydd y Pwyllgor yn goruchwyllo'r broses o roi'r argymhellion ar gyfer gwella ar waith;
- cymeradwyo model gweithredu diwygiedig a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddarparwyr trydydd parti ac yn gwella galluoedd y tîm;
- cymeradwyo canlyniad y tendr ar gyfer gwasanaethau cyd-ffynhonnell trydydd parti, yn unol â'r model gweithredu diwygiedig.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth archwilio mewnol a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda chyfran o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan gyd-ffynhonnell trydydd parti.

Monitrodd y Pwyllgor gynnydd a chanlyniadau cynllun archwilio mewnol 2024/25 gan ganolbwyntio ar y meysydd lle cafwyd canfyddiadau o bwys. Roedd cwblhau'r camau gweithredu na chymerwyd eto yn foddhaol yn ffocws o hyd, a nododd y Pwyllgor welliant parhaus yn y nifer a oedd yn weddill. Yn ystod y flwyddyn: cwblhawyd 48 o archwiliadau fel rhan o gynllun seiliedig ar risg, a chodwyd mwy na 128 o faterion gwella (2023/24: cwblhawyd 47 o archwiliadau a chodwyd 140 o faterion).

Ym mis Mawrth 2025, nid oedd unrhyw fater critigol na blaenoriaeth uchel heb ei ddatrys. Roedd dau fater a ystyriwyd yn gymedrol heb eu datrys, yr oedd cynlluniau unioni ar waith ar eu cyfer.

Roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn deillio o waith Archwilio Mewnol yn cynnwys – rheolaethau'r swyddfa ryngwladol, cydnerthedd y gwasanaeth digidol, risgiau gweithredu trydydd parti, buddsoddi mewn cynnwys a cynnydd ar fentrau trawsnewid.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynghylch prosesau busnes craidd a meysydd o her strategol.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, yn rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

CHWYTHU'R CHWIBAN

Cefnogodd y Pwyllgor rôl Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban Bwrdd y BBC sy'n gyfrifol am uniondeb, annibyniaeth, ac effeithiolrwydd polisiâu a gweithdrefnau chwythu'r chwiban y BBC.

Cafwyd adroddiadau ar statws honiadau chwythu'r chwiban yn ogystal â chrynodeb o adolygiadau allanol rheolaidd o ymchwiliadau chwythu'r chwiban. Nododd y Pwyllgor fod yr adolygiadau allanol wedi dod i'r casgliad bod dull gweithredu'r BBC yn amserol ac yn drylwyr.

MEYSYDD ERAILL Y RHODDODD Y PWYLLGOR SYLW IDDYNT

Parhaodd y Pwyllgor i oruchwyllo cyfansoddiad a pherfformiad portffolio prosiectau allweddol y BBC. Cynhaliwyd adolygiadau pellach, gyda'r rheolwyr yn bresennol, o brosiectau penodol gan gynnwys: Across the UK; Model Gweithredu'r BBC; uwchraddio TG TV Licensing; prosiect adeiladu Eastbank ac E20 (set *EastEnders*). Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor sicrwydd annibynnol ar ansawdd adroddiadau ar arbedion a data sylfaenol.

Cynhaliwyd archwiliad dwfn o Gynllun Pensiwn y BBC, wedi'i ategu gan gyflwyniad gan Brif Swyddog Ariannol y BBC a PwC, cynghorwyr y BBC mewn perthynas â'r cynllun. Fel rhan o'r sesiwn, ystyriwyd y tirlun o ran risg pensiynau, gan gynnwys gofynion cyllido a gofynion rheoleiddiol.

Cafwyd diweddariad ar adroddiadau cynaliadwyedd, a oedd yn cyfeirio at welliannau i sicrhau cydymffurfiaeth, sicrhau cydnawsedd â chymheiriaid ac adlewyrchu strategaeth gynaliadwyedd y BBC yn well. Adolygodd y Pwyllgor y datgeliadau cynaliadwyedd arfaethedig.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried effaith diwylliant ar yr amgylchedd rheoli. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau archwilio mewnol o ymwybyddiaeth o risgiau a rheolaethau, diweddariadau ar achosion o fwlio ac aflonyddu, adolygiadau o gwblhau hyfforddiant gorfodol yn yr adran Newyddion ac yn ehangach, trafodaeth ac adolygiad o ddull y BBC o reoli canlyniadau. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar adolygiad allanol o broses bwlio ac aflonyddu'r BBC a chamau gweithredu'r rheolwyr mewn ymateb i'r canfyddiadau. Mae Bwrdd y BBC yn arwain yr ymateb i adolygiad diwylliant diweddar BBC Workplace.

Yn gryno, rwy'n fodlon bod yr agendâu ar gyfer y flwyddyn hon wedi cael eu hystyried yn briodol a'u bod yn unol â diben y Pwyllgor. Rwyf hefyd yn fodlon bod sgiliau a chymorth addas wedi bod ar gael i'r Pwyllgor er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol.

Ar gyfer 2025/26, bydd cyd-destun ehangach y newidiadau llywodraethu corfforaethol, yn benodol gwaith paratoi ar gyfer adroddiadau estynedig ar risgiau a rheolaethau, yn brif ffocws i'r Pwyllgor. Yn ogystal, bydd yn canolbwyntio ar roi mentrau allweddol ar waith, gan gynnwys cynlluniau arbedion a gwaith paratoi ar gyfer adnewyddu'r Siarter.

Chris Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
27 Mehefin 2025

Llywodraethu – parhad

Ein prif risgiau

DULL Y BBC O REOLI RISG

Rydym yn rheoli risg drwy greu fframwaith risg strwythuredig, safonau clir, ac atebolrwyddau diffiniedig er mwyn sicrhau y gellir nodi a rheoli risgiau yn effeithiol ym mhob rhan o'r busnes. Mae'r safonau hyn yn diffinio ein hawydd i gymryd risgiau, yn amlinellu cyfrifoldebau timau rheoli a strwythur ein trefniadau llywodraethu risg. Caiff hyn oll ei ddiffinio yn y ffordd y byddwn yn rheoli risgiau a'n fframwaith rheoli risg fel y'i hamlinellir isod.

1. SUT RYDYM YN RHEOLI RISG


Mae ein dull o reoli risg yn helpu i sicrhau y caiff risgiau eu nodi, eu hasesu, eu rheoli a'u monitro'n briodol yn unol â'n fframwaith rheoli risg fel y'i hamlinellir isod:

EIN FFAMWAITH RISG

Mae gennym broses pedwar cam i helpu'r busnes i reoli risgiau o fewn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Llywodraethu Risg

Caiff Cyfarwyddwyr Anweithredol eu goruchwyllo gan Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Archwilio a Risg
Caiff Rheolwyr eu goruchwyllo gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Gweithrediadau



Tacsonomeg Risgiau Cyffredin

Awydd i Gymryd Risgiau

Metrigau Risgiau

Cofrestr Risgiau

1. Nodi

- Caiff risgiau eu nodi yn unol â'n tacsonomeg risg gorfforaethol a'u hasesu gan y Pwyllgor Gweithrediadau â mewnbwn gan y Pwyllgor Gweithredol. Caiff perchnogion risg eu neilltuo i bob risg ar lefel briodol.
- Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu mewnbwn yn ystod yr adolygiad o'r prif risgiau.
- Caiff risgiau ar lefel is-adrannol eu nodi drwy ystyried ffactorau sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar strategaeth ac amcanion Is-adrannol.
- Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu nodi drwy sganio meysydd o ddiddordeb, bygythiadau a chyfleoedd sydd i ddod ar y cyd â thimau o arbenigwyr pwnc.

3. Rheoli

Rydym yn defnyddio model tair llinell amddiffyn i reoli risgiau:

- Mae perchnogion risg yn yr Is-adrannau a'r swyddogaethau yn rheoli'r risgiau ac yn sicrhau y caiff mesurau lliniaru a rheolaethau eu rhoi ar waith yn effeithiol.
- Awydd i gymryd risg a metrigau risg: Mae datganiadau awydd i gymryd risg ansoddol ar waith ar gyfer meysydd risg gweithredol allweddol. Mae metrigau a thargedau risg meintiol hefyd ar waith ar gyfer meysydd risg gweithredol a chydymffurfiaeth.
- Mae'r tîm Rheoli Risgiau Corfforaethol yn monitro'r risgiau, gan gynnwys a ydynt o fewn yr awydd i gymryd risgiau neu y tu hwnt iddo.
- Mae'r swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch risgiau busnes allweddol, fel y bo'n briodol ac yn seiliedig ar ei chynllun archwilio.

2. Dadansoddi

- Rydym yn dadansoddi'r tebygolrwydd y bydd pob risg a nodwyd yn crisialu o ystyried y mesurau lliniaru sydd ar waith.
- Rydym yn asesu effaith bosibl materion ariannol, materion ymwneud ag enw da, materion cyfreithiol a rheoleiddiol, ystyriaethau gweithredol ac ystyriaethau iechyd a diogelwch.
- Ar y cyd, mae'r dadansoddiad hwn yn ein galluogi i bennu a oes angen rhoi mesurau lliniaru ychwanegol ar waith o ystyried ein hawydd i gymryd risgiau.

4. Monitro ac adrodd

- Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau, sy'n un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol, wedi dirprwyo awdurdod i fonitro gweithgareddau gweithredol allweddol, gweithgareddau allweddol o ran risg, gweithgareddau cydymffurfiaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phrosiectau. Mae hyn yn cynnwys gwella rheolaethau mewnol, goruchwyllo gweithgareddau unioni a chynnal archwiliadau dwfn o risgiau penodol.
- Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cael dangosfwrdd risgiau gweithredol a risgiau o ran cydymffurfiaeth bob deufis a chrynodeb risg bob chwarter sy'n cynnwys dangosfyrddau risgiau gweithredol a risgiau o ran cydymffurfiaeth.
- Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg yw adolygu a goruchwyllo prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg Grŵp y BBC, yn enwedig mewn perthynas ag adrodd ariannol a'r risgiau gweithredol allweddol sy'n wynebu'r Gorfforaeth. Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiad risg chwarterol sy'n ymdrin â meysydd risg gweithredol allweddol, meysydd risg o ran cydymffurfiaeth, meysydd risg sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cynnydd a pherfformiad yn erbyn metrigau a thargedau. Cynhelir archwiliadau dwfn o risg mewn meysydd penodol fel sy'n ofynnol.
- Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo risgiau strategol, ac mae Pwyllgor Gweithredol y BBC yn gyfrifol am reoli risgiau strategol. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad diweddarau risg chwarterol ar risgiau gweithredol allweddol, a risgiau o ran cydymffurfiaeth.
- Mae'r Is-adrannau a'r swyddogaethau yn cadw cofrestrau risg lleol a gaiff eu trafod yn ystod pwyllgorau llywodraethu Is-adrannol.

RHEOLI RISG YN Y BBC YN 2024/25

Mae rheoli risg yn effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y BBC, gan sicrhau ein bod yn ymdrin ag ansicrwydd ond yn diogelu ein henw da a'n gwerth i gynulleidfaoedd hefyd. Datblygodd y tirlun allanol yn 2024 yn gyflym, wedi'i lywio gan densiynau geowleidyddol, amgylchedd macroeconomaidd newidiol, newidiadau rheoleiddiol a mwy o fygythiadau seiber-ddiogelwch. Mae'r rhyfel parhaus yn Wcráin a'r amodau bregus yn y Dwyrain Canol yn parhau i gyflwyno heriau sylweddol. Ein prif flaenoriaeth o hyd yw sicrhau diogelwch ein staff a'n newyddiadurwyr sy'n gohebu o ardaloedd o wrthdaro ledled y byd. Mae'r cynnydd mewn gweithgarwch protestwyr yn y DU hefyd wedi cynyddu'r risgiau i'n safleoedd a'n pobl, gan olygu bod angen mesurau amddiffynnol cadarnach. Mae hyn yn erbyn cefndir o newidiadau sylweddol o ran tueddiadau cynulleidfaoedd a mwy o gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau fyd-eang.

Gan edrych i'r dyfodol, mae proses y Llywodraeth ar gyfer adolygu Siarter Frenhinol y BBC bellach yn mynd rhagddi. Byddwn yn parhau i reoli a monitro risgiau allweddol gan gynnwys model cyllido hirdymor digonol a dibynadwy sy'n galluogi'r BBC i ymateb i anghenion newidiol cynulleidfaoedd yn gyflym ac mewn ffordd ystywyth.

Gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Adrodd Ariannol y DU (UK-FRC):

Yn 2024/25, gwnaethom ddechrau rhoi Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig y DU ar waith, gan ganolbwyntio'n benodol ar Ddarpariaeth 29, sy'n cyflwyno datganiad cyfarwyddwyr newydd ynghylch rheoli risg perthnasol a rheolaethau mewnol. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i gyfnodau cyllid yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar gyfres o Risgiau Perthnasol a allai fygwth perfformiad y BBC yn y dyfodol, ei solfedd a'i enw da. Bydd ein gwaith yn atgyfnerthu ein prosesau a'n rheolaethau rheoli risg presennol ar gyfer risgiau gweithredol yn ogystal â'r rheolaethau mewnol dros risgiau adrodd ariannol. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar hierarchaeth risg tair haen sy'n cefnogi prosesau rheoli risg ar draws gwahanol lefelau o'r sefydliad h.y.

i. **Risgiau Perthnasol:** Risgiau wedi'u diffinio gan gyfeirio at ofynion y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd. Mae risgiau perthnasol yn risgiau sy'n cyflwyno bygythiad 'lefel ddirfodol' posibl i'r BBC. Caiff risgiau perthnasol eu goruchwyllo gan y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd wedi cytuno ar gyfres o 13 o risgiau perthnasol yn 2024/25 ar draws chwe maes risg h.y. cynulleidfaoedd; golygyddol; cyllido; technoleg; y gadwyn gyflenwi; diogelwch staff a risgiau diogelwch a'r risg adrodd ariannol. At ddibenion cyfnod adrodd 2024/25, rydym yn ystyried mai ein Risgiau Perthnasol yw'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad a amlinellir o dudalen 110 ymlaen.

ii. **Risgiau Blaenoriaeth eraill:** Risgiau ychwanegol sydd o bwysigrwydd arwyddocaol i'r BBC neu'r rhai hynny a allai arwain at achosion sylweddol o darfu ar y sefydliad cyfan. Caiff y gyfres hon o risgiau ei hadolygu a'i chymeradwyo ddwywaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Gweithrediadau, yn dilyn adolygiad ar draws y dacsonomeg risg lawn. Caiff Risgiau Blaenoriaeth eraill eu llywodraethu a'u goruchwyllo gan y Pwyllgor Gweithrediadau. Ar gyfer 2024/25, ystyriwyd y risgiau canlynol fel Risgiau Blaenoriaeth eraill ac felly cawsant eu monitro a'u goruchwyllo gan y Pwyllgor Gweithrediadau yn sgil eu harwyddocâd i amcanion y sefydliad: cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau rhyngwladol, diogelu data, risg trawsnewid a chynaliadwydd amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd.

iii. Risgiau Is-adrannol neu Swyddogaethol:

Risgiau a nodwyd yn lleol gan is-adrannau neu swyddogaethau – o bwysigrwydd arwyddocaol i'r is-adran honno a'i gallu i gyflawni ei hamcanion lleol. Caiff risgiau is-adrannol eu llywodraethu a'u goruchwyllo gan swyddogaeth llywodraethu'r Is-adran a gellir eu huwchgysylltu i'r Grŵp fel y bo angen.

Llywodraethu a Goruchwyllo Risg:

i. **Archwiliadau Dwfn o Risg:** Hwyluso trafodaethau manwl am feysydd risg penodol, lle mae perchnogion y risg yn cyflwyno'r rhagolygon risg, y statws presennol ac ymdrechion lliniaru sy'n mynd rhagddynt.

Yn 2024/25, cynhaliodd y Pwyllgor Gweithrediadau gyfres o archwiliadau dwfn o risg i ystyried meysydd fel diogelu, diogelwch, diogelwch newyddion risg uchel, diogelu data, rheoli cofnodion, bwlio ac aflonyddu, lles ar gynrychiadau, rheoli trethi ac adolygiad ar ôl digwyddiad a oedd yn ymwneud â digwyddiad lle cafwyd mynediad anawdurdodedig i storfa data. O safbwynt newid a thrawsnewid, ystyriodd y Pwyllgor Gweithrediadau y prosiectau arwyddocaol canlynol gan gynnwys: y rhaglen digidol yn gyntaf, Across the UK (prosiect i symud gwariant ar raglennu a chynhyrchu i rannau eraill o'r DU), East Bank (adleoli o stiwdios cerddoriaeth fyw presennol y BBC i Stratford, Dwyrain Llundain), ailddatblygiad Stiwdios Elstree, Contractau Allanol ar gyfer Prosesau Busnes, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Rheolaethau Rhyngwladol a'r Model Gweithredu ar gyfer Swyddfeydd Newyddion Rhyngwladol.

Am ragor o fanylion ar archwiliadau dwfn y Pwyllgor Archwilio a Risg, gweler adroddiad y Pwyllgor ar dudalen 105.

ii. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg o'r awydd i gymryd risg ar gyfer risgiau gweithredol:

Chwaraeodd y Pwyllgor ran hanfodol yn adolygu, herio a goruchwyllo'r awydd i gymryd risg ar gyfer risgiau gweithredol yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'i gyfrifoldebau goruchwyllo, gwerthusodd y Pwyllgor asesiad y rheolwyr o risg, craffodd ar fetrigau risg, targedau, senarios awydd i gymryd risg, camau gweithredu gan reolwyr ac amseroldeb gweithgarwch unioni ar gyfer risgiau Diogelwch Newyddion Risg Uchel, Diogelu, Diogelwch a Diogelwch Corfforaethol.

iii. **Tacsonomeg risgiau corfforaethol:** Yn 2024/25, gwnaethom ddiweddaru ein tacsonomeg risgiau corfforaethol i adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol a'n hamcanion gweithredol yn yr amgylchedd gweithredu presennol. Mae'r dacsonomeg yn gonglfaen i'n fframwaith risg ac mae'n ein galluogi i sicrhau cyflawnrwydd wrth nodi risgiau ac yn hwyluso prosesau cydgasglu a chysondeb o fewn ein hadroddiadau ar risg.

iv. Adnewyddu polisiau corfforaethol:

Cwblhawyd prosiect i adnewyddu ein polisiau corfforaethol er mwyn dadansoddi a symleiddio polisiau corfforaethol y BBC. Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau wedi cytuno ar gyfres briodol o bolisiau corfforaethol sy'n fyrrach ac yn haws i'w deall. Y cam nesaf fydd cyflwyno'r polisiau hyn a'u cyfleu i'r busnes.

v. Gweithgarwch sicrwydd ail linell:

Rydym wedi llunio rhaglen o weithgarwch sicrwydd ail linell ym meysydd Diogelwch; Diogelu; Diogelu Data a Chydymffurfiaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor Gweithrediadau am ganfyddiadau'r adolygiadau hyn a arweiniodd at weithgarwch unioni ym mhob rhan o'r BBC, gan ysgogi gwelliannau yn ein hamgylchedd rheoli.

vi. Adolygu ein strwythurau rheoli ar gyfer argyfyngau a digwyddiadau:

Diweddardwyd y protocolau Aur ac Arian ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch rolau, gwella prosesau uwchgyfeirio ac atgyfnerthu sianelau cyfathrebu. Nod y gwelliannau hyn yw gallu rheoli digwyddiadau critigol mewn ffordd fwy amserol, cydgyssylltiedig ac effeithiol.

Llywodraethu – parhad
Ein prif risgiau – parhad

BLAENORIAETHAU AR GYFER 2025/26:

- i. **O ran rhoi Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar waith**, byddwn yn parhau â cham nesaf ein prosiect sy'n cynnwys dogfennu rheolaethau perthnasol a phrofi eu heffeithiolrwydd dros y 12 mis nesaf, gyda tharged clir o ddarparu'r cadarnhad cyntaf i'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2027.
- ii. **Diwygio'r awydd i gymryd risgiau ar gyfer risgiau gweithredol**: Byddwn yn parhau i ddiwygio ein hawydd i gymryd risgiau ar gyfer risgiau gweithredol gan gynnwys risgiau technoleg a seiber ac i fonitro'r risgiau hynny lle nodwyd awydd.
- iii. **Ymarferion parhad busnes**: Byddwn yn profi cryfder ein trefniadau parhad busnes drwy gynnal ymarferion i ystyried gwahanol senarios gan gynnwys asesu ein cydnerthedd pŵer.

RISGIAU SY'N DOD I'R AMLWG

Bygythiadau annisgwyl a all ddatblygu yw risgiau sy'n dod i'r amlwg, neu fygythiadau sy'n bodoli eisoes ond y mae'n anodd meintoli eu heffeithiau. Cânt eu hystyried dros gyfnodau byrdymor, tymor canolig a thymor hwy.

Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu categorioeddio'n rhai allanol neu yn y farchnad, gwleidyddol, cyfreithiol a rheoleiddiol, gweithredol a thechnoleg.

2. EIN PRIF RISGIAU

Mae'r Bwrdd wedi cynnal asesiad o'r prif risgiau a wynebir gan y Grŵp, gan gynnwys y rheini a fyddai'n peryglu ei fodel busnes a'i berfformiad yn y dyfodol.

Ystyrir effaith y risgiau hyn wrth ddatblygu datganiad y BBC ynghylch hyfywedd. Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir gan y Grŵp wedi'u nodi isod:

Cynulleidfa	Cyllido	Golygyddol	
1. Anallu i gynnal más critigol o gynnwys o ansawdd uchel. 2. Anallu i dyfu cyrchfannau ar-lein mawr i ddiwallu anghenion newidiol ein cynulleidfaoedd 3. Anallu i gynnal dosbarthiad hawdd ei ddefnyddio i bawb ag amlygrwydd sylweddol ac elw gwerth priodol.	4. Gostyngiad sylweddol yn lefel yr incwm a geir gan y cyhoedd (ffîr drwydded) neu'r Llywodraeth (cyllid). 5. Dim digon o adnoddau ariannol i roi'r strategaeth ar waith.	6. Nid ystyrir bod y BBC yn ddarparwr newyddion a chynnwys diduedd a chywir yr ymddiriedir ynddo. 7. Risg o ledu camwybodaeth gan ddefnyddio cynnwys nas dilyswyd (yn aml wedi'i greu drwy ddeallusrwydd artiffisial) 8. Achosion sylweddol o dorri Safonau Golygyddol y BBC sy'n arwain at gosbau a/neu ddirwyon, yn ogystal â difrod i enw da	
Technoleg	Cadwyn Gyflenwi	Diogelwch Staff	Adroddiadau Ariannol
9. Methiant technoleg ddarlledu, technoleg ar-lein neu dechnoleg weithredol allweddol sy'n arwain at achos sylweddol o darfu ar weithrediadau, gan gael effaith negyddol ar staff a/neu gynulleidfaoedd. 10. Ymosodiad seiber sylweddol sy'n arwain at achos sylweddol o golli neu ddwyn data sensitif a ddelir gan y BBC neu gyfnod sylweddol estynedig o darfu ar wasanaethau.	11. Methiant cyflenwr allweddol, sy'n arwain at achos sylweddol o darfu ar weithrediadau ac effaith sylweddol ar y gynulleidfa a/neu staff.	12. Methiant i sicrhau diogelwch a lles unigolion y mae gennym ddyletswydd gofal tuag atynt, gan achosi niwed difrifol i'r unigolyn ac i enw da'r BBC.	13. Gallai rheolaethau annigonol dros y risg adrodd ariannol arwain at gamddatgan sylweddol mewn adroddiad statudol.

Allwedd dosbarthiad risg:

- Risg strategol
- Risg weithredol

Allwedd dibenion cyhoeddus:

- Darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiduedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch.
- Cynorthwyo pobl o bob oed i ddysgu.
- Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau.
- Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi creadigol ledled y DU.
- Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

Blaenoriaethau strategol allweddol:

- A Canfod gwirionedd heb unrhyw agenda
- B Cefnogi'r prosesau adrodd straeon cartref gorau
- C Dod â phobl ynghyd
- D Cyflymu trawsnewidiad y BBC

Allwedd i newidiadau risg:

- ▲ Mae'r risg wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn
- Mae'r risg wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn
- ▼ Mae'r risg wedi lleihau yn ystod y flwyddyn

RISGIAU I GYNULLEIDFAOEDD

1. Anallu i gynnal más critigol o gynnwys o ansawdd uchel

Effaith bosibl: Byddai gostyngiad yn ein harlwy o ran cynnwys yn debygol o gael effaith andwyol ar ein gallu i gyrraedd cynulleidfaoedd

Perchennog risg:	Y Prif Swyddog Cynnwys			
Cyfeiriad 2024/25:	▲			
Dibenion cyhoeddus:	2	3	4	5
Blaenoriaethau strategol:	A	B	C	

Diweddariad 2024/25: Rydym yn parhau i gomisiynu ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel gan amrywiaeth o bartneriaid cynhyrchu o bob cwr o'r DU. Fodd bynnag, mae macro dueddiadau, gan gynnwys pwysau ar gyllid y BBC, chwyddiant, gostyngiadau o ran lefelau comisiynu ehangach a ffynonellau cyllid trydydd parti, yn ei gwneud hi'n anos cynnal rhai genres a rhaglenni, yn enwedig allbwn Prydeinig wedi'i sgriptio o'r safon uchaf ac allbwn i blant, gan roi ein gallu i ddarparu gwerth i gynulleidfaoedd ac i gyflawni ein hamcanion diben cyhoeddus yn y fantol.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Mae strategaeth cyflenwi cynnwys a threfniadau llywodraethu ategol ar waith ac yn cael eu cynnal drwy fetrigau a thargedau llwyddiant
- Caiff targedau a metrigau cyflenwi cynnwys i helpu i wireddu'r strategaeth eu pennu bob blwyddyn
- Caiff modelau prynu cynnwys eu hadolygu drwy broses dreigl a phroses flynyddol ffurfiol er mwyn sicrhau y caiff cyllid ei ddyrannu'n briodol
- Monitro cynnwys – caiff perfformiad ei adolygu yn erbyn y targedau
- Ymgysylltu'n benodol â'r sector i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gystadleuol ar gyfer y syniadau gorau, ynghyd ag ysgogi'r sail gyflenwi greadigol ehangach yn y DU
- Gweithio gyda phartneriaid a denu partneriaethau newydd i gefnogi buddsoddiad yn ein cynnwys
- Dull cystadleuol ac effeithiol mewn perthynas â chytundebau a chontractau
- Amrywiaeth o fentrau i feithrin a chefnogi cyflwynwyr newydd, cyfranwyr newydd a staff newydd oddi ar yr awyr.

Risg weddilliol:

- Newidiadau yn y farchnad gynhyrchu gan gynnwys cytundebau cyfuno
- Newidiadau o ran strategaethau cystadleuwyr a chyfleoedd ar gyfer partneriaethau
- Cyfraddau cadw a'r gallu i ddenu sgiliau ar yr awyr ac oddi ar yr awyr ledled y DU
- Ystwythder wrth ddyrannu adnoddau.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Mwy o ymgysylltu â phartneriaid yn y sector
- Atgyfnerthu ymyriadau strategol a gweithgarwch wedi'i dargedu ar draws y gadwyn gyflenwi.

Metrigau allweddol:

- Targedau cyflenwi rhaglenni, gan gynnwys gwariant y tu allan i Lundain
- Adenillion o Fuddsoddi a pherfformiad
- Adborth gan gyflenwyr a gwybodaeth am weithio gyda'r BBC
- Buddsoddiad gan drydydd partion a thwf IP
- Metrigau ar yr awyr ar waith
- Cyfeintiau a chymysgedd gwariant ar allbwn
- Ariannol gan gynnwys cost fesul awr a buddsoddiad gan drydydd partion
- Perfformiad gan gynnwys Adenillion o Fuddsoddi.

Llywodraethu – parhad
Ein prif risgiau – parhad

2.Anallu i dyfu cyrchfannau ar-lein mawr i ddiwallu anghenion newidiol ein cynulleidfaoedd

Effaith bosibl: Ni all cynulleidfaoedd gael gwerth digonol o’n cynigion ar-lein, gan achosi i’r BBC golli cyfran o’r farchnad i ddarparwyr SVOD eraill ac, o ganlyniad, ei wneud yn llai abl i sicrhau gwerth i’r cyhoedd mewn byd digidol.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp
Cyfeiriad 2024/25:	>
Dibenion cyhoeddus:	12345
Blaenoriaethau strategol:	AB

Diweddariad 2024/25: Cafwyd blwyddyn lwyddiannus o dwf ar draws ein portffolio digidol, ond mae mwy o bwysau i barhau'n berthnasol mewn marchnad gynyddol gystadleuol, sy'n golygu bod angen trawsnewid yn gyflym. Mae'r penderfyniad diweddar i benodi Prif Swyddog Cynhyrchion i'r Pwyllgor Gweithredol fel arweinydd digidol; Prif Swyddog Cwsmeriaid fel arweinydd strategaeth data i'r BBC cyfan ac ailwampio'r trefniadau llywodraethu digidol oll wedi'u hanelu at ysgogi'r newid gofynnol.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Mae'r strategaeth ddigidol, wedi'i hategu gan y map ffordd digidol a'r strwythurau llywodraethu, yn darparu cyfeiriad i'r profiad digidol er mwyn diwallu anghenion newidiol ein cynulleidfaoedd
- Mae strwythurau llywodraethu (gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau a grwpiau adolygu) ar waith i gyflwyno a monitro'r strategaeth ddigidol unedig
- Caiff y map ffordd digidol ei adolygu gan y Prif Swyddog Cynhyrchion er mwyn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Strategaeth Ddigidol
- Caiff y cyllid a'r galluedd (adnoddau) sydd eu hangen i gyflwyno'r map ffordd digidol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol bob blwyddyn
- Caiff yr holl fuddsoddiadau sydd eu hangen i gyflwyno'r map ffordd eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Buddsoddi mewn Cynhyrchion.
- Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun Trawsnewid Digidol a'r map ffordd digidol ei fonitro
- Lansiwyd rhaglen rhuglder data sy'n anelu at wella sgiliau digidol staff ac arweinwyr, er mwyn cefnogi'r strategaeth
- Sefydlwyd Grŵp Llywio Hygyrchedd Digidol i oruchwyllo ac ysgogi gweithgareddau digidol i staff a chynulleidfaoedd ar draws y BBC
- Gwelliannau i'r arlwy cynhyrchion digidol ar gyfer dyfeisiau symudol, teledu a'r we
- Datblygiadau parhaus i'r profiad y tu hwnt i fewngofnodi
- Parhau i symleiddio a chysoni adnoddau a llwyfannau cyffredin er mwyn gwella profiad cynulleidfaoedd.

Risg weddilliol:

- Datblygu a mabwysiadu strategaeth llwyfannau digidol, ac ailwampio'r trefniadau llywodraethu er mwyn helpu i'w rhoi ar waith a'u mabwysiadu ar draws y BBC
- Cyflwyno gwelliannau i gynhyrchion a phrofiad y tu hwnt i fewngofnodi yn gyflymach er mwyn cyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer 2027. Mae gennym gynlluniau cadarn ar waith (cymeradwywyd y Cynllun Digidol ym mis Ionawr) ond mae angen i ni weithredu'n gyflymach
- Parhau i gysoni adnoddau/llwyfannau i gefnogi amser-i-werth cyflymach.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Cysoni'r sefydliad gan ddefnyddio strategaeth llwyfannau digidol unedig gan gynnwys y map ffordd i gynulleidfaoedd, cadwyn gyflenwi'r cyfryngau a chyfleoedd swyddfeydd cefn
- Ailwampio'r trefniadau llywodraethu digidol er mwyn rhoi'r strategaeth llwyfannau digidol ar waith
- Llunio'r gweithgareddau a'r gweithgorau priodol i helpu i roi'r strategaeth ddigidol unedig ar waith
- Datblygu cynllun twf byrdymor cadarn sy'n canolbwyntio ar gyflawni targedau Cyfrifon Gweithredol Wythnosol BA25.

Metrigau allweddol:

- Nifer y defnyddwyr sy'n mewngofnodi bob wythnos ar lwyfannau digidol y BBC
- % o gynulleidfya'r BBC sy'n defnyddio llwyfannau digidol y BBC
- Yr amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno cynhyrchion arfaethedig newydd i'r farchnad.

3. Anallu i gynnal dosbarthiad hawdd ei ddefnyddio i bawb ag amlygrwydd sylweddol ac elw gwerth priodol

Effaith bosibl: Gallai methu â chynnal dosbarthiad hawdd ei ddefnyddio i bawb ag amlygrwydd sylweddol ac elw gwerth leihau cyrhaeddiad y gynulleidfa, gostwng gweledd y brand a chyfyngu ar allu'r BBC i gyflawni ei genhadaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Perchennog risg: Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp

Cyfeiriad 2024/25:

Dibenion cyhoeddus:

Blaenoriaethau strategol:

Diweddariad 2024/25: Mae'r risg yn parhau'n sefydlog. Mae pwysau byd-eang a dynameg y farchnad yn parhau i ddatblygu yn erbyn buddiannau'r BBC ond mae camau lliniaru cadarn, cymorth gan y Llywodraeth a phrosesau ymgysylltu â'r diwydiant yn mynd rhagddynt.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Mae polisi dosbarthu, egwyddorion a gweithdrefnau uwchgyfeirio ar waith ac yn cael eu defnyddio
- Caiff llwyddiant yn erbyn y polisi dosbarthu ei fesur
- Caiff pob cais am gyllid i gefnogi llwyfannau a weithredir gan y BBC a phob buddsoddiad mewn cyd-fentrau ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd yn seiliedig ar yr adenillion o fuddsoddi a nodir mewn achos busnes
- Galluoedd sganio'r gorwel – mae systemau ar waith i nodi llwyfannau/technolegau newydd a allai effeithio ar amlygrwydd

Risg weddilliol:

- Mae dewisiadau cynulleidfaoedd yn symud i ffwrdd oddi wrth wasanaethau llinellol, lle mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus statws amlwg a llai o gystadleuaeth, i raglenni ffrydio ar alw
- Mae dylanwad Technoleg Fawr dros systemau teledu, seinyddion clyfar ac ecosystemau mewn ceir yn parhau i dyfu, ac mae'r hinsawdd wleidyddol yn ei gwneud hi'n anodd eu rheoleiddio
- Mae dynameg ariannol y farchnad deledu yn lleihau costau dyfeisiau ac yn cynyddu'r angen i weithgynhyrchwyr ddefnyddio rhyngwynebau â defnyddwyr i wneud elw drwy werthu amlygrwydd a rhoi blaenoriaeth i'w gwasanaethau eu hunain.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Cynyddu maint llwyfan Freely a sicrhau partneriaethau â gweithgynhyrchwyr
- Sicrhau diogelwch rheoleiddiol ac amlygrwydd (y Siarter, yr Adolygiad o'r Cyfryngau Gwasanaethau Cyhoeddus, rhoi Bil y Cyfryngau ar waith)
- Integreiddio cynhyrchion yn llwyddiannus â llwyfannau trydydd parti sy'n cefnogi amlygrwydd a phrosesau creu gwerth (e.e. dewisiadau Parhau i Wyllo, Pwysu a Dal, Cysylltu Cyfrifon)
- Ymgysylltu â'r llywodraeth i gynllunio dyfodol teledu er mwyn sicrhau bod y broses o drawsnewid o ddulliau darlledu i ddulliau Protocol y Rhyngwrdd o fudd i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus a chynulleidfaoedd.

Metrigau allweddol:

- Wedi mewngofnodi ar iPlayer (% y dyfeisiau yn ôl llwyfan)
- Cyfrifon gweithredol wythnosol iPlayer (% y dyfeisiau yn ôl llwyfan)
- Amser a dreulir yn defnyddio iPlayer (oriau fesul defnyddiwr yn ôl llwyfan)
- iPlayer fel cyfran o gyfanswm gwyllo Fideo ar Alw (% yn ôl llwyfan)
- Cyfran Gwylwyr BBC llinellol (% yn ôl llwyfan)
- Cyfanswm Cyfran Gwylwyr y BBC (% yn ôl llwyfan).

RISGIAU CYLLIDO

4. Ceir gostyngiad sylweddol yn lefel yr incwm a geir gan y cyhoedd (ffi'r drwydded) neu'r Llywodraeth (cyllid).

Effaith bosibl: Gostyngiad o ran lefel y gwasanaethau a ddarperir i gynulleidfaoedd a bygythiad i'r Gwerth i Bawb.

Perchennog risg: Prif Swyddog Cwsmeriaid

Cyfeiriad 2024/25:

Dibenion cyhoeddus:

Blaenoriaethau strategol:

Diweddariadau 2024/25: Mae'r risg yn parhau, ond roedd perfformiad yn ystod 2024/25 yn gadarnhaol gan gyflawni refereni uwch na'r lefel a gyllidebwyd. Mae'r trwyddedau sydd mewn grym wedi lleihau, ond o lai na'r lleihad mewn blynnyddoedd blaenorol.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Llunio a chymeradwyo strategaeth ar gyfer casglu ffi'r drwydded er mwyn cadarnhau ei bod yn parhau'n effeithlon, yn briodol ac yn gymesur
- Trefniadau rheoli'r gadwyn gyflenwi â phrosesau llywodraethu sefydledig
- Caiff y broses o fonitro incwm ffi'r drwydded a data adnewyddu ei hadolygu yn erbyn y cynllun a'r targedau.

Risg weddilliol:

- Newid yn ymddygiad cynulleidfaoedd a allai leihau'r awydd am gynnwys dan y drwydded neu gynyddu achosion o osgoi talu'r drwydded
- Anallu cyflenwyr critigol i weithredu oherwydd ansefydlogrwydd ariannol neu ymyriadau gweithredol gan felly effeithio ar incwm
- Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau dyfodol ariannol hirdymor cynaliadwy i BBC World Service.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Gwella'r broses oruchwylio fasnachol ar gyfer contractau a phartneriaid casglu refereniw
- Mwy o adnoddau i'r timau ymchwil, marchnata a chadw cwsmeriaid
- Adolygu gronynnedd patrymau talu i lywio gweithgareddau casglu refereniw.

Metrigau allweddol:

- Cyfraddau casglu ar gyfer refereniw ffi'r drwydded
- Achosion o adnewyddu debydau uniongyrchol
- Trwyddedau newydd a werthir (wedi'u darparu gan drydydd parti)
- Ad-dalu trwyddedau.

Llywodraethu – parhad
Ein prif risgiau – parhad

5. Dim digon o adnoddau ariannol i roi'r strategaeth ar waith

Effaith bosibl: Lleihau gwerth cyffredinol i'n cynulleidfaoedd gyda phosibilrwydd o ddirywiad mewn perfformiad cynulleidfaoedd.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Ariannol
Cyfeiriad 2024/25:	>
Dibenion cyhoeddus:	12345
Blaenoriaethau strategol:	B D

Diweddariadau 2024/25: Mae cynnydd da yn cael ei wneud i gyflawni arbedion, lleihau maint y BBC a gwella hyder yn ein gallu i gyflawni arbedion yn y dyfodol. Mae'r arbedion a gyflawnwyd wedi sicrhau cyllid i'r blaenoriaethau strategol er mwyn cynnig gwerth i gynulleidfaoedd.

- Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:**
- Caiff cynllun a chyllideb tair blynedd y Grŵp eu cymeradwyo gan y Bwrdd
 - Caiff cynllun tair blynedd y Grŵp ei adolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Gweithredol gan ystyried y risgiau a'r cyfleoedd
 - Cymeradwyo'r cynllun cyllido er mwyn creu rhagolygon
 - Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun masnachol ei fonitro bob chwarter.

- Risg weddilliol:**
- Gallai'r amgylchedd macro gan gynnwys chwyddiant uchel a'r cynnydd o ran costau cyflenwyr fod yn uwch na'r disgwyl

- Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:**
- Gwelliannau pellach i'r drefn adrodd ar gyfer arbedion, a risgiau a chyfleoedd
 - Gwella rheolaethau adrodd ariannol.

- Metrigau allweddol:**
- Perfformiad ariannol gwirioneddol yn erbyn y gyllideb gan gynnwys cyfamedau dyledion
 - Rhoi rhaglenni arbedion ar waith, ailstrwythuro DPAAu a lefelau hyder y cânt eu cyflawni yn y dyfodol
 - Adrodd a rhagolygon ar hyblygrwydd o ran arian parod a dyledion
 - Metrigau ar berfformiad endidau masnachol gan gynnwys gwerthiannau, EBITDA
 - Cydymffurfiaeth â lefelau dyledion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

RISGIAU GOLYGYDDOL

6. Nid ystyrir bod y BBC yn ddarparwr newyddion a chynnwys diduedd a chywir yr ymddiriedir ynddo

Effaith bosibl: Llai o ymddiriedaeth yn y BBC. Gall achosion difrifol o dorri rheolau arwain at ddirwyon gan Ofcom.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes y BBC
Cyfeiriad 2024/25:	^
Diben cyhoeddus:	15
Blaenoriaethau strategol:	A

Diweddariadau 2024/25: Gwellodd sgoriau cynulleidfaoedd ar gyfer didueddrwydd yn ystod 2024/25, gan gynnwys darllediadau o Etholiad Cyffredinol y DU. Er gwaethaf hyn, cafwyd heriau go iawn, gan gynnwys polareiddio safbwyntiau'r gynulleidfa o fewn amgylchedd gwleidyddol mwy rhanedig a'r awydd i weld y BBC yn adlewyrchu gwahanol safbwyntiau byd-eang ym mhob rhan o'n cynnwys. Mae digwyddiadau y ceir gwahaniaeth barn yn eu cylch fel y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, effaith y cyfryngau cymdeithasol a thwyllwbyodaeth a digwyddiadau sy'n effeithio ar enw da'r BBC hefyd yn dylanwadu ar ganfyddiadau o ran didueddrwydd.

- Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:**
- Rhaid i gynnwys y BBC ar unrhyw lwyfan gydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol. Mae'r Canllawiau Golygyddol yn cymhwyso didueddrwydd a chywirdeb priodol i bob cynnwys, gan fynd ymhellach na gofyniad Cod Darlledu Ofcom
 - Staff yn cwblhau hyfforddiant didueddrwydd
 - Lluniwyd Canllawiau Etholiad pwrpasol ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024
 - Caiff y cynllun didueddrwydd 10 pwynt ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Cwynion ac Adolygiadau Golygyddol i gadarnhau ei fod yn parhau'n briodol a'i fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol
 - Fframwaith monitro'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol (EGSC) mewn perthynas â rhoi Cynllun Didueddrwydd 10 pwynt y BBC ar waith
 - Safonau cynnwys, achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol, cwynion a gadarnhawyd a chydymffurfiaeth â Chod Ofcom yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Safonau Golygyddol a Chwynion (ESCC), EGSC a'r Bwrdd
 - Caiff EGSC ei gefnogi gan adnodd ymchwil penodol, adolygiadau thematig cynhwysfawr ac mae'n comisiynu gwaith ymchwil ar bynciau didueddrwydd er mwyn monitro cydymffurfiaeth
 - Mwy o rôl i EGSC o ran goruchwyllo cwynion
 - Caiff canfyddiad cynulleidfaoedd ac ystadegau ôl-ddarlledu eu monitro gan Fwrdd y BBC er mwyn cadarnhau bod y canlyniadau o fewn y terfynau goddefgarwch
 - Mae BBC Verify yn parhau i dyfu, wedi'i gefnogi gan fwy o waith hyrwyddo. Llwyddodd i drechu twyllwbyodaeth mewn perthynas â straeon rhyngwladol e.e. achosion o wrthdaro yn Wcráin, Israel-Gaza, etholiad yr UD ac eraill
 - Yn 2024/25, atgyfnerthwyd y tîm Polisi Golygyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar newyddion a materion cyfoes a chynnwys ffeithiol. Caiff materion didueddrwydd eu rheoli mewn ffordd ragweithiol drwy Restr Rhaglenni Risg a Reolir a Rhestr Baneri Coch y Bwrdd Gweithredol.

- Risg weddilliol:**
- Digwyddiadau annisgwyl yn effeithio ar enw da
 - Cyd-destun rhanedig/polareiddiedig y gynulleidfa ym maes y cyfryngau cymdeithasol
 - Cynnydd yn y pynciau y ceir gwahaniaeth barn yn eu cylch
 - Cynnydd mewn camwbyodaeth wedi'i hysgogi gan ddeallusrwydd artiffisial.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Cyflwyno Canllawiau Golygyddol 2025
- Rhaglen bellach o Adolygiadau Thematig ac Adolygiadau o Gynnwys Mewnol yn Is-adrannau Newyddion, Y Gwledydd a Chynnwys
- Nodi gwelliannau yn deillio o'r adolygiad o raglenni mewn perthynas â Gaza: *How to Survive a Warzone*.

Metrigau allweddol:

- Lefelau cwblhau hyfforddiant ar ddiueddrwydd
- Arolwg olrhain didueddrwydd
- Dysgu gwersi o unrhyw gwynion a gadarnhawyd
- Rheoli risgiau posibl o ran didueddrwydd drwy drafodaeth reolaidd ym Mhwyllgor Safonau Golygyddol a Chwynion y Bwrdd Gweithredol ac EGSC y Bwrdd
- Canlyniadau'r arolwg staff ar ddealltwriaeth staff o ddiueddrwydd.

7. Risg o ledu camwybodaeth gan ddefnyddio cynnwys nas dilyswyd (yn aml wedi'i greu drwy ddeallusrwydd artifffisial).

Effaith bosibl: Gallai lledu camwybodaeth drwy gynnwys nas dilyswyd wedi'i greu'n aml drwy ddeallusrwydd artifffisial gael effaith andwyol ar hygredd y BBC, lleihau ymddiriedaeth y cyhoedd, camarwain cynulleidfaoedd a thanseilio ei rôl fel ffynhonnell gwybodaeth gywir yr ymddiriedir ynddi.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes y BBC				
Cyfeiriad 2024/25:	▲				
Dibenion cyhoeddus	1	2	3	4	5
Blaenoriaethau strategol:	C	D			

Diweddariadau 2024/25: Mae tîm BBC Verify yn dod â sgiliau ymchwiliol arbenigol a deallusrwydd ffynhonnell agored ynghyd er mwyn gwirio ffeithiau, dilysu deunydd, trechu twyllwbyodaeth a dadansoddi data er mwyn cael gwybod y gwir. Sefydlwyd BBC Verify yn 2023 ac ers hynny, bu'n ymdrin ag achosion o wrthdaro ac etholiadau allweddol gan gynnwys yn y DU a'r UD yn 2024. Mae'r tîm wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer aelodau'r gynulleidfa sy'n cyrchu cynnwys BBC Verify.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Mae tîm BBC Verify yn prosesu ac yn dadansoddi deunydd y gofynnwyd amdano gan dimau allbwn neu y mae'n ofynnol i'r tîm ei ddilysu i'w ddarlledu. Defnyddir amrywiaeth eang o adnoddau gan gynnwys chwiliadau delweddau gwrthdro, crono leoliad a geo leoliad. Caiff deunydd y gofynnir amdano ac a gaiff wedyn ei ddilysu ei lanlwytho i adnodd digidol a'i ddefnyddio wedyn gan yr allbwn yn unol â'r canllawiau dilysu
- Caiff prosesau camwybodaeth a strwythurau llywodraethu eu hadolygu bob blwyddyn gan dîm BBC Verify
- Lle caiff y tîm ei hysbysu am gynnwys a allai fod yn ffug, bydd yn ymchwilio i'r deunydd ac wedyn yn cyfathrebu â'r timau priodol i gyflwyno ceisiadau dileu os bydd y deunydd yn dynwared y BBC
- Adolygiad blynyddol o Ganllaw a Phrosesau Dilysu'r BBC
- Adolygu a chymeradwyo polisi cyfryngau cymdeithasol personol y BBC gan y tîm Polisi Golygyddol.

Risg weddilliol:

- Mwy o gamwybodaeth ar raddfa fawr o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys cyfranogwyr gwladwriaethol
- Ystwythder wrth ddyrannu adnoddau cyfyngedig.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Ehangu tîm BBC Verify i gynnwys ffrwd fyw BBC Verify a thyfu ein presenoldeb ar lwyfannau eraill gan gynnwys YouTube a TikTok
- Ehangu gweithgareddau dilysu i gynnwys y Gwledydd a'r Rhanbarthau a thimau Newyddion byd-eang eraill. Sefydlu tîm BBC Verify parhaol yn UDA
- Mwy o lythrennedd y cyfryngau, BBC Verify yn cynnal gweithdai ag ysgolion ac yn cydweithio â BBC Education.

Metrigau allweddol:

- Ar gyfartaledd, mae dros ddwy filiwn o ymwelwyr unigryw yn defnyddio BBC Verify bob wythnos – tua dwy ran o dair ohonynt o'r DU a thraean o'r tu allan i'r DU. Mae traffig wythnosol wedi cynyddu bron 50% o un flwyddyn i'r llall.

Llywodraethu – parhad
Ein prif risgiau – parhad

8. Achosion sylweddol o dorri Safonau Golygyddol y BBC sy'n arwain at gosbau a/neu ddirwyon, yn ogystal â niwed i enw da.

Effaith bosibl: Torri safonau a all arwain at golli ymddiriedaeth yn y BBC a niwed i enw da. Gallai achos difrifol o dorri safonau arwain at ddirwyon gan Ofcom.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes y BBC
Cyfeiriad 2024/25:	➤
Dibenion cyhoeddus:	12345
Blaenoriaethau strategol:	A

Diweddariadau 2024/25: Cafwyd 40 achos o dorri'r safonau golygyddol yn 2024/25, a phum achos o'u torri'n ddifrifol. Rhoddwyd gwybod am bob un ohonynt i EGSC y Bwrdd a chymerwyd camau priodol i geisio lliniaru yn erbyn unrhyw broblemau yn y dyfodol. Ni wnaeth unrhyw un o'r achosion achosi niwed sylweddol i'n henw da. Yn ogystal, canfu Ofcom fod y BBC wedi torri ei God Darlledu ar dri achlysur. Nid oedd unrhyw un o'r achosion hyn yn ddigon difrifol i Ofcom weithredu drwy ddirwyon neu drwy roi cyfarwyddyd i'r BBC ddileu deunydd. Mae sgoriau ymddiriedaeth y BBC wedi parhau'n sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Mae'r Canllawiau Golygyddol ac arweiniad cysylltiedig ar gael i bawb sy'n gwneud cynnwys i'r BBC: gwasanaeth cyhoeddus, BBC Studios a gweithwyr annibynnol
- Mae modiwlau hyfforddiant safonau golygyddol ar waith a chaiff cyfraddau cwblhau eu monitro
- Mae proses uwchgysylltu cwynion golygyddol ar waith ac mae ESCC ac EGSC ac Ofcom yn monitro niferoedd a chanlyniadau
- Mae cynghorwyr Polisi Golygyddol yn gweithio gyda thimau rhaglenni ar gynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw i nodi risgiau posibl ac i roi cyngor o ran sut i liniaru'r risgiau
- Caiff gwiriadau archwilio annibynnol o weithdrefnau cydymffurfio ar gyfer cynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw eu cynnal
- Cyhoeddwyd Canllawiau Etholiad pwrpasol ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024 ac etholiadau eraill gan ddilyn cyngor manwl
- Mae polisi chwythu'r chwiban golygyddol ar waith ac ar gael i bob aelod o staff
- Rhoi gwybod i Bwyllgor Archwilio a Risg y BBC a'r EGSC am gwynion a datgeliadau chwythu'r chwiban
- Cyflwynir adroddiad ar gydymffurfiaeth â chanllawiau ar gyfer safleoedd cyfryngau cymdeithasol â brand y BBC a chanllawiau ar ddefnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol i'r Pwyllgor Safonau Golygyddol a Chwynion misol.

Risg weddilliol:

- Methiant i roi'r Canllawiau Golygyddol ar waith ac i ymgynghori neu atgyfeirio achosion fel y bo'n ofynnol.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Cyflwyno'r Canllawiau Golygyddol a'r arweiniad diwygiedig i bob rhan o'r BBC yn 2025/26
- Diweddarw modiwlau hyfforddiant y Polisi Golygyddol.

Metrigau allweddol:

- Monitro risgiau o ran safonau golygyddol drwy Restr Rhaglenni Risg a Reolir a Rhestr Baneri Coch bob mis
- Niferoedd a chanlyniadau cwynion a gadarnhawyd ac a ddatryswyd
- Achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol
- Penderfyniadau Ofcom.

RISGIAU TECHNOLEG

9. Methiant technoleg ddarlledu, technoleg ar-lein a/neu dechnoleg weithredol sy'n arwain at achos sylweddol o darfu ar weithrediadau, gan gael effaith negyddol ar staff a/neu gynulleidfaoedd

Effaith bosibl: Gallai gyfaddawdu ein hallbwn i'n cynulleidfaoedd a'n rhwymedigaethau i gynnal cadernid ein systemau darlledu a'n rhwydwaith.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp
Cyfeiriad 2024/25:	➤

Diweddariadau 2024/25: Mae'r BBC yn parhau i gydbwyso'r broses drawsnewid i roi strategaeth ddigidol y BBC ar waith, wrth i oblygiadau ehangach trawsnewid i wasanaeth Protocol Rhyngrwyd llawn i'r diwydiant gael eu trafod, ochr yn ochr â chynnal uniondeb a chydnerthedd gweithredol ein gwasanaethau craidd a pharhau i gyflawni ein rhwymedigaethau yn y Cytundeb i'r Siarter.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Cymorth gweithredol parhaus i gyflwyno digwyddiadau mawr, gan gynnwys Etholiad Cyffredinol y DU, Gemau Olympaidd Paris, UEFA Ewro 2024 ac etholiadau'r UD
- Caiff perfformiad gweithredol ein gwasanaethau darlledu ac ar-lein ei fonitro'n barhaus gan ddefnyddio amrywiaeth o fetrigau, a chaiff ei oruchwylio'n rheolaidd gan y Tîm Arwain Technoleg a Chynhyrchion a'r Pwyllgor Gweithrediadau. Mae materion sylweddol a senarios risg penodol yn cael eu goruchwylio o safbwynt llywodraethu corfforaethol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae targedau ar gyfer ein gwasanaethau allweddol yn rhan o'n trefniadau cytundebol â phartneriaid allweddol
- Mae prosesau a chynlluniau gweithredol ar gyfer rheoli digwyddiadau, cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb ar waith, yn cael eu cynnal a'u hymarfer, gan gynnwys ymarfer blynyddol ar gyfer cydnerthedd darlledu a gynhelir â rhanddeiliaid allweddol
- Caiff cydnerthedd ei ystyried wrth ddylunio systemau, gwasanaethau a seilwaith ategol allweddol, gan anelu at sicrhau nad oes unrhyw bwyntiau methu unigol yn ein systemau critigol.
- Yn 2024, cwblhawyd rhaglenni gwaith i wella ein cydnerthedd ymhellach, gan gynnwys cwblhau ein rhaglen graidd o Gontractau Allanol ar gyfer Prosesau Busnes a'r broses o drosglwyddo storfeydd archif
- Datblygu mapiau ffordd technoleg a chynnal prosiectau diwygio technoleg wedi'u targedu
- Blaenoriaethu buddsoddiad mewn technoleg yn seiliedig ar amcanion a blaenoriaethau cynulleidfaoel a gweithredol er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddewisiadau technoleg a lliniaru risg, gan gynnal adolygiad blynyddol a chytuno ar fuddsoddiadau cyfalaf mewn technoleg.

Risg weddilliol:

- Gan fod newidiadau technolegol a'r broses o ddatblygu technolegau newydd fel deallusrwydd artifisial cynhyrchiol yn cyflymu, ceir ffocws allweddol ar risgiau seiber a risgiau yn y gadwyn gyflenwi.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Cynllunio a sicrhau parodrwydd ein cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb mewn ymateb i senarios risg gweithredol penodol
- Penderfyniadau buddsoddi i sicrhau dyfodol ein menter graidd, cysylltedd a gwasanaethau technoleg casglu referniw
- Buddsoddiad wedi'i dargedu mewn rhaglenni trawsnewid mawr i gynnal uniondeb gweithredol a safoni a symleiddio cadwyn gyflenwi'r cyfryngau, er enghraifft drwy gyfuno systemau comisiynu ac amserlennu.

Metrigau allweddol:

- Argaeledd, cywirdeb ac ansawdd gwasanaethau
- Nifer y digwyddiadau, a'u difrifoldeb
- Perfformiad yn erbyn targedau mewnol a chytundebol y cytunwyd arnynt
- Monitro yn erbyn cytundebau lefel gwasanaeth cyflenwyr trydydd parti allweddol
- Canfyddiadau archwiliadau mewnol a chamau gwella.

10. Ymosodiad seiber sylweddol sy'n arwain at achos sylweddol o golli neu ddwyn data sensitif a ddelir gan y BBC neu gyfnod sylweddol estynedig o darfu ar wasanaethau.

Effaith bosibl: Gallai ymosodiad seiber sylweddol arwain at golli data neu gyfaddawdu data'r BBC neu gyfnod estynedig o darfu ar wasanaethau, gan arwain at ymyriadau sylweddol i weithrediadau, ac effaith sylweddol ar y gynulleidfa a/neu staff.

Perchennog risg: Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp

Cyfeiriad 2024/25: ▲

Diweddariadau 2024/25: Mae'r tirlun o ran bygythiadau seiber yn datblygu o hyd ac yn dod yn gynyddol ddynamig a chymhleth, wedi'i waethygu gan densiynau geowleidyddol, ochr yn ochr â newidiadau yn y tirlun rheoleiddiol byd-eang a chyflymder a maint cynyddol newidiadau a datblygiadau technolegol.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- Gwaith asesu risg a chynllunio parodrwydd i gefnogi darllediadau o Etholiad Cyffredinol y DU, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a rhanddeiliaid allweddol
- Rheolaethau seiberddiogelwch gweithredol i ddiogelu seilwaith a data'r BBC rhag ymosodiadau seiber
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i atgyfnerthu ein mesurau lliniaru presennol ymhellach mewn ymateb i achos o dorri safonau mewn storfa data datblygu meddalwedd, gan gynnwys arferion dylunio diogel a sefydlwyd mewn partneriaeth â'n cydweithwyr cynhyrchu
- Caiff prosesau goruchwyllo a thrafodaethau am fygythiadau seiber lefel uchaf i'r BBC eu trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
- Gwell trefniadau ar gyfer monitro ein tirwedd bygythiadau, wedi'u hategu gan asesiadau bygythiadau seiber, prosesau i ddatblygu rhybuddion ymatebol a systemau awtomataidd ar gyfer canfod bygythiadau
- Rheoli gwendidau er mwyn canfod a rheoli bygythiadau a dileu gwendidau i ystâd y BBC
- Fframwaith Polisiâu a Safonau Diogelu Gwybodaeth wedi'i ategu gan gyrsiau hyfforddiant gorfodol ar Ddiogelu Data a Seiberddiogelwch i holl staff y BBC ac ymgyrch ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch a deunyddiau cyfathrebu penodol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth bersonol o seiberddiogelwch ym mhob rhan o'r BBC
- Mae prosesau a chynlluniau gweithredol ar gyfer rheoli digwyddiadau, cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb ar waith, yn cael eu cynnal a'u hymarfer. Yn 2024, gwnaed gwelliannau i gynlluniau a gweithdrefnau ymateb i ddigwyddiadau gan ganolbwyntio ar systemau sy'n cynnal data sensitif. Cafodd effeithiolrwydd dulliau canfod ac ymatebion eu profi drwy dimau coch allanol.

Risg weddilliol:

Rydym yn rheoli ein risgiau seiber gweddilliol gan ddefnyddio proses barhaus, ag adroddiadau a phrosesau goruchwyllo rheolaidd ar gyfer risgiau gweddilliol blaenoriaeth uchel gan arweinwyr a chyrrff llywodraethu corfforaethol, wedi'u llywio gan asesiadau risg rheolaidd, adolygiadau o effeithiolrwydd rheolaethau a gwaith i fonitro'r tirlun bygythiadau, er mwyn cynnal safbwynt cymesur ac ymatebol. Mae'r themâu o ran risgiau gweddilliol allweddol yn parhau i gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi trydydd parti, cyfranogwyr bygythiadau seiber a noddir gan wladwriaethau yn targedu Seilwaith Cenedlaethol Critigol, gan gynnwys y DU; a chyfranogwyr seiberdroseddol.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Gwaith cynllunio ac ymgysylltu â Llywodraeth y DU a diwydiant i atgyfnerthu ein cydnerthedd a'n gallu i ymateb i'r tirlun bygythiadau seiber datblygol ymhellach, gyda bygythiadau cynyddol yn sgil geowleidyddiaeth a rheoli effaith newidiadau rheoleiddiol h.y. Bil Seiberddiogelwch a Gwydnwch y DU
- Sicrhau cysondeb â Fframwaith Asesu Seiber y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y pen draw i asesu a mesur rheolaethau diogelu gwybodaeth a chydnerthedd y BBC
- Parhau i ddefnyddio arbenigedd trydydd parti annibynnol i roi sicrwydd ac i wella ein haeddfedrwydd risg seiber.

Metrigau allweddol:

- Nifer y digwyddiadau seiber, eu math a'u difrifoldeb
- Cymhwyso rheoliadau diogeledd allweddol sy'n cwmpasu asedau a systemau gwybodaeth critigol
- Statws gwaith rheoli patsys diogeledd
- Statws derbyn risg weddilliol
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol
- Canfyddiadau adolygu sicrwydd allanol.

Llywodraethu – parhad
Ein prif risgiau – parhad

RISG YN Y GADWYN GYFLENWI

11. Methiant cyflenwr allweddol, sy'n arwain at achos sylweddol o darfu ar weithrediadau ac effaith sylweddol ar y gynulleidfa a/neu staff.

Effaith bosibl: Achosion sylweddol o darfu ar weithrediadau, gan arwain at oedi i wasanaethau, anfodlonrwydd ymhlith cynulleidfaoedd, straen ar staff, colledion ariannol ac achosion posibl o dorri rheoliadau.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Ariannol y Grŵp
Cyfeiriad 2024/25:	➤

Diweddariadau 2024/25: Cymeradwywyd polisi Caffael diwygiedig a chaiff ei ategu gan God Ymddygiad newydd i Gyflenwyr a gweithdrefnau ategol. Dyluniwyd model gweithredu caffael newydd ac mae'n cael ei roi ar waith. Fel rhan o hyn, penodwyd perchennog proses fyd-eang ar gyfer rheoli cyflenwyr. Gwaith ymgysylltu parhaus ag uwch-dîm rheoli ein partner casglu Ffi'r Drwydded i drafod uwchraddio'r system.

- Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:**
- Yn 2024/25 ac mewn ymateb i amgylchedd macroeconomaidd/geowleidyddol gelyniaethus a digwyddiadau diweddar gyda chyflenwyr, dechreuwyd adolygu rheolaethau rheoli contractau (gan gynnwys rheoli risg)
 - Mae polisiau a gweithdrefnau ar waith i ddenu a rheoli cyflenwyr allweddol
 - Y rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i dimau rheoli contractau cyflenwyr allweddol
 - Asesiad blynyddol o gyflenwyr allweddol er mwyn cadarnhau eu bod yn briodol ac yn effeithiol
 - Cynnal gwiriadau cyn ymrwymo i gontactau â chyflenwyr allweddol
 - Adolygiad chwarterol o gyflenwyr allweddol er mwyn cadarnhau sefydlogrwydd ariannol a chydymffurfiaeth ar lefel gwasanaeth.

- Risg weddilliol:**
- Gall risgiau geowleidyddol ac amodau macroeconomaidd a risgiau anwadalrwydd parhaus gael effaith uniongyrchol ar gadwyn gyflenwi fyd-eang y BBC
 - Gall methiannau gweithredol annisgwyl, seiber ddigwyddiadau neu newidiadau i is-gontactwyr hefyd darfu ar y gwasanaethau a ddarperir.

- Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:**
- Adolygu ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwyr allweddol wrth drefnu contractau allanol
 - Sefydlu fframwaith trydydd parti/safonau llywodraethu i liniaru bygythiadau i weithrediadau a data'r BBC a gyflwynir gan ymosodiadau seiber ar gyflenwyr
 - Caiff portffolio cyflenwyr y BBC ei ailddosbarthu/segmentu a chaiff strategaethau a rheolaethau trin priodol eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyflenwyr yn methu a'r risgiau i brosiectau allweddol y BBC
 - Caiff dull ar draws y fenter i fonitro ac adrodd ar risgiau ei sefydlu, gan gynnwys camau i wella cydnheredd ar gyfer digwyddiadau macroeconomaidd a geowleidyddol.

- Metrigau allweddol:**
- % y cyflenwyr Haen 1 a 2 sy'n perfformio yn erbyn CLGau cytundebol
 - % y cyflenwyr Haen 1 a 2 sydd â rheolaethau priodol ar waith
 - Sgôr Cyflawni lechyd Portffolio yn seiliedig ar sgoriau risg busnes Dunn and Bradstreet ar gyfer portffolios cyflenwyr.

RISG DIOGELWCH A DIOGELEDD

12. Methiant i sicrhau diogelwch a lles unigolion y mae gennym ddyletswydd gofal tuag atynt, gan achosi niwed difrifol i enw da'r BBC.

Effaith bosibl: Gallai methiant i sicrhau diogelwch a lles unigolion o dan ein dyletswydd gofal arwain at niwed difrifol, gan gael effaith andwyol ar enw da, canlyniadau cyfreithiol a lleihau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC.

Perchennog risg:	Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp
Cyfeiriad 2024/25 :	➤

Diweddariadau 2024/25: Mae'r BBC yn parhau i wynebu protestiadau ar sawl safle ledled y DU mewn ymateb i faterion geowleidyddol parhaus. Ar yr un pryd, mae sawl un o'n newyddiadurwyr wedi cael eu targedu ag achosion o aflonyddu ar-lein, gan arwain at roi mesurau lliniaru ar waith. Rydym wedi rhoi cymorth i weithrediadau casglu newyddion ledled y byd. Mae'n werth nodi mai'r BBC oedd y darlledwr cyntaf i gyflawni nod barcud y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI PAS 5222) ar gyfer safonau diogelu i leoliadau y tu allan i'r ysgol – meincnod sy'n arwyddocaol yn genedlaethol sy'n adlewyrchu ein harweinyddiaeth a'n llywodraethu cadarn ym maes diogelu ym mhob rhan o'r Grŵp y BBC er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

- Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:**
- Mae rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar ddiogelwch a diogelu ar waith
 - Mae polisiau, gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu ar waith ym maes diogelwch, diogeled a diogelu
 - Mae proses asesu risg ar waith ar gyfer lleoliadau rhyngwladol risg uchel. Hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Newyddion risg uchel neu'n eu goruchwyllo
 - Asesiadau risg diogelu ar gyfer pob cynhyrchiad sy'n cynnwys unigolion o dan 18 oed
 - Mae proses asesu risg ar waith ar gyfer digwyddiadau Haen un y BBC; adeiladau Seilwaith Cenedlaethol Critigol
 - Mae proses asesu risg lechyd a Diogelwch ar waith
 - Yn 2024, gwnaethom barhau i gefnogi gweithrediadau casglu newyddion yn Wcráin a hwyluso'r broses o gael staff y BBC yn ddiogel allan o Gaza
 - Lanswyd llwyfan cofnodi digwyddiadau ar gyfer cofnodi pryderon ynghylch materion diogelu yn 2024
 - Lansio gwaith sicrwydd ar draws y BBC ar gyfer gweithgareddau diogelu a diogelwch.

- Risg weddilliol:**
- Risgiau diogeled a bygythiadau i fywyd sy'n gysylltiedig ag anfon staff i leoliadau risg uchel
 - Protestiadau ac Aflonyddwch Sifil: Gall protestiadau yn swyddfeydd neu safleoedd cynhyrchu'r BBC ddatblygu'n achosion o wrthdaro, gan beri risg i staff, ymwelwyr a seilwaith
 - Ymosodiadau wedi'u Targedu ar Newyddiadurwyr a Staff: Gall newyddiadurwyr, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymdrin â phynciau sensitif neu ddadleuol, fod yn destun aflonyddu, ymosodiadau corfforol neu ymgyrchoedd gwyliadwriaeth
 - Mynediad Heb Awdurdod a Bygythiadau o'r Tu Mewn: Unigolion sy'n cael mynediad heb awdurdod i gyfleusterau neu systemau'r BBC, naill ai'n gorfforol neu drwy beirianeg gymdeithasol
 - Terfysgaeth a Bygythiadau Eithafol: Fel sefydliad cyfryngau proffil uchel, gallai'r BBC fod yn darged symbolaidd i grwpiau eithafol.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Rhoi system rheoli diogelwch byd-eang newydd ar waith
- Rheoli diogelwch a diogeledd mewn digwyddiadau a chynrychiadau yn y DU, gan gynnwys rhoi darpariaethau ar waith o dan Gyfraith Martyn (Diogelu Safleoedd – Bil Terfysgaeth)
- Rhoi arferion diogelu ar waith ym mhob Is-adran, gan gynnwys adolygu proses gwirio cofnodion troseddol a phrosesau llywodraethu cysylltiedig
- Adolygu ac ailwampio canllawiau diogelwch
- Uwchraddio peiriannau pelydr-x mewnol.

Metrigau allweddol:

- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant
- Nifer y digwyddiadau adroddadwy RIDDOR, gan gynnwys digwyddiadau fu bron â digwydd
- Nifer y digwyddiadau difrifol
- Nifer y pryderon diogelu a godwyd
- Nifer y profion treiddio sydd wedi arwain at fynediad heb awdurdod i un o adeiladau'r BBC.
- Lefelau diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod ymweliadau sicrwydd ac arolygiadau
- Camau agored ar gyfer gwella sy'n deillio o'r ymweliadau sicrwydd a'r arolygiadau.

13. Risg Adrodd Ariannol – Camddatgan Sylweddol mewn Adroddiadau Ariannol.

Effaith bosibl: Gallai rheolaethau annigonol dros y risg adrodd ariannol arwain at gamddatgan sylweddol mewn adroddiad statudol.

Perchennog risg: Prif Swyddog Ariannol y Grŵp

Cyfeiriad 2024/25: >

Dibenion cyhoeddus: 1 2 3 4 5

Blaenoriaethau strategol: B D

Diweddariadau 2024/25: Gwnaethom ddechrau prosiect i ddatblygu Fframwaith Rheolaethau Mewnol dros Adrodd Ariannol (ICFR), i bennu cwpas, nodi risgiau a phrofi rheolaethau. Rydym yn defnyddio dull gweithredu dau gam. Mae cam un yn canolbwyntio ar naw maes allweddol sy'n gysylltiedig â phrosesau adrodd ariannol, cyfuno, dyfarniadau cyfrifyddu ac amcangyfrifon, adolygiadau rheolwyr o wybodaeth ariannol a thrafodion untro sylweddol e.e. gwarediadau neu gaffaeliadau. Caiff y risgiau hyn eu rheoli drwy well rheolaethau cyfrifyddu. Bydd cam dau yn canolbwyntio ar y rheolaethau sydd ar waith ar gyfer metrigau datganiadau ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Rheolaethau a mesurau lliniaru allweddol:

- **Cyflwyno Rheolaethau Sylfaenol Disgwyliedig mewn perthynas â risgiau adrodd ariannol sylweddol gan gynnwys:**
 - Cofnodion a Gwblheir â Llaw – Rhannu dyletswyddau a rheolaethau perthnasol i adolygu Cofnodion a Gwblheir â Llaw
 - Gwell trefniadau ar gyfer cysoni mantolenni a chyflwyno egwyddorion cadarnhau gan gynnwys prisio a mesur
 - Dyfarniadau cyfrifyddu a'r broses amcangyfrif
 - Proses adolygu mantolenni diwedd chwarter wedi'i hategu gan ardystiadau gan y Cyfarwyddwr Cyllid
 - Prosesau adrodd statudol a phrosesau sy'n allweddol i'r Grŵp
 - Adolygu trafodion anghyffredin sylweddol
 - Mae trefniadau awdurdodi dirprwyedig ar waith
 - Mae rheolaethau Cyfrifiadureg Defnyddiwr Terfynol (EUC) ar waith.
- **Cyflwyno fframwaith ICFR** – Mae Eitemau Llinell Datganiadau Ariannol Risg Uchel yn cael eu dogfennu drwy gydol y broses gan nodi risgiau a rheolaethau allweddol y cytunwyd arnynt.

Risg weddilliol:

- Mae angen amser i roi rheolaethau effeithiol wedi'u cynllunio'n ofalus ar waith fel rhan o brosesau cyfrifyddu
- Gall fod ymyriadau gweithredol dros dro neu achosion o fabwysiadu anghyflawn
- Gallai bylchau mewn rheolaethau olygu na chaiff gwallau neu achosion o dwyll eu canfod.

Gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2025/26:

- Parhau i weithredu Fframwaith ICFR ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Rhoi camau unioni wedi'u targedu ar waith lle bo angen.

Metrigau allweddol:

- Y camddatganiadau gwirioneddol a nodir
- Monitro'r arsylwadau a gwblheir ar y systemau ariannol a'r achosion y rhoddir gwybod amdanynt o ganlyniad i archwiliadau allanol
- Ansawdd cysoni'r fantolen a nifer y cofnodion a gwblheir â llaw
- Cyfraddau llwyddiant Dylunio Rheolaethau ac Effeithiolrwydd Gweithredol.

Llywodraethu – parhad
Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'Busnes Gweithredol'.

Ystyriodd Bwrdd y BBC y cynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2028 a chymeradwywyd cyllideb 2025/26. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfmodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagolwg cysylltiedig o lifau arian parod, yw setliad ffi'r drwydded sy'n pennu paramedrau ariannol y BBC o 2025/26 i 2027/28, y Siarter a'r Cytundeb sy'n diogelu ffi'r drwydded tan 2027 ynghyd â thybiaethau cwmipas ffi'r drwydded, lefel cyfraniadau Cynllun Pensiwn y BBC, amodau'r farchnad sy'n effeithio ar Grŵp Masnachol y BBC a rhoi'r cynlluniau trawsnewid ac arbedion ar waith yn llawn.

Mae'r cynllun tair blynedd yn seiliedig ar y dybiaeth y caiff y Siarter a'r Cytundeb eu hadnewyddu'n sylweddol ar eu ffurf bresennol y tu hwnt i 2027. Ar y sail hon, caiff effeithiau allweddol adnewyddu'r Siarter eu cofnodi fel rhan o'n hasesiad risg o gyllid ffi'r drwydded, ond cânt eu hadolygu'n rheolaidd. Defnyddir modelu tymor hwy i asesu senarios ffi'r drwydded ond ni ddisgwyli'r bydd unrhyw effeithiau perthnasol ar hyn o bryd yn ystod cyfnod y cynllun tair blynedd.

Cynhaliwyd y prisiad teirblwydd diwethaf o Gynllun Pensiwn y BBC ar 1 Ebrill 2024. Mae'r cynllun tair blynedd yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd lefelau cyfraniadau presennol yn parhau'n gymharol sefydlog dros gyfnod y cynllun. Mae hyn yn cael ei fonitro o hyd ar y cyd ag ymddiriedolwyr annibynnol Cynllun Pensiwn y BBC.

Yn dilyn asesiad risg manwl o'n cynlluniau arbedion yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwnaethom asesu lefel uwch o risg yn gysylltiedig â rhai prosiectau trawsnewid ym mlynnyddoedd pellach y cynllun, ac mae rhywfaint o'r risg hon yn berthnasol o hyd yn ein hasesiad cyfredol. O ganlyniad, byddwn yn rhoi prosesau goruchwyllo a ffocws gweithredol ychwanegol ar waith mewn perthynas â'r meysydd hyn. Mae rheolwyr y BBC wedi rhoi mwy o brofion straen ariannol a dadansoddiad o sensitifrwydd ar waith yn ein harferion cynllunio ariannol, gyda threfniadau llywodraethu a chymorth ychwanegol gan y Bwrdd. Caiff adroddiadau chwarterol eu paratoi ar reoli arian parod, cynnydd arbedion ac olrhain risgiau er mwyn sicrhau bod prosesau lliniaru risgiau yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r broses hon yn rhoi mwy o amlygrwydd i ragamcanion arian parod blynnyddoedd i ddod.

Yn ogystal â phroses y gyllideb, cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn ein prif risgiau, gan gynnwys y rhai hynny a fyddai'n bygwth ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Ar gyfer 2025/26, mae'r farchnad cyfryngau sy'n newid yn barhaus, y gofyniad i'r BBC drawsnewid er mwyn galluogi ei strategaeth Gwerth i Bawb a chynnal parodrwydd i dalu ffi'r drwydded yn gofyn am brosesau rheoli llym er mwyn cyflawni dibenion y BBC gyda'r cyllid sydd ar gael. O ganlyniad, gwnaethom gynnal profion straen ariannol ychwanegol a dadansoddiad o sensitifrwydd, gan ystyried incwm sy'n wynebu risg ac effaith bosibl risgiau eraill, er enghraifft, oedi wrth gyrraedd targedau arbedion, crisialu risgiau ariannol eraill, a heriau o ran y lefel ddisgwyliedig o ddifidendau i'w talu gan Grŵp Masnachol y BBC i'r BBC.

Cynhaliwyd dadansoddiad o sensitifrwydd mewn perthynas â'r llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai'r prif risgiau yn cael eu gwireddu, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthyca uchaf drwy fodelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy (gweler y tabl), ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthyca drwy gydol y cyfnod tair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa arian parod bresennol Grŵp y BBC, y prif risgiau a'r dadansoddiad o sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

Rydym wedi ystyried effaith risgiau newid yn yr hinsawdd ac nid ydym o'r farn y byddent yn cael effaith ariannol sylweddol ar y busnes yn ystod y cyfnod asesu. Gweler ein Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (tudalen 70) am ragor o fanylion.

Risg	Senario a fodelwyd	Mesur lliniaru a fodelwyd
Newid i Bris Ffi'r Drwydded	Mae methodoleg Pris Ebrill 2025 wedi dychwelyd i gyfartaledd 12 mis, ond mae pris ffi'r drwydded yn parhau'n sensitif i newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Modelwyd – gostyngiad o 50 bps yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o gymharu â rhagolygon Banc Lloegr	Rydym wedi archwilio nifer o fesurau lliniaru lefel uchel, sy'n gyson â'r broses o gyflawni strategaeth Gwerth i Bawb y BBC a gan sicrhau'r adenillion mwyaf o fuddsoddiad. Byddai hyn yn rhoi blaenoriaeth i arbedion o weithgarwch nad yw'n ymwneud â chynulleidfaoedd fel cyfyngu ar a/neu oedi gwariant cyfalaf a gwariant ar brosiectau, ynghyd ag archwilio cynigion masnachol amgen. Yn y pen draw, gallai mentrau gynnwys rhannu mwy o gynnwys rhwng gwasanaethau, lleihau'r gwariant cyffredinol ar gynnwys a newid y cymysgedd genre.
Symudiad negyddol ym maint y boblogaeth sydd â thrwydded	Gallai newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, risgiau seiber, yr amgylchedd economaidd presennol a lefel y cynnydd mewn prisiau effeithio ar gyfraddau adnewyddu a phrynu trwyddedau. Modelwyd – gostyngiad yn niferoedd ffi'r drwydded uwchlaw'r cyfraddau sydd wedi'u cynnwys yn y rhagolygon.	
Gostyngiad yn lefel y difidendau a delir gan Grŵp Masnachol y BBC	Mae difidendau a delir gan Grŵp Masnachol y BBC yn ailddosbarthu cyllid ar draws Grŵp y BBC ac yn galluogi'r BBC i gynnal balansau arian parod positif. Modelwyd – gostyngiad mewn difidendau ym mlynnyddoedd pellach y cynllun ariannol.	
Y risg arbedion neu grisialu risgiau arian parod eraill	Modelwyd – effaith cynlluniau arbedion heb eu cyflawni'n llawn neu achosion tebygol o wireddu risgiau ariannol eraill.	

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Rôl y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yw sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau a bennwyd gan Fwrdd y BBC yn ei Ganllawiau Golygyddol a bod y BBC yn atebol i dalwyr ffi'r drwydded drwy ei broses gwynion. Fel un o is-bwyllgorau Bwrdd y BBC, mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn monitro ac yn adrodd i'r Bwrdd ar risgiau golygyddol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg ac yn dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am gyflawni safonau golygyddol y BBC ar ran y gynulleidfa. Mae'r Pwyllgor yn rhoi unrhyw benderfyniadau ar safonau golygyddol gan y Bwrdd ar waith ac yn gweithredu fel y rhyngwyneb rhwng y BBC ac Ofcom ar safonau golygyddol, gan gwrdd ddwywaith y flwyddyn. Cymerais yr awenau fel Cadeirydd ar 2 Gorffennaf 2024.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cynnydd yn parhau gyda'r ymrwymïadau a wnaed yn Adolygiad Serota a Chynllun Didueddrwydd y BBC a bod y gwersi a ddysgir o'r gwaith hwn yn cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r BBC. Yn ystod y flwyddyn hon, asesodd y Pwyllgor y sylw a roddodd y BBC i'r pynciau mwyaf dadleuol, gan gynnwys y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol ac effaith newid gwleidyddol yn y DU ac yn rhyngwladol. Cefnogir y Pwyllgor yn y rôl hon gan adnoddau ymchwil penodol, adolygiadau thematig mawr ac adroddiadau gan y Bwrdd Gweithredol ar bynciau y gofynnir yn benodol amdanynt.

POLISI A SAFONAU GOLYGYDDOL

Ym mis mai, cyhoeddwyd Etholiad Cyffredinol y DU, a ddechreuodd raglen waith bwysig i sicrhau bod ymrwymiad y BBC i gywirdeb a diwydrwydd dyladwy yn cael ei adlewyrchu yn yr holl ddarllediadau o'r etholiad a bod yr holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn cael eu cyflawni. Cafodd canllawiau pwrpasol ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol eu llunio a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor, a gymeradwyodd y broses i ddyrannu Darllediadau Etholiadol y Pleidiau hefyd. Cafodd y Pwyllgor ei friffio ar y broses ar gyfer delio â chwynion mewn cyfnod etholiadol a chynhaliodd y BBC broses gyfathrebu barhaus ag Ofcom ddyddiad draw. Ar y cyfan, gwelwyd cynnydd yn sgoriau didueddrwydd cynulleidfaoedd ar gyfer y BBC yn ystod cyfnod yr etholiad.

Cymeradwyodd y Pwyllgor ganllawiau etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2025 yn Lloegr hefyd, a'r broses i ddyrannu Darllediadau Etholiadol y Pleidiau ar gyfer yr etholiadau hyn.

Parhaodd gwaith manwl i oruchwylio'r broses o adolygu Canllawiau Golygyddol y BBC ar ran y Bwrdd, gan ganolbwyntio ar gytuno ar y telerau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o'r Canllawiau Golygyddol drafft a'r testun drafft. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng 7 Tachwedd a 19 Rhagfyr 2024. Cymeradwyodd y Pwyllgor newidiadau o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn a'r testun terfynol dilynol. Cyhoeddwyd Canllawiau Golygyddol 2025 a byddant yn weithredol yn ffurfiol ar gyfer yr holl allbwn ar 1 Medi 2025.

Mae'r Pwyllgor wedi cael ei ddiweddarau am faterion golygyddol eraill sy'n dod i'r amlwg fel y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â defnyddio deallusrwydd artifisial.

ADOLYGIADAU GOLYGYDDOL

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r Adolygiadau Thematig a gomisiynwyd gan y Bwrdd, gan argymhell pynciau i'w hadolygu a datblygu cylch gorchwyl i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Ceir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yr adolygiadau drwy gydol y flwyddyn.

Cyhoeddwyd yr ail Adolygiad Thematig annibynnol ar ddiueddrwydd cynnwys y BBC – ar fudo – ar 7 Mai 2024. Pan gyhoeddais fy mhenodiad fel Cadeirydd y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2023, cymerais gam yn ôl o'r adolygiad hwn yr oeddwn wedi bod yn ei arwain ar y cyd â Dr Madeleine Sumption. Aeth hithau ymlaen i gwblhau ein gwaith ac ysgrifennu'r adroddiad a gyhoeddwyd. Cynhaliodd raglen ymgysylltu sylweddol â staff a chyflwynwyd perthnasol ar ôl ei gyhoeddi, gan dynnu sylw at brif bwyntiau'r adolygiad fel rhan o ymateb y Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad yn cael eu rhoi ar waith.

Cyhoeddwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y trydydd Adolygiad Thematig ar Bortreadau a Chynrychiolaeth ar 29 Mai 2024. Mae ei gyd-awduron Anne Morrison a Chris Banatvala wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU er mwyn deall ystod y safbwyntiau ar effeithiolrwydd y BBC wrth gynrychioli holl gynulleidfaoedd y BBC ar draws ei gynnwys a'i wasanaethau.

Mae'r adolygiadau yn fynegiant pwysig o hyd o ymrwymiad y Pwyllgor i fonitro didueddrwydd ym mhob rhan o'r BBC ac mae wedi llunio canllawiau ymarferol iawn i'r BBC a'i staff i gynnal y safonau golygyddol uchaf ar y pynciau pwysig hyn. Mae'r Pwyllgor a'r Bwrdd wedi cytuno y bydd yr adolygiad thematig nesaf yn ystyried y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, yn dibynnu ar y sefyllfa elyniaethus yno. Mae'r Pwyllgor wrthi'n cytuno ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y pedwerydd Adolygiad hwn a gaiff ei gynnwys yn y flwyddyn adrodd nesaf.

Caiff y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Ymchwil i'r Gynulleidfa ar ganfyddiadau'r cyhoedd o ddiueddrwydd, y broses o roi polisi Chwythu'r Chwiban Golygyddol y BBC ar waith a monitro hynt y Cynllun Didueddrwydd.

Cafodd y pwyllgor ddiweddariad ar effeithiau Adolygiadau Cynnwys Mewnol a gynhaliwyd gan Bwyllgor Gweithredol y BBC. Mae 12 o feysydd cynnwys wedi mynd drwy'r broses hyd yma. Mae'r adolygiadau yn sicrhau bod cynnal trafodaethau cadarn ynghylch safonau golygyddol yn rhan ganolog o waith y timau golygyddol ym mhob rhan o'r BBC.

CWYNION GOLYGYDDOL A GWERSI A DDYSGWYD

Un o swyddogaethau craidd y Pwyllgor yw goruchwylio proses gwynion y BBC a sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllawiau Golygyddol y BBC a Chod Darlledu Ofcom. Ar 29 Tachwedd 2024, cyhoeddodd Ofcom ganlyniadau'r 'ymarfer siopwr cudd' mwyaf a gynhaliwyd ganddo erioed ar weithdrefn gwyno'r BBC a oedd yn cynnwys mwy na 500 o deithiau cwynion ar draws sawl sianel gwyno. Daeth Ofcom i'r casgliad cyffredinol bod y newidiadau a wnaed gan y BBC i'w broses gwynion ers 2022 yn cyflawni'n dda i gynulleidfaoedd.

Gwelwyd bod y wefan gwyno yn hawdd ei defnyddio, a bod yr ymatebion yn amserol, yn glir ac yn hawdd eu deall ar y cyfan. Nododd Ofcom y gwelwyd gwell cysondeb yn y broses o ddarparu gwybodaeth am uwchgyfeirio cwynion, er y nodwyd rhywfaint o amrywioldeb yn amseroldeb ac ansawdd ymatebion Cam 1b. O ran boddhad cwsmeriaid, sgoriodd Cam 2 yn dda, gyda 38 allan o 44 o achwynwyr yn nodi eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon.

Cafodd y BBC 160,465 o gwynion ar gam 1. Ymdriniwyd â 95% o gwynion ar gam 1a o fewn 10 diwrnod gwaith yn erbyn targed o 93%.

Ymdriniodd yr Uned Cwynion Gweithredol â 658 o gwynion golygyddol ar gam 2 o broses gwynion y BBC yn 2024/25. Canfu'r Uned fod y BBC wedi torri safonau golygyddol ar 40 achlysur. Cafodd y broses ar gyfer uwchgyfeirio cwynion yn uniongyrchol i'r Uned Cwynion Gweithredol ei rhoi ar waith ar ôl materion ynghylch y rhaglen ddogfen *Gaza: How to Survive a War Zone* a chomisiynwyd ymchwiliad llawn i ganfod ffeithiau gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 27 Chwefror 2025.

Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn cael manylion am bob cwyn, ac mae'n trafod achosion o dorri safonau ac unrhyw faterion cysylltiedig â'r Bwrdd Gweithredol. Cyflwynir y ffigurau cwynion hyn i Fwrdd y BBC hefyd. Daethpwyd ag 89% o gwynion ar gam 2 i ben o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion cam 2 cymhleth yn erbyn targed o 80%.

Llywodraethu – parhad
Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol – parhad

Ym mlwyddyn adrodd 2024/25, canfu Ofcom fod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu ar dri achlysur. Roedd y rhain mewn perthynas â chwynion a aeth i Ofcom o dan ei gylch gwaith Tegwch a Phreifatrwydd ac nid drwy system BBC First. Canfu Ofcom fod *The Detectives: Fighting Organised Crime*, BBC Two, 23 Mawrth 2021, wedi torri amodau preifatrwydd yr achwynydd a ddangoswyd yng nghlipiau'r heddlu heb gymryd camau digonol i guddio ei hunaniaeth; canfu fod *Under the Skin: The Botched Beauty Business*, BBC Three, 24 Mehefin 2021 yn annheg i'r achwynydd (perchennog busnes harddwch a ymddangosodd yn y rhaglen) drwy beidio ag adlewyrchu ei honiad iddi roi hyfforddiant digonol yn y broses o roi botox; a chanfu nad oedd John Darvall, Radio Bristol, 11 Medi 2023, wedi cynnig cyfle priodol i'r achwynydd ateb beirniadaeth ohono yn y rhaglen, gan arwain at annhegwch iddo.

Ynghyd â'r achosion o dorri'r safonau golygyddol a ganfuwyd gan yr uned Cwynion Gweithredol yn 2024/25, nodwyd yr achosion difrifol canlynol o dorri'r safonau golygyddol gan y Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn:

Rhoddodd *Midlands Today* sylw i arddangosiad Palestina Rydd leol yn Birmingham a oedd dim ond yn cynnwys cyfraniadau gan bobl ar yr orymdaith a oedd yn hyrwyddo cadoediad parhaol gan y rhai o bob ffydd a dim ffydd. Nid oedd cyd-destun i'r darn ac nid oedd yn cyrraedd safonau golygyddol y BBC ar gyfer didueddrwydd. Camau a gymerwyd: Rhoddwyd camau mwy cadarn ar waith i oruchwyllo straeon lleol am y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol a chyflwynwyd rhagor o hyfforddiant didueddrwydd ledled Lloegr gan ddechrau yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

Darlledodd *Election 2024* ar ffrwd y DU o Sianel BBC News adroddiad a oedd yn cynnwys darllediad o Nigel Farage yn siarad mewn digwyddiad Reform UK. Ar ddiwedd yr adroddiad, disgrifiodd y cyflwynydd iaith Mr Farage fel 'inflammatory'. Nid oedd hyn yn cyrraedd safonau golygyddol y BBC ar gyfer didueddrwydd. Camau a gymerwyd: Ymddiheurodd y cyflwynydd i'r gwylwyr ar yr awyr yn ddiweddarach, ac i Mr Farage, a dderbyniodd yr ymddiheuriad yn gyhoeddus. Rhannwyd adroddiad/nodyn o'r ymddiheuriad hefyd ar safle Cywiro ac Egluro y BBC.

Cafodd plentyn ei gynnwys mewn cyfres o *BMX All Stars* ar CBBC ac iPlayer heb gydsyniad ei rieni. Camau a gymerwyd: Nododd yr achos hwn o dorri safonau golygyddol broblem yn y broses cydsynio â chwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae'r BBC wedi diweddar'u broses gydymffurfio i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd.

Gwisgodd cyflwynydd ddillad heb eu brandio o'i ystod dillad wrth gyflwyno darllediadau'r BBC o'r gêm bêl-droed rhwng Lloegr a Serbia yn *Euros 2024*. Camau a gymerwyd: Cafodd y cyflwynydd ei atgoffa o Ganllawiau Golygyddol y BBC ar Wrthdaro Buddiannau ac mae wedi sicrhau na fydd yn gwisgo'r brand dillad hwnnw ar yr awyr eto.

Nododd erthygl ar-lein BBC Verify ar yswiriant ceir "Areas with a high number of people from ethnic minorities saw higher prices, even when road accident and crime levels were similar". Ni wnaeth yr adroddiad esbonio'n glir ac yn ddigon llawn pam yr oedd premiymau yn uwch (gan fethu gwahaniaethu rhwng achosiaeth a chydyberthynas) na chyfyngiadau'r data a ddefnyddiwyd ac a nodwyd. Camau a gymerwyd: Tynnwyd yr erthygl ar-lein i lawr a rhoddwyd datganiad ar y wefan Cywiro ac Egluro.

Rhoddwyd gwybod am bob achos difrifol o dorri'r canllawiau golygyddol i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a'r Bwrdd, a rhoddwyd gwybod i Ofcom, lle y bo'n berthnasol, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor a'n Cynghorwyr Allanol, Caroline Daniel a Michael Prescott, am eu gwaith craffu manwl ar bob agwedd ar ein gwaith. Daeth cyfnod Syr Nicholas Serota fel aelod o'r Bwrdd i ben ar 3 Ebrill 2025 a 2024/25 oedd ei flwyddyn olaf fel aelod o'r Pwyllgor. Bu'n aelod eithriadol o'r Pwyllgor, gwasanaethodd fel Cadeirydd am ddwy flynedd, gan arwain Adolygiad Serota a'i roi ar waith gyda'r Pwyllgor ar ran y Bwrdd. Mae ei brofiad, ei gefnogaeth, ei wybodaeth a'i gyngor doeth wedi gwella gwaith y BBC yn ddi-os a diolchwn iddo am yr effaith enfawr a gafodd a'i gyfraniad parhaus at safonau golygyddol y BBC. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y rôl uwch sy'n cael ei chwarae gan aelodau o'r Bwrdd Gweithredol, ac yn ddiolchgar am hyn wrth iddo gynnal adolygiadau a dadansoddiadau golygyddol ac mewn cyfarfodydd rheolaidd ag Ofcom, yn ogystal â diwygio'r Canllawiau Golygyddol.

Samir Shah
Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau
a Safonau Golygyddol
27 Mehefin 2025

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

Mae'r pedwar Pwyllgor ar gyfer y Gwledydd yn cefnogi'r Bwrdd drwy adolygu a monitro allbwn a pherfformiad y BBC ar draws y DU.

Yn yr adran hon ceir adroddiad gan y Cadeirydd ar waith pob Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

CYMRU

Mae'n bleser gennyf gael fy mhenodi fel Aelod Cymru o Fwrdd y BBC a chymryd yr awenau gan y Fonesig Elan Closs Stephens fel Cadeirydd Pwyllgor Cymru. Hoffwn ddiolch i'r Fonesig Elan am ei chyfraniad sylweddol i'r BBC, yn enwedig yma yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu Pwyllgor Cymru bedair gwaith. Ymunodd Michael Smyth, Rhodri Talfan Davies, Rhuanedd Richards, Kate Phillips a Rhys Evans â mi.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys datblygu gwasanaethau ar-lein y BBC yng Nghymru ar draws newyddion a chwaraeon, partneriaeth strategol y BBC ag S4C, y dirwedd hawliau chwaraeon a rôl rhaglenni wedi'u sgriptio a heb eu sgriptio mawr yn y broses o hyrwyddo perfformiad iPlayer yng Nghymru.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Pwyllgor yn y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd: ac yng Ngholeg Merthyr Tudful lle clywsom hefyd gan randdeiliaid, aelodau o'r gynulleidfa a myfyrwyr y Coleg. Roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod ar y cyd â Phwyllgorau'r Gwledydd eraill yn y BBC yn Belfast wrth i ni geisio gwella'r prosesau cydweithio rhwng y gwledydd a dysgu gan ein gilydd.

Rwyf wedi cwrdd â rhanddeiliaid allweddol a chynulleidfaoedd ac wedi bod i ddigwyddiadau sy'n bwysig i BBC Cymru gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru. Cefais y pleser o gwrdd â staff ar safleoedd y BBC ledled Cymru gan gynnwys Aberystwyth, Caerfyrddin, Bangor a Wrecsam ynghyd â'n timau darllediadau awyr agored penodol.

Bu'n flwyddyn brysur a llwyddiannus i ni yma yng Nghymru gyda digwyddiadau chwaraeon byw yn rhoi llwyfan i chwaraeon yng Nghymru gan gynnwys: darllediadau o gystadleuaeth rygbi'r Chwe Gwlad i ddynion a menywod, ynghyd ag ymgyrch tîm pêl-droed y dynion i gyrraedd Cwpan y Byd a gemau cymhwysio llwyddiannus y menywod ar gyfer yr Ewros; darllediadau newyddion o'r Etholiad Cyffredinol a chomisiynau sylweddol gan gynnwys y comedi *Mammoth* a'r ddrama *Lost Boys and Fairies*.

Roedd yn flwyddyn llawn arloesedd digidol parhaus hefyd. Ehangodd BBC Radio Cymru 2 ei horiau i fod yn wasanaeth llawn ac ar BBC Sounds, darparodd ein podlediadau raglenni sydd o ddiddordeb i Gymru ar draws amrywiaeth o bynciau. Wrth i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd ddatblygu, mae siâp ein hallbwn hefyd wedi newid. Gwelwyd cynnydd sylweddol ym meysydd digidol chwaraeon yn benodol, gyda ffocws newydd ar dyfu brandiau presennol fel *Scrum V* a *A Feast of Football*.

Fel llawer o sefydliadau, bu'n rhaid i ni wynebu dewisiadau anodd wrth i ni geisio lleihau ein sylfaen costau, a diwygio'r sefydliad ar yr un pryd i wynebu heriau tirwedd y cyfryngau sy'n newid yn gyflym. Hoffwn ddiolch i'n staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad wrth i ni wynebu'r heriau hyn.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalen 48 ac ar dudalen 234. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC Cymru ewch i [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/wales](https://www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/wales)

Michael Plaut

Cadeirydd Pwyllgor Cymru
27 Mehefin 2025

YR ALBAN

Fel Cadeirydd Pwyllgor yr Alban, mae'n bleser gennyf groesawu Hayley Valentine i'w rôl fel Cyfarwyddwr yr Alban ac rwy'n ddiolchgar i'w rhagflaenydd Steve Carson am ei waith caled a'i ymroddiad.

Cyfarfu Pwyllgor yr Alban bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Ymunodd Samir Shah, Rhodri Talfan Davies, Steve Carson, Hayley Valentine, Jon Petrie a Luke McCullough â mi. Gwnaethom gyfarfod yng Nghaeredin, Glasgow ac Aberdeen ac roeddem hefyd yn bresennol mewn cyfarfod ar y cyd ar gyfer holl aelodau Pwyllgorau'r Gwledydd a gynhaliwyd yn Belfast.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi trafod ac adolygu nifer o feysydd hanfodol, gan gynnwys newidiadau newyddion mawr a gyflwynwyd gan BBC Scotland ym mis Ionawr, perfformiadau cynulleidfa BBC Radio Scotland, rôl drama teledu yn hyrwyddo twf iPlayer ac adnewyddu partneriaeth y BBC ag MG ALBA.

Ynghyd â'r Pwyllgor, rwyf wedi cwrdd â chwmnïau cynhyrchu annibynnol yn Glasgow; wedi cefnogi darllediadau Gaeleg mewn digwyddiadau â phartneriaid MG ALBA yn Llundain a ledled yr Alban; ac wedi ymweld â chanolfan y BBC yn Dundee, cyn y cynlluniau i adleoli canolfan y BBC yn y Ddinas.

Pan oeddwn yn Dumfries, clywais am y gwaith ar wasanaethau dewisol lleol yn Ne yr Alban a chynhaliats grŵp ffocws yn Aberdeen am y sylw a roddir gan y BBC i straeon gwledig ac amgylcheddol yn yr Alban.

Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad y BBC yn yr Alban ar dudalen 49 ac ar dudalen 238. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC Scotland ewch i [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/scotland](https://www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/scotland)

Muriel Gray

Cadeirydd Pwyllgor yr Alban
27 Mehefin 2025

Llywodraethu – parhad
Adroddiadau Pwyllgorau’r Gwledydd – parhad

GOGLEDD IWERDDON

Cyfarfu Pwyllgor Gogledd Iwerddon bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Ymunodd Nicholas Serota, Rhodri Talfan Davies, Adam Smyth, Fiona Campbell a Mark Adair â mi.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar: y gwaith adnewyddu ar raddfa fawr yn y Ganolfan Ddarlledu a'r buddiannau a ddaw yn sgil hyn; yr amserlen a newidiadau eraill sy'n effeithio ar BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle; datblygu cyd-gomisiynau ar gyfer teledu rhwydwaith y BBC; a pherfformiad gwasanaethau rhwydwaith lleol a rhwydwaith y BBC yng Ngogledd Iwerddon.

Rhoddodd dathliadau canmlwyddiant BBC Northern Ireland y cyfle i mi gwrdd â rhanddeiliaid lleol mewn digwyddiadau ledled y rhanbarth. Ac roedd yn bleser gennyf groesawu cynrychiolwyr dinesig a chymunedol i gyngerdd nodedig yng Nghadeirlan Belfast, a ddarlledwyd i gyd-fynd â'r union adeg y clywyd radio'r BBC am y tro cyntaf yng Ngogledd Iwerddon ym mis Medi 1924. Roedd derbynwest y Llywydd i'r BBC yn Adeiladau'r Senedd, gan gynnwys presenoldeb Gweinidogion Gweithredol ac MLAs, yn uchafbwynt personol arall dros y 12 mis diwethaf. Roedd yr holl weithgarwch hwn yn cydnabod rôl bwysig unigryw y BBC mewn bywyd cymunedol, y gwahaniaeth y mae hynny'n ei wneud a'i botensial ar gyfer y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu ymhellach â Gweinidogion a rhanddeiliaid am flaenoriaethau Siarter newydd y BBC. Ac rwy'n ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i siarad â mi am y BBC a'i waith. Gwelwyd newid cyson ym mhob maes dros y 12 mis diwethaf, ynghyd ag ymrwymiad i ragoriaeth a gwasanaethu holl gynulleidfaoedd y BBC.

Yn ogystal â Chadeirio Pwyllgor Gogledd Iwerddon, roedd yn bleser gennyf gynnal cyfarfod ar y cyd o Bwyllgorau'r Pedair Gwlad yn Belfast. Mae'r cyfarfod hwn nawr yn rhan reolaidd o'n calendr fel Pwyllgor ac mae'n cynnig cyfle i rannu profiadau, dealltwriaeth a gwybodaeth ar draws y gwledydd. Yn ystod y dydd, gwelodd yr aelodau brosiect adnewyddu Canolfan Ddarlledu Belfast, recordiad o'r rhaglen banel gomedi *The Blame Game* a chafwyd sesiynau briffio ar dirwedd wleidyddol a diwylliannol Gogledd Iwerddon.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalen 50 ac ar dudalen 242. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC Northern Ireland, ewch i bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/northernireland

Michael Smyth
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon
27 Mehefin 2025

LLOEGR

Cyfarfu Pwyllgor Lloegr bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Ymunodd Nicholas Serota, Rhodri Talfan Davies, Jason Horton, Patricia Hidalgo ac Adrian Mills â mi. Gwnaethom gyfarfod yn Nottingham, Blackburn a Llundain ac roeddem yn bresennol mewn cyfarfod ar y cyd ar gyfer holl aelodau Pwyllgorau'r Gwledydd a gynhaliwyd yn Belfast.

Rhan fawr o waith Pwyllgor Lloegr yn ystod y flwyddyn oedd craffu ar berfformiad gwasanaethau lleol y BBC ers i'r newidiadau allweddol gael eu gwneud i gynyddu darpariaeth ddigidol yn 2023. Mae hyn wedi cynnwys asesiad o'r perfformiad darlledu ac ar alw o un flwyddyn i'r llall, a ffocws ar gamau ychwanegol a gyflwynwyd gan y tîm arwain i gefnogi prosesau goruchwyliaeth olygyddol a didueddrwydd yn ein hystafelloedd newyddion.

Rwy'n falch bod yr Uned Comisiynu Sain yn Lloegr y parhau i gyflwyno cynnwys ffeithiol newydd, gan gynnwys cyfres newydd o'r podlediad poblogaidd *Lovebombed*.

Achubais ar y cyfle i gwrdd ag aelodau cynulleidfaoedd, rhanddeiliaid allanol a staff y BBC a byddaf yn gwneud mwy o hyn dros y flwyddyn i ddod. Roeddwn yn arbennig o falch o weld y gwaith a wnaed gan BBC Radio Lancashire gyda gwobrau *Make a Difference* yn Blackpool a'r sylw a roddwyd i'r *Big Swim* ar gyfer BBC Plant mewn Angen.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn Lloegr ar dudalen 51 ac ar dudalen 245. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC England ewch i bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/england

Robbie Gibb
Cadeirydd Pwyllgor Lloegr
27 Mehefin 2025

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

BARN AM DREFNIADAU MASNACHU TEG

Yn ein rôl fel darparwr sicrwydd rhesymol Masnachu Teg y BBC, rydym wedi asesu'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i gydymffurfio â'r agweddau ar Fasnachu Teg mewn perthynas â gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.

Cyfrifoldebau Bwrdd y BBC

Mae Ofcom wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu Masnachu Teg a llunio ymatebion i risgiau o'r fath a'u rhoi ar waith.

EIN HANNIBYNIAETH A RHEOLI ANSAWDD

Rydym wedi cydymffurfio â gofynion Cod Moeseg ICAEW o ran annibyniaeth a materion moesegol eraill – cod sy'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd proffesiynol a sylw dyladwy, cyfrinachedd ac ymddygiad proffesiynol.

Gwnaethom gymhwyso'r Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (y DU) 1 ("ISQM (UK) 1"), a bennwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Yn unol â hynny, gwnaethom gynnal system ansawdd gynhwysfawr gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau a ddogfennwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheolaethol cymwys.

EIN CYFRIFOLDEBAU

Rydym yn gyfrifol am fynegi barn am reolaethau mewnol y BBC i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Trefniadau Masnachu Teg, yn seiliedig ar ein gwaith sicrwydd. Gwnaethom gynnal proses sicrwydd rhesymol yn unol â Safon Ryngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 (Diwygiedig), Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

Mae'n ofynnol i ni gynllunio a chyflawni ein gweithdrefnau er mwyn cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.

Cynhaliwyd asesiad risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar gyfundrefn reoli Masnachu a Gwahanu'r BBC a oedd fwyaf tebygol o arwain at beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hyn. Dewiswyd achosion unigol o ohebiaeth masnachu teg y BBC i'w hadolygu, a gwnaethom archwilio cofnodion ysgrifenedig a chyfweld â phartion perthnasol ar gyfer pob un. Fel rhan o'n gwaith, archwiliwyd y trefniadau ar gyfer prisiau trosglwyddo a gwahanu, defnyddio brand y BBC a thalu amdano, a chymhwyso gofyniad y Siarter Frenhinol nad yw gweithgareddau masnachol y BBC, o ganlyniad i'w cydberthynas â gwasanaethau cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth neu weithgareddau masnachu, yn ystumio'r farchnad nac yn rhoi mantais gystadleuol annheg.

Cyfngiadau annatod

Mae pob system rheolaeth fewnol yn destun cyfyngiadau, ac yn unol â hynny efallai na fydd y rheolaethau mewnol a sefydlwyd gan y BBC yn atal nac yn canfod pob achos o beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

DEFNYDDIO EIN HADRODDIAD

Lluniwyd yr adroddiad hwn i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Cynhaliwyd ein gwaith er mwyn i ni allu hysbysu'r Pwyllgor Masnachu Teg am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad sicrwydd annibynnol ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r BBC am ein gwaith, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Deloitte LLP

Llundain, y DU
27 Mehefin 2025

Llywodraethu – parhad
Adroddiad y Bwrdd Masnachol

Y flwyddyn hon, gwelwyd BBC Commercial yn cyflawni'r perfformiad gorau erioed mewn amodau anodd ynghyd â chydabyddiaeth greadigol eang. Enillodd prosesau adrodd straeon Content Studio wobrau yn yr Oscars, BAFTAs, Emmys a'r Golden Globes, a *Bluey* oedd y rhaglen a ffrydiwyd fwyaf yn y DU yn 2024, wrth i drawsnewidiad y busnes barhau ar gyflymder.

Mae'r cwmni'n cwmpasu holl weithrediadau masnachol Grŵp y BBC, y mae BBC Studios yn brif gangen fasnachol iddynt, gan gynnwys y Content Studio, sianelau a gwasanaethau ffrydio. Mae'n cefnogi ac yn hyrwyddo strategaeth Grŵp y BBC drwy ei arbenigedd creadigol, gan gyflwyno cynnwys ffeithiol, adloniant, comedi, drama, sain a phlant nodedig i gynulleidfaoedd byd-eang, ynghyd ag adroddiadau newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo gan y BBC. Mae'r cwmni'n gweithio mewn partneriaeth â rhai o gwmnïau'r cyfryngau, brandiau defnyddwyr a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gorau yn y byd ac yn gwneud cynnwys ar eu cyfer.

Ymysg yr uchafbwyntiau o ran cynnwys roedd y ffilm nodwedd *Conclave*, a wnaed gan House Productions, a enillodd bedwar BAFTA a Gwobr Academy ychydig cyn diwedd y flwyddyn, 20fed flwyddyn *Strictly Come Dancing* yn y DU wrth i boblogrwydd y brand rhyngwladol, *Dancing with the Stars*, barhau. Gwnaeth y teitlau wedi'u sgriptio *A Good Girl's Guide to Murder* a *Ghosts* yn dda iawn gyda chynulleidfaoedd yn y DU a ledled y byd.

Ynghyd â newidiadau strwythurol mewn ymddygiad cynulleidfaoedd byd-eang sydd wedi effeithio ar ei farchnadoedd gweithredu, mae BBC Commercial wedi gweld newid sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ers sefydlu strategaeth newydd i amrywio ei fusnes ymhellach, a chefnogi nodau hirdymor y BBC.

Yn y pedair blynedd diwethaf, mae ôl troed cynhyrchu rhyngwladol BBC Studios wedi ehangu i diriogaethau newydd ac wedi atgyfnerthu ei weithgareddau yn ei farchnadoedd craidd, gyda chyfanswm o ddeg canolfan ryngwladol ar hyn o bryd. Drwy gaffaeliadau strategol, twf organig a phartneriaethau hirdymor, gall y busnes bellach greu, cynhyrchu a thrwyddedu rhaglenni a fformatau gwreiddiol yn y diriogaeth ar gyfer cynulleidfaoedd lleol a rhyngwladol.

Ynghyd â llwyddiant enfawr *Bluey*, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, gyda digwyddiadau, nwyddau a ffilm nodwedd ar y gweill, mae'r busnes wedi buddsoddi'n drwm mewn brandiau rhyngwladol presennol a newydd, gyda thimau BBC Studios yn gweithio'n uniongyrchol gyda gwneuthurwyr cynnwys o bob maint i sicrhau bod y straeon a gaiff eu creu ar gael i gynulleidfaoedd ble bynnag y bônt.

Adeiladodd y broses o gaffael BritBox International ar y broses flaenorol o gaffael UKTV i ehangu ei bortffolio o wasanaethau uniongyrchol i'r defnyddiwr, gan gyflwyno buddiannau strategol ynghyd â reffeniw – gan dyfu'r rhain 20%, gan ragori ar dargedau ar gyfer y busnes – ac roedd ymweliadau â gwasanaeth ar alw UKTV i fyny draean, yn dilyn buddsoddiad organig. Ar ôl datblygu llwyfan newydd ar gyfer hysbysebwy, ail-lansiwyd BBC.com, gan gynyddu ei gynulleidfaoedd rhyngwladol, ac mae sianelau a ariennir drwy hysbysebion (FAST) bellach wedi'u hadeiladu o amgylch 19 o frandiau ar draws amrywiaeth o genres. Parhaodd aelodaeth y Bwrdd yn gymharol sefydlog, ac ymunodd Marinella Soldi fel Cyfarwyddwr anweithredol ym mis Medi 2024, ar ôl gwasanaethu fel aelod o Fwrdd y BBC ers mis Medi 2023. Ynghyd â minnau, Ms Soldi yw'r ail Gyfarwyddwr anweithredol i wasanaethu ar Fwrdd y BBC ac ar y Bwrdd Masnachol, sy'n helpu i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng uchelgeisiau strategol Grŵp y BBC a rhai ei is-gwmnïau masnachol.

Gadawodd Lorraine Burgess ei rôl fel Cyfarwyddwr BBC Commercial ym mis Mehefin 2024. Bydd yn gadael ei rôl fel Prif Swyddog Cyllid yn ffurfiol ym mis Awst 2025, gyda diolch enfawr am ei chyfraniadau i'r Bwrdd a'r busnes. Penodwyd Amanda Jones yn Brif Swyddog Cyllid dros dro, ac er nad yw'n un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd Masnachol, mae'n bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Masnachol a'r Grŵp Cyllid a Risg.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Bwrdd saith cyfarfod a drefnwyd. Ffocws gweithgarwch y Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd cyflymder a chyfeiriad gweithgarwch trawsnewid, gan ystyried llwybrau marchnata BBC Studios er mwyn sicrhau'r cynulleidfaoedd mwyaf; strwythurau cyllid cyffredinol BBC Commercial er mwyn sicrhau effeithlonrwydd cyfalaf; a chynlluniau i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ar draws y cwmni o ddeallusrwydd artifisial cynhyrchiol.

Cafwyd reffeniw o £2,155 miliwn (2023/24: £1,859 miliwn) ac EBITDA o £228 miliwn* (2023/24: £199 miliwn). Talwyd dididend arian parod o £161 miliwn i Grŵp y BBC. Dyled net BBC Commercial heb gynnwys prydlesau oedd £336 miliwn ar ôl buddsoddiadau sylweddol y flwyddyn flaenorol.

Gan edrych i'r dyfodol, mae gan y busnes lif cryf o gynnwys a'r strategaeth i arallgyfeirio'r busnes drwy fuddsoddiad organig ac mae caffaeliadau strategol yn rhoi BBC Commercial mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd i greu twf cynaliadwy. Mae amodau masnachu yn parhau'n heriol ymysg ansicrwydd macroeconomaidd a geowleidyddol byd-eang.

Damon Buffini
Cadeirydd y Bwrdd Masnachol
a Dirprwy Gadeirydd y BBC
27 Mehefin 2025

Aelodaeth Bwrdd Masnachol y BBC

Mae BBC Commercial Limited (y 'Bwrdd Masnachol') yn cynnwys deg cyfarwyddwr, wyth cyfarwyddwr anweithredol:

- Syr Damon Buffini (Cadeirydd)
- Gunjan Bhow
- Mai Fyfield
- Ian Griffiths
- Claire Hungate
- Gary Newman
- Bhav Singh
- Marinella Soldi

a thri chyfarwyddwr gweithredol o Grŵp y BBC

- Tom Fussell (Prif Swyddog Gweithredol, BBC Commercial)
- Lorraine Burgess (Prif Swyddog Cyllid, BBC Commercial) – ymddiswyddodd o'r Bwrdd Masnachol ar 26 Mehefin 2024
- Leigh Tavaziva – Prif Swyddog Gweithredu, Grŵp y BBC)

Anthony Corriette yw Ysgrifennydd y Cwmni Masnachol

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd Masnachol, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/commercial

* Gweler Gweithrediadau Masnachol ar gyfer cysoni i elw gweithredu

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiliedig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd yn y DU. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- nodi a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd yn y DU; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd, mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Caiff cyfrifoldebau'r Bwrdd am sicrhau bod y BBC yn gwarchod arian cyhoeddus yn drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra rheoli adnoddau'r BBC, eu nodi yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd yn y DU, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo; a
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

DATGANIAD DATGELU GWYBODAETH I ARCHWILWYR

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r Bwrdd wedi ystyried rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac mae wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghydestun yr arian sydd ar gael.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o leiaf. O ganlyniad, mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Samir Shah

Cadeirydd

27 Mehefin 2025

FINANCIAL



STATEMENTS

Above:
Teen comedy drama *Boarders*, written by Daniel
Lawrence Taylor, returned for a second series

Financial statements

Comptroller and Auditor General's Certificate and Report on the Group Financial Statements

BBC RADIO 1	Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniant i bobl ifanc 15-29 oed ac yn cynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori wedi'u teilwra i oedolion ifanc.	£41m 2023/24: £41m	13% 2023/24: 13%	06:44 2023/24: 06:17	2c 2023/24: 2c
BBC RADIO 1XTRA	Mae BBC Radio 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd.	£9m 2023/24: £10m	1% 2023/24: 1%	04:49 2023/24: 04:14	5c 2023/24: 6c
BBC RADIO 2	Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar yn cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc byw, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol amrywiol, ac yn cynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawr	£49m 2023/24: £49m	23% 2023/24: 24%	10:39 2023/24: 10:13	1c 2023/24: 1c
BBC RADIO 3	Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu sbectrwm eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol ledled y DU.	£37m 2023/24: £38m	3% 2023/24: 3%	07:38 2023/24: 07:29	5c 2023/24: 5c
BBC RADIO 4	Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio sy'n cynnig gwasanaeth llafar cymysg, gyda newyddion a materion cyfoes treiddgar ac ystod eang o raglenni llafar eraill yn cynnwys drama, darlenniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn.	£84m 2023/24: £87m	16% 2023/24: 16%	11:58 2023/24: 11:56	1.5c 2023/24: 1.5c
BBC RADIO 4 EXTRA	Y rhwydwaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniant llafar, gan gynnwys comedi, drama a darlenniadau.	£4m 2023/24: £3m	3% 2023/24: 3%	08:07 2023/24: 07:36	0.6c 2023/24: 0.5c
BBC RADIO 5 LIVE	Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw yn barhaus, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gwrandawyr wrth iddynt ddigwydd, a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth eang.	£57m 2023/24: £58m	9% 2023/24: 9%	05:59 2023/24: 05:53	3c 2023/24: 4c
BBC RADIO 5 SPORTS EXTRA	Mae BBC Radio 5 live sports extra yn cynnig dewis ehangach o chwaraeon byw i gefnogwyr chwaraeon drwy ymestyn y darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon amrywiol.	£6m 2023/24: £4m	2% 2023/24: 3%	02:58 2023/24: 03:43	3c 2023/24: 1c
BBC RADIO 6 MUSIC	Mae BBC Radio 6 Music yn orsaf radio ddigidol sy'n diddanu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd gyda gwasanaeth sy'n dathlu ysbryd amgen cerddoriaeth boblogaidd o'r 60au hyd heddiw, ynghyd â newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.	£13m 2023/24: £14m	5% 2023/24: 5%	09:15 2023/24: 10:05	1c 2023/24: 1c
BBC RADIO A ASIAN NETWORK	Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at Asiaid Prydeinig, gyda ffocws cryf ar newyddion a materion cyfoes.	£7m 2023/24: £7m	1% 2023/24: 1%	05:06 2023/24: 05:14	5c 2023/24: 5c

Diffiniad o gyrhaeddiad 15+ munud ar gyfer pob gwasanaeth a chynulleidfaoedd 15+ oed
Ffynonellau RAJAR (cyrhaeddiad Radio a'r amser fesul gwrandawr)
Radio 1: ymhlith pobl ifanc rhwng 15 a 29 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 19% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 05:34
Radio 1Xtra: ymhlith pobl ifanc 15-24 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 2% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 03:20
Radio 2: ymhlith pobl 35+ oed, cafwyd cyrhaeddiad o 27% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 11:43
Asian Network: ymhlith Asiaid o dan 35 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 7% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 05:13. Diffiniadau o ethnigrwydd yn RAJAR: Asiaidd = Gwyn ac Asiaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall

POBL

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn rhoi rhagor o ddata i ategu’r wybodaeth a nodwyd ar dudalennau 65-67.

CYFANSWM NIFER Y STAFF CYFARTALOG 2024/25
(CYFWERTH AG AMSER LLAWN)

	2025			2024
	Staff ac eithrio prentisiaid	Prentisiaid*	Cyfanswm	Cyfanswm
Grŵp PSB	17,103	428	17,531	17,611
Grŵp Masnachol	4,178	64	4,242	4,184
Cyfanswm y Grŵp	21,281	492	21,773	21,795

* Yn cynnwys prentisiaid Gyrfaoedd Cynnar a phrentisiaid FJAA

NIFER YR UWCH-ARWEINWYR YN Y DU YN ÔL BAND CYFLOG
(PSB YN UNIG)

Band cyflog	2024/25 Gwirioneddol	2023/24 Gwirioneddol
£50,000-£99,999	1	7
£100,000-£149,999	80	89
£150,000-£199,999	81	77
£200,000-£249,999	45	42
£250,000-£299,999	16	10
£300,000-£349,999	9	8
£350,000+	5	1
Cyfanswm*	237**	234

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC na chyfarwyddwyr pensiwn

** Yn cynrychioli 1.4% o gyfanswm y gweithlu

GWARIANT AR ROLAU AR YR AWYR* (PSB YN UNIG)

Band cyflog	2024/25		2023/24		Amrywiant £000oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40,000	37,395	20,814	39,524	22,121	(2,129)
£40,000-£100,000	63,061	970	61,565	966	1,496
£100,000-£150,000	15,531	130	13,652	116	1,879
£150,000-£500,000	22,487	97	23,054	102	(567)
£500,000-£1m	517	1	955	1	(438)
£1m-£5m	1,350	1	1,350	1	-
Cyfanswm	140,341	22,013	140,100	23,307	241

* Ystyrir bod gan unigolyn rôl ar yr awyr os oes ganddo gyfrifoldebau ar yr awyr perthnasol (h.y. 80% neu fwy)

AMRYWIAETH WIRIONEDDOL AR Y SGRIN AC ODDI AR Y SGRIN

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2024/25	Gwirioneddol ar y sgrin 2024/25	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2023/24	Gwirioneddol ar y sgrin 2023/24
Menywod	53.5%	50.6%	52.6%	50.7%
Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	13.2%	29.8%	12.8%	29.3%
Anabl	11.2%	10.7 %	9.7%	9.2%
LHD (lesbiaidd, hoyw, deurywiol)	19.0%	18.7%	17.6%	17.7%
Trawsryweddol	0.8%	0.8%	0.9%	0.9%
Nifer y cyfraniadau*	371,731	99,402	339,062	90,984

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

AMRYWIAETH GANFYDDEDIG AR Y SGRIN

Mewnbwn data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n ystyried safbwynt gwylwyr o beth maent yn ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin 2024/25	Canfyddedig ar y sgrin 2023/24
Menywod	46.4%	46.7%
Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	26.8%	27.4%
Anabl	5.3%	4.9%
LHD	10.0%	10.6%
Trawsryweddol	0.1%	0.1%
Nifer y cyfraniadau*	460,147	435,741
% y pennwyd nodweddion amrywiaeth	89.3%	90.2%

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

FFRAMWAITH LLWYBR GYRFA (GRŴP Y BBC)

Mae ein mapiau Saerniaeth Swyddi yn mapio rolau cyflogeon ar draws 27 o deuluoedd o swyddi a saith band gyrfa (yn amrywio o Fand A i uwch-arweinwyr), gan drefnu swyddi i strwythur clir, tryloyw a chydawns y gellir ei ddefnyddio am amrywiaeth o resymau sy'n amrywio o drafodaethau datblygu gyrfa i benderfyniadau tryloyw am gyflogau.

Cyferwerth ag Amser Llawn (CALL)/Nifer y staff yn ôl Band Fframwaith Llwybr Gyrfa (CPF) Grŵp y BBC (ac eithrio Grwpiau Perfformio, Hyfforddeion a Phrentisiaid a'r Rhai nad ydynt yn CPF).

Band CPF	CALL		Nifer y staff	
	CALL	CALL (%)	Nifer y staff	Nifer y staff (%)
A	104	1%	131	1%
B	1,659	9%	1,770	9%
C	5,646	31%	6,008	31%
D	6,980	38%	7,373	38%
E	2,349	13%	2,460	13%
F	1,024	6%	1,052	5%
FP	89	0%	97	1%
SL	297	2%	299	2%
Cyfanswm	18,150	100%	19,190	100%

* Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb i swm y ffigurau ar wahân

TALIADAU DILEU SWYDDI

Un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog yw ein polisi o ran taliadau diswyddo (ar gyfer y sawl a ymunodd cyn mis Ionawr 2013, mae'n uchafswm o 24 mis). Rhaid bod cyflogeon wedi'u cyflogi'n barhaus am ddwy flynedd neu fwy pan ddaw eu swydd i ben er mwyn bod yn gymwys i gael taliad. Mae gennym gap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi a diswyddo. Lle y telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd, rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano.

Yn 2024/25, talwyd un taliad yn lle rhybudd (PILON) i gyflogai oddi ar yr awyr a adawodd y BBC ar ôl i'w gyflogaeth gael ei therfynu; talwyd PILON er mwyn sicrhau y byddai'n gadael y busnes ar unwaith. Yn ogystal, talwyd PILON i bedwar cyflogai tramor a adawodd y busnes naill ai fel rhan o brosesau ailstrwythuro a/neu lle y talwyd PILONs oherwydd traddodiadau ac arferion lleol a/neu er mwyn hwyluso gweithrediadau busnes.

Band taliadau	2024/25		2023/2024	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10,000	335	60	455	80
£10,000-£50,000	6,589	239	7,403	254
£50,000-£75,000	8,841	140	8,590	139
£75,000-£100,000	16,712	188	10,524	119
£100,000-£150,000	37,112	292	28,289	219
Cyfanswm	69,589	919	55,261	811

Gwybodaeth a ddarperir yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025)

Er mwyn cadw i fyny â newidiadau yn y farchnad a phrosesau digideiddio, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos â'n hundebau llafur cydnabyddedig i ailstrwythuro'r BBC i adlewyrchu'r newidiadau hynny. Ni chafwyd unrhyw anghydfodau llafur ffurfiol yn 2024/25.

Fel rhan o Reoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafur cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC.) Nodir y manylion hyn yn y tabl canlynol.

Swyddogion undeb perthnasol

2024/25	
Nifer y swyddogion undeb	316
(CALL: 303)	

Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	Nifer y cyflogeon
0%	0
1%-50%	306
51%-99%	8
100%	2
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£775,701
Cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB (£m)	£1,277.2
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	0.06%

Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl	20%
--	-----

* Cafodd 10 cynrychiolydd undeb eu secondio i gynrychioli eu hundeb, gyda dau ohonynt yn gweithio'n llawn amser i'r undeb, wyth yn rhai oedd yn rhannu swyddi yn gweithio i'r BBC ac yn cynrychioli eu hundeb

ADRODDIAD AR FWLCH CYFLOG Y BBC

BETH MAE'R ADRODDIAD HWN YN EI GYNNWYS?

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r datgeliadau statudol sy'n ofynnol gan wasanaeth darlledu cyhoeddus y BBC ar gyfer aelodau o staff yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys BBC World Service. Nid yw'n cynnwys ein his-gwmnïau masnachol ac elusennau: BBC Studios (gan gynnwys BritBox International, UKTV, BBC Global News ac unrhyw is-gwmni arall o dan berchnogaeth lawn y BBC), BBC Studioworks, Plant mewn Angen a Media Action. Mae'r rhain naill ai islaw'r gofynion adrodd statudol o ran nifer y staff, neu cyflwynir adroddiad ar wahân ar eu cyfer (gweler yr adroddiad ar y bwlch cyflog ar gyfer ein hendidau masnachol ar www.bbcstudios.com). Mae'r cyfraddau datgeliad a nodir ar gyfer pob nodwedd yn cyfateb i'r boblogaeth a gynhwysir yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog ac felly gallant fod yn wahanol i'r rhai a gyflwynir mewn mannau eraill. Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu data mewn perthynas â'r nodweddion perthnasol eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog.

Mae'r adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn yr adroddiad hwn yn nodi'r gwahaniaeth yn y cyflog crynswth cymedr a chanolrif fesul awr rhwng dynion a menywod. Rydym hefyd yn cynnwys datgeliadau gwirfoddol o fylchau cyflog ar gyfer nodweddion eraill (ethnigrwydd, anabledd, LHDTG+ a chefnidir economaidd-gymdeithasol). Fel y cyfeiriwyd ar dudalen 66, rydym yn newid ein dull o adrodd ar gynrychiolaeth. O fis Mawrth 2026, byddwn yn adlewyrchu'r newid hwn yn ein hadroddiadau ar y bwlch cyflog, gan ddisodli ein hadroddiadau ar y bwlch cyflog o ran anabledd ag adroddiadau ar y bwlch cyflog o ran pobl fyddar, anabl a/neu niwrowahanol.

Rydym yn cynnwys data ar gyfer pobl ar gontractau staff parhaol a thymor sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ein cyflwynwyr ar yr awyr sydd â chontractau staff y BBC. Nid ydym yn cynnwys unrhyw weithwyr ar gontractau llawrydd. Ni chaiff gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio i'r BBC ond a oedd wedi'u cyflogi drwy asiantaethau trydydd parti eu cynnwys gan y byddant wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Bwlch Cyflog a gyflwynir gan yr asiantaeth sy'n eu cyflogi. Wrth adolygu ein bylchau cyflog, rydym yn llunio rhestr o enillion ein cyflogeon – o'r uchaf i'r isaf – ac yn ei rhannu'n bedwar grŵp cyfartal, neu chwarteli. Dangosir y data hyn ochr yn ochr â'r bylchau cyflog cymedr a chanolrif a'r bylchau cyflog yn ôl band cyflog ar gyfer pob nodwedd. Rydym hefyd wedi cynnwys ein bylchau bonws, sy'n ymwneud â dyfardaliadau ar ffurf talebau a wnaed o dan ein cynllun cydnabyddiaethau a'n dyfardaliadau gwasanaeth hir. Mae'r data a gyflwynir yn seiliedig ar y data cipolwg statudol ar gyfer cyflogwyr awdurdodau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2025.

CYFLWYNIAD

Mae ein dull o reoli cyflogau yn y BBC yn dilyn ein hegwyddorion Gwobrwyo sef 'teg', 'clir' a 'chystadleuol'. Mae gennym lefelau uchel o dryloywder o ran cyflogau, yn fewnol ac yn allanol, gan ein bod yn datgelu cyflogau ein huwch-aelodau o staff a'n staff sy'n cael y cyflogau uchaf yn allanol, yn cynnwys amrediadau cyflog mewn hysbysebion swyddi ac yn cyhoeddi ein bylchau cyflogau yn ôl band gyrfa ac yn ôl nodweddion y tu hwnt i rywedd.

BYLCHAU CYFLOG YN Y BBC

Prif achos ein bylchau cyflog yw cynrychiolaeth o hyd ar lefelau sefydliad gwahanol ac mewn teuluoedd swyddi gwahanol. Fel y dangosir yn y tabl canlynol, mae wyth o'n bylchau cyflog wedi lleihau neu aros yr un fath y flwyddyn hon, ac mae pedwar wedi cynyddu rhwng 0.1 a 0.7%. O ystyried y ffaith bod y cymedr a'r canolrif yn cynrychioli gwerthoedd ystadegol gwahanol, nid yw'n anarferol gweld cynnydd mewn un a gostyngiad yn y llall ar gyfer yr un nodwedd.

	Cymedr 2024/25	Cymedr 2023/24	Canolrif 2024/25	Canolrif 2023/24
Rhywedd	5.7%	5.4%	7.6%	7.9%
Ethnigrwydd	3.5%	2.8%	1.8%	1.9%
Anabledd	5.8%	5.8%	6.0%	5.5%
LHDTG+	6.5%	6.6%	7.3%	7.2%
Economaidd-gymdeithasol	5.3%	5.6%	2.4%	2.9%
Rhan-amser	2.3%	2.8%	3.1%	3.2%

Mae'r newidiadau yn ein bylchau cyflog a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu symudiad yn y gweithlu. Yn debyg i gwmnïau eraill, gwelwn newidiadau i'n bylchau cyflog am fod pobl yn ymuno ac yn gadael ar lefelau gwahanol yn y sefydliad. Mae gennym lefelau hurio prentisiaid uchel ac mae'r garfan hon yn tueddu i fod yn fwy amrywiol na'r gweithlu cyflogeon ehangach a chaiff gyflog islaw'r lefel gyflog gyfartalog ar gyfer cyflogeon eraill. Caiff hyn effaith ar ein bylchau cyflog, fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n rhaglen prentisiaid er mwyn sicrhau cyflenwad talent cryf ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn pennu cyflogau gan gyfeirio at ddata marchnad allanol a charfannau mewnol er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb. Drwy sicrhau cyfleoedd gyrfa i bawb ddatblygu i rolau uwch â chyflogau uwch, ynghyd ag ar draws y sefydliad yn fwy cyffredinol, byddwn yn parhau i gefnogi'r newidiadau strwythurol sy'n angenrheidiol i leihau ein bylchau cyflog dros amser.

Rydym yn hyderus o hyd nad yw ein bylchau cyflog o ganlyniad i gyflog anghyfartal. Daeth ein harchwiliad Cyflog Cyfartal annibynnol diweddaraf i'r casgliad nad oedd unrhyw wahaniaethu systemig rhwng y rhywiau yn ein dull o reoli cyflogau.

Mae ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau yn dal i fod yn sylweddol is na'r bwlch canolrif cyfartalog cenedlaethol, sef 13.1% (data'r SYG ym mis Ebrill 2024) a'r bylchau cyflog a adroddir ar gyfer prif ddarlledwyr eraill yn y DU.

BYLCHAU CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

Ar hyn o bryd, rydym yn adrodd ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau ar sail rhyw deuaidd a gofnodir ar gofnod Yswiriant Gwladol unigolyn. Mae 48% o gyfanswm y boblogaeth y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddi yn fenywod ac mae 52% yn ddynion. Ar draws Grŵp y BBC yn ehangach, mae 51% yn fenywod ac mae 49% yn ddynion. Mae ein bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiau wedi cynyddu ac mae ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn diwethaf. Mae bylchau cyflog negatif yn dangos bod y cyflog cyfartalog fesul awr ar gyfer menywod yn uwch nag ar gyfer dynion.


	Cymedr	Canolrif
2025	5.7%	7.6%
2024	5.4%	7.9%

Mae ein bwlch cyflog cymedr rhwng y rhywiau gan gynnwys Gogledd Iwerddon yn 5.7% a'r bwlch canolrif yw 7.5%.

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn ôl bandiau cyflog.

Band	Cymedr	Canolrif
A	4.6%	5.3%
B	0.0%	-0.2%
C	4.5%	5.6%
D	4.2%	3.8%
E	1.6%	2.3%
F	0.1%	0.7%
Uwch-arweinwyr	1.7%	4.8%

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfran y dynion a'r menywod ym mhob chwarterl cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



BYLCHAU CYFLOG ETHNIGRWYDD

Mae 96% o gyflogeion wedi rhannu eu data ethnigrwydd â ni. Mae 18% o'r boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn bobl Ddu, Asiaidd neu'n rhan o grŵp ethnig lleiafrifol arall (18% ar draws Grŵp y BBC yn ehangach hefyd).


Mae'r bwlch rhwng cyflog cymedr fesul awr ein staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol a'n staff gwyn wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn diwethaf. Mae'r bwlch cyflog canolrif wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn diwethaf.

	Cymedr	Canolrif
2025	3.5%	1.8%
2024	2.8%	1.9%

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bylchau cyflog ethnigrwydd yn ôl band cyflog (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn y band). Dylid nodi, gyda charfannau llai, y disgwylir mwy o anwadalrwydd o un flwyddyn i'r llall. Mae bylchau cyflog negatïf yn dangos bod y cyflog cyfartalog fesul awr ar gyfer y grŵp lleiafrifol yn uwch nag ar gyfer y grŵp mwyafrifol.

Band	Cymedr	Canolrif
A	-3.2%	-14.4%
B	-1.4%	-1.5%
C	-4.2%	-4.3%
D	-2.5%	-2.3%
E	-3.5%	-3.5%
F	0.1%	2.1%
Uwch-arweinwyr	-6.0%	-11.6%

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfran y staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol a'r staff gwyn ym mhob chwarterl cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



Mae'r tabl canlynol yn dangos y bylchau cyflog ar gyfer grwpiau ethnig penodol.

	Cymedr	Canolrif
Asiaidd	0.0%	-1.0%
Du	8.2%	6.4%
Cymysg	7.3%	5.4%
Arall	-3.8%	-3.2%

BYLCHAU CYFLOG ANABLEDDAU

Mae 93% o gyflogeion wedi dweud wrthym p'un a oes ganddynt anabledd ac mae 10% o'r boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn anabl (10% ar draws Grŵp y BBC yn ehangach hefyd).


Mae'r bwlch rhwng cyflog cymedr fesul awr ein staff anabl a'n staff nad ydynt yn anabl yn ddigyfnewid o hyd o gymharu â'r flwyddyn diwethaf. Mae'r bwlch cyflog canolrif wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn diwethaf.

	Cymedr	Canolrif
2025	5.8%	6.0%
2024	5.8%	5.5%

Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog anableddau yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion ag anabledd yn y band). Dylid nodi, gyda charfannau llai, y disgwylir mwy o anwadalrwydd o un flwyddyn i'r llall. Mae bylchau cyflog negatïf yn dangos bod y cyflog cyfartalog fesul awr ar gyfer y grŵp lleiafrifol yn uwch nag ar gyfer y grŵp mwyafrifol.

Band	Cymedr	Canolrif
A	0.7%	6.9%
B	2.7%	3.5%
C	2.2%	3.1%
D	-0.2%	0.1%
E	2.7%	0.1%
F	-0.9%	-1.7%
Uwch-arweinwyr	-1.8%	-6.4%

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogeion anabl/nad ydynt yn anabl ym mhob chwarterl cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



O fis Mawrth 2026, bydd bylchau cyflog pobl fyddar, anabl a/neu niwrowahanol yn disodli bylchau cyflog o ran anabledd yn unol â newidiadau i'n hadroddiadau ar gynrychiolaeth. Ar 31 Mawrth 2025, y bwlch rhwng y cyflog cymedr fesul awr ar gyfer ein cyflogeion byddar, anabl a/neu niwrowahanol a'r cyflog cymedr fesul awr ar gyfer cyflogeion eraill yw 3.6% a'r bwlch cyflog canolrifol yw 3.9%.

BYLCHAU CYFLOG LHDTC+

Mae 84% o'n cyflogeion wedi datgelu eu data ar gyfer y nodwedd hon. Mae 11% o'r boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn ddeurywiol, hoyw, lesbiaidd neu gyfeiriadedd rhywiol arall (heb gynnwys heterorywiol) (11% ar draws grŵp ehangach y BBC hefyd). Mae'r grŵp LHDTC+ hefyd yn cynnwys unrhyw un sy'n cadarnhau achos o ailbennu rhywedd ni waeth beth fo'i rywioldeb.


Mae'r bwlch rhwng cyflog cymedr fesul awr ein cyflogeion LHDTC+ a'r cyflog cymedr fesul awr ar gyfer cyflogeion eraill wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn diwethaf. Mae'r bwlch cyflog canolrif wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r flwyddyn diwethaf.

	Cymedr	Canolrif
2025	6.5%	7.3%
2024	6.6%	7.2%

Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog LHDTC+ yn ôl band cyflog (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion LHDTC+ yn y band). Dylid nodi, gyda charfannau llai, y disgwylir mwy o anwadalrwydd o un flwyddyn i'r llall. Mae bylchau cyflog negatif yn dangos bod y cyflog cyfartalog fesul awr ar gyfer y grŵp lleiafrifol yn uwch nag ar gyfer y grŵp mwyafrifol.

Band	Cymedr	Canolrif
A	1.3%	4.7%
B	5.2%	6.5%
C	3.5%	4.0%
D	-0.5%	-0.4%
E	-0.6%	-1.3%
F	-3.3%	-1.9%
Uwch-arweinwyr	-5.3%	-12.4%

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogeion LHDTC+/nad ydynt yn LHDTC+ ym mhob chwarterl cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



- LHDTC+
- Ddim yn LHDTC+

BYLCHAU CYFLOG ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL


Mae 82% o'n cyflogeion wedi datgelu eu data ar gyfer y nodwedd hon. Mae 21% o'r boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn o gefndir dosbarth gweithiol) (21% ar draws Grŵp y BBC yn ehangach hefyd). Mae'r bylchau rhwng y cyflog cymedr a chanolrif fesul awr ar gyfer cyflogeion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

	Cymedr	Canolrif
2025	5.3%	2.4%
2024	5.6%	2.9%

Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog economaidd-gymdeithasol yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion o gefndir dosbarth gweithiol yn y band). Dylid nodi, gyda charfannau llai, y disgwylir mwy o anwadalrwydd o un flwyddyn i'r llall. Mae bylchau cyflog negatif yn dangos bod y cyflog cyfartalog fesul awr ar gyfer y grŵp lleiafrifol yn uwch nag ar gyfer y grŵp mwyafrifol.

Band	Cymedr	Canolrif
A	-3%	4.7%
B	-2.4%	-3.2%
C	-0.5%	-0.6%
D	1.6%	1.4%
E	2.6%	1.3%
F	4.0%	3.2%
Uwch-arweinwyr	11.4%	3.8%

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogeion o gefndir dosbarth gweithiol/economaidd-gymdeithasol arall ym mhob chwarterl cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa.



- Dosbarth Gweithiol
- Mwyafrif

TALIADAU YCHWANEGOL YN Y BBC

Nid oes unrhyw daliadau bonws yn cael eu talu ym maes darlledu cyhoeddus y BBC. Mae'r gofynion adrodd statudol ar gyfer adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau yn cynnwys bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran bonysau. Yn unol â'r canllawiau hynny, rydym yn cyfrifo'r ffigurau isod ar sail ein cynllun cydnabyddiaethau a'n dyfarndaliadau gwasanaeth hir, er nad ydym yn ystyried bod y rhain yn daliadau bonws. Mae'r cynllun cydnabyddiaethau ar ffurf talebau yn fodd i wobrwyo staff ym mandiau A i F am berfformiad heb ei ail. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 3,299 o staff dalebau o dan y cynllun hwn, a'r swm canolrif oedd £200. Cafodd 229 o staff ddyfarndaliadau gwasanaeth hir, a'r taliad canolrif oedd £5,077.

Mae'r tablau isod yn dangos cyfran y staff ym mhob nodwedd a gafodd ddyfarndaliad o dan y cynllun cydnabyddiaethau neu'r dyfarndaliadau gwasanaeth hir a'r bylchau rhwng y symiau cymedr a chanolrif a gafwyd.

	% y grŵp mwyafrifol a gafodd ddyfarndaliad	% y grŵp lleiafrifol a gafodd ddyfarndaliad
Rhywedd	22%	22.4%
Ethnigrwydd	22.9%	20.2%
Anabledd	22.6%	21.3%
LHDTC+	23.1%	23.1%
Economaidd-gymdeithasol	22.9%	23.4%

	Bwlch bonws cymedr	Bwlch bonws canolrif
Rhywedd	0.1%	0.0%
Ethnigrwydd	14.3%	0.0%
Anabledd	-14.0%	0.0%
LHDTC+	27.5%	25.0%
Economaidd-gymdeithasol	-4.6%	25.0%

Cynaliadwyedd

CYNALIADWYEDD

Rhestr allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr y BBC a datgeliadau cysylltiedig ar ddefnydd o ynni, rheoli gwastraff a'r dull cyfrifo.

Pob uned mewn tunelli CO ₂ e	2019/20	2023/24	2024/25	% y newid ers 2019/20
Cwmpas 1*	19,933	14,723	13,039	-35%
Cwmpas 2 – Yn seiliedig ar y farchnad*	6,541	5,979	5,656	-14%
Cwmpas 2 – Yn seiliedig ar leoliadau*	45,123	33,264	32,048	-29%
Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 – Yn seiliedig ar y farchnad	26,474	20,702	18,695	-29%
Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 – Yn seiliedig ar leoliadau	65,056	47,987	45,087	-31%
Dwyster allyriadau – Cyfanswm Cwmpas 1 a 2 yn seiliedig ar y farchnad * (tCO ₂ e/£m o incwm y Grŵp)	5	4	3	-41%
Cwmpas 3				
Nwyddau a gwasanaethau a brynwyd	164,047	177,788	174,587	+6%
Nwyddau cyfalaf	21,328	12,062	11,787	-45%
Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thanwydd ac ynni	13,885	13,579	12,871	-7%
Cludo a dosbarthu i fyny'r gadwyn gyflenwi	30,276	48,275	26,159	-14%
Gwastraff a gynhyrchir mewn gweithrediadau	113	135	80	-29%
Teithio ar gyfer busnes	46,939	42,131	35,033	-25%
Cyflogeion yn cymudo	17,262	12,547	12,824	-26%
Asedau ar brydles i fyny'r gadwyn gyflenwi	1,898	1,163	481	-75%
Triniaeth diwedd oes cynhyrchion a werthwyd	21	5	2	-92%
Asedau ar brydles i lawr y gadwyn gyflenwi	4,184	3,485	2,584	-38%
Masnachfreintiau a thrwyddedeion	23,942	34,538	56,396	+136%
Buddsoddiadau (ar sail cyfran deg)	1,646	2,021	1,512	-8%
Cyfanswm Cwmpas 3*	325,541	347,729	334,316	+3%

Dull y BBC o gyfrifo Nwyon Tŷ Gwydr

Rydym yn monitro ac yn adrodd ar allyriadau gan ddilyn Safon Gorfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr ac yn defnyddio ffin rheoli gweithredol sy'n gymwys i Grŵp y BBC, sy'n cynnwys gweithrediadau ac is-gwmnïau nad ydynt yn y DU. Caiff allyriadau o gyd-fentrau eu cyfrifo ar sail cyfran deg.

Er mwyn cyfrifo ein hallyriadau, rydym yn cyfuno data gweithgarwch perthnasol â ffactorau allyriadau. Caiff ffactorau eu cymhwyso i ddata gweithgarwch yn seiliedig ar natur neu leoliad y ffynhonnell allyriadau. Rydym yn defnyddio ffactorau sy'n benodol i gyflenwyr neu Lywodraeth y DU lle y bo'n bosibl, ffactorau'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol ar gyfer defnydd o drydan rhyngwladol a ffactorau Exiobase i drosi gweithgarwch ariannol yn dunelli o CO₂e. Caiff data gweithgarwch o weithgarwch ariannol ei ddatgeliad i lefelau 2019/20, gan ddefnyddio data Chwyddiant Pris Defnyddwyr Llywodraeth y DU, cyn cael ei drosi'n Euros ac yna'n allyriadau gan ddefnyddio ffactorau Exiobase.

Caiff data gweithgarwch eu cymryd o amrywiaeth o ffynonellau perthnasol, gan gynnwys: defnydd o ynni sy'n fesuradwy neu wedi'i anfonebu, litrau o danwydd a ddefnyddiwyd, math o gerbyd a phellter a deithiwyd, natur a maint y gwastraff a gwariant ariannol ac incwm.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddefnydd o ddata gwirioneddol ond byddwn yn amcangyfrif allyriadau lle nad oes data ar gael. Os bydd angen amcangyfrif, byddwn yn defnyddio data hanesyddol fel mesur dirprwy cyntaf a byddwn yn creu meincnod lle nad oes data hanesyddol ar gael. Gellir creu meincnodau gan ddefnyddio safleoedd tebyg, arwynebedd llawr, nifer y staff, neu o gyfanswm gwariant ynghyd â natur y gweithgarwch. Ymysg yr enghreifftiau cyffredin o amcangyfrifon mae lleoliadau rhyngwladol llai, hawliadau treuliau tanwydd neu ddiffyg gwelededd oherwydd rheolaeth trydydd parti yn achos allyriadau cadwyni gwerth.

Caiff rhai categorïau allyriadau eu hamcangyfrif yn llwyr neu defnyddir data gweithgarwch ariannol nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu'n uniongyrchol allyriadau o'r cynnyrch neu'r gwasanaeth a ddarperir i'r BBC. Caiff ffigurau cymudo cyflogeion eu hamcangyfrif yn seiliedig ar Ddata Cyfrifiad y DU yn 2021, data rhyngwladol ar batrymau cymudo a methodoleg gweithio o gartref gan drydydd parti. Allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a brynwyd sy'n cyfrif am y rhan fwyaf sylweddol o'n datgeliad ond mae wedi'i amcangyfrif yn bennaf yn seiliedig ar wariant yn ôl cyflenwr, a gaiff ei drosi drwy ffactorau Exiobase. Ar gyfer nifer bach o gyflenwyr, gallwn gyfrifo allyriadau yn seiliedig ar ddatgeliad CDP (a alwyd yn flaenorol yn Brosiect Datgelu Carbon) ac mae gennym raglenni ymgysylltu gweithredol â chyflenwyr allweddol, a all wella cywirdeb data yn y dyfodol.

Ailgyfrifiad blwyddyn sylfaen ac ailddatganiad o'r cyfnod blaenorol

Yn 2024/25 rydym wedi ail-gyfrifo ein hallyriadau blwyddyn sylfaen ac wedi ailddatgan allyriadau o 2023/24 oherwydd newid yn strwythur sefydliadol y BBC. Ym mis Mawrth 2024, cwblhaodd BBC Studios ei gaffaeliad y Britbox International ac ym mis Ebrill 2024, gwahanodd gweithrediadau newyddion y BBC yn India, drwy greu Collective Newsroom, yr aseswyd iddo ysgogi ein polisi ail-gyfrifo blwyddyn sylfaen. Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i fireinio ein methodoleg ac i gywiro mân wallau, sydd bellach wedi'u hadlewyrchu yn ein datgeliad.

Mae ein polisi ar waith i sicrhau bod newidiadau sylweddol i'n strwythur, ein methodoleg, neu wallau o gyfnod blaenorol yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn ein blwyddyn sylfaen, fel y gellir olrhain cynnydd yn erbyn ein targedau mewn modd cymaradwy dros amser. Mae'r trothwy ar gyfer arwyddocâd a bennwyd gennym yn cyfateb i 5% o'n hallyriadau blwyddyn sylfaen.

Ceir rhagor o wybodaeth yn ein datgeliad Basis of Reporting ar gyfer 2025, sydd ar gael ar ein gwefan.

* Roedd metrigau a ddewiswyd yn ddarostyngedig i Sicrwydd Cyfyngedig annibynnol gan Deloitte LLP yn 2025. Mae'r farn ar sicrwydd i'w gweld yn: bbc.com/aboutthebbc/documents/ghg-independent-assurance-report-2025.pdf

MONITRO DEFNYDD O YNNI
A GWASTRAFF

Rydym yn rhoi datgeliad yn unol â datgeliad Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon (2018) ynghyd â dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â thrydan, defnydd o danwydd a rheoli gwastraff.

Ein nod yw rheoli ein defnydd cyffredinol o ynni, rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil a chynyddu'r gyfran o ynni adnewyddadwy a ddefnyddir gennym. Rydym hefyd yn targedu gostyngiad o 50% yng nghyfanswm y gwastraff a gaiff ei greu yn y DU erbyn 2030/31 o gymharu â blwyddyn sylfaen 2019/20. Mae rheoli ynni a gwastraff yn rhannau pwysig o'n strategaeth cynaliadwyedd. Mae data wedi'u hintegreiddio â thargedau Sero Net y BBC, gyda defnydd o ynni yn ffynhonnell o allyriadau gweithredol a rheoli gwastraff wedi'u cynnwys fel rhan o'n cadwyn gwerth. Ceir gwybodaeth am berfformiad allyriadau ar dudalen 255.

Mae gwybodaeth am ddefnydd o ynni a chreu gwastraff hefyd ar gael i'n staff. Rydym yn credu y gall camau cadarnhaol i leihau ein heffeithiau helpu i ymgorffori diwylliant gweithlu cynaliadwy. Mae gan ein strategaethau O Blaid Natur ac O Blaid Pobl ran bwysig i'w chwarae yn creu newidiadau gweladwy.

DEFNYDD O YNNI

Mae newidiadau arwyddocaol i ystâd y BBC wedi cefnogi gostyngiadau yn y nwy a thanwydd naturiol sy'n ofynnol i wresogi ein hadeiladau, gan gynnwys cau safleoedd llai effeithlon. Rydym hefyd wedi cynyddu ein lefelau trydan adnewyddadwy sy'n cynhyrchu ei hun a gosodwyd paneli ffotofoltäig ym mhump o safleoedd y BBC yn y DU.

Mae angen pŵer dros dro arnom ar gyfer cynyrchiadau ac rydym yn canolbwyntio ar leihau dibyniaeth ar ddiesel fel ffynhonnell tanwydd. Llwyddodd cynyrchiadau ym mhob rhan o'r BBC i flaenoriaethu'r defnydd o bŵer prif gyflenwad, technolegau batri a phŵer hydrogen, a thrwy newid i olew llysiau wedi'i hydro-drin fel tanwydd amgen. Mewn rhai achosion, rydym yn canolbwyntio ar optimeiddio defnydd presennol o danwydd, y gellir ei gyflawni drwy systemau mesuryddion deallus.

Defnyddir opsiynau pan fyddant yn ddichonadwy ond mae rhwystrau i'w goresgyn cyn y gellir mabwysiadu datrysiadau carbon isel drwyddi draw. Cyfer sawl achos defnydd ar gyfer pŵer dros dro, ac rydym yn cydweithio ym mhob rhan o'n diwydiant i archwilio datrysiadau i heriau cyffredin sy'n wynebu'r broses o roi'r gorau i ddefnyddio diesel.

CREU GWASTRAFF

Ym mis Chwefror 2025, cafodd y BBC ardystiad Dim Gwastraff i Safleoedd Tirlenwi yng Nghymru a Lloegr gan yr Ymddiriedolaeth Carbon, ac rydym yn anelu at sicrhau'r un safon ledled y DU, gydag opsiynau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu harchwilio.

Mae mentrau ailddefnyddio yn cynnwys partneriaeth â sefydliadau a all ailddefnyddio asedau segur. Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n cyfrannu at yr economi gylchol, a all adfer asedau dros ben y BBC i'w hailddefnyddio, sy'n sicrhau y gellir ailddefnyddio eitemau dros ben mewn ysgolion a chymunedau yn hytrach na'u bod yn mynd i ffrydiau gwastraff. Rydym hefyd yn adfer elfennau o wastraff technegol ac yn sicrhau prosesu cyfrifol lle y bo modd.

Yn rhyngwladol, nid oes gennym yr un gwelededd o ran data gwastraff oherwydd trefniadau amrywiol yn y safleoedd. Ein nod yw gwella ein data ond rydym yn cydnabod mai yn y DU y mae ein prif bresenoldeb. Gweithrediadau yn y DU fydd ein prif ffocws o hyd wrth i ni weithio tuag at ein targed ar gyfer 2030/31. Yn 2024/25, gwnaethom gyflawni gostyngiad o 47% o gymharu â 2019/20.

	Uned	2019/20	2023/24	2024/25	% y newid ers 2019/20
Defnydd o drydan					
Cyfanswm y trydan a brynwyd	kWh	171,143,709	152,120,480	146,276,954	-15%
Trydan adnewyddadwy a brynwyd	kWh	153,861,607	136,549,630	132,432,524	-14%
Trydan adnewyddadwy sy'n cynhyrchu ei hun	kWh	126,619	836,415	756,065	+497%
Trydan nad yw'n adnewyddadwy	kWh	17,282,102	15,570,850	13,844,430	-20%
Defnydd o danwydd a gwres					
Nwy naturiol	kWh	78,687,649	61,424,454	54,518,553	-31%
Gwresogi ardal a stêm	kWh	1,797,519	2,361,217	2,351,235	+31%
Diesel	litrau	1,177,019	775,806	612,585	-48%
Petrol	litrau	140,909	193,836	253,967	+80%
Arall	litrau	93,194	217,509	85,581	-8%
Rheoli gwastraff (safleoedd y DU yn unig)					
Gwastraff a ailgylchwyd	tunelli	1,950	823	802	-59%
Gwastraff a losgwyd gan adfer ynni	tunelli	1,176	1,252	1,046	-11%
Gwastraff i safleoedd tirlenwi	tunelli	394	20	17	-96%
Treulio anerobig	tunelli	222	146	142	-36%
Gwastraff technoleg a ailgylchwyd	tunelli	44	24	14	-68%
Cyfanswm gwastraff	tunelli	3,786	2,265	2,021	-47%
Cyfanswm gwastraff a ailddefnyddiwyd	tunelli	-	113	77	

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a defnydd ynni yn ôl lleoliad – Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon ar gyfer Grŵp y BBC

		Uned	2019/20	2023/24	2024/25	% y newid ers 2019/20
Hylosgi tanwydd uniongyrchol	Y DU	tCO ₂ e	17,558	13,375	11,766	-33%
	Byd-eang (heb gynnwys y DU)	tCO ₂ e	883	914	886	0%
Trydan a brynwyd	Y DU	tCO ₂ e	41,973	30,074	28,771	-31%
	Byd-eang (heb gynnwys y DU)	tCO ₂ e	2,833	2,763	2,854	+1%
Milltiroedd cyflogeion	Y DU	tCO ₂ e	2,745	2,251	2,176	-21%
	Byd-eang (heb gynnwys y DU)	tCO ₂ e	130	91	114	-13%
Cyfanswm allyriadau dethol	Y DU	tCO ₂ e	62,276	45,700	42,713	-31%
	Byd-eang (heb gynnwys y DU)	tCO ₂ e	3,846	3,768	3,854	0%
Cyfanswm ynni dethol a ddefnyddiwyd	Y DU	kWh	264,078,476	224,625,357	208,864,157	-21%
	Byd-eang (heb gynnwys y DU)	kWh	11,070,470	11,075,860	11,521,434	+4%
Dwyster allyriadau	Y DU	tCO ₂ e/£m incwm y Grŵp	15	10	9	-39%
	Byd-eang (heb gynnwys y DU)	tCO ₂ e/£m incwm y Grŵp	4	4	3	-35%

* Nid yw cyfanswm yr ynni dethol a ddefnyddiwyd (kWh) yn cynnwys achosion o deithio gan gyflogeion pan fydd y defnydd o danwydd neu'r pellter teithio yn anhysbys, oherwydd diffyg ffactorau Llywodraeth y DU sydd ar gael i droi gwariant i kWh. Caiff achosion o deithio lle mai dim ond y gwariant sy'n hysbys eu cynnwys ar gyfer datgeliad tCO₂e, gan ddefnyddio ffactorau Exiobase i droi gwariant yn allyriadau.

Gwybodaeth ychwanegol

Mynegai

Mynegai pwnc	Rhif y dudalen
Across the UK	46
Adroddiad ar y Bwlch Cyflog	251
Adroddiad gweithredol	57
Adroddiadau'r Pwyllgorau	85
BBC ar gyfer y Dyfodol	2, 11
BBC World Service	22
Cydnabyddiaeth	87
Cydymffurfiaeth gorfforaethol	85
Cynaliadwyedd amgylcheddol	70
Datganiad y Cadeirydd	4
Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol	6
Datganiad ynghylch Hyfywedd	120
Datganiadau ariannol (yn Saesneg)	128
Datgeliadau cyflogau	95
Dibenion cyhoeddus	10
Ein Pobl	65
Gwaith elusennol	75
Gwariant Grŵp PSB	64
Gwasanaethau mynediad	218
Gweithrediadau masnachol	76
Gwerth i gynulleidfaoedd	55
Masnachu'n deg	105
Partneriaethau a mentrau cydweithredol	13
Pecynnau data perfformiad	234
Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus	214
Prif risgiau	108
Strwythur llywodraethu	84
Ymgynghoriadau	56
Ymgysylltu â chynulleidfaoedd	52

Gwybodaeth ychwanegol – parhad

Credydau delweddau

Clawr blaen
Race Across the World – y BBC/Studio Lambert/Gary Moyes

Tudalen gynnwys
Ludwig – y BBC/Big Talk Studios/Colin Hutton
Wallace and Gromit: Vengeance Most Fowl – y BBC/Aardman Animations/Richard Davies/Stuart Collis
Blue Lights – BBC/Two Cities Television

Tudalen 2
Pennod Arbennig o *Outnumbered* ar gyfer Nadolig 2024 – y BBC/Hat Trick Productions/Adam Lawrence

Tudalen 3
Etholiad Cyffredinol 2024 ar Radio'r BBC – y BBC/Jeff Oves
Shetland – y BBC/ITV Studios/Robert Pereira Hind
Gladiators – y BBC/Hungry Bear Media/Graeme Hunter

Tudalen 4
Asia – y BBC/BBC Studios/Varun Bodh

Tudalen 5
Samir Shah – y BBC/Robinson Lakra
Gavin & Stacey: The Finale – PA/Ben Birchall

Tudalen 6
Tim Davie – y BBC/Robinson Lakra

Tudalen 7
Cyclist Emma Finucane speaks to the BBC – y BBC/ Steve Wyatt
SAS Rogue Heroes – y BBC/Banjay UK/Robert Viglasky

Tudalen 8
Florence and the Machine ym Mhroms y BBC 2024 – y BBC/ Andy Paradise

Tudalen 9
Wolf Hall – y BBC/Playground Entertainment/Nick Briggs

Tudalen 12
Political Thinking with Nick Robinson – y BBC

Tudalen 13
The Traitors – y BBC/Studio Lambert
Death in Paradise – y BBC/Red Planet Pictures/Lou Denim

Tudalen 14
BBC General Election 2024 – y BBC/Jeff Overs

Tudalen 16
BBC News US Election 2024 – y BBC/Robert Timothy

Tudalen 17
Leila Nathoo – y BBC/James Manning/PA Wire
Sir Keir Starmer: The Interview – y BBC

Tudalen 18
Idris Elba: Our Knife Crime Crisis – y BBC/22 Summers
Victoria Derbyshire – y BBC/Jeff Overs

Tudalen 19
BBC Dars – y BBC
Intrigue: To Catch a Scorpion – y BBC

Tudalen 20
Gary O'Donoghue – y BBC/Jeff Overs

Tudalen 21
Chris Cook – y BBC/Jeff Overs
Y Farwnes Helic – Tŷ'r Arglwyddi/Roger Harris

Tudalen 24
Alma's Not Normal – y BBC/Expectation TV/Neil Sherwood

Tudalen 26
The Jetty – y BBC/Firebird Pictures/Ben Blackall

Tudalen 27
EastEnders 40th anniversary special – y BBC/Jack Barnes/ Kieron McCarron
Mr Loverman – y BBC/Fable Pictures/Des Willie

Tudalen 28
An t-Eilean – BBC Alba/John Murdo MacAulay

Tudalen 29
Just One Thing with Michael Mosley – y BBC/BBC Studios/ Darren Skene
CBeebies Bedtime Stories – y BBC/Guy Levy
Wonderblocks – y BBC/Blue Zoo Animation Studio/ Alphablocks Ltd.

Tudalen 30
Gwenllian Hughes – y BBC/Patrick Olnér

Tudalen 31
Nathan Sandhu – y BBC/Nathan Sandhu
Sharon D Clarke – By Pip

Tudalen 34
Gavin & Stacey – y BBC/Toffee International Ltd./ Tom Jackson

Tudalen 36
Wallace and Gromit - golygfa Nadoligaidd 2024 – y BBC/ Aardman Animations Ltd 2024/Richard Davies
Strictly Come Dancing – y BBC/Guy Levy

Tudalen 37
Wallace and Gromit: Vengeance Most Fowl – y BBC/Aardman Animations/Richard Davies
Radio 2's Piano Room – y BBC/Sarah Jaynes

Tudalen 38
Darllediadau'r BBC o Gemau Olympaidd Paris 2024 – y BBC/ Steve Wyatt
6 Music Festival 2025 – y BBC/Amber Cobb

Tudalen 39
BBC Songs of Praise – y BBC
The Astatine Trio (Radio 3 New Generation Artists) – y BBC
BBC Radio 2 in the Park – y BBC/Sarah Jaynes/James Watkins

Tudalen 40
Aniruddh Dimri – y BBC/Mattie Allen

Tudalen 41
Rachel Thompson – Dementia UK
Sarah Cox – Adam Cook, Aardman Animations Ltd

Tudalen 44
Shetland – y BBC/ITV Studios/Robert Pereira Hind

Tudalen 45
Glastonbury Festival 2024 – y BBC/James Watkins

Tudalen 46
Sherwood – y BBC/House Productions/Matt Squire

Tudalen 47
Smoggie Queens – y BBC/Hat Trick Productions/ Lara Cornell

Tudalen 48
Lost Boys and Fairies – y BBC/Duck Soup Films/ Simon Ridgway

Tudalen 49
Dinosaur – y BBC/Two Brothers Pictures/Mark Mainz

Tudalen 50
Hope Street – y BBC/Long Story TV/Jack McGuire

Tudalen 51
Virdee – y BBC/Magical Society, Vishal Sharma

Tudalen 52
Amandaland – y BBC/Merman/Natalie Seery

Tudalen 54
The Responder – y BBC/Dancing Ledge/Rekha Garton

Tudalen 56
CBeebies' As You Like It yn Shakespeare's Globe – y BBC/ Kieron McCarron

Tudalen 57
Darllediadau o ganlyniadau Etholiad Cyffredinol 2024 – y BBC/Robert Coxwell

Tudalen 58
Leigh Tavazia – y BBC/Robinson Lakra

Tudalen 60
First Night of the Proms 2024 – y BBC/Chris Christodoulou

Tudalen 65
Molly Temple – y BBC

Tudalen 66
Archie Farmer – y BBC

Tudalen 67
Stefan King – y BBC

Tudalen 73
Ail gyfres *Doctor Who* – y BBC/BBC Studios/James Pardon

Tudalen 75
The One Show's Challenge Squad ar gyfer BBC Plant mewn Angen 2024 – y BBC/Guy Levy

Tudalen 76
Dancing With the Stars US – Disney/Eric McCandless

Tudalen 77
Tom Fussell – y BBC/Adam Lawrence

Tudalen 79
Baby Reindeer – Netflix

Tudalen 80
Conclave – Conclave Distribution, LLC

Tudalen 81
Alison Hammond's Big Weekend – y BBC/BBC Studios

Tudalen 82
BBC Scotland, Pacific Quay – y BBC

Tudalen 83
Samir Shah – y BBC/Jamie Simonds
Tim Davie – y BBC/Robinson Lakra
Shumeet Banerji – y BBC/Alistair Heap
Syr Damon Buffini – y BBC/Robinson Lakra
Syr Robbie Gibb – Llun drwy garedigrwydd KekstCNC
Muriel Gray – y BBC/Jamie Simonds
Chris Jones – y BBC/Robinson Lakra
Michael Plaut OBE – y BBC/Jamie Simonds
Michael Smyth – y BBC/Jamie Simonds
Marinella Soldi – y BBC/Jamie Simonds
Leigh Tavaziva – BBC/Adam Lawrence
Caroline Thomson – y BBC/Robinson Lakra
Deborah Turness – y BBC/Ray Burmiston

Tudalen 86
Tim Davie – y BBC/Robinson Lakra
Kerris Bright – y BBC/Guy Levy
John Curbishley – y BBC/Robinson Lakra
Alan Dickson – y BBC/Robert Timothy
Storm Fagan – y BBC/Robinson Lakra
Tom Fussell – y BBC/Adam Lawrence
Alice Macandrew – y BBC/Ray Burmiston
Kate Philipps – y BBC/Robinson Lakra
Uzair Qadeer – y BBC/Robinson Lakra
Rhuanedd Richards – Llun drwy garedigrwydd BBC Cymru
Leigh Tavaziva – y BBC/Adam Lawrence
Deborah Turness – y BBC/Ray Burmiston

Tudalen 128
Boarders – y BBC/Studio Lambert/Jonathan Birch/Rashpal Gurm

Tudalen 148
Primrose Railway Children – y BBC/BBC Studios/BYU
Alma's Not Normal – y BBC/Expectation TV/Ben Blackall
Doctor Who – y BBC/Danny Kasirye
Sherwood – y BBC/House Productions/Sam Taylor
The Americas – BBC Studios/NBC
A Good Girl's Guide to Murder y BBC/Monnnage Pictures/ Joss Barratt

Tudalen 213
Antiques Roadshow – BBC Studios

Gwybodaeth gyswilt ac adborth

Os bydd gennych sylw, gwerthfawrogiad neu gŵyn am raglenni a gwasanaethau'r BBC:

Ewch i

bbc.co.uk/contact

Ysgrifennwch at

BBC Audience Services, PO Box 1922, Darlington, DL3 0UR

Ffoniwch

Y llinell sylwadau: 03700 100 222

Ymholiadau eraill: 03700 100 123

Ffôn testun: 03700 100 212

Fformatau eraill o'r adroddiad hwn

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg, ewch i: bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/annualreport

Mae copi PDF hygyrch yn Saesneg hefyd ar gael ar-lein. Os bydd angen copi PDF hygyrch arnoch yn Gymraeg, cysylltwch â'r BBC.



British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London
W1A 1AA

bbc.co.uk ©BBC 2025